



Deddf Gallu Meddyliol 2005

Cod Ymarfer

Adran Materion Cyfansoddiadol

Deddf Gallu Meddyliol 2005

Cod Ymarfer

Cyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ar 23 Ebrill 2007, yn unol ag Adrannau
42 a 43 o'r Ddeddf

Llundain: Y Llyfrfa



Fe'i cyhoeddwyd gan
Y Llyfrfa ac mae ar gael fel a ganlyn:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs a'r E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 0870 6005522
Archebion drwy ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

Siopau'r Llyfrfa
123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

TSO@Blackwell ac Asiantau eraill sydd wedi'u Hachredu

© Hawlfraint y Goron 2007

Cyhoeddwyd gyntaf 2007

ISBN 0117037532

Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa ar ran Adran Materion Cyfansoddiadol.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Y Llyfrfa.

Cewch aildefnyddio'r ddogfen hon / y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos unrhyw adran neu asiantaeth arall) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyddestun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel Hawlfraint y Goron a rhaid i chi roi teitl ffynhonnell y ddogfen/cyhoeddiad. Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Gellir gweld y ddogfen/cyhoeddiad hefyd ar ein gwefan yn:
www.guardianship.gov.uk

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon /y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
PO Box 15118
Birmingham
B16 8GX
0845 330 2900



Rhagair gan yr Arglwydd
Falconer, yr Ysgrifennydd
Gwladol dros Faterion
Cyfansoddiadol a'r
Arglwydd Ganghellor

Mae Deddf Gallu Meddyliol 2005 yn eitem ddeddfwriaeth hollbwysig, ac yn un a wnaiff wir wahaniaeth i fywydau pobl a allai fod â diffyg gallu meddyliol. Bydd yn grymuso pobl fel y gallant wneud penderfyniadau drostynt eu hun lle bynnag y bo modd, ac yn amddiffyn pobl sydd â diffyg gallu drwy gynnig fframwaith hyblyg sy'n rhoi unigolion ar ganol y broses penderfynu. Bydd yn sicrhau eu bod cymryd rhan i'r graddau mwyaf posibl mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar eu rhan, ac y gwneir y rheini er y budd gorau iddynt. Mae hefyd yn caniatáu i bobl gynllunio ymlaen ar gyfer adeg yn y dyfodol pan allent fod heb allu, am amryw o resymau, i wneud penderfyniadau drostynt eu hun.

Mae'r Ddeddf yn delio ag amrywiaeth fawr o benderfyniadau ac amgylchiadau, ond nid yw deddfwriaeth yn ddigon ar ei phen ei hun. Rydym wedi cydnabod erioed fod angen canllawiau ymarferol i ategu'r Ddeddf, ac mae'r Cod Ymarfer yn rhan allweddol o hynny. Mae'n egluro sut bydd y Ddeddf yn gweithredu o ddydd i ddydd ac yn cynnig enghreifftiau o'r ymarfer gorau i ofalwyr ac ymarferwyr.

Mae llawer o gyrff ac unigolion wedi darllen a rhoi sylwadau ar ddrafftiau cynharach o'r Cod Ymarfer ac rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at y broses hon. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn well dogfen oherwydd mewnbyn o'r fath.

Bydd nifer o bobl dan ddyletswydd ffurfiol i ddal sylw ar y Cod: gweithwyr proffesiynol a gofalwyr cyflogedig, er enghraifft, neu rai sy'n gweithredu fel atwrneiod neu fel dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y Llys Gwarchod. Ond yng ngolwg llawer o bobl, y perthnasoedd pwysicaf fydd y rhai gyda phob math o ofalwyr llai ffurfiol, y teulu agos a ffrindiau sy'n adnabod y person orau, y bydd rhai ohonynt wedi bod yn gofalu am y person hwnnw ers blynyddoedd lawer. Mae'r Cod ar gael i gynnig cymorth a chyfarwyddyd iddynt hwy hefyd. Bydd yn hollbwysig er mwyn llwyddiant y Cod fod gan bawb sy'n dibynnu arno ddogfen glir y maent yn gallu ei deall. Bûm yn arbennig o awyddus inni wneud popeth a allwn i sicrhau hynny.

Bydd y Cod Ymarfer yn bwysig o ran pennu'r dull o weithredu Deddf Gallu Meddyliol 2005 ac rwyf yn eich annog yn daer i gymryd amser i'w ddarllen a'i ystyried.

*Charlie
Falconer*

Yr Arglwydd Falconer o Thornton

Mae Deddf Gallu Meddyliol 2005, ar gyfer Cymru a Lloegr, yn darparu fframwaith statudol ar gyfer pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun, neu rai sydd â gallu ac sydd am wneud paratodau ar gyfer amser pan allent fod heb allu yn y dyfodol. Mae'n nodi pwy a gaiff wneud penderfyniadau, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent fynd ynghylch hynny. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 7 Ebrill 2005 a daw i rym yn ystod 2007.

Mae'r fframwaith cyfreithiol a roddwyd gan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 wedi'i ategu gan y Cod Ymarfer hwn (y Cod), sy'n rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch y modd y bydd y Ddeddf yn gweithio'n ymarferol. Mae adran 42 o'r Ddeddf yn mynnu bod yr Arglwydd Ganghellor yn llunio Cod Ymarfer i gynnig canllawiau i amryw o bobl sydd â gwahanol ddyletswyddau a swyddogaethau dan y Ddeddf. Mae adran 43 yn mynnu y bydd yr Arglwydd Ganghellor wedi ymgynghori, cyn paratoi'r Cod, â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyfryw bersonau eraill yr ystyriai ei bod yn briodol ymgynghori â hwy. Rhaid i'r Cod gael ei gymeradwyo gan y Senedd hefyd a rhaid iddo fod wedi'i osod gerbron dau Dŷ'r Senedd am gyfnod o 40 niwrnod heb i'r naill Dŷ na'r llall bleidleisio yn ei erbyn. Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i lunio'n unol â'r gofynion hynny.

Mae grym statudol i'r Cod, sy'n golygu bod rhai categorïau o bobl dan ddyletswydd gyfreithiol i ddal sylw arno wrth weithio gydag oedolion a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun neu wrth ofalu am bobl o'r fath. Mae'r categorïau hynny o bobl wedi'u rhestru isod.

Sut y dylid defnyddio'r Cod Ymarfer?

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi arweiniad i unrhyw un sy'n gweithio gydag oedolion a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol a/neu sy'n gofalu am bobl o'r fath. Mae'n disgrifio eu cyfrifoldebau wrth weithredu neu wneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd heb allu i weithredu neu wneud y penderfyniadau hynny eu hun. Yn benodol, mae'r Cod Ymarfer yn canolbwyntio ar y rhai sydd â dyletswydd gofal tuag at rywun sydd heb allu i gytuno i dderbyn y gofal sydd wedi'i ddarparu.

Ar gyfer pwy y mae'r Cod Ymarfer?

Nid yw'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar unrhyw un i 'gydymffurfio' â'r Cod – dylid ei ystyried yn arweiniad yn hytrach nag yn gyfarwyddyd. Ond os na fydd rhywun wedi dilyn yr arweiniad perthnasol sydd yn y Cod, bydd disgwyl iddo roi rhesymau da dros wyro oddi wrtho.

Mae gofyniad cyfreithiol i rai categorïau o bobl 'ddal sylw ar' arweiniad perthnasol yn y Cod Ymarfer. Mae hynny'n golygu bod rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer wrth weithredu neu wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad drosto'i hun, ac y dylent allu egluro sut y maent wedi dal sylw ar y Cod wrth weithredu neu wneud penderfyniadau.

Mae'r categorïau o bobl y mae'n ofynnol iddynt ddal sylw ar y Cod Ymarfer yn cynnwys unrhyw un sydd:

- yn atwrnai dan Atwrneiaeth Arhosol (gweler pennod 7)
- yn ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod newydd (gweler pennod 8)
- yn gweithredu fel Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (gweler pennod 10)
- yn cyflawni ymchwil sydd wedi'i chymeradwyo'n unol â'r Ddeddf (gweler pennod 11)
- yn gweithredu mewn cymhwyster proffesiynol dros rywun sydd heb allu, neu mewn cysylltiad â rhywun o'r fath
- yn cael ei dalu am weithredoedd ar ran neu mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu.

Mae'r ddau gategori olaf yn cynnwys llawer o fathau o bobl. Ymhlith y rhai sy'n gweithredu mewn cymhwyster proffesiynol y mae:

- amryw o fathau o staff gofal iechyd (meddygon, deintyddion, nyrsys, therapyddion, radiologwyr, parameddygon, ayb)
- staff gofal cymdeithasol (gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal, ayb)
- rhai eraill a allai ymwneud yn achlysurol â gofal am bobl sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol, fel criwiau ambiwlans, gweithwyr tai, neu swyddogion yr heddlu.

Ymhlith y rhai sy'n cael eu talu am weithredoedd ar ran neu mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu y mae:

- cynorthwyr gofal mewn cartref gofal

- gweithwyr gofal sy'n darparu gwasanaethau gofal cartref, ac
- eraill sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaeth i rai sydd heb allu i gydsynio i dderbyn y gwasanaeth hwnnw.

Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn gymwys yn fwy cyffredinol i *bawb* sy'n edrych ar ôl neu'n gofalu am rywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol drosto'i hun. Mae hynny'n cynnwys gofalwyr teuluol neu ofalwyr eraill. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i'r gofalwyr hynny ddal sylw ar y Cod Ymarfer, bydd yr arweiniad a gynigir yn y Cod yn eu helpu i ddeall y Ddeddf a'i chymhwyso. Dylent ddilyn y canllawiau sydd yn y Cod i'r graddau y maent yn gwybod amdanynt.

Beth yw ystyr 'bod heb allu'?

Un o'r termau pwysicaf sydd yn y Cod yw 'person sydd heb allu'.

Pryd bynnag y defnyddir y term 'person sydd heb allu', **mae'n golygu rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol neu i gymryd cam penodol drosto'i hun ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad neu gymryd y cam.**

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhywun fod heb allu i wneud rhai penderfyniadau drosto'i hun, ond y bydd ganddo allu i wneud penderfyniadau eraill. Er enghraifft, gallai fod â gallu i wneud penderfyniadau bach am faterion pob dydd fel rhai ynghylch beth i'w wisgo neu beth i'w fwyta, ond bod heb y gallu i wneud penderfyniadau mwy cymhleth am faterion ariannol.

Mae hefyd yn adlewyrchu'r posibilrwydd y bydd rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad drosto'i hun ar adeg benodol yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw rywdro yn y dyfodol. Gallai hynny fod oherwydd salwch neu gyflwr sydd ganddo sy'n peri bod ei allu'n newid. Fel arall, gallai fod oherwydd ei fod yn anymwybodol neu bron yn anymwybodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad, boed hynny am ei fod wedi cael damwain neu am ei fod dan effaith anesthetig neu am ei bod yn bosibl bod effaith alcohol neu gyffuriau'n dylanwadu ar ei allu i wneud penderfyniad.

Yn olaf, mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai pobl fod heb y gallu i wneud rhai mathau o benderfyniadau bob amser – er enghraifft, oherwydd cyflwr neu anabledd dysgu difrifol sydd wedi effeithio arnynt ers eu geni – ond y gallai eraill ddysgu sgiliau newydd sy'n eu galluogi i feithrin gallu a gwneud penderfyniadau drostynt eu hun.

Ceir diffiniad llawn ym Mhennod 4 o'r hyn y mae 'bod heb allu' yn ei olygu'.

Beth mae'r Cod Ymarfer yn ei gwmpasu?

Mae'r Cod yn egluro'r Ddeddf a'i darpariaethau allweddol.

- Mae **Pennod 1** yn cyflwyno Deddf Gallu Meddyliol 2005.
- Mae **Pennod 2** yn nodi'r pum egwyddor statudol sy'n sail i'r Ddeddf a'u heffaith ar y dull o'i gweithredu.
- Mae **Pennod 3** yn egluro sut mae'r Ddeddf yn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth briodol i wneud penderfyniadau drostynt eu hun.
- Mae **Pennod 4** yn egluro sut mae'r Ddeddf yn diffinio 'rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad' (*'a person who lacks capacity to make a decision'*) ac yn nodi prawf pendant sengl i asesu a yw rhywun heb allu i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol.
- Mae **Pennod 5** yn egluro beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth weithredu er y budd gorau i rywun sydd heb allu i wneud penderfyniad drosto'i hun, ac yn disgrifio'r rhestr wirio sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf i ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun.
- Mae **Pennod 6** yn egluro sut mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl sy'n darparu gofal neu driniaeth i rywun sydd heb y gallu i gydsynio i'r camau a gymerir.
- Mae **Pennod 7** yn dangos sut mae pobl sy'n dymuno cynllunio ymlaen rhag y posibilrwydd o fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hun yn y dyfodol yn gallu rhoi Atwrneiaeth Arhosol i unigolion sydd wedi'u henwi i wneud penderfyniadau penodol ar eu rhan, a sut mae atwrneiod a benodwyd dan Atwrneiaeth Arhosol i weithredu.
- Mae **Pennod 8** yn disgrifio rôl y Llys Gwarchod newydd, a sefydlwyd dan y Ddeddf, o ran gwneud penderfyniad neu benodi gwneuthurwr penderfyniad i weithredu ar ran rhywun mewn achosion lle nad oes modd arall i ddatrys mater sy'n effeithio ar rywun sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol.
- Mae **Pennod 9** yn egluro'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn os yw rhywun yn dymuno gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol sydd i ddod i rym pan fydd heb allu i wrthod y driniaeth sydd wedi'i rhagnodi.
- Mae **Pennod 10** yn disgrifio rôl Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol sydd wedi'u penodi dan y Ddeddf i helpu a chynrychioli pobl sy'n arbennig o agored i niwed sydd heb allu i wneud penderfyniadau pwysig.
- Mae **Pennod 11** yn rhoi arweiniad ynghylch y mesurau diogelu a'r rheolaethau penodol sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys neu'n gysylltiedig â phobl sydd heb allu i gydsynio i gymryd rhan.

- Mae **Pennod 12** yn egluro'r rhannau hynny o'r Ddeddf a all fod yn gymwys i blant a phobl ifanc a'r cysylltiad rhwng y rhain a deddfau eraill sy'n effeithio arnynt.
- Mae **Pennod 13** yn egluro perthynas y Ddeddf â Deddf Iechyd Meddwl 1983.
- Mae **Pennod 14** yn nodi rôl y Gwarcheidwad Cyhoeddus, swydd gyhoeddus newydd sydd wedi'i chreu gan y Ddeddf i arolygu atwrneiod a dirprwyon ac i fod yn bwynt cyswllt sengl ar gyfer atgyfeirio honiadau am gam-drin mewn cysylltiad ag atwrneiod a dirprwyon i asiantaethau perthnasol eraill.
- Mae **Pennod 15** yn edrych ar y gwahanol ddulliau o ddatrys anghydfodau ynghylch penderfyniadau sydd wedi'u gwneud dan y Ddeddf neu sydd yn effeithio fel arall ar bobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol.
- Mae **Pennod 16** yn nodi'n gryno y berthynas rhwng deddfau ar ddiogelu data a rhyddid gwybodaeth a darpariaethau'r Ddeddf.

Beth yw statws cyfreithiol y Cod?

Ym mhle y mae'n gymwys?

Mae'r Ddeddf ac, felly, y Cod hwn yn gymwys i bawb y mae'n ymwneud â nhw sy'n preswyllo'n arferol neu sy'n bresennol yng Nghymru neu Loegr. Fodd bynnag, bydd hefyd yn bosibl i'r Llys Gwarchod ystyried achosion sy'n ymwneud â phersonau sydd ag asedau neu eiddo y tu allan i'r awdurdodaeth hon, neu sy'n byw mewn gwlad dramor ond sydd ag asedau neu eiddo yng Nghymru neu Loegr.

Beth fydd yn digwydd os na fydd pobl yn cydymffurfio ag ef?

Nid oes unrhyw sancsiynau penodol am fethu â chydymffurfio â'r Cod. Ond os ceir methiant i gydymffurfio â'r Cod, gellir defnyddio hynny mewn tystiolaeth o flaen llys neu driwlynlys mewn unrhyw achosion sifil neu droseddol, os bydd y llys neu'r triwlynlys yn ystyried bod hynny'n berthnasol i'r achosion hynny. Er enghraifft, os yw llys neu driwlynlys yn credu bod un sy'n gwneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu wedi peidio â gweithredu er y budd gorau i'r un y mae'n gofalu amdano, gall y llys ddefnyddio methiant y person dan sylw i gydymffurfio â'r Cod fel tystiolaeth. Dyna pam y mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n gweithio gyda rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol, neu'n gofalu amdano, yn ymgyswrtu â'r Cod.

O ble y caf fwy o wybodaeth?

Nid yw'r Cod Ymarfer yn arweiniad hollgynhwysol nac yn ddatganiad cyflawn o'r gyfraith. Mae deunyddiau eraill wedi'u cynhyrchu gan yr Adran Materion

Cyfansoddiadol, yr Adran Iechyd a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i helpu i egluro agweddau ar y Ddeddf o wahanol safbwyntiau ac ar gyfer pobl sydd mewn gwahanol sefyllfaoedd. Yn eu plith mae arweiniadau i ofalwyr teuluol a gofalwyr eraill a gwybodaeth syml a fydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae'n bosibl y bydd cyrff proffesiynol hefyd yn cynhyrchu gwybodaeth a chanllawiau arbenigol ar gyfer eu haelodau.

Mae'r Cod yn rhoi gwybodaeth hefyd am ffynonellau eraill lle y ceir arweiniad mwy manwl. Mae rhestr o fanylion cysylltu yn Atodiad A a cheir mwy o wybodaeth yn y troednodiau i bob pennod. Nid yw'r cyfeiriadau a wneir na'r manylion cysylltu a roddir mewn perthynas â deunyddiau a chyrrff yn rhan o'r Cod ac nid oes iddynt statws cyfreithiol tebyg. Rhoddir cyfeiriadau at wybodaeth ychwanegol fel cymorth yn unig ac nid ydynt yn awgrymu bod yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn cymeradwyo deunydd o'r fath.

Defnyddio'r Cod

Cyfeiriadau yn y Cod Ymarfer

Drwy'r Cod Ymarfer, cyfeirir at Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 fel 'y Ddeddf' ac mae unrhyw adrannau a grybwyllir yn cyfeirio at y Ddeddf hon os na nodir fel arall. Dangosir cyfeiriadau fel a ganlyn: adran 4(1). Mae hyn yn cyfeirio at yr adran yn y Ddeddf. Mae rhif yr is-adran rhwng cromfachau.

Lle y cyfeirir at ddarpariaethau mewn Deddfau eraill, nodir teitl llawn y Ddeddf berthnasol, er enghraifft, 'Deddf Iechyd Meddwl 1983', os na nodir fel arall. (Er enghraifft, ym mhennod 13, cyfeirir at Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 fel DIM ac at Ddeddf Gallu Meddyliol fel DGM.) Cyfeirir at y Cod Ymarfer fel 'y Cod' weithiau.

Senarios sydd wedi'u defnyddio yn y Cod Ymarfer

Mae'r Cod yn cynnwys llawer o flychau o fewn y testun lle y ceir senarios sy'n defnyddio cymeriadau a sefyllfaoedd dychmygol. Y bwriad wrth gynnwys y rhain yw helpu i egluro'r hyn sydd yn y prif destun. Ni ddylid cymryd mewn unrhyw fodd fod y senarios yn dempledi ar gyfer penderfyniadau y mae angen eu gwneud mewn sefyllfaoedd tebyg.

Fformatiau eraill a mwy o wybodaeth

Gellir darparu'r Cod mewn fformatiau eraill os gwneir cais.

1. Beth yw Deddf Gallu Meddyliol 2005?	15
Pa benderfyniadau y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu, a pha rai sydd heb eu cynnwys?	16
Beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf a deddfwriaeth arall?	18
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am y Cod Ymarfer?	18
2 Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?	19
Crynodeb	20
Beth yw rôl yr egwyddorion statudol?	20
Sut y dylid cymhwyso'r egwyddorion statudol?	21
Egwyddor 1: <i>'Rhaid cymryd bod person yn meddu ar allu oni phroffir ei fod heb allu.'</i> (adran 1(2))	21
Egwyddor 2: <i>'Nid yw person i'w drin fel un sy'n analluog i wneud penderfyniad oni bai fod pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w helpu i wneud hynny heb lwyddo.'</i> (adran 1(3))	22
Egwyddor 3: <i>'Nid yw person i'w drin fel un sy'n analluog i wneud penderfyniad dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.'</i> (adran 1(4))	24
Egwyddor 4: <i>'Mae gweithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran person sydd heb allu yn un y mae'n rhaid ei chyflawni, neu ei wneud, er y budd gorau iddo.'</i> (adran 1(5))	26
Egwyddor 5: <i>'Cyn cyflawni'r weithred, neu wneud y penderfyniad, rhaid ystyried a ellir ateb y diben y mae ei angen ar ei gyfer yr un mor effeithiol mewn modd sy'n cyfyngu'n llai ar hawliau a rhyddid gweithredu'r person.'</i> (adran 1(6))	27
3 Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun?	29
Crynodeb	29
Sut y gellir helpu rhywun i wneud penderfyniad?	30
Beth fydd yn digwydd mewn argyfwng?	31
Pa wybodaeth y dylid ei rhoi i bobl a sut y dylid ei rhoi?	31
Pa gamau y dylid eu cymryd i wneud rhywun yn gartrefol?	35
Pa ddulliau eraill sydd ar gael i greu modd i wneud penderfyniadau?	38

4	Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?	40
	Crynodeb	40
	Beth yw gallu meddyliol?	41
	Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth ddiffyg gallu (<i>'lack of capacity'</i>)?	42
	Pa fesurau diogelu y mae'r Ddeddf yn eu cynnig ynghylch asesu gallu rhywun?	42
	Pa brawf o ddiffyg gallu y mae'r Ddeddf yn gofyn amdano?	43
	Beth yw'r prawf gallu?	44
	Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth anallu i wneud penderfyniad (<i>'inability to make a decision'</i>)?	45
	Pa faterion eraill a allai effeithio ar allu?	49
	Pryd y dylid asesu gallu?	52
	Pwy a ddylai asesu gallu?	53
	Beth yw cred resymol (<i>'reasonable belief'</i>) bod diffyg gallu?	55
	Pa ffactorau eraill a allai effeithio ar asesiad o allu?	56
	Pa gamau ymarferol y dylid eu cymryd wrth asesu gallu?	57
	Pryd y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn gysylltiedig?	59
	A yw prosesau asesu'n gyfrinachol?	61
	Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn gwrthod cael ei asesu?	61
	Pwy a ddylai gadw cofnod o asesiadau?	62
	Sut y gall rhywun herio canfyddiad bod diffyg gallu?	63
5	Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau ('best interests')?	64
	Crynodeb	65
	Beth yw egwyddor y budd gorau ac i bwy y mae'n gymwys?	66
	Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth y budd gorau?	68
	Pwy a gaiff fod yn wneuthurwr penderfyniad?	69
	Beth mae'n rhaid ei ystyried wrth geisio canfod y budd gorau i rywun?	71
	Pa fesurau diogelu y mae'r Ddeddf yn eu cynnig ynghylch canfod beth sydd er y budd gorau i rywun?	73
	Sut mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn canfod beth yw'r holl amgylchiadau perthnasol (<i>'all relevant circumstances'</i>)?	74
	Sut y dylai'r person sydd heb allu gymryd rhan wrth ganfod beth sydd er y budd gorau iddo?	75

Sut mae'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn adennill ac yn datblygu gallu yn effeithio ar y dull o ganfod beth sydd er y budd gorau iddo?	77
Sut y dylid canfod beth sydd er y budd gorau i rywun wrth wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd?	79
Sut mae dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd rhywun yn effeithio ar y dull o ganfod beth sydd er y budd gorau iddo?	80
Â phwy y dylid ymgynghori wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun?	84
Sut y gall gwneuthurwr penderfyniad barchu cyfrinachedd?	86
Pryd y mae egwyddor y budd gorau i'w chymhwyso?	87
Pa broblemau a allai godi wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun?	88
6 Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?	92
Crynodeb	92
Pa amddiffyniad sydd gan bobl wrth ofalu am rai sydd heb allu i gydsynio?	93
Pa fath o weithredoedd y gellid cael amddiffyniad rhag atebolrwydd iddynt?	94
Pwy y mae adran 5 yn ei amddiffyn rhag atebolrwydd?	100
Pa gamau y dylai pobl eu cymryd i gael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd?	102
Beth fydd yn digwydd mewn argyfwng?	105
Beth fydd yn digwydd mewn achosion o esgeulustod?	105
Beth yw effaith penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	105
Pa gyfyngiadau sydd ar amddiffyniad rhag atebolrwydd?	105
Sut mae adran 5 i'w chymhwyso i atwrneiod a dirprwyon?	110
Pwy a all dalu am nwyddau neu wasanaethau?	111
7 Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?	114
Crynodeb	114
Beth yw Atwrneiaeth Arhosol?	115
Sut mae rhoddwr yn creu Atwrneiaeth Arhosol?	117
Pwy a gaiff fod yn atwrnai?	118
Sut y dylai rhywun gofrestru a defnyddio Atwrneiaeth Arhosol?	119
Pa ganllawiau y dylai atwrnai eu dilyn?	120

Pa benderfyniadau y gall atwrnai eu gwneud dan Atwrneiaeth Arhosol?	121
A oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar bwerau atwrneiod?	127
Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod dros Atwrneiaethau Arhosol?	128
Pa gyfrifoldebau sydd gan atwrneiod?	129
Pa ddyletswyddau y mae'r Ddeddf yn eu gosod?	129
Beth yw dyletswyddau eraill yr atwrnai?	131
Sut mae'r Ddeddf yn amddiffyn rhoddwyr rhag eu cam-drin?	135
Beth fydd yn digwydd i'r Atwrneiaethau Parhaus presennol wedi i'r Ddeddf ddod i rym?	137
8 Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?	138
Crynodeb	138
Beth yw'r Llys Gwarchod?	139
Sut y gall rhywun wneud cais i'r Llys Gwarchod?	140
Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod?	142
Pa benderfyniadau y gall y llys eu gwneud?	146
Beth yw'r rheolau ar gyfer penodi dirprwyon?	147
Pryd y gallai'r angen i benodi dirprwy godi?	148
Pwy a gaiff fod yn ddirprwy?	150
A all y llys amddiffyn pobl sydd heb allu rhag colled ariannol?	152
A oes unrhyw gyfyngiadau ar bwerau dirprwy?	152
Pa gyfrifoldebau sydd gan ddirprwyon?	152
Pa ddyletswyddau y mae'r Ddeddf yn eu gosod?	153
Beth yw dyletswyddau eraill y dirprwy?	154
Pwy sy'n gyfrifol am arolygu dirprwyon?	157
9 Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	159
Crynodeb	159
Sut y gall rhywun wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	161
Pwy a all wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	162
Beth y dylai pobl ei gynnwys mewn penderfyniad ymlaen llaw?	164
Pa reolau sy'n gymwys i benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd?	167
Pryd y dylai rhywun adolygu neu ddiweddarau penderfyniad ymlaen llaw?	168
Sut y gall rhywun dynnu'n ôl penderfyniad ymlaen llaw?	169

Sut y gall rhywun wneud newidiadau i benderfyniad ymlaen llaw?	169
Beth yw'r berthynas rhwng penderfyniadau ymlaen llaw a rheolau eraill ar wneud penderfyniadau?	169
Sut y gall rhywun benderfynu ar fodolaeth, dilysrwydd a chymhwysedd penderfyniadau ymlaen llaw?	171
Beth y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ei wneud os nad yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys neu'n gymwysadwy?	174
Beth fydd yn digwydd i benderfyniadau a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym?	174
Pa oblygiadau sydd mewn penderfyniadau ymlaen llaw i weithwyr gofal iechyd proffesiynol?	174
Pryd y gellir cael gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn atebol?	176
Beth fydd yn digwydd os oes gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthwynebiad cydwybodol i atal neu ddarparu triniaeth cynnal bywyd?	177
Beth fydd yn digwydd os oes anghytundeb ynghylch penderfyniad ymlaen llaw?	178
10 Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?	180
Crynodeb	180
Beth yw'r gwasanaeth EAGMau?	181
Pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth?	183
Pwy a gaiff fod yn EAGM?	186
Beth yw rôl EAGM?	187
Beth fydd yn digwydd os yw'r EAGM yn anghytuno â'r gwneuthurwr penderfyniad?	191
Pa benderfyniadau sy'n galw am gyfarwyddo EAGM?	193
Pryd y gall awdurdod lleol neu gorff GIG benderfynu cyfarwyddo EAGM?	198
Pwy sy'n gymwys i gael EAGM?	200
11 Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?	204
Crynodeb	204
Pam y mae'r Ddeddf yn cwmpasu ymchwil?	205
Beth yw 'ymchwil' (<i>research</i>)?	205
Pa ragdybiaethau y gall ymchwilydd eu gwneud ynghylch gallu?	206

Pa fathau o ymchwil y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu Pa fathau o ymchwil y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?	206
Sut y gellir cael cymeradwyaeth i gynnal ymchwil?	208
Pa gyfrifoldebau sydd gan ymchwilwyr?	212
Beth fydd yn digwydd os oes angen gwneud penderfyniadau brys yn ystod y prosiect ymchwil?	214
Beth fydd yn digwydd yn achos ymchwil sy'n ymwneud â meinweoedd dynol?	215
Beth a ddylai ddigwydd i ymchwil a ddechreuodd cyn i'r Ddeddf ddod i rym?	216
12 Sut mae'r Ddeddf i'w chymhwyso i blant a phobl ifanc?	218
Crynodeb	218
A yw'r Ddeddf yn gymwys i blant?	219
A yw'r Ddeddf yn gymwys i bobl ifanc 16–17 oed?	221
A oes unrhyw rannau o'r Ddeddf nad ydynt yn gymwys i bobl ifanc 16 neu 17 oed?	221
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am ofal neu driniaeth pobl ifanc 16 neu 17 oed?	222
Pa bwerau sydd gan y llysoedd mewn achosion sy'n cynnwys pobl ifanc?	225
13 Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?	227
Crynodeb	227
I bwy y mae DIM yn gymwys?	228
Pa gyfyngiadau sydd ar DGM?	229
Pryd y gellir cadw rhywun dan DIM?	230
Sut mae DGM i'w chymhwyso i glaf sydd dan warcheidiaeth dan DIM?	233
Sut mae DGM i'w chymhwyso i glaf sy'n cael ôl-ofal dan oruchwyliaeth dan DIM?	235
Sut mae Deddf Gallu Meddyliol yn effeithio ar bobl sydd wedi'u cwmpasu dan Ddeddf Iechyd Meddwl?	236
Beth yw'r goblygiadau i bobl sydd ag angen triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol?	237
Sut mae Deddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	239
A yw DIM yn effeithio ar ddyletswyddau atwrneiod a dirprwyon?	240

A yw DIM yn cael effaith o ran y gofyniad i gyfarwyddo Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol?	242
Beth yw effaith adran 57 o Ddeddf Iechyd Meddwl ar DGM?	243
Pa newidiadau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu gwneud i DIM a DGM?	243
14 Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?	245
Crynodeb	245
Beth yw camdriniaeth?	246
Sut mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl rhag eu cam-drin?	249
Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn goruchwyllo Atwrneiaethau Arhosol?	251
Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn arolygu dirprwyon?	251
Beth fydd yn digwydd os dywed rhywun ei fod yn poeni am atwrnai neu ddirprwy?	252
Sut mae'r Ddeddf yn delio â chamdriniaeth ac esgeuluso bwriadol?	253
Pa fesurau eraill sy'n amddiffyn pobl rhag eu cam-drin?	255
Pwy a ddylai wirio bod staff yn ddiogel i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed?	255
Pwy sy'n gyfrifol am fonitro safon darparwyr gofal?	256
Beth yw swyddogion penodedig, a phwy sy'n eu monitro?	256
A oes unrhyw ddulliau amddiffyn eraill y dylai pobl fod yn ymwybodol ohonynt?	257
15 Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?	259
Crynodeb	259
Pa ddewisiadau sydd ar gael i ddatrys anghytundebau?	260
Pryd y bydd eiriolwr yn ddefnyddiol?	261
Pryd y bydd cyfryngu'n ddefnyddiol?	262
Sut y gall rhywun gwyno am ofal iechyd?	263
Sut y gall rhywun gwyno am ofal cymdeithasol?	266
Beth fydd yn digwydd os yw'r gŵyn yn cwmpasu gofal iechyd a gofal cymdeithasol?	267
Pwy a all drafod cwynion ynghylch materion eraill sy'n ymwneud â lles?	267

Beth yw'r dull gorau o drafod anghytundeb ynghylch materion ariannol rhywun?	268
Sut y gall y Llys Gwarchod helpu?	268
A fydd cyllid cyfreithiol cyhoeddus ar gael?	269
16 Pa reolau sy'n llywodraethu'r hawl i weld gwybodaeth am rywun sydd heb allu?	272
Crynodeb	272
Pa ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio ar yr hawl i weld gwybodaeth?	274
Pa wybodaeth y mae gan bobl hawl i'w gweld fel arfer?	275
Pryd y gall atwrneiod a dirprwyon ofyn am gael gweld gwybodaeth bersonol?	276
Pryd y gall rhywun weld gwybodaeth am ofal iechyd neu ofal cymdeithasol?	278
Pa wybodaeth ariannol y gall gofalwyr ofyn am ei gweld?	280
A yw gwybodaeth yn dal i fod yn gyfrinachol wedi i rywun ei rhannu?	280
Beth yw'r modd gorau i ddatrys anghytundeb ynghylch gwybodaeth bersonol?	280
Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod	282
Atodiad A	294

1

Beth yw Deddf Gallu Meddyliol 2005?

- 1.1 Mae Deddf Gallu Meddyliol 2005 (y Ddeddf) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd heb allu meddyliol i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hun. Os yw rhywun yn gweithio gydag oedolyn a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol, neu'n gofalu amdano, rhaid iddo gydymffurfio â'r Ddeddf hon wrth wneud penderfyniadau neu weithredu ar ran y person hwnnw, pan fydd y person heb allu i wneud penderfyniad penodol drosto'i hun. Mae'r un rheolau'n gymwys pa un a yw'r penderfyniadau'n ymwneud â digwyddiadau tyngedfennol neu faterion pob dydd.
- 1.2 Man cychwyn y Ddeddf yw cadarnhau mewn deddfwriaeth y dylid cymryd bod oedolyn (16 oed neu drosodd) yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol llawn i wneud penderfyniadau drosto'i hun (yr hawl i ymreolaeth) oni bai fod modd dangos ei fod heb allu i wneud penderfyniad drosto'i hun ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Gelwir hynny'n rhagdybiaeth ynghylch gallu. Mae'r Ddeddf yn datgan hefyd fod rhaid rhoi pob cymorth a chefnogaeth briodol i bobl i'w galluogi i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun neu i gymryd rhan i'r graddau mwyaf posibl mewn unrhyw broses penderfynu.
- 1.3 Egwyddor sylfaenol y Ddeddf yw sicrhau y bydd unrhyw benderfyniad a wneir, neu gam gweithredu a gymerir, ar ran rhywun sydd heb allu i wneud y penderfyniad neu i weithredu drosto'i hun yn cael ei wneud neu ei gymryd er y budd gorau iddo.
- 1.4 Amcan y Ddeddf yw helpu a chefnogi pobl a allai fod heb allu a chymell unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am rywun sydd heb allu i beidio â bod yn rhy gyfyngol neu ataliol. Ond mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio cydbwysu hawl yr unigolyn i wneud penderfyniadau drosto'i hun a'i hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed os bydd heb allu i wneud penderfyniadau i'w amddiffyn ei hun.
- 1.5 Mae'r Ddeddf yn nodi fframwaith cyfreithiol ar gyfer y modd i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hun. Mae'n nodi rhai egwyddorion craidd a dulliau o wneud penderfyniadau a chymryd camau mewn cysylltiad â lles personol, gofal iechyd a materion ariannol sy'n effeithio ar bobl a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol am y materion hynny eu hun.

1.6 Mae llawer o ddarpariaethau'r Ddeddf yn seiliedig ar egwyddorion presennol cyfraith gwlad (h.y. egwyddorion sydd wedi'u sefydlu drwy benderfyniadau a wnaed gan lysoedd mewn achosion penodol). Mae'r Ddeddf yn egluro ac yn gwella'r egwyddorion hynny ac yn datblygu'r arferion da presennol sydd wedi'u seilio ar yr egwyddorion.

1.7 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o rolau, cyrff a phwerau newydd, y bydd pob un ohonynt yn ategu darpariaethau'r Ddeddf. Yn eu plith mae:

- Atwrneiod sydd wedi'u penodi dan Atwrneiaeth Arhosol (gweler pennod 7)
- Y Llys Gwarchod newydd, a dirprwyon sydd wedi'u penodi gan lys (gweler pennod 8)
- Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (gweler pennod 10).

Ceir eglurhad manylach o'r holl rolau, cyrff a phwerau ym mhenodau'r Cod sydd wedi'u nodi uchod.

Pa benderfyniadau y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu, a pha rai sydd heb eu cynnwys?

1.8 Mae'r Ddeddf yn cwmpasu ystod eang o benderfyniadau a wneir, neu gamau gweithredu a gymerir, ar ran pobl a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hun. Gall y rhain fod yn benderfyniadau am faterion pob dydd – fel beth i'w wisgo, neu beth i'w brynu wrth fynd i siopa bob wythnos – neu'n benderfyniadau am ddigwyddiadau tyngedfennol, fel rhai ynghylch a ddylai rhywun symud i gartref gofal neu gael llawdriniaeth sylweddol.

1.9 Mae rhai penderfyniadau neilltuol na ellir byth eu gwneud ar ran rhywun sydd heb allu i wneud y penderfyniadau neilltuol hynny. Y rheswm am hynny yw un ai eu bod mor bersonol i'r unigolyn dan sylw, neu eu bod yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth arall.

1.10 Mae adrannau 27–29 a 62 o'r Ddeddf yn nodi'r penderfyniadau neilltuol na ellir byth eu gwneud neu'r gweithredoedd na ellir byth eu cyflawni dan y Ddeddf, boed gan aelodau o'r teulu, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, atwrneiod neu'r Llys Gwarchod. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

Pennod 1

Beth yw Deddf
Gallu 2005?**Penderfyniadau ynghylch perthnasoedd teuluol (adran 27)**

Nid oes unrhyw beth sydd yn y Ddeddf sy'n caniatáu gwneud penderfyniad ar ran rhywun arall ar unrhyw un o'r materion canlynol:

- cydsynio i briodi neu wneud partneriaeth sifil
- cydsynio i gael cysylltiadau rhywiol
- cydsynio i dderbyn dyfarniad ysgariad ar sail gwahaniad o ddwy flynedd
- cydsynio i ddiddymu partneriaeth sifil
- cydsynio i blentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu neu i wneud gorchymyn mabwysiadu
- cyflawni cyfrifoldeb rhieni dros blentyn mewn materion nad ydynt yn ymwneud ag eiddo'r plentyn
- rhoi caniatâd dan Ddeddf Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol 1990.

Materion Deddf Iechyd Meddwl (adran 28)

Os yw rhywun sydd heb allu i gydsynio'n cael ei gadw ar y pryd a'i drin dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, nid oes unrhyw beth yn y Ddeddf sy'n awdurdodi unrhyw un i:

- roi triniaeth i'r person ar gyfer anhwylder meddyliol, neu
- gydsynio i'r person gael triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol.

Rhoddir mwy o arweiniad ym mhennod 13 o'r Cod.

Hawliau pleidleisio (adran 29)

Nid oes unrhyw beth sydd yn y Ddeddf sy'n caniatáu gwneud penderfyniad ar bleidleisio, mewn etholiad am unrhyw swydd gyhoeddus neu mewn refferendwm, ar ran rhywun sydd heb allu i bleidleisio.

Lladd anghyfreithlon neu gynorthwyo hunanladdiad (adran 62)

Fel na fydd amheuaeth, nid oes unrhyw beth sydd yn y Ddeddf sydd i'w gymryd fel rhywbeth sy'n effeithio ar y gyfraith sy'n ymwneud â llofruddiaeth, dynladdiad neu gynorthwyo hunanladdiad.

- 1.11 Er nad yw'r Ddeddf yn caniatáu i unrhyw un wneud penderfyniad am y materion hyn ar ran rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad o'r fath drosto'i hun (er enghraifft, cydsynio i gael cysylltiadau rhywiol), nid yw hynny'n atal cymryd camau i amddiffyn rhywun sy'n fregus rhag camdriniaeth neu gamfanteisio.

Beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf a deddfwriaeth arall?

- 1.12 Bydd Deddf Gallu Meddyliol 2005 yn gymwys ar y cyd â deddfau eraill sy'n effeithio ar bobl a allai fod heb allu mewn cysylltiad â materion penodol. Oherwydd hynny, dylai staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithredu dan y Ddeddf fod yn ymwybodol hefyd o'u rhwymedigaethau dan deddfau eraill, gan gynnwys y canlynol (ond hefyd fod yn gyfyngedig iddynt):

- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990
- Deddf Meinweoedd Dynol 2004.

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am y Cod Ymarfer?

- 1.13 Mae adran 42 o'r Ddeddf yn nodi pwrpas y Cod Ymarfer, sef darparu arweiniad i bobl benodol mewn amgylchiadau penodol. Mae adran 43 yn egluro'r gweithdrefnau y bu'n rhaid eu dilyn wrth baratoi'r Cod ac ymgynghori ar ei gynnwys, ac ar gyfer ei ystyried gan y Senedd.

Mae adran 42, is-adrannau (4) a (5), yn nodi'r categorïau o bobl sydd wedi'u rhoi dan ddyletswydd gyfreithiol i 'ddal sylw ar' (*'have regard to'*) y Cod ac mae'n rhoi mwy o wybodaeth am statws y Cod. Ceir mwy o fanylion yn y Rhagymadrodd, sy'n egluro statws cyfreithiol y Cod.

2

Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?

Mae adran 1 o'r Ddeddf yn nodi'r pum 'egwyddor statudol' – y gwerthoedd sy'n ategu'r gofynion cyfreithiol sydd yn y Ddeddf. Mae'r Ddeddf wedi'i bwriadu i alluogi a chefnogi pobl sydd heb allu, nid i gyfyngu neu reoli eu bywyd. Mae'n ceisio amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol, ond mae hefyd yn ceisio eu galluogi i wneud penderfyniadau, neu i gymryd rhan mewn penderfyniadau, i'r graddau mwyaf posibl.

Y pum egwyddor statudol yw:

1. Rhaid cymryd bod person yn meddu ar allu oni phrofir ei fod heb allu.
2. Nid yw person i'w drin fel un sy'n analluog i wneud penderfyniad oni bai fod pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w helpu i wneud hynny heb lwyddo.
3. Nid yw person i'w drin fel un sy'n analluog i wneud penderfyniad dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.
4. Mae gweithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran person sydd heb allu yn un y mae'n rhaid ei gyflawni, neu ei wneud, er y budd gorau iddo.
5. Cyn cyflawni'r weithred, neu wneud y penderfyniad, rhaid ystyried a ellir ateb y diben y mae ei angen ar ei gyfer yr un mor effeithiol mewn modd sy'n cyfyngu'n llai ar hawliau a rhyddid gweithredu'r person.

Mae'r bennod hon yn rhoi arweiniad ynghylch sut y dylai pobl ddehongli a chymhwyso'r egwyddorion statudol wrth ddefnyddio'r Ddeddf. Drwy ddilyn yr egwyddorion a'u cymhwyso at fframwaith y Ddeddf ar gyfer gwneud penderfyniad, ceir cymorth i sicrhau y cymerir camau priodol mewn achosion neilltuol, a hefyd i ddod o hyd i atebion mewn sefyllfaoedd anodd neu ansicr.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

- Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau drosto'i hun os yw'n meddu ar allu i wneud hynny. Rhaid i ofalwyr teuluol a staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gymryd bod rhywun yn meddu ar allu i wneud penderfyniadau, oni bai fod modd profi nad yw'r person hwnnw'n meddu ar allu.
- Dylai pobl gael cefnogaeth i'w helpu i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun. Cyn dod i'r casgliad bod unigolion heb allu i wneud penderfyniad penodol, mae'n bwysig cymryd pob cam posibl i geisio eu helpu i ddod i benderfyniad eu hun.
- Mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau y gallai pobl eraill eu hystyried yn rhai annoeth. Os bydd rhywun yn gwneud penderfyniad y mae eraill yn ei ystyried yn annoeth, ni ddylid ei labelu'n awtomatig yn rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad.
- Os cyflawnir gweithred neu os gwneir penderfyniad ar ran rhywun sydd heb allu, rhaid i hynny fod er y budd gorau i'r person hwnnw.
- Os cyflawnir gweithred neu os gwneir penderfyniad ar ran rhywun sydd heb allu, dylid dewis modd i wneud hynny sy'n cyfyngu'n llai ar ei ryddid a'i hawliau sylfaenol – ar yr amod ei fod yn dal i fod er y budd gorau iddo.

Beth yw rôl yr egwyddorion statudol?

2.1 Mae'r egwyddorion statudol yn ceisio:

- amddiffyn pobl sydd heb allu
- eu helpu i gymryd rhan, i'r graddau mwyaf posibl, mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Maent yn ceisio helpu a chefnogi pobl a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol, ac nid ydynt yn ceisio cyfyngu arnynt neu reoli eu bywyd.

2.2 Mae'r egwyddorion statudol yn gymwys i unrhyw weithred a gyflawnir neu unrhyw benderfyniad a wneir dan y Ddeddf. Drwy eu dilyn a'u cymhwyso at fframwaith gwneud penderfyniadau'r Ddeddf, bydd pobl yn cael cymorth i gymryd camau priodol mewn achosion neilltuol. Byddant hefyd yn helpu pobl i ddod o hyd i atebion mewn sefyllfaoedd anodd neu ansicr.

Sut y dylid cymhwyso'r egwyddorion statudol?

Egwyddor 1: *'Rhaid cymryd bod person yn meddu ar allu oni phrofir ei fod heb allu. ('A person must be assumed to have capacity unless it is established that he lacks capacity.')* (adran 1(2))

- 2.3 Mae'r egwyddor hon yn datgan bod hawl gan bob oedolyn i wneud ei benderfyniadau drosto'i hun – oni bai fod prawf nad yw'n meddu ar y gallu i wneud penderfyniad penodol pan fo angen ei wneud. Bu hon yn egwyddor sylfaenol mewn cyfraith gwlad ers blynnyddoedd lawer ac mae wedi'i nodi bellach yn y Ddeddf.
- 2.4 Mae'n bwysig cydbwysu hawl rhywun i wneud penderfyniad a'i hawl i gael diogelwch ac amddiffyniad pan nad yw'n gallu gwneud penderfyniadau i'w amddiffyn ei hun. Ond rhaid cymryd bob tro ar y dechrau fod yr unigolyn yn meddu at allu, hyd nes y ceir prawf nad ydyw. Mae pennod 4 yn egluro'r diffiniad o 'ddiffyg gallu' (*'lack of capacity'*) sydd yn y Ddeddf a'r prosesau sy'n ymwneud ag asesu gallu.

Pennod 2

Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?

Senario: Asesu gallu rhywun i wneud penderfyniadau

Wrth gynllunio ar gyfer ei hymddeoliad, roedd Mrs Arnold wedi gwneud ac wedi cofrestru Atwrneiaeth Arhosol – proses gyfreithiol a fyddai'n caniatáu i'w mab reoli ei heiddo a'i materion ariannol os byddai byth heb allu i'w rheoli ei hun. Bellach cafwyd bod demensia arni, ac mae ei mab yn poeni ei bod yn dechrau drysu ynghylch arian.

Rhaid i'w mab gymryd bod ei fam yn meddu ar allu i reoli ei materion personol. Wedyn rhaid iddo ystyried pob un o benderfyniadau ariannol Mrs Arnold wrth iddi eu gwneud, gan roi iddi unrhyw gymorth a chefnogaeth y mae arni ei angen i wneud y penderfyniadau hynny ei hun.

Mae mab Mrs Arnold yn mynd i siopa gyda hi, ac yn gweld ei bod yn eithaf galluog i ddod o hyd i nwyddau a sicrhau ei bod yn cael y newid cywir. Ond pan fydd angen iddi wneud penderfyniadau am ei buddsoddiadau, mae Mrs Arnold yn mynd i ddryswch – er ei bod wedi gwneud penderfyniadau o'r fath yn y gorffennol. Nid yw'n deall er bod ei mab wedi egluro'r gwahanol ddewisiadau.

Mae ei mab yn dod i'r casgliad ei bod yn meddu ar allu i ddelio â materion ariannol pob dydd ond nid rhai mwy anodd ar hyn o bryd. Felly, mae'n gallu defnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer y penderfyniadau ariannol anodd nad yw ei fam yn gallu eu gwneud. Ond bydd Mrs Arnold yn dal i allu delio â'i materion personol eraill tra bydd yn meddu ar allu i wneud hynny.

2.5 Mae rhai pobl a allai fod ag angen cymorth i allu gwneud penderfyniad neu roi gwybod am eu penderfyniad. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd na allant wneud y penderfyniad dan sylw – oni bai fod prawf eu bod heb allu i wneud hynny. Os yw unrhyw un yn credu bod person heb allu, dylai fedru profi hynny. Mae pennod 4 yn egluro safon y prawf y mae ei angen.

Egwyddor 2: *'Nid yw person i'w drin fel un sy'n analluog i wneud penderfyniad oni bai fod pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w helpu i wneud hynny heb lwyddo. ('A person is not to be treated as unable to make a decision unless all practicable steps to help him to do so have been taken without success.')* (adran 1(3))

2.6 Mae'n bwysig gwneud pob dim sy'n ymarferol ('practicable' yw'r gair a ddefnyddir yn y Ddeddf) i helpu rhywun i wneud penderfyniad drosto'i hun cyn dod i'r casgliad nad yw'n meddu ar allu i wneud hynny. Os oes ar rywun salwch neu anabledd sy'n effeithio ar ei allu i wneud penderfyniad, dylai gael cefnogaeth i'w helpu i wneud cynifer o benderfyniadau ag y bo modd. Amcan yr egwyddor hon yw atal labelu pobl yn awtomatig yn rhai sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol. Am ei bod yn cymhell unigolion i chwarae rhan mor fawr â phosibl wrth wneud penderfyniad, mae hefyd yn helpu i atal ymyriadau diangen â'u bywyd.

2.7 Mae'r math o gefnogaeth y gallai fod ar bobl ei hangen i'w helpu i wneud penderfyniad yn amrywio. Mae'n dibynnu ar amgylchiadau personol, y math o benderfyniad y mae'n rhaid ei wneud a'r amser sydd ar gael i wneud y penderfyniad. Gallai gynnwys:

- defnyddio math gwahanol o gyfathrebu (er enghraifft, cyfathrebu dieiriau)
- darparu gwybodaeth ar ffurf haws ei deall (er enghraifft, ffotograffau, darluniau, neu dapiau)
- trin cyflwr meddygol a allai effeithio ar allu rhywun neu
- gael rhaglen strwythuredig i wella gallu'r person i wneud penderfyniadau penodol (er enghraifft, helpu rhywun sydd ag anabledau dysgu i ddysgu sgiliau newydd).

Mae pennod 3 yn rhoi mwy o wybodaeth am ddulliau o helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hun.

Pennod 2

Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?

Senario: Cymryd camau i helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hun

Mae Mr Jackson yn cael ei gludo i'r ysbyty ar ôl damwain traffig. Mae'n ymwybodol ond mewn cyflwr o sioc. Nid yw'n gallu siarad ac mae'n amlwg ei fod yn profi gofid, gan ei fod yn gwneud synau ac arwyddion.

Yn ôl ei ymddygiad, mae staff yr ysbyty'n dod i'r casgliad bod Mr Jackson heb allu ar y pryd i wneud penderfyniadau am driniaeth ar gyfer ei anafiadau, ac maent yn rhoi triniaeth frys iddo. Maent yn gobeithio y byddant yn gallu defnyddio eiriolwr, wedi iddo wella ar ôl y sioc, i helpu i egluro pethau iddo.

Fodd bynnag, mae un o'r nyrsys yn credu ei bod yn adnabod rhai o'i arwyddion fel iaith arwyddion, ac mae'n ceisio cyfathrebu ag ef drwy arwyddion. Mae Mr Jackson yn ymdawelu ar unwaith, ac mae'r meddygon yn sylweddoli y gall gyfathrebu drwy iaith arwyddion. Gall hefyd ateb rhai cwestiynau ysgrifenedig am ei anafiadau.

Mae'r ysbyty'n dod â chyfieithydd iaith arwyddion cymwysedig i mewn a daw i'r casgliad bod Mr Jackson yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniadau am unrhyw driniaeth bellach.

- 2.8 Os yw rhywun yn cefnogi person a allai fod heb allu, ni ddylai ddwyn perswâd gormodol na defnyddio pwysau gormodol ('*undue pressure*')¹. Gallai hynny gynnwys ymddygiad sy'n drahaus neu'n ormesol, neu ymgais i ddylanwadu ar benderfyniad y person, a gallai olygu gwrthio penderfyniad ar rywun na fyddai wedi'i wneud fel arall o bosibl. Fodd bynnag, mae'n bwysig darparu cyngor a gwybodaeth briodol.

¹ Ystyriwyd pwysau gormodol mewn cysylltiad â chydsynio i dderbyn triniaeth feddygol yn *Re T (Adult: Refusal of Treatment)* [1992] 4 All E R 649, 662 ac mewn materion ariannol yn *Royal Bank of Scotland v Etridge* [2001] UKHL 44

Senario: Rhoi cyngor a chefnogaeth briodol

Mae Sara, menyw ifanc sydd ag iselder difrifol, yn cael triniaeth gan wasanaethau iechyd meddwl. Mae ei seiciatrydd yn penderfynu bod ganddi allu i wneud penderfyniadau am driniaeth, os caiff gyngor a chefnogaeth.

Mae ei mam yn ceisio perswadio Sara i gytuno i dderbyn triniaeth therapi electrogynhyrfol (ECT), a oedd wedi helpu ei mam pan oedd iselder clinigol arni hi yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae un o'i ffrindiau wedi dweud wrth Sara fod ECT yn 'farbaraidd'.

Mae'r seiciatrydd yn rhoi gwybodaeth ffeithiol am y gwahanol fathau o driniaeth sydd ar gael ac yn egluro'r manteision a'r anfanteision sy'n perthyn iddynt. Mae hefyd yn disgrifio sut mae gwahanol bobl yn profi gwahanol adweithiau neu sgîl-ffeithiau. Mae Sara wedyn yn gallu ystyried pa driniaeth sy'n briodol iddi hi, ar sail gwybodaeth ffeithiol yn hytrach na barn bersonol ei mam a'i ffrind.

- 2.9 Mewn rhai sefyllfaoedd, ni ellir gohirio triniaeth tra bydd rhywun yn cael cymorth i wneud penderfyniad. Gall hynny ddigwydd mewn argyfyngau neu pan fo angen penderfyniad brys (er enghraifft, i gael triniaeth feddygol ar unwaith). Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n bosibl mai'r unig gamau ymarferol a phriodol fyddai rhoi gwybod i rywun am yr hyn sy'n digwydd a pham.

Egwyddor 3: *'Nid yw person i'w drin fel un sy'n analluog i wneud penderfyniad dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth. ('A person is not to be treated as unable to make a decision merely because he makes an unwise decision.')* (adran 1(4))

- 2.10 Mae gan bawb ei werthoedd, ei gredoau, ei hoffterau a'i agweddau meddwl ei hun. Ni ddylid cymryd bod rhywun heb allu i wneud penderfyniad dim ond am fod pobl eraill yn credu bod ei benderfyniad yn un annoeth. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os yw aelodau o'r teulu, ffrindiau neu staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn anfodlon ar benderfyniad.

Pennod 2

Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?

Senario: Gadael i bobl wneud penderfyniadau y mae pobl eraill yn eu hystyried yn annoeth

Mae Mr Garvey yn ddyn 40 mlwydd oed sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl. Mae'n gweld Nyrs Seiciatrig Gymunedol (NSG) yn rheolaidd.

Mae Mr Garvey yn penderfynu gwario £2,000 o'i gynilion ar gerbyd gwersylla i deithio o gwmpas yr Alban am chwe mis. Mae ei NSG yn poeni y bydd yn anodd rhoi triniaeth a chefnogaeth barhaus i Mr Garvey tra bydd yn teithio, ac y gallai ei iechyd meddwl ddirywio o ganlyniad i hynny.

Fodd bynnag, ac yntau wedi trafod hyn yn drwyadl gyda'i NSG, mae Mr Garvey yn llwyr ymwybodol o'r pryderon hyn ac mae'n meddu ar allu i wneud y penderfyniad neilltuol hwn. Mae wedi penderfynu y byddai'n hoffi cael seibiant ac yn credu y bydd yn llesol iddo.

Nid yw'r ffaith bod yr NSG o'r farn y gallai gofal parhaus fod yn ddewis callach yn ddigon o reswm dros gymryd bod Mr Garvey heb allu i wneud y penderfyniad hwn drosto'i hun.

2.11 Mae'n bosibl y bydd lle i bryderu os bydd rhywun:

- yn gwneud penderfyniadau annoeth dro ar ôl tro sy'n ei roi mewn perygl mawr o gael niwed neu brofi camfanteisio neu
- yn gwneud penderfyniad annoeth penodol sy'n amlwg yn afresymegol neu'n groes i'w gymeriad.

Nid yw'r pethau hyn yn golygu o reidrwydd fod rhywun heb allu. Ond mae'n bosibl y bydd angen ymchwilio ymhellach, gan ystyried yr hyn y mae'r person wedi'i benderfynu a'i ddewis yn y gorffennol. Er enghraifft, a yw wedi cael anhwylder neu gyflwr meddygol sy'n effeithio ar ei allu i wneud penderfyniadau penodol? A yw pwysau gormodol yn cael dylanwad arno? Neu a oes arno angen mwy o wybodaeth i'w helpu i ddeall canlyniadau'r penderfyniad y mae'n ei wneud?

Senario: Penderfyniadau sy'n peri pryder

Mae Cyril, dyn oedrannus sydd ag arwyddion cyntaf demensia, yn prynu gwerth bron £300 o bysgod ffres gan werthwr sy'n mynd o ddrws i ddrws. Bu'n hoff o bysgod erioed ac roedd wedi prynu ychydig bach o bysgod fel hyn o'r blaen. Cyn iddo gael demensia, roedd Cyril yn ofalus iawn o'i arian bob amser ac ni fyddai byth wedi gwario cymaint ar bysgod ar un tro.

Mae'n bosibl nad yw'r penderfyniad hwn ar ei ben ei hun yn golygu bod Cyril heb allu bellach i reoli pob agwedd o'i eiddo a'i faterion personol. Ond mae ei ferch yn gwneud mwy o ymholiadau ac yn darganfod bod Cyril wedi talu gormod i'r un sy'n glanhau'r t iddo ar sawl achlysur – rhywbeth nad yw erioed wedi'i wneud yn y gorffennol. Mae hefyd wedi gwneud taliadau o'i gynilion nad yw'n gallu rhoi cyfrif amdanynt.

Mae ei ferch yn penderfynu ei bod yn bryd defnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol gofrestredig yr oedd ei thad wedi'i gwneud yn y gorffennol. Mae hon yn rhoi awdurdod iddi reoli eiddo a materion personol Cyril pryd bynnag y bydd heb allu i'w rheoli drosto'i hun. Mae'n cymryd llyfr siec Cyril i'w gofal i'w amddiffyn rhag y posibilrwydd o gamfanteisio, ond gall sicrhau bod ganddo ddigon o arian i dalu am ei anghenion pob dydd.

Egwyddor 4: *Mae gweithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran person sydd heb allu yn un y mae'n rhaid ei gyflawni, neu ei wneud, er y budd gorau iddo. ('An act done, or decision made, under this Act for or on behalf of a person who lacks capacity must be done, or made, in his best interests.') (adran 1(5))*

2.12 Mae'r egwyddor o weithredu neu wneud penderfyniad er y budd gorau i rywun sydd heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw yn egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu mewn cyfraith gwlad². Mae'r egwyddor hon wedi'i nodi yn y Ddeddf bellach, fel bod rhaid seilio'r holl benderfyniadau a wneir a'r holl weithredoedd a gyflawnir ar ran rhywun ar yr hyn sydd er y budd gorau iddo mewn sefyllfaoedd lle y mae heb allu i wneud y penderfyniadau penodol hynny drosto'i hun. Mae'r unig eithriadau i hyn yn ymwneud ag ymchwil (gweler pennod 11) a phenderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth (gweler pennod 9) lle y mae mesurau diogelu eraill yn gymwys.

² Gweler er enghraifft *Re MB (Medical Treatment)* [1997] 2 FLR 426, CA; *Re A (Male Sterilisation)* [2000] 1 FLR 549; *Re S (Sterilisation: Patient's Best Interests)* [2000] 2 FLR 389; *Re F (Adult Patient: Sterilisation)* [2001] Fam 15

Pennod 2

Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?

2.13 Mae'n amhosibl cynnig un disgrifiad o beth yw 'y budd gorau', gan y bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau neilltuol sydd dan sylw. Fodd bynnag, yn adran 4 o'r Ddeddf ceir rhestr wirio o gamau i'w cymryd er mwyn pennu beth sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol bob tro y bydd rhywun yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniad ar ran y person hwnnw. Gweler pennod 5 lle y ceir canllawiau manwl ac enghreifftiau.

Egwyddor 5: *Cyn cyflawni'r weithred, neu wneud y penderfyniad, rhaid ystyried a ellir ateb y diben y mae ei angen ar ei gyfer yr un mor effeithiol mewn modd sy'n cyfyngu'n llai ar hawliau a rhyddid gweithredu'r person 'Before the act is done, or the decision is made, regard must be had to whether the purpose for which it is needed can be as effectively achieved in a way that is less restrictive of the person's rights and freedom of action.'* (adran 1(6))

2.14 Cyn i rywun wneud penderfyniad neu weithredu ar ran rhywun sydd heb allu i wneud y penderfyniad hwnnw neu gydsynio i'r weithred honno, rhaid iddo ofyn iddo'i hun bob amser a all wneud rhywbeth arall a fyddai'n ymyrryd yn llai â rhyddid a hawliau sylfaenol y person hwnnw. Yr enw a roddir ar hyn yw darganfod 'y dewis sy'n llai cyfyngiadol'. Mae'n cynnwys ystyried a oes angen gweithredu neu wneud penderfyniad o gwbl.

2.15 Os oes mwy nag un dewis posibl, mae'n bwysig ymchwilio i ddulliau a fyddai'n llai cyfyngiadol neu'n caniatáu'r mwyaf o ryddid i rywun sydd heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw. Fodd bynnag, rhaid i'r penderfyniad terfynol bob amser fod yn un sy'n caniatáu cyflawni pwrpas gwreiddiol y penderfyniad neu'r weithred.

2.16 Rhaid i unrhyw benderfyniad neu weithred fod er y budd gorau i'r person sydd heb allu o hyd. Felly mae'n bosibl weithiau y bydd angen cymryd dewis nad yw'n lleiaf cyfyngiadol os yw'r dewis hwnnw er y budd gorau i'r person dan sylw. Yn ymarferol, bydd y broses o bennu dewis llai cyfyngiadol ac o benderfynu beth sydd er y budd gorau i rywun wedi'i chyfuno. Ond rhaid cymhwyso'r ddwy egwyddor bob tro y gwneir penderfyniad neu y cyflawnir gweithred ar ran rhywun sydd heb allu i wneud y penderfyniad perthnasol.

Senario: Dod o hyd i ddewis llai cyfyngiadol

Mae Sunil, dyn ifanc sydd ag anableddau dysgu difrifol, hefyd yn profi math difrifol iawn o epilepsi sy'n amhosibl ei ragweld ac sy'n gysylltiedig â phyliau syrthio. Gall y rhain arwain at anafiadau difrifol. Mae niwrolegydd wedi rhoi cyngor i'r perwyl y dylid cadw Sunil dan wyladwriaeth fanwl, i gyfyngu ar y niwed y gallai ei gael o'r pyliau hyn, neu y dylai wisgo helmed diogelu.

Ar ôl ei asesu, penderfynir nad yw Sunil yn meddu ar allu i benderfynu drosto'i hun ar y dull gweithredu mwyaf priodol. Ond drwy ei weithredoedd a'i ymddygiad, mae Sunil yn dangos nad yw'n hoffi bod dan wyladwriaeth rhy fanwl – er ei fod yn hoffi cael cwmni.

Mae staff y cartref lle y mae'n byw yn ystyried y gwahanol ddewisiadau, gan gynnwys darparu ystafell arbennig iddo gyda dodrefn meddal, darganfod dulliau o'i gadw dan wyladwriaeth fanwl neu ei berswadio i wisgo helmed. Drwy drafod â rhieni Sunil, maent yn cytuno mai'r dull sydd er y budd gorau iddo, ac sy'n llai cyfyngiadol, yw gwisgo helmed – gan y bydd hynny'n ei alluogi i fynd allan, ac yn atal niwed pellach.

3 Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun?

Cyn penderfynu bod rhywun heb allu i wneud penderfyniad penodol, mae'n bwysig cymryd pob cam sy'n ymarferol ac yn briodol i'w alluogi i wneud y penderfyniad hwnnw ei hun (egwyddor statudol 2, gweler pennod 2). Yn ogystal â hynny, fel y mae adran 3(2) o'r Ddeddf yn pwysleisio, rhaid cymryd y camau hynny (er enghraifft, helpu unigolion i gyfathrebu) mewn modd sy'n adlewyrchu amgylchiadau neilltuol y person dan sylw ac yn diwallu'r anghenion penodol sydd ganddo. Mae'r bennod hon yn cynnig canllawiau ymarferol ynghylch y modd i helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hun, neu i chwarae rhan mor fawr â phosibl wrth wneud penderfyniadau.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Er mwyn helpu rhywun i wneud penderfyniad drosto'i hun, gwiriwch y pwyntiau canlynol:

Darparu gwybodaeth berthnasol

- A oes gan y person yr holl wybodaeth berthnasol y mae arno ei hangen i wneud penderfyniad penodol?
- Os oes ganddo ddewis, a yw wedi cael gwybodaeth am yr holl ddewisiadau?

Cyfathrebu mewn modd priodol

- A oes modd egluro neu gyflwyno gwybodaeth mewn modd y mae'n haws i'r person ei ddeall (er enghraifft, drwy ddefnyddio iaith syml neu gymhorthion gweledol)?
- A ymchwiliwyd i ddulliau cyfathrebu gwahanol os oes angen, gan gynnwys cyfathrebu dieiriau?
- A allai rhywun arall helpu i gyfathrebu (er enghraifft, aelod o'r teulu, gweithiwr cefnogi, cyfieithydd, therapydd iaith a lleferydd neu eiriolwr)?

Gwneud i'r person deimlo'n gartrefol

- A oes adegau penodol yn ystod y dydd pan yw'r person yn gallu deall yn well?
- A oes lleoliadau penodol lle y gallai deimlo'n fwy cartrefol?
- A ellid gohirio'r penderfyniad i gael gweld a fydd modd i'r person wneud y penderfyniad rywdro yn y dyfodol pan fydd yr amgylchiadau'n iawn iddo?

Cefnogi'r person

- A oes rhywun arall sy'n gallu helpu neu gefnogi'r person fel y gall ddewis neu fynegi barn?

Sut y gellir helpu rhywun i wneud penderfyniad?

- 3.1** Mae sawl modd i helpu a chefnogi pobl fel y gallant wneud penderfyniad drostynt eu hun. Bydd y rhain yn amrywio yn ôl y math o benderfyniad y mae angen ei wneud, yr amser sydd ar gael i wneud y penderfyniad ac amgylchiadau neilltuol y person sy'n ei wneud.
- 3.2** Mae'r Ddeddf yn gymwys i amrywiaeth fawr o bobl sydd â gwahanol gyflyrau a allai effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau penodol. Felly, bydd y camau y mae'n briodol eu cymryd yn dibynnu ar:
- amgylchiadau neilltuol y person dan sylw (er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio dull gwahanol gyda rhywun sydd ag anawsterau dysgu o'i gymharu â rhywun sydd â demensia)
 - y penderfyniad y mae'n rhaid i'r person ei wneud
 - y cyfnod amser sydd ar gael i'w wneud.
- 3.3** Bydd penderfyniadau pwysig a wneir unwaith (fel penderfyniad i symud tŷ) yn galw am ystyried ffactorau gwahanol i'r rhai mewn penderfyniadau pob dydd am ofal a lles y person sydd dan sylw. Fodd bynnag, dylid cymhwyso'r un prosesau cyffredinol at bob penderfyniad.
- 3.4** Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond rhai o'r camau sydd wedi'u disgrifio yn y bennod hon a fydd yn berthnasol neu'n briodol, ac nid yw'r rhestr a geir yma yn un hollgynhwysol. Lle'r rhai sy'n cefnogi'r unigolyn neu'n gofalu amdano (boed nhw'n ofalwyr teuluol, yn ofalwyr cyflogedig, yn staff gofal iechyd neu'n rhai eraill) yw ystyried beth sy'n bosibl ac yn briodol mewn achosion neilltuol. Ym mhob achos, mae'n bwysig iawn dod o hyd i'r dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu â'r person dan sylw. Mae'n hollbwysig gallu cyfathrebu'n dda er mwyn egluro gwybodaeth berthnasol mewn modd priodol a sicrhau y cymerir camau i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Pennod 3

Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun?

- 3.5 Dylai'r camau i gynnig cymorth priodol i wneud penderfyniadau fod yn rhan o'r prosesau cynllunio gofal ar gyfer rhai sy'n derbyn gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. Enghreifftiau o'r rhain yw:
- Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Person ar gyfer rhai sydd ag anableddau dysgu
 - Dull Rhaglen Ofal ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau meddyliol
 - y Broses Asesu Sengl ar gyfer pobl hŷn yn Lloegr
 - y Broses Asesu Unedig yng Nghymru.

Beth fydd yn digwydd mewn argyfwng?

- 3.6 Mewn sefyllfaoedd meddygol brys (er enghraifft, pan fydd rhywun yn diffygio ar ôl cael trawriad ar y galon, neu am reswm anhysbys, ac yn cael ei gludo'n anymwybodol i'r ysbyty), mae'n amlwg y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau brys a chymryd camau ar unwaith er y budd gorau i'r unigolyn. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol nac yn briodol gohirio'r driniaeth wrth geisio helpu'r person hwnnw i wneud ei benderfyniadau drosto'i hun, neu ymgynghori ag unrhyw atwrneiod neu ddirprwyon sy'n adnabyddus. Er hynny, hyd yn oed mewn argyfwng, dylai staff gofal iechyd geisio cyfathrebu â'r unigolyn a rhoi gwybod iddo beth sy'n digwydd.

Pa wybodaeth y dylid ei rhoi i bobl a sut y dylid ei rhoi?

- 3.7 Mae'n hollbwysig darparu gwybodaeth berthnasol ar gyfer pob math o benderfyniad. Er enghraifft, er mwyn gallu dewis beth maent am ei gael i frecwast, rhaid i bobl gael gwybod pa fwyd sydd ar gael. Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth feddygol, rhaid i'r meddyg egluro pwrpas ac effaith y driniaeth a'r canlyniadau tebygol o dderbyn neu wrthod triniaeth.
- 3.8 Rhaid cymryd pob cam ymarferol a phriodol i helpu pobl i wneud penderfyniad drostynt eu hun. Rhaid cyflwyno gwybodaeth yn ôl anghenion a galluoedd yr unigolyn. Rhaid iddi hefyd fod ar y ffurf sy'n fwyaf hwylus a phriodol ar gyfer cyfathrebu â'r person hwnnw.

Pa wybodaeth sy'n berthnasol?

- 3.9 Ni all y Ddeddf ddatgan pa wybodaeth yn union a fydd yn berthnasol ym mhob achos. Felly os yw rhywun yn helpu unigolyn i wneud penderfyniad drosto'i hun, dylai ddilyn y camau hyn.

- Cymerwch amser i egluro unrhyw beth a allai helpu'r person i wneud penderfyniad. Mae'n bwysig iddo gael mynediad at yr holl wybodaeth y mae arno ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus.
- Ceisiwch beidio â rhoi mwy o fanylion nag y mae ar y person eu hangen – gallai hynny beri dryswch iddo. Mewn rhai achosion, bydd eglurhad syml a chyffredinol yn ddigon. Ond rhaid iddo gynnwys unrhyw wybodaeth bwysig.
- Beth yw'r peryglon a'r buddion? Disgrifiwch unrhyw ganlyniadau y gellir eu rhagweld o wneud y penderfyniad, ac o beidio â gwneud unrhyw benderfyniad o gwbl.
- Eglurwch effeithiau posibl y penderfyniad ar y person ac ar y rhai sy'n agos iddo – gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'i ofal.
- Os oes ganddo ddewis, rhowch yr un wybodaeth mewn modd cytbwys ar gyfer yr holl ddewisiadau.
- Ar gyfer rhai mathau o benderfyniad, gallai fod yn bwysig rhoi mynediad at gyngor o fannau eraill. Gallai hynny fod yn gyngor annibynnol neu arbenigol (er enghraifft, gan ymarferydd meddygol neu gynghorydd ariannol neu gyfreithiol). Ond gallai fod yn gyngor gan ffrindiau neu berthnasau y mae'n ymddiried ynddynt hefyd.

Cyfathrebu – canllawiau cyffredinol

3.10 Er mwyn helpu rhywun i wneud penderfyniad drosto'i hun, dylid rhoi cynnig ar bob dull cyfathrebu sy'n bosibl ac yn briodol.

- Holwch y rhai sy'n adnabod y person yn dda am y dull gorau o gyfathrebu (ceisiwch gael gair ag aelodau'r teulu, gofawyr, staff canolfannau dydd neu weithwyr cefnogi). Efallai y byddant hefyd yn adnabod rhywun y mae'r person yn gallu cyfathrebu ag ef yn rhwydd, neu'n gwybod beth yw'r adeg orau i gyfathrebu ag ef.
- Defnyddiwch iaith syml. Os yw'n briodol, defnyddiwch luniau, gwrthrychau neu ddarluniau i gyfleu syniadau.
- Siaradwch ar uchder ac ar gyflymder addas, gan ddefnyddio geiriau a chystrawen sy'n briodol. Gallai fod o gymorth cymryd saib i sicrhau bod y person yn deall neu i ddangos bod dewis ar gael.
- Rhannwch wybodaeth sy'n anodd ei deall yn bwyntiau llai y mae'n haws eu hamgyffred. Rhowch amser i'r person ystyried a deall pob pwynt cyn mynd ymlaen.
- Efallai y bydd angen ailadrodd gwybodaeth neu fynd dros yr un pwynt sawl gwaith.

- A oes cymorth ar gael gan rai y mae'r person yn ymddiried ynddynt (perthnasau, ffrindiau, meddyg teulu, gweithiwr cymdeithasol, arweinwyr crefyddol neu gymunedol)? Os oes, sicrhewch y cedwir hawl y person i gyfrinachedd.
- Byddwch yn ymwybodol o ffactorau diwylliannol, ethnig neu grefyddol sy'n dylanwadu ar ffordd o feddwl, ymddygiad neu ddulliau cyfathrebu'r person dan sylw. Er enghraifft, yn achos rhai diwylliannau mae'n bwysig cynnwys y gymuned mewn penderfyniadau. Mae rhai credoau crefyddol (er enghraifft, y rhai sy'n cael eu harddel gan Dystion Jehofa neu Seientiaid Cristnogol) a allai ddylanwadu ar ymagwedd y person at driniaeth feddygol a gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch triniaeth.
- Os oes angen, ystyriwch ddefnyddio cyfieithydd proffesiynol. Hyd yn oed os oedd rhywun yn cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y gorffennol, mae'n bosibl y bydd wedi colli rhai sgiliau llefaru (er enghraifft, oherwydd demensia). Efallai y bydd yn well ganddo gyfathrebu yn ei iaith gyntaf bellach. Mae'n aml yn fwy priodol defnyddio cyfieithydd proffesiynol yn hytrach nag aelodau'r teulu.
- Os ydych yn defnyddio lluniau i hwyluso cyfathrebu, gofalwch eu bod yn berthnasol a bod y person yn gallu eu deall yn hawdd. Er enghraifft, gallai llun o fws coch gynrychioli math o gludiant i un person ond gallai olygu trip diwrnod i rywun arall.
- A fyddai eiriolwr (rhywun sy'n gallu cefnogi a chynrychioli'r person) yn gallu gwella'r cyfathrebu yn y sefyllfa bresennol? (Gweler penodau 10 a 15 i gael mwy o wybodaeth am eiriolwyr.)

Pennod 3

Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun?

Senario: Darparu gwybodaeth berthnasol

Mae clefyd Alzheimer ar Mrs Thomas ac mae'n byw mewn cartref gofal. Mae'n mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarperir yn y cartref. Heddiw mae dewis rhwng mynd i sioe flodau, mynd i'r dosbarth crochenwaith yn ôl ei harfer neu wyllo DVD. Er ei bod yn meddu ar allu i ddewis, mae'n teimlo'n bryderus oherwydd yr angen i benderfynu.

Mae'r cynorthwy-ydd gofal yn egluro'r gwahanol ddewisiadau'n ofalus. Mae'n sôn wrth Mrs Thomas am y DVD y gallai ei gwyllo, ond nid yw'n apelio i Mrs Thomas. Mae'r cynorthwy-ydd gofal yn dangos taflen iddi am y sioe flodau. Mae'n egluro'r cynlluniau ar gyfer y diwrnod, ym mhle y mae'r sioe'n cael ei chynnal a pha mor hir fydd y daith yn y bws bach. Mae'n rhaid iddi ailadrodd yr wybodaeth hon sawl gwaith, gan fod Mrs Thomas yn gofyn a gofyn a fyddant yn ôl mewn pryd i gael swper. Mae hefyd yn dweud wrth Mrs Thomas y bydd un o'i ffrindiau'n mynd ar y trip.

Ar y dechrau, mae Mrs Thomas yn amharod i dorri ar ei threfn arferol. Ond mae'r cynorthwy-ydd gofal yn ei sicrhau na fydd yn colli ei lle yn y dosbarth crochenwaith os na fydd yn mynd iddo y tro hwn. Ar ôl cael yr wybodaeth hon, felly, gall Mrs Thomas ddewis a fydd yn mynd ar y trip diwrnod ai peidio.

Helpu pobl sydd â phroblemau cyfathrebol neu wybyddol penodol

3.11 Os oes gan rywun broblemau cyfathrebol neu wybyddol penodol, gall y camau canlynol fod o gymorth:

- Darganfyddwch sut mae'r person yn cyfathrebu fel arfer. A yw'n defnyddio byrddau lluniau neu Makaton (arwyddion a symbolau i bobl sydd ag anawsterau o ran dysgu neu gyfathrebu)? Neu a oes ganddo ddull o gyfathrebu nad yw ond yn wybyddus i'r rhai sy'n agos iddo?
- Os yw rhywun yn profi anawsterau clywed, defnyddiwch y dull cyfathrebu sydd orau ganddo (er enghraifft, cymhorthion gweledol, negeseuon wedi'u hysgrifennu neu iaith arwyddion). Os oes modd, defnyddiwch gyfieithydd cymwysedig.
- A oes unrhyw offer mecanyddol fel syntheseisydd llais, bysellfwrdd neu offer cyfrifiadurol eraill sydd ar gael i helpu?
- Os nad yw'r person yn defnyddio sgiliau cyfathrebu geiriol, neilltuwch fwy o amser i ddysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol.

- Yn achos pobl sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu dieiriau, mae eu hymddygiad (yn enwedig newidiadau o ran ymddygiad) yn gallu rhoi arwydd o'u teimladau.
- Efallai y bydd yn well gan rai pobl ddefnyddio dulliau cyfathrebu dieiriau ac y byddant yn gallu cyfathrebu'n fwyaf effeithiol drwy ysgrifen gan ddefnyddio cyfrifiaduron neu dechnolegau cyfathrebu eraill. Mae hyn yn arbennig o wir am rai sydd ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.
- Ar gyfer pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu penodol, ystyriwch ddefnyddio mathau eraill o gymorth proffesiynol (er enghraifft, therapydd iaith a lleferydd neu arbenigwr ym maes niwroseicoleg glinigol).

Pennod 3

Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun?

Senario: Helpu pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu penodol

Mae David yn ddyn byddar a dall sydd ag anabledau dysgu sydd heb unrhyw ddull ffurfiol o gyfathrebu. Mae'n byw mewn cartref arbenigol. Mae'n dechrau bwrw ei ben yn erbyn y wal ac mae'n ailadrodd yr ymddygiad hwn drwy'r dydd. Nid yw wedi gwneud hyn o'r blaen.

Mae'r staff yn y cartref yn bryderus ac maent yn trafod dulliau o leihau'r perygl o anaf. Maent yn taro ar nifer o ymyriadau posibl sydd â'r amcan o beri iddo ymgymryd â gweithgareddau a'i gadw oddi wrth wrthrychau a allai beri niwed iddo. Yn ôl eu hasesiad, mae'r rhain yn ddulliau llai cyfyngiadol o sicrhau ei ddiogelwch. Ond nid oes gan David allu i wneud penderfyniad ynghylch pa un fyddai'r dewis gorau.

Mae'r staff yn ceisio cyngor gan arbenigwr ar ymddygiad heriol, ac mae'n dweud bod ymddygiad David yn gyfathrebol ei natur. Ar ôl ymchwilio i hynny ymhellach, mae'r staff yn darganfod ei fod mewn poen oherwydd pydredd dannedd. Maent yn ymgynghori â deintydd ynghylch y modd i ddatrys y mater, ac mae'r deintydd yn penderfynu mai'r hyn sydd er y budd gorau i David yw iddo gael triniaeth ar gyfer y pydredd dannedd. Ar ôl cael triniaeth, nid yw David yn bwrw ei ben yn erbyn y wal.

Pa gamau y dylid eu cymryd i wneud rhywun yn gartrefol?

- 3.12 Er mwyn helpu i wneud rhywun yn gartrefol a thrwy hynny gwella ei allu i wneud penderfyniad, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r lleoliad a'r amseru.

Lleoliad

3.13 O ran lleoliad, ystyriwch y canlynol:

- Os oes modd, dewiswch lleoliad lle y bydd y person yn teimlo'n fwyaf cartrefol. Er enghraifft, mae pobl yn fwy cyfforddus yn eu cartref eu hun fel arfer nag y maent mewn meddygfa.
- A fyddai'r person yn ei chael yn haws gwneud ei benderfyniad mewn lleoliad perthnasol? Er enghraifft, a allech ei helpu i benderfynu am driniaeth feddygol drwy fynd ag ef i ysbyty i weld beth sydd dan sylw?
- Dewiswch lleoliad tawel lle na ellir torri ar draws y drafodaeth yn hawdd.
- Ceisiwch ddileu unrhyw sŵn sydd yn y cefndir neu bethau sy'n tynnu'r sylw (er enghraifft, y radio neu'r teledu, neu sŵn pobl yn siarad).
- Dewiswch lleoliad lle y gellir parchu urddas a phreifatrwydd y person yn briodol.

Amseru

3.14 O ran amseru, ystyriwch y canlynol:

- Ceisiwch ddewis adeg o'r dydd pan fydd y person yn fwyaf effro – mae rhai pobl yn well yn y boreau, ac mae eraill yn fwy bywiog yn y prynhawn neu'n gynnar gyda'r nos. Efallai y bydd angen rhoi cynnig arni sawl gwaith cyn y gellir gwneud penderfyniad.
- Os gellir rhagweld bod gallu'r person yn debygol o wella yn y dyfodol, arhoswch nes bydd wedi gwella – os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wir yn achos rhywun sydd wedi cael triniaeth ar gyfer iselder neu salwch seicotig. Wrth gwrs, mae'n bosibl na fydd hyn yn ymarferol nac yn briodol os yw'r penderfyniad yn un brys.
- Gallai rhai mathau o feddyginiaeth effeithio ar allu'r person (er enghraifft, meddyginiaeth sy'n achosi syrthni neu'n effeithio ar y cof). A ellir gohirio'r penderfyniad hyd nes bydd y sgîl-effeithiau wedi cilio?
- Gwnewch un penderfyniad ar y tro – gofawch nad ydych yn peri i'r person fynd yn flinedig neu'n ddryslyd.
- Peidiwch â brysio – rhowch amser i'r person feddwl dros y peth neu ofyn am eglurhad, os yw hynny'n bosibl ac yn briodol.

- Gwrthwynebwrch neu gwrthodwrch derfynau amser sy'n ddiangen os nad yw'r penderfyniad yn un brys. Drwy ohirio'r penderfyniad, mae'n bosibl y gellir cymryd camau pellach i helpu pobl i wneud y penderfyniad drostynt eu hun.

Senario: Sicrhau'r lleoliad a'r amseru cywir

Mae Luke, sy'n ddydd ifanc, wedi cael anafiadau difrifol mewn damwain traffig ffyrdd ac mae wedi cael niwed parhaol i'w ymennydd. Bu yn yr ysbyty ers rhai misoedd, ac mae wedi gwneud cynnydd da, ond bydd yn teimlo'n rhwystredig iawn oherwydd ei anallu i ganolbwyntio neu wneud pethau drosto'i hun.

Yn awr, mae ar Luke angen llawdriniaeth ar ei goes. Wrth fynd ar ei rownd yn y ward ben bore, mae'r llawfeddyg yn ceisio egluro beth mae'r llawdriniaeth yn ei olygu. Mae'n gofyn i Luke lofnodi ffurflen cydsynio, ond mae'n mynd yn ddig ac yn dweud nad yw am siarad am y peth.

Mae ei nyrs allweddol yn gwybod bod Luke yn fwy effro a galluog yn ddiweddarach yn y dydd. Ar ôl cinio, mae'n gofyn iddo a fyddai'n hoffi trafod y llawdriniaeth eto. Mae hefyd yn gwybod ei fod yn ymateb yn well i un person nag y mae mewn grwp. Felly mae'n mynd â Luke i ystafell breifat ac yn ailadrodd yr wybodaeth a gafodd gan y llawfeddyg yn gynharach. Mae Luke yn deall yn awr pam y mae angen y driniaeth, beth mae'n ei olygu a beth yw'r canlyniadau tebygol. Felly, mae Luke yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniad am y llawdriniaeth.

Pennod 3

Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun?

Cefnogaeth gan bobl eraill

- 3.15** Mewn rhai amgylchiadau, bydd unigolion yn fwy cyfforddus wrth wneud penderfyniadau os bydd rhywun arall yno i'w cefnogi.
- A allai'r person gael budd o gael rhywun arall yn bresennol? Weithiau bydd presenoldeb perthynas neu ffrind yn gymorth buddiol ac yn fodd i leddfu pryder. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai pobl yn croesawu hynny, a gallai ddwysáu eu pryder neu effeithio ar eu gallu i ddewis yn rhydd. Ceisiwch ddarganfod beth yw barn y person am hyn, er enghraifft, drwy wyllo sut mae'n ymddwyn tuag at bobl eraill.
 - Parchwch hawl y person i gyfrinachedd bob amser.

Senario: Cael cymorth gan bobl eraill

Mae gan Jane anabledd dysgu. Mae'n ei mynegi ei hun drwy ddefnyddio rhai geiriau, edrychiadau ac iaith y corff. Bu'n byw yn y cartref cymunedol lle mae'n awr ar hyd ei hoes, ond bellach mae angen iddi symud i gartref grwp newydd. Mae'n ei chael yn anodd trafod syniadau haniaethol neu bethau nad yw wedi'u profi ei hun. Daw'r staff i'r casgliad nad yw'n meddu ar allu i benderfynu drosti'i hun pa gartref grwp y dylai symud iddo.

Mae'r staff yn galw ar eiriolwr i helpu Jane i fynegi ei barn. Mae'r eiriolwr yn treulio amser gyda Jane mewn gwahanol amgylcheddau. Mae'r eiriolwr yn defnyddio lluniau, symbolau a Makaton i ddarganfod pa bethau sy'n bwysig i Jane, ac mae'n siarad â rhai sy'n adnabod Jane i gael gwybod beth maen nhw'n credu y mae'n ei hoffi. Wedyn mae'n rhoi cymorth i Jane ddangos eu gwaith i'w rheolwr gofal, ac mae'n cadarnhau bod y cartrefi newydd sydd wedi'u hawgrymu ar ei chyfer yn gallu bodloni anghenion a dymuniadau Jane.

Wedi i'r rheolwr gofal ddod o hyd i rai lleoedd addas, mae eiriolwr Jane yn ymweld â'r cartrefi gyda Jane. Maent yn tynnu lluniau o'r tai i'w helpu i wahaniaethu rhyngddynt. Wedyn mae'r eiriolwr yn defnyddio'r lluniau i helpu Jane i ganfod pa gartref sydd orau ganddi. Yn awr, gall teimladau Jane chwarae rhan bwysig wrth benderfynu beth sydd er y budd gorau iddi – ac felly yn y penderfyniad terfynol am ei lle byw.

Pa ddulliau eraill sydd ar gael i greu modd i wneud penderfyniadau?

3.16 Mae dulliau eraill o helpu rhywun i wneud penderfyniad drosto'i hun.

- Mae llawer o bobl yn ei chael yn fuddiol trafod pethau gyda phobl y maent yn ymddiried ynddynt – neu rai a fu mewn sefyllfa neu gyfyng-gyngor tebyg. Er enghraifft, gallai rhai sydd ag anawsterau dysgu elwa o gael cymorth gan weithiwr cefnogi dynodedig neu o fod yn rhan o rwydwaith cefnogi.
- Os yw rhywun mewn gofid mawr (er enghraifft, ar ôl marwolaeth rhywun agos) neu os oes problemau hirsefydlog sy'n effeithio ar allu rhywun i ddeall rhyw fater, gallai fod yn bosibl gohirio'r penderfyniad fel y gall y person gael therapi seicolegol, os oes angen.

- Mae rhai cyrff wedi cynhyrchu deunyddiau i helpu pobl sydd ag angen cefnogaeth i wneud penderfyniadau a rhai ar gyfer y bobl sy'n eu cefnogi. Mae rhai o'r deunyddiau hyn wedi'u bwriadu i helpu pobl sydd â chyflyrau penodol, fel clefyd Alzheimer neu anabledd dysgu dwys.
- Gallai fod yn bwysig darparu mynediad at dechnoleg. Er enghraifft, mae rhai pobl nad ydynt yn cyfathrebu'n dda ar lafar i bob golwg yn gallu cyfathrebu'n dda iawn drwy ddefnyddio cyfrifiaduron.

Pennod 3

Sut y dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun?

Senario: Gwneud yn fawr o dechnoleg

Mae gan Ms Patel anhwylder yn y sbectrwm awtistig. Mae ei theulu a staff gofal yn ei chael yn anodd cyfathrebu â hi. Mae'n gwrthod gwneud cyswllt llygad, ac mae'n mynd yn ddig ac yn ofidus iawn pan fydd ei gofalwyr yn ceisio ei chymell i siarad.

Mae un aelod o'r staff yn sylwi bod Ms Patel yn ymddiddori yn yr offer cyfrifiadurol. Mae'n dangos iddi sut i ddefnyddio'r bysellfwrdd, ac maent yn gallu cael sgwrs drwy ddefnyddio'r cyfrifiadur. Mae arbenigwr TG yn gweithio gyda hi i sicrhau ei bod yn gallu gwneud yn fawr o'i sgiliau cyfrifiadurol i gyfleu ei theimladau a'i phenderfyniadau.

4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

Mae'r bennod hon yn egluro beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'gallu' ('capacity') a 'diffyg gallu' ('lack of capacity'). Mae'n cynnig canllawiau ynghylch y modd i asesu a yw rhywun yn meddu ar allu i wneud penderfyniad, ac yn awgrymu pryd y dylid cynnwys gweithwyr proffesiynol yn yr asesiad.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Mae'r rhestr wirio hon yn grynoded o bwyntiau i'w hystyried wrth asesu gallu rhywun i wneud penderfyniad penodol. Dylai darllenwyr gyfeirio hefyd at y canllawiau manylach yn y bennod hon ac ym mhenodau 2 a 3.

Rhagdybio bod gallu gan rywun

- Rhaid cymryd ar y dechrau bob amser fod rhywun yn meddu ar allu i wneud penderfyniad, oni bai fod modd profi nad oes ganddo allu.

Deall beth a olygir wrth allu a diffyg gallu

- Rhaid asesu gallu rhywun yn benodol yng nghyd-destun ei allu i wneud penderfyniad neilltuol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Trin pawb yn gyfartal

- Ni cheir barnu ynghylch gallu rhywun dim ond ar sail ei oedran, ei ymddangosiad, ei gyflwr neu ryw agwedd ar ei ymddygiad.

Helpu'r person i wneud y penderfyniad drosto'i hun

- Mae'n bwysig cymryd pob cam posibl i geisio helpu pobl i wneud penderfyniad drostynt eu hun (gweler pennod 2, egwyddor 2, a phennod 3).

Asesu gallu

Wrth i unrhyw un asesu gallu rhywun i wneud penderfyniad drosto'i hun, dylai ddefnyddio'r prawf gallu dau gam.

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

- A oes nam ar feddwl neu ymennydd y person, neu a oes rhyw fath o anhwylder sy'n effeithio ar y modd y mae ei feddwl neu ei ymennydd yn gweithio? (Nid oes gwahaniaeth a yw'r nam neu'r anhwylder yn barhaol neu dros dro.)
- Os oes, a yw'r nam neu'r anhwylder hwnnw'n golygu nad yw'r person yn alluog i wneud y penderfyniad dan sylw ar yr adeg y mae angen ei wneud?

Asesu gallu i wneud penderfyniad

- A oes gan y person ddealltwriaeth gyffredinol o'r penderfyniad y mae angen iddo'i wneud a pham y mae angen iddo'i wneud?
- A oes gan y person ddealltwriaeth gyffredinol o'r canlyniadau tebygol o wneud, neu o beidio â gwneud, y penderfyniad hwn?
- A yw'r person yn gallu deall, cofio, defnyddio a phwyso a mesur yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwn?
- A yw'r person yn gallu rhoi gwybod am ei benderfyniad (drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw ddull arall)? A fyddai'n fuddiol cael cymorth gan weithiwr proffesiynol (fel therapydd iaith a lleferydd)?

Asesu gallu i wneud penderfyniadau mwy cymhleth neu bwysig

- A oes angen asesiad mwy trwyadl (drwy gynnwys meddyg neu arbenigwr proffesiynol arall efallai)?

Beth yw gallu meddyliol?

4.1 Gallu meddyliol yw'r gallu i wneud penderfyniad.

- Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud penderfyniad sy'n effeithio ar fywyd pob dydd – fel pa bryd i godi, beth i'w wisgo ac a ddylai rhywun fynd at y meddyg os yw'n teimlo'n sâl – yn ogystal â phenderfyniadau mwy pwysig neu bellgyrhaeddol.
- Mae hefyd yn cyfeirio at allu rhywun i wneud penderfyniad a allai arwain at ganlyniadau cyfreithiol – iddo ef ac i eraill. Enghreifftiau o hynny yw cytuno i gael triniaeth feddygol, prynu nwyddau neu wneud ewyllys.

4.2 Rhaid cymryd bob amser ar y dechrau fod rhywun yn meddu ar allu i wneud penderfyniad penodol (gweler pennod 2, egwyddor 1). Efallai y bydd ar rai pobl angen cymorth i allu gwneud neu roi gwybod am benderfyniad (gweler pennod 3). Ond nid yw hynny'n golygu o reidrwydd nad oes ganddynt allu i wneud hynny. Yr hyn sy'n bwysig yw eu gallu i gwblhau'r prosesau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniad – ac nid y canlyniad.

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth ddiffyg gallu?

4.3 Mae adran 2(1) o'r Ddeddf yn datgan:

'For the purposes of this Act, a person lacks capacity in relation to a matter if at the material time he is unable to make a decision for himself in relation to the matter because of an impairment of, or a disturbance in the functioning of, the mind or brain.'

Mae hyn yn golygu bod rhywun heb allu:

- os oes ganddo nam neu anhwylder (er enghraifft, anabledd, cyflwr neu drawma) sy'n effeithio ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd, ac
- os yw'r nam neu'r anhwylder yn golygu nad yw'n gallu gwneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

4.4 Rhaid seilio asesiad o allu rhywun ar ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud, ac nid ar ei allu i wneud penderfyniadau'n gyffredinol. Mae adran 3 o'r Ddeddf yn egluro beth mae bod yn analluog i wneud penderfyniad yn ei olygu (egllurir hyn ym mharagraff 4.14 isod).

4.5 Mae adran 2(2) yn datgan nad oes raid i'r nam neu'r anhwylder fod yn un parhaol. Gall rhywun fod heb allu i wneud penderfyniad ar yr adeg y mae angen ei wneud hyd yn oed:

- os mai rhannol yw'r golled gallu
- os mai rhywbeth dros dro yw'r golled gallu
- os bydd ei allu'n newid dros amser.

Gall rhywun hefyd fod heb allu i wneud penderfyniad am un mater ond nid am eraill.

4.6 Mae'r Ddeddf yn gymwys yn gyffredinol i bobl sy'n 16 oed neu'n hŷn. Mae pennod 12 yn egluro sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar blant a phobl ifanc – yn enwedig rhai 16 a 17 flwydd oed.

Pa fesurau diogelu y mae'r Ddeddf yn eu cynnig ynghylch asesu gallu rhywun?

4.7 Ni cheir byth seilio asesiad bod rhywun heb allu i wneud penderfyniad ar y canlynol yn unig:

- ei oed
- ei ymddangosiad ('appearance')

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

- rhagdybiaethau ynghylch ei gyflwr ('condition'), neu
- unrhyw agwedd ar ei ymddygiad. (adran 2(3))

4.8 Mae'r Ddeddf yn defnyddio'r gair 'appearance' yn fwriadol, gan ei fod yn cynnwys pob agwedd ar yr olwg sydd ar bobl. Felly, er enghraifft, mae'n cynnwys y nodweddion corfforol sydd i rai cyflyrau (er enghraifft, creithiau, nodweddion sy'n gysylltiedig â syndrom Down neu wingiadau yn y cyhyrau sydd wedi'u hachosi gan barlys yr ymennydd) yn ogystal ag agweddau ar ymddangosiad fel lliw'r croen, tatŵs a thyllau yn y croen, neu wisg pobl (gan gynnwys dillad crefyddol).

4.9 Mae'r gair 'condition' yn un cynhwysfawr hefyd. Mae'n cynnwys anabledau corfforol, anawsterau ac anabledau dysgu, salwch sy'n gysylltiedig â henaint, a chyflyrau dros dro (er enghraifft, meddwdod neu fod yn anymwybodol). Rhai o'r mathau posibl o ymddygiad yw ymddygiad allblyg (er enghraifft, gweiddi neu wneud ystumiau) ac ymddygiad encilgar (er enghraifft, siarad â chi'ch hun neu osgoi cyswllt llygad).

Senario: Trin pawb yn gyfartal

Mae Tom, dyn sydd â pharlys yr ymennydd, yn siarad yn aneglur. Weithiau bydd hefyd yn cwmpo heb reswm amlwg.

Un diwrnod mae Tom yn cael codwm yn yr archfarchnad. Mae'r staff yn galw ambiwlans, er ei fod yn dweud ei fod yn iawn. Maent yn credu y gallai fod arno angen triniaeth ar ôl cael codwm.

Pan ddaw'r ambiwlans, mae criw'r ambiwlans yn gwybod nad ydynt yn cael rhagdybio dim am allu Tom i benderfynu ynghylch triniaeth ar sail ei gyflwr ac effeithiau ei anabled yn unig. Maent yn siarad ag ef ac yn darganfod ei fod yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch gofal iechyd drosto'i hun.

Pa brawf o ddiffyg gallu y mae'r Ddeddf yn galw amdano?

4.10 Os yw rhywun yn honni bod unigolyn heb allu, dylai allu rhoi prawf o hynny. Rhaid iddo allu dangos bod yr unigolyn, *yn ôl yr hyn sy'n debygol*, heb allu i wneud penderfyniad penodol, ar yr adeg y mae angen ei wneud (adran 2(4)). Mae hyn yn golygu bod yn alluog i ddangos ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod y person heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw.

Beth yw'r prawf gallu?

Er mwyn helpu i benderfynu a yw rhywun heb allu i wneud penderfyniadau penodol, mae'r Ddeddf yn nodi prawf gallu dau gam.

Cam 1: A oes gan y person nam neu anhwylder sy'n effeithio ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd?

4.11 Mae Cam 1 yn gofyn am brawf bod nam ar feddwl neu ymennydd y person dan sylw, neu fod rhyw fath o anhwylder sy'n effeithio ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd. Os nad oes nam neu anhwylder o'r fath ar feddwl neu ymennydd y person dan sylw, ni fydd heb allu dan y Ddeddf.

4.12 Dyma rai mathau o namau neu anhwylderau sy'n effeithio ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd:

- cyflyrau sy'n gysylltiedig â rhai mathau o salwch meddwl
- demensia
- anabledau dysgu sylweddol
- effeithiau tymor hir niwed i'r ymennydd
- cyflyrau corfforol neu feddygol sy'n achosi dryswch, syrthni neu gollu ymwybyddiaeth
- deliriwm
- cyfergyd ar ôl cael anaf i'r pen
- symptomau'r defnydd o alcohol neu gyffuriau.

Senario: Asesu a yw nam neu anhwylder yn effeithio ar allu rhywun i wneud penderfyniad

Mae Mrs Collins yn 82 oed ac mae wedi cael strôc. Oherwydd hynny mae ochr chwith ei chorff wedi gwanhau. Mae'n byw mewn tŷ a fu'n gartref i'r teulu ers blynyddoedd. Mae ei mab am iddi werthu ei thŷ a dod i fyw ato ef.

Mae Mrs Collins yn hoffi'r syniad, ond nid yw ei merch. Mae hi'n credu y bydd ei mam yn colli ei hannibyniaeth ac y bydd ei chyflwr yn gwaethygu. Mae'n cael gair â meddyg ymgynghorol ei mam i gael gwybodaeth a fydd o gymorth i atal gwerthu'r tŷ. Ond mae ef yn dweud, er bod Mrs Collins yn bryderus ynghylch effeithiau corfforol y strôc, nad yw hynny wedi amharu ar ei meddwl nac wedi effeithio ar ei ymennydd, felly mae'n dal i fod â'r gallu i benderfynu drosti ei hun ynghylch gwerthu ei thŷ.

Cam 2: A yw'r nam neu'r anhwylder yn golygu nad yw'r person yn gallu gwneud penderfyniad penodol pan fo angen ei wneud?

4.13 Er mwyn pennu bod rhywun heb allu i wneud penderfyniad, mae'r Ddeddf yn dweud bod rhaid i'r nam neu'r anhwylder fod yn un sy'n effeithio ar ei allu i wneud penderfyniad penodol pan fo angen iddo'i wneud. Ond, yn gyntaf, rhaid rhoi pob cefnogaeth ymarferol a phriodol i'r person i'w helpu i wneud y penderfyniad drosto'i hun (gweler pennod 2, egwyddor 2). Ni fydd Cam 2 ond yn gymwys os yw pob cefnogaeth ymarferol a phriodol i helpu'r person i wneud penderfyniad wedi methu. Gweler pennod 3 i gael canllawiau ar ddulliau o helpu pobl i wneud penderfyniad drostynt eu hun.

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth anallu i wneud penderfyniad (*'inability to make a decision'*)?

4.14 Mae rhywun yn analluog i wneud penderfyniad os nad yw'n gallu:

1. deall gwybodaeth am y penderfyniad sydd i'w wneud (*'relevant information'* yw'r enw ar hyn yn y Ddeddf)
2. cofio'r wybodaeth honno
3. defnyddio neu bwysu a mesur yr wybodaeth honno fel rhan o'r broses penderfynu, neu
4. rhoi gwybod am ei benderfyniad (drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw ddull arall). Gweler adran 3(1).

4.15 Mae'r pedwar pwynt hyn wedi'u hegluro'n fwy manwl isod. Dylid cymhwyso'r tri cyntaf gyda'i gilydd. Os nad yw rhywun yn gallu gwneud yr un o'r tri pheth hyn, caiff ei drin fel rhywun nad yw'n gallu gwneud y penderfyniad. Nid yw'r pedwerydd pwynt ond yn gymwys i sefyllfaoedd lle nad yw pobl yn gallu cyfleu eu penderfyniad mewn unrhyw fodd.

Deall gwybodaeth am y penderfyniad sydd i'w wneud

4.16 Mae'n bwysig peidio ag asesu dealltwriaeth rhywun cyn rhoi'r wybodaeth berthnasol iddo am y penderfyniad. Rhaid gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth yn y modd sy'n fwyaf priodol i helpu'r person i ddeall. Nid yw esboniadau cyflym neu annigonol yn dderbyniol oni bai fod y sefyllfa yn un frys (gweler pennod 3 lle y nodir rhai camau ymarferol). Mae gwybodaeth berthnasol yn cynnwys:

- natur y penderfyniad
- y rheswm y mae angen gwneud y penderfyniad
- yr effeithiau tebygol o benderfynu'r naill ffordd neu'r llall, neu o beidio â gwneud penderfyniad o gwbl.

4.17 Mae adran 3(2) yn nodi'r angen i gyflwyno gwybodaeth mewn modd sy'n briodol i ddiwallu anghenion yr unigolyn ac i ymateb i'w amgylchiadau. Mae hefyd yn rhoi pwys ar yr angen i egluro gwybodaeth drwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu sy'n fwyaf effeithiol ar gyfer y person hwnnw (fel iaith syml, iaith arwyddion, lluniau eglurhaol, cymorth drwy gyfrifiadur neu unrhyw ddull arall).

4.18 Er enghraifft:

- os oes anabledd dysgu gan rywun, efallai y bydd arno angen i rywun ddarllen gwybodaeth iddo. Efallai y bydd arno angen gweld lluniau hefyd i'w helpu i ddeall beth sy'n digwydd. Neu efallai y gallai stopio'r darllenydd i ofyn beth y mae rhywbeth yn ei olygu. Gallai fod yn fuddiol hefyd iddo drafod gwybodaeth gydag eiriolwr.
- efallai y bydd rhywun sy'n profi pryder neu iselder yn ei chael yn anodd dod i benderfyniad am driniaeth mewn cyfarfod grwp gyda gweithwyr proffesiynol. Efallai y byddai'n well ganddo ddarllen y dogfennau perthnasol yn breifat. Fel hyn, gallai ddod i gasgliad ar ei ben ei hun, a gofyn am gymorth os oes angen.
- os yw rhywun wedi cael anaf i'w ymennydd, efallai y bydd angen rhoi gwybodaeth iddo sawl gwaith. Bydd angen cadarnhau bod y person yn deall yr wybodaeth. Os yw'n ei chael yn anodd ei deall, gallai fod yn fuddiol cyflwyno gwybodaeth mewn modd gwahanol (er enghraifft, ffurfiau gwahanol ar eiriau, lluniau neu ddiagramau). Mae gwybodaeth ysgrifenedig, tapiau clywedol, fideos a phosteri yn gallu helpu pobl i gofio ffeithiau pwysig.

4.19 Rhaid i'r wybodaeth berthnasol gynnwys beth fyddai canlyniadau tebygol y penderfyniad (yr effeithiau posibl o benderfynu'r naill ffordd neu'r llall) – a hefyd y canlyniadau tebygol o beidio â gwneud penderfyniad o gwbl (adran 3(4)). Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn ddigon rhoi esboniad cyffredinol gan ddefnyddio iaith syml. Ond efallai y bydd ar rywun angen gwybodaeth fwy manwl neu fynediad at gyngor, yn ôl y penderfyniad y mae angen ei wneud. Os gallai penderfyniad ddod â chanlyniadau difrifol neu sylweddol, mae'n bwysicach byth bod y person yn deall yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwnnw.

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

Senario: Darparu gwybodaeth berthnasol mewn fformat priodol

Mae gan Mr Leslie anableddau dysgu ac mae curiad ei galon wedi mynd yn afreolaidd. Mae wedi cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn ar gyfer hynny, ond mae'n bryderus ynghylch cael profion gwaed rheolaidd i wirio lefelau ei feddyginiaeth. Mae ei feddyg yn rhoi taflen iddo i egluro:

- y rheswm dros y profion
- beth mae prawf gwaed yn ei olygu
- y risgiau o gael neu o beidio â chael y profion
- bod ganddo hawl i benderfynu a yw am gael y prawf neu beidio.

Mae'r daflen yn defnyddio iaith syml a ffotograffau i egluro'r pethau hyn. Mae gofalwr Mr Leslie yn ei helpu i ddarllen y daflen dros y diwrnodau ar ôl hynny, ac yn cadarnhau ei fod yn ei deall.

Mae Mr Leslie yn mynd yn ôl at y meddyg ac yn dweud wrtho, er bod arno ofn nodwyddau, y gwnaiff gytuno i gael y profion gwaed fel y bydd modd iddo gael y feddyginiaeth iawn. Mae'n gallu dangos i'r meddyg y cyfarpar y mae ei angen i wneud y prawf gwaed. Felly mae'r meddyg yn dod i'r casgliad bod Mr Leslie yn gallu deall, cofio a defnyddio'r wybodaeth berthnasol ac felly ei fod yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad i gael y prawf

Cofio gwybodaeth

- 4.20 Rhaid i'r person allu cofio'r wybodaeth yn ddigon hir i'w defnyddio i wneud penderfyniad effeithiol. Ond mae adran 3(3) yn datgan na ddylid cymryd yn awtomatig fod rhywun heb allu i benderfynu os nad yw ond yn gallu cofio gwybodaeth am gyfnod byr – mae'n dibynnu ar yr hyn y mae ei angen i wneud y penderfyniad dan sylw. Mae eitemau fel llyfrau nodiadau, ffotograffau, poster, fideos a recordwyr llais yn gallu helpu pobl i gofnodi a chofio gwybodaeth.

Senario: Asesu gallu rhywun i gofio gwybodaeth

Mae Walter yn ddyn oedrannus y cafwyd bod demensia arno ac mae'n ei chael yn anodd cofio pethau yn y tymor byr. Nid yw'n gallu cofio enwau ei orwyrion a'i orwyresau bob amser, ond mae'n eu hadnabod pan ddeuant i'w weld.

Byddai Walter yn hoffi prynu bondiau premiwm (math o fuddsoddiad ariannol) ar gyfer pob un o'i orwyrion a'i orwyresau. Mae'n gofyn i'w dwrnai wneud y trefniadau. Ar ôl asesu ei allu i wneud penderfyniadau ariannol, mae'r twrnai wedi'i fodloni bod Walter yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad hwn, er gwaethaf ei broblemau o ran cofio yn y tymor byr.

Defnyddio neu bwysu a mesur gwybodaeth fel rhan o'r broses penderfynu

- 4.21** Os yw rhywun i fod â gallu, rhaid iddo fedru pwysu a mesur gwybodaeth a'i defnyddio i ddod i benderfyniad. Weithiau bydd pobl yn gallu deall gwybodaeth ond mae nam neu anhwylder yn eu hatal rhag ei defnyddio. Mewn achosion eraill, mae'r nam neu'r anhwylder yn peri i rywun wneud penderfyniad penodol heb ddeall neu ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd iddo.³
- 4.22** Er enghraifft, efallai y bydd rhywun sydd â'r anhwylder bwyta anorecsia nerfol yn gallu deall gwybodaeth am y canlyniadau i beidio â bwyta. Ond efallai y bydd y cymhelliad sydd ganddo i beidio â bwyta'n rhy gryf i'w anwybyddu. Mewn rhai achosion, bydd pobl a gafodd niwed sylweddol i'w hymennydd yn gwneud penderfyniadau mympwyol ni waeth pa wybodaeth y maent wedi'i chael na'u dealltwriaeth ohoni.

Anallu i roi gwybod am benderfyniad mewn unrhyw fodd

- 4.23** Mewn rhai achosion, ni fydd unrhyw fodd i rywun gyfathrebu. Ni fydd hyn ond yn wir am nifer bach iawn o bobl, ond mae'n cynnwys:
- rhai sy'n anymwybodol neu mewn coma, neu
 - y rhai sydd â chyflwr anghyffredin iawn a elwir weithiau'n 'syndrom cloi i mewn', sy'n ymwybodol ond sydd heb allu i siarad neu symud o gwbl.
- Os na all rhywun roi gwybod am ei benderfyniad mewn unrhyw fodd o gwbl, mae'r Ddeddf yn dweud y dylid ei drin fel pe na bai'n gallu gwneud y penderfyniad hwnnw.
- 4.24** Cyn penderfynu bod rhywun yn perthyn i'r categori hwn, mae'n bwysig gwneud pob ymdrech ymarferol a phriodol i'w helpu i gyfathrebu. Gallai hynny alw am gynnwys therapyddion iaith a lleferydd, arbenigwyr mewn cyfathrebu dieiriau neu weithwyr proffesiynol eraill. Mae pennod 3 yn cynnig cyngor ynghylch cyfathrebu â phobl sydd ag anableddau penodol neu broblemau gwybyddol.
- 4.25** Mae cyfathrebu drwy symudiadau syml yn y cyhyrau'n gallu dangos bod rhywun yn medru cyfathrebu a'i fod efallai'n meddu ar allu i wneud penderfyniad⁴. Er enghraifft, gallai rhywun smicio'i lygad neu wasgu

³ Ystyriwyd y pwnc hwn mewn sawl achos llys, gan gynnwys *Re MB* [1997] 2 FLR 426; *R v Collins and Ashworth Hospital Authority ex parte Brady* [2001] 58 BMLR 173

⁴ Dangoswyd hynny yn achos *Re AK (Adult Patient) (Medical Treatment: Consent)* [2001] 1 FLR 129

llaw i roi ateb cadarnhaol neu negyddol. Mewn achosion o'r fath, rhaid defnyddio'r tri phwynt cyntaf sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 4.14 wrth wneud asesiad, a cheir eglurhad manylach o'r rhain ym mharagraffau 4.16–4.22.

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

Pa faterion eraill a allai effeithio ar allu?

Pobl sydd â gallu cyfnewidiol neu dros dro

- 4.26** Mae gan rai pobl allu cyfnewidiol – mae ganddynt broblem neu gyflwr sydd weithiau'n gwaethygu ac yn effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun sydd ag iselder manig yn profi cyfnod manig dros dro sy'n peri iddo fod heb allu i wneud penderfyniadau ariannol, sy'n mynd ag ef i ddyled, er ei fod yn berffaith alluog ar adegau eraill i reoli ei arian. Efallai y bydd rhywun sydd â salwch seicotig yn cael camddychmygion ar rai adegau sy'n effeithio ar ei allu i wneud penderfyniadau ond bod y rhain yn diflannu ar adegau eraill. Mae'n bosibl hefyd y bydd ffactorau dros dro yn effeithio ar allu rhywun i wneud penderfyniadau. Enghreifftiau o hynny yw salwch aciwt, poen dybryd, effaith meddyginiaeth, neu ofid ar ôl marwolaeth neu sioc. Ceir mwy o ganllawiau ynghylch sut i gefnogi rhywun sydd â gallu cyfnewidiol neu dros dro fel y gall wneud penderfyniad ym mhennod 3, ac ym mharagraffau 3.12–3.16 yn benodol. Ceir mwy o wybodaeth am ffactorau a allai ddangos y bydd rhywun yn adennill neu'n datblygu gallu yn y dyfodol ym mharagraff 5.28.
- 4.27** Yn yr un modd ag mewn unrhyw sefyllfa arall, yr unig beth y dylid ei ystyried mewn asesiad yw gallu rhywun i wneud penderfyniad penodol pan fydd angen ei wneud. Efallai y bydd modd gohirio'r penderfyniad nes bydd y person yn meddu ar allu i'w wneud (gweler hefyd y canllawiau ar y budd gorau ym mhennod 5).

Cyflyrau parhaus a all effeithio ar allu

- 4.28** Yn gyffredinol, dylai asesiadau o allu fod yn gysylltiedig â phenderfyniad penodol. Ond efallai y ceir pobl sydd â chyflwr parhaus sy'n effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau penodol neu a allai effeithio ar benderfyniadau eraill yn eu bywyd. Mae'n bosibl y bydd un penderfyniad ar ei ben ei hun yn gwneud synnwyr, ond y gallai roi lle i bryderu o'i ystyried ochr yn ochr â rhai eraill.
- 4.29** Unwaith eto, mae'n bwysig adolygu gallu o bryd i'w gilydd, gan fod pobl yn gallu gwella eu medrau o ran penderfynu. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd rhywun sydd â chyflwr parhaus yn dod i fedru gwneud

rhai penderfyniadau, os nad y cwbl. Bydd rhai pobl (er enghraifft, rhai sydd ag anableddau dysgu) yn dysgu sgiliau newydd drwy gydol eu hoes, a fydd yn gwella eu gallu i wneud rhai penderfyniadau. Felly dylid adolygu asesiadau o bryd i'w gilydd. Dylid adolygu gallu bob tro:

- pryd bynnag y caiff cynllun gofal ei ddatblygu neu ei adolygu
- mewn cyfnodau perthnasol eraill yn y broses cynllunio gofal
- pan fo angen gwneud penderfyniadau penodol.

4.30 Mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng:

- penderfyniadau annoeth y mae gan rywun hawl i'w gwneud (pennod 2, egwyddor 3), a
- phenderfyniadau sy'n seiliedig ar ddiffyg dealltwriaeth o risgiau neu anallu i bwysu a mesur yr wybodaeth ynghylch y penderfyniad.

Gellir ystyried gwybodaeth am benderfyniadau y mae'r person wedi'u gwneud sy'n seiliedig ar ddiffyg dealltwriaeth o risgiau neu anallu i bwysu a mesur yr wybodaeth wrth wneud asesiad o allu – yn enwedig os bydd rhywun yn gwneud penderfyniadau dro ar ôl tro sy'n ei roi mewn perygl neu a allai beri niwed iddo ef neu i rywun arall.

Senario: Cyflyrau parhaus

Cafodd Paul ddamwain yn y gwaith a chael anafiadau difrifol i'w ben. Cafodd dâl digolledu i dalu am y gofal y bydd arno ei angen drwy gydol ei oes o ganlyniad i'r anaf i'w ben. Gwnaed cais i'r Llys Gwarchod i ystyried sut y dylid rheoli'r digollediad a ddyfarnwyd, gan gynnwys a ddylid penodi dirprwy i reoli materion ariannol Paul. Gwrthwynebodd Paul hynny gan ei fod yn credu y medrai reoli ei fywyd ac y dylai gael gwario ei arian fel y dymunai.

Ysgrifennodd restr o'r hyn y bwriadai wario ei arian arno. Roedd yn cynnwys tai moethus gyda staff i wneud pob dim a thai gwyliau, ceir gyda gyrrwr, gemwaith ac amryw o eitemau eraill iddo ef a'i deulu. Ond os câi'r arian ei wario ar yr holl eitemau drud hynny, ni fyddai digon o arian ar ôl i dalu am gostau ei ofal yn y blynyddoedd i ddod.

Dyfarnodd y llys fod gallu gan Paul i wneud penderfyniadau ariannol o ddydd i ddydd, ond nad oedd yn deall pam yr oedd wedi cael digollediad nac ar gyfer beth yr oedd yr arian i'w ddefnyddio.

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

Nid oedd yn deall ychwaith sut byddai prynu'r pethau drud yn awr yn gallu effeithio ar ei ofal yn y dyfodol. Felly penderfynodd y llys nad oedd Paul yn meddu ar allu i reoli symiau mawr o arian a phenododd ddirprwy i wneud penderfyniadau ariannol o bryd i'w gilydd ynghylch ei ofal. Ond rhoddodd fynediad iddo at ddigon o arian i dalu am anghenion pob dydd ac ambell beth moethus.

Pa brofion gallu cyfreithiol eraill sydd ar gael?

4.31 Mae'r Ddeddf yn egluro bod y diffiniad o ddiffyg gallu ('*lack of capacity*') a'r prawf gallu dau gam sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf wedi'u rhoi i ddibenion y Ddeddf ('*for the purposes of this Act*'). Mae hyn yn golygu bod y diffiniad a'r prawf i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd sydd wedi'u cwmpasu gan y Ddeddf hon. Mae Atodlen 6 i'r Ddeddf hefyd yn diwygio deddfau sydd eisoes yn bod i sicrhau y caiff y diffiniad a'r prawf eu defnyddio mewn meysydd cyfraith eraill nad yw'r Ddeddf hon yn ymdrin â nhw'n uniongyrchol.

Er enghraifft, mae Atodlen 6, paragraff 20 yn caniatáu anghymhwysu rhywun rhag gwasanaethu ar reithgor os yw heb allu (gan ddefnyddio diffiniad y Ddeddf hon) i gyflawni gorchwylion rheithiwr.

4.32 Ceir sawl prawf gallu sydd wedi'i ddyfeisio ar ôl dyfarniadau mewn achosion llys (a elwir yn brofion cyfraith gwlad).⁵ Mae'r rhain yn cynnwys:

- y gallu i wneud ewyllys⁶
- y gallu i roi rhywbeth yn rhodd⁷
- y gallu i wneud contract⁸
- y gallu i ymglyfreitha (cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol),⁹ a
- y gallu i briodi.¹⁰

4.33 Mae'r diffiniad newydd o allu sydd yn y Ddeddf yn gyson â'r profion cyfraith gwlad presennol, ac nid yw'r Ddeddf yn cymryd eu lle. Pan

⁵ I gael manylion, gweler British Medical Association & Law Society, *Assessment of Mental Capacity: Guidance for Doctors and Lawyers* (Ail argraffiad) (London: BMJ Books, 2004)

⁶ *Banks v Goodfellow* (1870) LR 5 QB 549

⁷ *Re Beaney (deceased)* [1978] 2 All ER 595

⁸ *Boughton v Knight* (1873) LR 3 PD 64

⁹ *Masterman-Lister v Brutton & Co and Jewell & Home Counties Dairies* [2003] 3 All ER 162 (CA)

¹⁰ *Sheffield City Council v E & S* [2005] 1 FLR 965

ddaw achosion gerbron y llys sy'n ymwneud â'r materion uchod, caiff barnwyr fabwysiadu'r diffiniad newydd os ydynt yn credu ei fod yn briodol. Bydd y Ddeddf yn gymwys i'r holl achosion eraill sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau ar faterion ariannol, gofal iechyd neu les.

Pryd y dylid asesu gallu?

- 4.34** Mae'n hollbwysig asesu gallu'n gywir er mwyn pawb y mae'r Ddeddf yn effeithio arno. Os asesir bod rhywun heb allu, mae'n bosibl y gwrthodir iddo ei hawl i wneud penderfyniad penodol – yn enwedig os yw eraill yn credu na fyddai'r penderfyniad er y budd gorau iddo neu y gallai achosi niwed. Hefyd, os nad yw rhywun yn meddu ar allu i wneud penderfyniadau penodol, gallai wneud penderfyniadau nad yw'n eu deall yn iawn. Unwaith eto, gallai hynny achosi niwed neu roi'r person mewn perygl. Felly mae'n bwysig ymgymryd ag asesiad os oes amheuaeth ynghylch gallu rhywun. Mae hefyd yn bwysig bod yr un sy'n gwneud asesiad yn gallu cyfiawnhau ei gasgliadau. Bydd llawer o gyrff yn darparu canllawiau proffesiynol penodol i aelodau eu proffesiwn.¹¹
- 4.35** Mae nifer o resymau a allai roi lle i bobl amau a oes gan rywun allu i wneud penderfyniad penodol:
- mae ymddygiad neu amgylchiadau'r person yn peri amheuaeth ynghylch ei allu i wneud penderfyniad
 - mae rhywun arall yn dweud ei fod yn bryderus ynghylch gallu'r person, neu
 - canfuwyd o'r blaen fod nam neu anhwylder ar y person sy'n effeithio ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd (gweler paragraffau 4.11–4.12 uchod), a dangoswyd eisoes ei fod heb allu i wneud penderfyniadau eraill yn ei fywyd.
- 4.36** Rhaid cymryd i ddechrau fod y person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad dan sylw. Fodd bynnag, os yw rhywun yn credu bod y person heb allu, mae'n bwysig wedyn gofyn y cwestiynau canlynol:
- A yw'r person wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol y mae arno ei hangen i wneud y penderfyniad?
 - Os yw'n gwneud penderfyniad sy'n golygu dewis rhwng gwahanol bosibiliadau, a yw wedi cael gwybodaeth am bob un o'r gwahanol ddewisiadau?

¹¹ Gweler er enghraifft, British Medical Association & Law Society, *Assessment of Mental Capacity: Guidance for Doctors and Lawyers* (Ail argraffiad) (London: BMJ Books, 2004); Canllawiau Ymarfer Clinigol Cyd-bwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Ambiwlans y Colegau Brenhinol (JRCALC, ar gael ar lein yn www2.warwick.ac.uk/fac/med/research/hsri/emergencycare/jrcalc_2006/clinical_guidelines_2006.pdf) a Chymdeithas Seicolegol Prydain, *Guidelines on assessing capacity* (BPS, 2006 ar gael ar lein yn www.bps.org.uk)

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

- A fyddai'r person yn deall yn well os câi'r wybodaeth ei hegluro neu ei chyflwyno mewn dull arall?
- A oes adegau o'r dydd pan yw gallu'r person i ddeall yn well?
- A oes lleoliadau lle y gallai deimlo'n fwy cartrefol?
- A ellir gohirio'r penderfyniad nes bydd yr amgylchiadau'n wahanol pan allai'r person dan sylw fod yn alluog i wneud y penderfyniad?
- A oes unrhyw un arall sy'n gallu helpu'r person i ddewis neu fynegi barn (er enghraifft, aelod o'r teulu neu ofalwr, eiriolwr neu rywun i'w helpu i gyfathrebu)?

4.37 Mae pennod 3 yn disgrifio dulliau o ddelio â'r cwestiynau hyn ac yn awgrymu camau a allai helpu pobl i wneud eu penderfyniadau drostynt eu hun. Os bydd pob cam ymarferol a phriodol yn methu, bydd angen asesiad wedyn o allu'r person i wneud y penderfyniad y mae angen ei wneud ar y pryd.

Pwy a ddylai asesu gallu?

4.38 Fel arfer, yr un a fydd yn asesu gallu'r unigolyn i wneud penderfyniad fydd yr un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Mae hyn yn golygu y bydd gwahanol bobl yn ymwneud ag asesu gallu rhywun i wneud gwahanol benderfyniadau ar wahanol adegau.

Yn achos y rhan fwyaf o benderfyniadau pob dydd, hwn fydd y person sy'n gofalu amdano ar yr adeg y mae'n rhaid gwneud penderfyniad. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i weithiwr gofal asesu a yw'r person yn gallu cytuno i gael bath. Wedyn gallai nyrs ardal asesu a yw'r person yn gallu cydsynio i gael newid rhwymiad.

4.39 Yn achos gweithredoedd gofal neu driniaeth (gweler pennod 6), rhaid i'r asesydd fod â chred resymol (*'reasonable belief'*) bod y person heb allu i gytuno ar y cam sydd i'w gymryd neu'r penderfyniad sydd i'w wneud (gweler paragraffau 4.44–4.45 lle y ceir disgrifiad o gred resymol).

4.40 Os yw meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn argymhell rhoi triniaeth neu archwiliad, rhaid iddo asesu gallu'r person i gydsynio. Mewn lleoliadau fel ysbytai, gall hynny gynnwys y tîm amlddisgyblaethol (tîm o bobl o wahanol gefndiroedd proffesiynol sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros glaf). Ond yn y pen draw, lle'r gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am driniaeth yr unigolyn dan sylw yw sicrhau bod ei allu wedi'i asesu.

- 4.41 Yn achos trafodiad cyfreithiol (er enghraifft, gwneud ewyllys), rhaid i dwrnai neu ymarferydd cyfreithiol asesu gallu'r cleient i'w gyfarwyddo. Rhaid iddo asesu a yw'r cleient yn meddu ar allu i fodloni unrhyw brawf cyfreithiol perthnasol. Os oes amheuaeth, dylai gael barn meddyg neu arbenigwr proffesiynol arall.
- 4.42 Mae'n debygol y bydd penderfyniadau mwy cymhleth yn galw am asesiadau mwy ffurfiol (gweler paragraff 4.54 isod). Efallai y bydd angen cael barn broffesiynol am allu rhywun. Gellid cael honno, er enghraifft, gan seiciatrydd, seicolegydd, therapydd iaith a lleferydd, therapydd galwedigaethol neu weithiwr cymdeithasol. Ond rhaid i'r penderfyniad terfynol am allu rhywun gael ei wneud gan yr un sy'n bwriadu gwneud y penderfyniad neu gymryd y cam gweithredu ar ran y person sydd heb allu – nid y gweithiwr proffesiynol, sydd wrth law i roi cyngor.
- 4.43 Dylai unrhyw asesydd feddu ar y medr a'r sgiliau y mae eu hangen i gyfathrebu'n effeithiol â'r person (gweler pennod 3). Os bydd angen, dylai gael cymorth gan weithiwr proffesiynol i gyfathrebu â'r person.

Senario: Cael cymorth i asesu gallu

Cafodd Ms Dodd niwed i'w hymennydd mewn damwain ffordd ac nid yw'n gallu siarad. Ar y dechrau, roedd ei theulu'n credu nad oedd yn gallu gwneud penderfyniadau. Ond buan iawn y gwelsant ei bod yn gallu dewis drwy bwyntio at bethau, fel y dillad y mae am eu gwisgo neu'r bwyd sydd orau ganddi. Mae ei hymddygiad hefyd yn dangos ei bod yn mwynhau mynd i ganolfan dydd, ond mae'n gwrthod mynd i nofio. Mae ei gofalmwr wedi'i hasesu fel un sydd â'r gallu i wneud y penderfyniadau hynny.

Mae ar Ms Dodd angen triniaeth mewn ysbyty ond bydd yn teimlo'n ofidus pan fydd oddi cartref. Mae ei mam yn teimlo bod Ms Dodd yn gwrthod triniaeth yn ôl ei hymddygiad, ond mae ei thad yn credu nad yw'n meddu ar allu i wrthod triniaeth a allai wella ei chyflwr.

Bydd y clinigydd sy'n argymhell y driniaeth yn gorfod asesu gallu Ms Dodd i gydsynio. Mae'n cael cymorth gan aelod staff yn y ganolfan sy'n gwybod yn dda am ddull cyfathrebu Ms Dodd ac sydd hefyd yn trafod pethau gyda'i rhieni. Dros sawl cyfarfod, mae'r clinigydd yn egluro'r dewis o driniaethau i Ms Dodd gyda chymorth yr aelod staff. Y clinigydd a fydd yn gorfod gwneud y penderfyniad terfynol am allu Ms Dodd, ond bydd yn rhaid iddo ddefnyddio gwybodaeth a gafodd gan yr aelod staff ac eraill sy'n adnabod Ms Dodd yn dda er mwyn gwneud yr asesiad hwn.

Beth yw cred resymol (*‘reasonable belief’*) bod diffyg gallu?

4.44 Nid yw gofalwyr (boed yn ofalwyr teuluol neu'n ofalwyr eraill) a gweithwyr gofal yn gorfod bod yn arbenigwyr ar asesu gallu. Ond er mwyn cael amddiffyniad rhag atebolrwydd wrth ddarparu gofal neu driniaeth (gweler pennod 6), rhaid iddynt fod â chred resymol (*‘reasonable belief’*) bod y person y maent yn gofalu amdano heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol am ei ofal neu ei driniaeth (adran 5 (1)). Er mwyn cael y gred resymol hon, rhaid iddynt fod wedi cymryd camau rhesymol (*‘reasonable’*) i brofi nad yw'r person yn meddu ar allu i wneud penderfyniad neu gydsynio i weithred ar yr adeg y mae angen y penderfyniad neu'r cydsyniad. Rhaid iddynt brofi hefyd fod y weithred neu'r penderfyniad er y budd gorau i'r person dan sylw (gweler pennod 5).

Fel arfer, ni fydd raid iddynt ddilyn prosesau ffurfiol, fel rhai sy'n cynnwys gweithiwr proffesiynol, i wneud asesiad. Fodd bynnag, os bydd rhywun yn herio eu hasesiad (gweler paragraff 4.63 isod), rhaid iddynt allu disgrifio'r camau y maent wedi'u cymryd. Rhaid iddynt hefyd fod â rhesymau gwrthrychol dros gredu nad yw'r person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad dan sylw.

4.45 Bydd y camau a dderbynnir fel rhai rhesymol (*‘reasonable’*) yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau penodol a brys y penderfyniad. Fel arfer, bydd disgwyl i weithwyr proffesiynol, sydd wedi ymgymhwyso yn eu priod faes, ymgymryd ag asesiad a fydd yn llawnach, yng ngolwg yr wybodaeth a'r profiad helaethach sydd ganddynt, na'r un a wneir gan aelodau o'r teulu neu ofalwyr eraill sydd heb gymwysterau ffurfiol. Gweler paragraff 4.36 lle y ceir rhestr o bwyntiau i'w hystyried wrth asesu gallu rhywun. Gallai'r canlynol fod yn fuddiol hefyd:

- Dechreuwch drwy gymryd bod y person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad penodol. A oes unrhyw beth sy'n profi fel arall?
- A gafwyd diagnosis o'r blaen fod anabledd neu anhwylder meddyliol ar y person? A yw'r cyflwr hwnnw'n effeithio'n awr ar ei allu i wneud y penderfyniad hwn? Os na chafwyd diagnosis o'r blaen, efallai mai'r peth gorau fydd cael barn gan feddyg.
- Gwnewch bob ymdrech i gyfathrebu â'r person i egluro beth sy'n digwydd.
- Gwnewch bob ymdrech i geisio helpu'r person i wneud y penderfyniad dan sylw.
- Ceisiwch weld a oes modd egluro neu gyflwyno'r wybodaeth am y penderfyniad mewn ffordd sy'n ei gwneud yn haws i'w deall. Os oes dewis gan y person, a yw wedi cael gwybodaeth am yr holl ddewisiadau?

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

- A ellir gohirio'r penderfyniad i gael amser i helpu'r person i wneud y penderfyniad, neu i roi amser i'r person adennill y gallu i wneud y penderfyniad drosto'i hun?
- A yw'r person yn deall pa benderfyniad y mae angen iddo'i wneud a pham y mae angen iddo'i wneud?
- A yw'n gallu deall gwybodaeth am y penderfyniad? A yw'n gallu ei chofio, ei defnyddio a'i phwyso a'i mesur i wneud y penderfyniad?
- Cofiwch nad yw'r ffaith bod rhywun yn cytuno â chi neu'n derbyn yr hyn a argymhellir yn golygu o reidrwydd ei fod yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad.

Pa ffactorau eraill a allai effeithio ar asesiad o allu?

- 4.46 Mae'n bwysig asesu pobl pan ydynt yn y cyflwr gorau i wneud y penderfyniad, os yw hynny'n bosibl. Bydd y posibilrwydd o wneud hynny'n dibynnu ar natur y penderfyniad sydd i'w wneud a'r brys am ei wneud. Bydd llawer o'r camau ymarferol a awgrymwyd ym mhennod 3 yn gymorth i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer asesu gallu. Wedyn rhaid i'r asesydd gyflawni dau gam y prawf gallu (gweler paragraffau 4.11–4.25 uchod).
- 4.47 Mewn llawer achos, gallai fod yn amlwg bod nam neu anhwylder ar weithrediad meddwl neu ymennydd y person dan sylw a allai effeithio ar ei allu i wneud penderfyniad. Er enghraifft, efallai y bydd wedi cael diagnosis o anabled neu anhwylder meddyliol yn y gorffennol, neu efallai fod arwyddion bod rhyw salwch yn ailgodi. Dylid adolygu hen ragdybiaethau am unrhyw salwch neu gyflwr. Weithiau bydd salwch yn datblygu'n raddol (er enghraifft, demensia), ac mae'n anodd gwybod pa bryd y mae'n dechrau effeithio ar allu. Efallai y bydd angen i'r un sy'n asesu gallu rhywun geisio barn feddygol ynghylch a yw person yn profi salwch neu gyflwr a allai effeithio ar ei allu i wneud penderfyniad mewn achos penodol.

Senario: Cael barn broffesiynol

Mae Mr Elliott yn 87 mlwydd oed ac mae'n byw ar ei ben ei hun. Mae ei gof tymor byr yn wael, ac yn aml bydd yn anghofio bwyta. Bydd hefyd yn esgeuluso ei hylendid personol ar adegau. Mae ei ferch yn siarad ag ef am y posibilrwydd o symud i dderbyn gofal preswyl. Mae'n penderfynu ei fod yn deall y rhesymau dros ei phryderon yn ogystal â'r peryglon o barhau i fyw ar ei ben ei hun a'i fod yn meddu ar y gallu, ar ôl ystyried y ffactorau hyn, i benderfynu aros gartref a derbyn y canlyniadau.

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

Ddeufis yn ddiweddarach, mae Mr Elliott yn cael codwm ac yn torri ei goes. Wrth aros yn yr ysbyty i gael triniaeth, mae'n dechrau teimlo'n isel ac yn ddryslyd. Mae'n dweud ei fod am fynd adref, ond mae'r staff yn credu bod y dirywiad yn ei iechyd meddwl wedi effeithio ar ei allu i wneud y penderfyniad hwnnw ar yr adeg hon. Maent o'r farn nad yw'n gallu deall y canlyniadau neu bwysu a mesur y peryglon y bydd yn eu hwynebu os aiff adref. Maent yn ei atgyfeirio i sylw arbenigwr yn seiciatreg yr henoed, sy'n asesu a yw ei iechyd meddwl yn effeithio ar ei allu i wneud y penderfyniad hwn. Bydd y staff wedyn yn defnyddio barn yr arbenigwr i'w helpu i asesu gallu Mr Elliott.

4.48 Wrth i rywun asesu gallu person, rhaid iddo beidio â chymryd bod y person hwnnw heb allu dim ond am ei fod wedi cael diagnosis penodol neu am fod ganddo gyflwr neilltuol. Rhaid cael prawf bod y salwch neu'r cyflwr a ganfuwyd yn effeithio ar y gallu i wneud penderfyniad pan fo angen ei wneud. Dylai'r un sy'n asesu gallu ofyn y cwestiynau canlynol:

- A yw'r person yn meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o ba benderfyniad y mae angen iddo ei wneud a pham y mae angen iddo ei wneud?
- A yw'n deall y canlyniadau tebygol o wneud y penderfyniad hwnnw, neu o beidio â'i wneud?
- A yw'n gallu deall a phrosesu gwybodaeth am y penderfyniad? Ac a yw'n gallu ei defnyddio i'w helpu i wneud penderfyniad?

Mewn achosion lle mae'n anodd penderfynu'r naill ffordd neu'r llall, neu os oes amheuaeth, rhaid i'r asesydd allu dangos ei bod yn fwy tebygol na pheidio mai 'nac ydyw' yw'r ateb i'r cwestiynau hyn.

Pa gamau ymarferol y dylid eu cymryd wrth asesu gallu?

4.49 Wrth i rywun asesu gallu person, bydd yn rhaid iddo benderfynu pa rai o'r camau hyn sy'n berthnasol i'w sefyllfa.

- Dylai sicrhau ei fod ef ei hun yn deall natur ac effaith y penderfyniad sydd i'w wneud. Efallai y bydd angen iddo gael gweld dogfennau perthnasol a gwybodaeth am yr amgylchiadau (er enghraifft, gwybodaeth am sefyllfa ariannol y person dan sylw os yw'n asesu gallu i reoli materion ariannol). Gweler pennod 16 lle y ceir manylion ynghylch yr hawl i weld gwybodaeth.

- Efallai y bydd arno angen gwybodaeth berthnasol arall i ategu'r asesiad (er enghraifft, cofnodion gofal iechyd neu farn y staff sy'n ymwneud â gofal y person).
- Efallai y bydd aelodau o'r teulu a ffrindiau agos yn gallu darparu gwybodaeth werthfawr am amgylchiadau (er enghraifft, ymddygiad a galluoedd y person yn y gorffennol a'r mathau o benderfyniadau y mae'n gallu eu gwneud ar hyn o bryd). Ond ni fydd eu barn a'u dymuniadau personol am yr hyn y maent hwy yn ei ddymuno ar gyfer y person yn cael dylanwadu ar yr asesiad.
- Dylai egluro eto i'r person yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad. Rhaid rhoi'r eglurhad hwnnw gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu sy'n fwyaf priodol ac effeithiol ar gyfer y person hwnnw.
- Dylai wirio dealltwriaeth y person ar ôl ychydig funudau. Dylai'r person allu rhoi eglurhad bras o'r wybodaeth a gafodd ei hesbonio. Mae dulliau gwahanol ar gyfer pobl sy'n defnyddio moddau cyfathrebu dieiriau (er enghraifft, arsylwi ar ymddygiad neu ei allu i adnabod gwrthrychau neu luniau).
- Dylid osgoi cwestiynau sy'n galw am ateb fel 'ydw' neu 'nac ydw' yn unig (er enghraifft, a oeddech yn deall beth yr wyf newydd ei ddweud?). Nid yw cwestiynau o'r fath yn ddigon i asesu gallu rhywun i wneud penderfyniad. Ond efallai na fydd dewis arall mewn achosion lle mae anawsterau mawr o ran cyfathrebu. Mewn achosion o'r fath, cadarnhewch yr ymateb drwy ofyn cwestiynau eto mewn modd gwahanol.
- Nid yw sgiliau ac ymddygiad o reidrwydd yn adlewyrchu gallu rhywun i wneud penderfyniadau penodol. Nid yw'r ffaith bod sgiliau iaith neu sgiliau cymdeithasol da gan rywun, neu ei fod yn gwrtais neu'n foesgar, yn golygu o reidrwydd ei fod yn deall yr wybodaeth neu ei fod yn gallu ei phwyso a'i mesur.
- Gellir cael cymorth i gadarnhau'r canlyniad drwy ailadrodd y camau hyn.

4.50 Yn achos rhai mathau o benderfyniadau cymhleth (gwneud ewyllys, er enghraifft), ceir profion cyfreithiol penodol (gweler paragraff 4.32 uchod) yn ogystal â'r prawf gallu dau gam. Mewn rhai achosion, gallai profion meddygol neu seicometrig fod o gymorth (er enghraifft, i asesu sgiliau gwybyddol) wrth asesu gallu rhywun i wneud penderfyniadau penodol, ond rhaid gwneud y prawf gallu sy'n berthnasol dan y gyfraith o hyd.

Pryd y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn gysylltiedig?

4.51 Wrth i rywun asesu gallu person, efallai y bydd arno angen cael barn broffesiynol wrth asesu gallu rhywun i wneud penderfyniadau cymhleth neu bwysig. Mewn rhai achosion, ni fydd hynny ond yn galw am gysylltu ag ymarferydd cyffredinol neu feddyg teulu'r person dan sylw. Os oes cyflwr neu anhwylder penodol ar rywun, efallai y bydd yn briodol cysylltu ag arbenigwr (er enghraifft, seiciatrydd ymgynghorol, seicolegydd neu weithiwr proffesiynol arall sydd â phrofiad o ofalu am gleifion sydd â'r cyflwr hwnnw). Efallai y bydd therapydd iaith a lleferydd yn gallu rhoi cymorth os oes anawsterau o ran cyfathrebu. Mewn rhai achosion, dull gweithredu amlasiantaethol sydd orau. Mae hyn yn golygu cyfuno sgiliau ac arbenigedd gwahanol weithwyr proffesiynol.

4.52 Ni ddylai gweithwyr proffesiynol byth mynegi barn heb wneud archwiliad ac asesiad priodol o allu'r person i wneud y penderfyniad. Rhaid iddynt ddefnyddio'r prawf gallu priodol. Mewn rhai achosion, bydd angen iddynt gwrdd â'r person dan sylw fwy nag unwaith – yn enwedig os yw'n profi anawsterau o ran cyfathrebu. Gall gweithwyr proffesiynol gael gwybodaeth am y cyd-destun gan deulu a gofalwyr y person. Ond ni fydd barn bersonol y bobl hyn am yr hyn y maent yn ei ddymuno ar gyfer y person sydd heb allu yn cael dylanwadu ar ganlyniad yr asesiad hwnnw.

4.53 Efallai y bydd angen cynnwys gweithwyr proffesiynol:

- os yw'r penderfyniad y mae angen ei wneud yn un cymhleth neu'n un sydd â chanlyniadau difrifol
- os daw asesydd i'r canlyniad bod person heb allu, a bod y person yn herio'r canfyddiad hwnnw
- os yw aelodau o'r teulu, gofalwyr a/neu weithwyr proffesiynol yn anghytuno ynghylch gallu rhywun
- os oes gwrthdaro buddiannau rhwng yr asesydd a'r un sy'n cael ei asesu
- os yw'r un sy'n cael ei asesu'n mynegi barn wahanol wrth bobl wahanol – efallai ei fod yn ceisio plesio pawb neu ddweud wrth bobl beth y mae'n credu eu bod am ei glywed
- os gallai rhywun herio gallu'r person i wneud y penderfyniad – un ai ar adeg y penderfyniad neu'n ddiweddarach (er enghraifft, gallai aelod o'r teulu herio ewyllys wedi i rywun farw ar y sail nad oedd y person yn meddu ar allu pan wnaeth yr ewyllys)

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

- os yw rhywun wedi'i gyhuddo o fod wedi cam-drin oedolyn sy'n agored i niwed a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau sy'n eu gwarchod
- os yw person yn gwneud penderfyniadau dro ar ôl tro sy'n ei roi mewn perygl neu a allai arwain at ddiodefaint neu ddifrod.

Senario: Cynnwys barn gweithiwr proffesiynol

Mae Ms Ledger yn fenyw ifanc sydd ag anabledau dysgu a rhai anhwylderau yn y sbectwm awtistig. Yn ddiweddar, dechreuodd berthynas rywiol â dyn sy'n hŷn o lawer na hi, sy'n ceisio ei pherswadio i ddod i fyw ato a rhoi'r gorau i gymryd y bilsen. Mae sôn ar led ei fod wedi ymddwyn yn dreisgar tuag ati a'i fod wedi mynd â'i llyfr banc oddi arni.

Mae Ms Ledger yn ymffrostio ynghylch y berthynas wrth ei ffrindiau. Ond mae wedi cyfaddef i'w gweithiwr allweddol bod arni ofn y dyn weithiau. Mae staff yn y tŷ gwarchod lle mae'n byw yn penderfynu atgyfeirio'r achos dan y gweithdrefnau lleol i amddiffyn oedolion. Maent yn trefnu i seicolegydd clinigol asesu dealltwriaeth Ms Ledger o'r berthynas a'i gallu i gydsynio iddi.

4.54 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd gofyniad cyfreithiol i wneud asesiad ffurfiol o allu, neu y bydd hynny'n briodol fel mater o arfer da proffesiynol. Ymhlith yr achosion hynny y mae rhai:

- lle y gellid herio gallu person i lofnodi dogfen gyfreithiol (ewyllys, er enghraifft) yn ddiweddarach, lle y dylid gofyn am farn arbenigwr¹²
- lle mae angen canfod, yn achos rhywun a allai fod â rhan mewn achos cyfreithiol, a oes arno angen cymorth gan y Twrnai Swyddogol neu gyfaill cyfreitha arall (rhywun i gyfleu ei farn i lys a rhoi cyfarwyddiadau i'w gynrychiolydd cyfreithiol) a bod amheuaeth ynghylch gallu'r person i gyfarwyddo twrnai neu gymryd rhan yn yr achos¹³
- lle mae'r Llys Gwarchod yn gorfod penderfynu a yw rhywun heb allu mewn mater penodol
- lle mae'n ofynnol i'r llysoedd wneud penderfyniad ynghylch gallu rhywun mewn achosion cyfreithiol eraill¹⁴

¹² *Kenward v Adams, The Times, 29 Tachwedd 1975*

¹³ Rheolau Trefn Sifil 1998, rh 21.1

¹⁴ *Masterman-Lister v Brutton & Co and Jewell & Home Counties Dairies* [2002] EWCA Civ 1889, CA at 54

- lle y gellid cael canlyniadau cyfreithiol os ceir bod rhywun yn meddu ar allu (er enghraifft, penderfynu ar ddigollediad ariannol ar ôl hawliad am anaf corfforol).

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

A yw prosesau asesu'n gyfrinachol?

- 4.55 Bydd angen i'r rhai sy'n ymwneud ag asesu gallu rannu gwybodaeth am amgylchiadau'r person dan sylw. Ond ceir codau moesegol a deddfau sy'n mynnu bod gweithwyr proffesiynol yn cadw gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol. Fel rheol gyffredinol, rhaid i weithwyr proffesiynol ofyn i'w cleifion neu gleientiaid a ydynt yn cael datgelu gwybodaeth i rywun arall – hyd yn oed perthnasau agos. Ond weithiau ceir datgelu gwybodaeth heb gael cydsyniad y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef (er enghraifft, i warchod y person neu atal niwed i bobl eraill).¹⁵
- 4.56 Bydd angen gwybodaeth gywir ar unrhyw un sy'n asesu gallu rhywun am y person sy'n cael ei asesu, a'r wybodaeth honno'n berthnasol i'r penderfyniad y mae'n rhaid i'r person ei wneud. Felly, os oes modd, dylai gweithwyr proffesiynol beri bod gwybodaeth berthnasol ar gael. Dylent wneud pob ymdrech i gael caniatâd gan y person i ddatgelu gwybodaeth berthnasol. Dylent egluro'n llawn pam y mae angen cael caniatâd, a dylent ddweud wrth y person am y peryglon a'r canlyniadau o ddatgelu a pheidio â datgelu gwybodaeth. Os nad yw'r person yn gallu rhoi caniatâd, mae'n bosibl o hyd y bydd y gweithiwr proffesiynol yn cael darparu gwybodaeth a fydd o gymorth i wneud asesiad cywir o allu'r person i wneud y penderfyniad penodol. Mae mwy o fanylion ym mhennod 16 am y modd i gael mynediad at wybodaeth.

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn gwrthod cael ei asesu?

- 4.57 Efallai y ceir amgylchiadau lle bydd rhywun y mae amheuaeth am ei allu'n gwrthod cael asesiad gallu neu'n gwrthod cael ei archwilio gan feddyg neu weithiwr proffesiynol arall. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai fod o gymorth i egluro i rywun sy'n gwrthod asesiad pam y mae angen ei wneud a beth fydd y canlyniadau o'i wrthod. Ond nid yw bygythion neu ymdrechion i orfodi'r person i gytuno i gael asesiad yn dderbyniol.
- 4.58 Os bydd y person heb allu i gytuno neu wrthod, gall yr asesiad fynd yn ei flaen fel arfer, ar yr amod nad yw'r person yn gwrthwynebu'r asesiad, a'i fod er y budd gorau iddo (gweler pennod 5).

¹⁵ Er enghraifft, yn yr amgylchiadau sydd wedi'u trafod yn *W v Egdell and others* [1990] 1 All ER 835 at 848; *S v Plymouth City Council and C*, [2002] EWCA Civ 388) at 49

4.59 Ni ellir gorfodi unrhyw un i gael asesiad gallu. Os bydd rhywun yn gwrthod agor y drws i'w gartref, ni cheir ei agor drwy rym. Os oes pryderon dybryd ynghylch iechyd meddyliol rhywun, efallai y bydd yn bosibl cael gwarant i gael mynediad drwy rym ac asesu'r person ar gyfer ei drin mewn ysbyty – ond rhaid i'r sefyllfa ateb gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 (adran 135). Ond nid yw'r ffaith bod rhywun yn gwrthod asesiad gallu yn rheswm digonol mewn unrhyw fodd dros wneud asesiad dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gweler pennod 13).

Pwy ddylai gadw cofnod o asesiadau?

4.60 Nid oes angen unrhyw weithdrefnau asesu ffurfiol neu gofnodion dogfennol ar gyfer asesiadau o allu i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd neu i gydsynio i dderbyn gofal. Mae paragraffau 4.44–4.45 uchod yn egluro'r camau i'w cymryd i gael 'cred resymol' bod rhywun heb allu i wneud penderfyniad penodol. Mae'n arfer da i weithwyr gofal cyflogedig gadw cofnod o'r camau y maent yn eu cymryd wrth ofalu am y person sydd dan sylw.

Cofnodion proffesiynol

- 4.61 Mae'n arfer da i weithwyr proffesiynol wneud asesiad priodol o allu rhywun i wneud penderfyniadau penodol ac i gofnodi'r canfyddiadau yn y cofnodion proffesiynol perthnasol.
- Os yw meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn argymhell triniaeth, dylai wneud asesiad o allu'r person i gydsynio (gyda thîm amlddisgyblaethol, os yw'n briodol) a'i gofnodi yn nodiadau clinigol y claf.
 - Dylai twrneiod asesu gallu cleient i roi cyfarwyddiadau neu i gyflawni trafodiad cyfreithiol (a chael barn gan feddyg neu weithiwr proffesiynol arall, os oes angen) a'i gofnodi ar ffeil y cleient.
 - Bydd asesiad o allu rhywun i gydsynio i dderbyn neu i gytuno ar ddarpariaeth o wasanaethau'n rhan o'r prosesau cynllunio gofal i ddiwallu anghenion o ran iechyd a gofal cymdeithasol, a dylid ei gofnodi yn y ddogfennaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys:
 - Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Person ar gyfer rhai sydd ag anableddau dysgu
 - Dull Rhaglen Ofal ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl
 - y Broses Asesu Sengl ar gyfer pobl hŷn yn Lloegr
 - y Broses Asesu Unedig yng Nghymru.

Adroddiadau ffurfiol neu dystysgrifau gallu

- 4.62 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen cael adroddiad manylach neu dystysgrif gallu, er enghraifft,
- i'w defnyddio yn y llys neu mewn prosesau cyfreithiol eraill
 - yn unol â gofynion Rheoliadau, Rheolau neu Orchmynion a wneir dan y Ddeddf.

Sut y gall rhywun herio canfyddiad bod diffyg gallu?

- 4.63 Mae'n debyg y ceir achlysuron pan fydd rhywun yn dymuno herio canlyniadau asesiad gallu. Y cam cyntaf i'w gymryd fydd codi'r mater gyda'r person a wnaeth yr asesiad. Os mai'r unigolyn y dywedir ei fod heb allu fydd yn herio'r canfyddiad, mae'n bosibl y bydd arno angen cefnogaeth gan ei deulu, ffrindiau neu eiriolwr. Gofynnwch i'r asesydd:
- roi rhesymau dros ei gred bod y person heb allu i wneud y penderfyniad, a
 - rhoi tystiolaeth wrthrychol i ategu'r gred honno.
- 4.64 Rhaid i'r asesydd ddangos ei fod wedi cymhwyso egwyddorion Deddf Gallu Meddyliol (gweler pennod 2). Bydd angen hefyd i atwrneiod, dirprwyon a gweithwyr proffesiynol ddangos eu bod wedi dilyn canllawiau yn y bennod hon.
- 4.65 Efallai y bydd modd cael ail farn gan weithiwr proffesiynol annibynnol neu arbenigwr arall wrth asesu gallu. Ceir awgrymiadau eraill ym mhennod 15 ar gyfer delio ag anghytundeb. Ond os na ellir datrys anghytundeb, mae'n bosibl y bydd y person sy'n herio'r asesiad yn gallu gwneud cais i'r Llys Gwarchod. Gall y Llys Gwarchod ddyfarnu ynghylch a yw rhywun yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef (gweler pennod 8).

Pennod 4

Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu rhywun i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?

5 Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau ('best interests')?

Un o egwyddorion allweddol y Ddeddf yw y bydd unrhyw weithred a gyflawnir neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran rhywun sydd heb allu'n un y mae'n rhaid ei gyflawni, neu ei wneud, er y *budd gorau* i'r person hwnnw. Mae hyn yn berthnasol pa un a yw'r person sy'n gwneud y penderfyniad neu'n cyflawni'r weithred yn ofalwr teuluol, yn weithiwr gofal cyflogedig, yn atwrnai, yn ddirprwy sydd wedi'i benodi gan lys, neu'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol, a pha un a yw'r penderfyniad yn ymwneud â mater bach – fel beth i'w wisgo – neu fater pwysig, fel darparu math penodol o ofal iechyd.

Ar yr amod bod y gweithredoedd neu'r penderfyniadau hyn er y budd gorau i'r un sydd heb allu i wneud y penderfyniad drosto'i hun, neu i gydsynio i weithredoedd sy'n ymwneud â'i ofal neu ei driniaeth, bydd y gwneuthurwr penderfyniad neu ofalwr wedi'i amddiffyn rhag atebolrwydd.

Mae eithriadau i hyn, a'r rheini'n cynnwys amgylchiadau lle bydd rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth (gweler pennod 9) ac, mewn amgylchiadau penodol, lle bydd rhywun sydd heb allu'n cymryd rhan mewn ymchwil (gweler pennod 11). Ond, fel arall, egwyddor sylfaenol y Ddeddf yw y dylai'r holl weithredoedd a phenderfyniadau fod yn rhai a wneir er y budd gorau i'r person sydd heb allu.

Gall fod yn anodd canfod beth sydd er y budd gorau i rywun, ac mae'r Ddeddf yn mynnu bod pobl yn dilyn camau penodol i gael cymorth i ganfod a yw gweithred neu benderfyniad penodol er y budd gorau i rywun. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y ceir anghytuno ynghylch beth sydd er y budd gorau i rywun mewn gwirionedd. Ar yr amod bod y person sy'n gweithredu neu'n gwneud y penderfyniad wedi dilyn y camau i ddangos a yw rhywun yn meddu ar allu, ac wedi gwneud popeth rhesymol yn ei allu i ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun, dylai'r gyfraith ei amddiffyn.

Mae'r bennod hon yn egluro beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth y budd gorau ('best interests') a pha bethau y dylid eu hystyried wrth geisio canfod beth sydd er y budd gorau i rywun. Mae hefyd yn tynnu sylw at rai o'r anawsterau a allai godi wrth geisio canfod beth yn union sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu i wneud y penderfyniad.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Wrth i rywun geisio canfod beth sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol (*'lacks capacity'*) dylai:

Ei annog i gymryd rhan

- gwneud beth bynnag sy'n bosibl i gymell a chaniatáu i'r person gymryd rhan, neu wella ei allu i gymryd rhan, wrth wneud y penderfyniad

Adnabod yr holl amgylchiadau perthnasol

- ceisio canfod yr holl bethau y byddai'r person sydd heb allu'n eu hystyried pe byddai'n gwneud y penderfyniad neu'n gweithredu drosto'i hun

Cael gwybod beth yw barn y person

- ceisio darganfod barn y person sydd heb allu, gan gynnwys:
 - ei ddymuniadau a'i deimladau yn awr ac yn y gorffennol – efallai y bydd y rhain wedi'u mynegi ar lafar, mewn ysgrifen neu drwy ei ymddygiad neu ei arferion.
 - unrhyw gredoau a gwerthoedd (e.e. rhai crefyddol, diwylliannol, moesol neu wleidyddol) a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar y penderfyniad dan sylw.
 - unrhyw ffactorau eraill y byddai'r person ei hun yn debygol o'u hystyried pe byddai'n gwneud y penderfyniad neu'n gweithredu drosto'i hun.

Osgoi gwahaniaethu

- peidio â bod â rhagdybiaethau am yr hyn sydd er y budd gorau i rywun ar sail ei oed, ei ymddangosiad, ei gyflwr neu ei ymddygiad yn unig.

Asesu a allai'r person adennill gallu

- ystyried a yw'r person yn debygol o adennill gallu (e.e. ar ôl cael triniaeth feddygol). Os ydyw, a ellir gohirio'r penderfyniad tan hynny?

Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd

- peidio â chael ei symbylu mewn unrhyw fodd gan awydd i beri marwolaeth y person. Ni ddylai fod â rhagdybiaethau ynghylch ansawdd bywyd y person.

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

Ymgynghori ag eraill

- os yw'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny, ymgynghori â phobl eraill i gael eu barn am yr hyn sydd er y budd gorau i'r person ac i weld a oes ganddynt unrhyw wybodaeth am ddymuniadau a theimladau'r person, a'i gredoau a'i werthoedd. Yn benodol, dylai geisio ymgynghori ag:
 - unrhyw un y mae'r person wedi'i enwi o'r blaen fel un y dylid ymgynghori ag ef un ai ynghylch y penderfyniad dan sylw neu ynghylch materion tebyg
 - unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am y person
 - perthnasau agos, ffrindiau neu eraill sy'n ymddiddori yn lles y person
 - unrhyw atwrnai a benodwyd dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus a wnaeth y person dan sylw
 - unrhyw ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ar ran y person.
- Yn achos penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol neu ym mhle y dylai'r person fyw, ac os nad oes unrhyw un sy'n perthyn i'r categorïau uchod, rhaid ymgynghori ag Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGM). (Gweler pennod 10 i gael mwy o wybodaeth am EAGMau)
- Wrth ymgynghori, cofiwch fod y person sydd heb allu i wneud y penderfyniad neu weithredu drosto'i hun yn meddu o hyd ar hawl i gadw ei faterion personol yn breifat – felly ni fyddai'n iawn rhannu pob darn o wybodaeth â phawb.

Osgoi cyfyngu ar hawliau'r person

- gweld a oes dewisiadau eraill a fyddai'n cyfyngu i lai o raddau ar hawliau'r person.

Ystyried yr holl ffactorau hyn

- pwysu a mesur yr holl ffactorau hyn er mwyn canfod beth sydd er y budd gorau i'r person.

Beth yw egwyddor y budd gorau ac i bwy y mae'n gymwys?

- 5.1 Egwyddor y budd gorau yw'r sylfaen i Ddeddf Gallu Meddyliol. Mae wedi'i nodi yn adran 1(5) o'r Ddeddf.

Mae gweithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran person sydd heb allu yn un y mae'n rhaid ei gyflawni, neu ei wneud, er y budd gorau iddo '*An act done, or decision made, under this Act for or on behalf of a person who lacks capacity must be done, or made, in his best interests.*'

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

Mae'r cysyniad hwn wedi'i ddatblygu gan y llysoedd mewn achosion sy'n ymwneud â phobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hun, a'r rheini'n benderfyniadau sy'n ymwneud gan mwyaf â thriniaeth feddygol neu ofal cymdeithasol.

5.2 Mae'r egwyddor hon yn cwmpasu pob agwedd ar benderfynu a gweithredu ynghylch materion ariannol, lles personol a gofal iechyd. Mae'n gymwys i unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau neu'n gweithredu dan ddarpariaethau'r Ddeddf, gan gynnwys:

- gofalwyr teuluol, gofalwyr eraill a gweithwyr gofal
- staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol
- atwrneiod sydd wedi'u penodi dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus sydd wedi'i chofrestru
- dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y llys i wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu
- y Llys Gwarchod.

5.3 Fodd bynnag, fel yr eglurwyd ym mhennod 2, egwyddor allweddol gyntaf y Ddeddf yw bod rhaid cymryd bod pobl yn meddu ar allu i wneud penderfyniad neu weithredu drostynt eu hun oni phofir nad ydynt yn meddu arno. Oherwydd hynny, nid yw'r angen i ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun ond yn berthnasol os aseswyd bod y person hwnnw heb allu, neu fod cred resymol ei fod heb allu, i wneud y penderfyniad dan sylw neu i roi caniatâd i gyflawni gweithred.

Mae pobl sy'n meddu ar allu'n medru penderfynu drostynt eu hun beth y maent am ei wneud. Wrth wneud hynny, gallent wneud dewis nad yw pobl eraill yn credu ei fod er y budd gorau iddynt. Eu dewis hwy yw hyn ac nid yw'n golygu, ohono'i hun, eu bod heb allu i wneud y penderfyniadau hynny.

Eithriadau i egwyddor y budd gorau

5.4 Mae dau amgylchiad lle na fydd egwyddor y budd gorau'n gymwys. Y cyntaf yw lle mae rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw cyn hynny i wrthod triniaeth feddygol tra oedd yn meddu ar allu i wneud hynny. Dylid parchu'r penderfyniad ymlaen llaw a wnaeth pan fydd heb allu, hyd yn oed os bydd eraill o'r farn nad yw'r penderfyniad i wrthod triniaeth er y budd gorau iddo (ceir canllawiau ar benderfyniadau ymlaen llaw ym mhennod 9).

Mae'r ail yn ymwneud â chymryd rhan mewn ymchwil, mewn rhai amgylchiadau, yn achos rhywun sydd heb allu i gydsynio (gweler pennod 11).

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth y budd gorau?

- 5.5** Nid oes diffiniad yn y Ddeddf o'r term 'best interests'. Y rheswm am hynny yw bod y Ddeddf yn cwmpasu cynifer o fathau gwahanol o benderfyniadau a gweithredoedd, a'i bod yn effeithio ar gynifer o wahanol bobl ac amgylchiadau.
- 5.6** Mae adran 4 o'r Ddeddf yn egluro sut i ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu i wneud penderfyniad ar yr adeg y mae angen ei wneud. Mae'r adran hon yn rhoi rhestr wirio o ffactorau cyffredin sydd i'w hystyried bob amser gan unrhyw un sy'n gorfod penderfynu beth sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu mewn unrhyw sefyllfa neilltuol. Dim ond man cychwyn yw'r rhestr wirio hon: mewn llawer achos, bydd angen ystyried ffactorau ychwanegol.
- 5.7** Wrth fynd ati i ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person sydd heb allu i wneud penderfyniad neu weithredu drosto'i hun, rhaid i wneuthurwyr penderfyniad ystyried yr holl ffactorau perthnasol y byddai'n rhesymol rhoi sylw iddynt, nid y rhai y maent hwy'n eu hystyried yn bwysig yn unig. Nid ydynt yn cael gweithredu neu wneud penderfyniad ar sail yr hyn y byddent hwy am ei wneud os mai hwy oedd y person a oedd heb allu.

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

Senario: Er y budd gorau i bwy?

Mae Pedro, dyn ifanc sydd ag anabledd dysgu difrifol, yn byw mewn cartref gofal. Mae ganddo broblemau â'i ddannedd sy'n achosi llawer o boen iddo, ond mae'n gwrthod agor ei geg fel y gellir glanhau ei ddannedd.

Mae'r staff yn awgrymu y byddai'n syniad da rhoi anesthetig cyffredinol i Pedro o bryd i'w gilydd fel y gall deintydd lanhau ei ddannedd a llenwi unrhyw dyllau. Mae ei fam yn poeni am effeithiau anesthetig, ond mae'n gas ganddi ei weld mewn gofid ac mae'n awgrymu yn lle hynny y dylid rhoi lladdwyr poen cryf iddo pan fo eu hangen.

Er ei bod yn bwysig ystyried barn mam Pedro a'i ofalwyr wrth ganfod pa ddull o weithredu a fyddai er y budd gorau iddo, ni cheir seilio'r penderfyniad ar ystyriaeth i'r hyn a fyddai'n peri llai o ofid iddynt hwy. Yn hytrach, rhaid canolbwyntio wrth wneud y penderfyniad ar yr hyn sydd er y budd gorau i Pedro.

Ar ôl siarad ag eraill, mae'r deintydd yn ceisio darganfod dulliau o gynnwys Pedro yn y broses penderfynu, gyda chymorth ei weithiwr allweddol ac eiriolwr, er mwyn ceisio cael gwybod beth yw achos a lleoliad y broblem ac egluro iddo eu bod yn ceisio atal y boen. Mae'r deintydd yn ceisio darganfod a fyddai unrhyw fathau eraill o ofal deintyddol yn well, fel cegolch neu gwm deintyddol.

Mae'r deintydd yn dod i'r casgliad mai'r hyn a fyddai er y budd gorau i Pedro yw:

- gwneud archwiliad priodol dan anesthetig fel y gellir darparu triniaeth ar unwaith
- i'r tîm gofal adolygu dewisiadau ar gyfer ei ofal deintyddol yn y dyfodol, gan gynnwys Pedro yn y broses honno i'r graddau mwyaf posibl.

Pwy a gaiff fod yn wneuthurwr penderfyniad?

- 5.8 Dan y Ddeddf, gallai fod yn ofynnol i lawer o wahanol bobl wneud penderfyniadau neu weithredu ar ran rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun. Yr enw a roddir ar y person sy'n gwneud y penderfyniad yn y bennod hon, ac mewn rhannau eraill o'r Cod, yw y 'gwneuthurwr penderfyniad', a chyfrifoldeb y gwneuthurwr penderfyniad yw canfod beth fyddai er y budd gorau i'r person sydd heb allu.

- Yn achos y rhan fwyaf o'r penderfyniadau neu weithredoedd a geir o ddydd i ddydd, y gwneuthurwr penderfyniad fydd y gofalwr sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â'r person ar y pryd.
- Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â darparu triniaeth feddygol, y meddyg neu aelod arall o'r staff gofal iechyd sy'n gyfrifol am gyflawni'r driniaeth neu'r weithdrefn benodol fydd y gwneuthurwr penderfyniad.
- Os darperir gofal gan nyrs neu ofalwr cyflogedig, y nyrs neu'r gofalwr cyflogedig fydd y gwneuthurwr penderfyniad.
- Os yw Atwrneiaeth Arhosol (neu Atwrneiaeth Barhaus) wedi'i gwneud a'i chofrestru, neu os penodwyd dirprwy dan orchymyn llys, yr atwrnai neu'r dirprwy fydd y gwneuthurwr penderfyniad, yn achos penderfyniadau sydd o fewn cwmpas eu hawdurdod.

5.9 Mae hyn yn golygu y byddai amryw o wneuthurwyr penderfyniad gwahanol yn gallu bod yn gysylltiedig â rhywun sydd heb allu i wneud gwahanol benderfyniadau.

5.10 Mewn rhai achosion, gallai'r un person wneud gwahanol fathau o benderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun. Er enghraifft, gallai gofalwr teuluol gyflawni rhai gweithredoedd wrth ofalu am y person o ddydd i ddydd, ond os yw hefyd yn atwrnai, sydd wedi'i benodi dan Atwrneiaeth Arhosol, gallai hefyd wneud penderfyniadau penodol sy'n ymwneud ag eiddo a materion personol y person neu ei les personol (yn ôl pa benderfyniadau y mae'r Atwrneiaeth Arhosol wedi'i threfnu i'w cynnwys).

5.11 Ceir adegau hefyd pan allai nifer o bobl wneud penderfyniad ar y cyd. Er enghraifft, wrth lunio cynllun gofal ar gyfer rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol, gallai gwahanol staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol fod yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau neu argymhellion ar becyn gofal y person sydd dan sylw. Gwneir y penderfyniadau hynny weithiau gan dîm o staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol fel cyfangorff. Ar adegau eraill, gwneir y penderfyniad gan unigolyn penodol yn y tîm. Wedyn gallai aelod gwahanol o'r tîm roi'r penderfyniad hwnnw ar waith, ar sail canfyddiad y tîm o'r hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn.

5.12 Pwy bynnag sy'n gwneud y penderfyniad, y peth pwysicaf yw bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ceisio canfod beth fyddai er y budd gorau i'r person sydd heb allu.

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

Senario: Dod i benderfyniad ar y cyd

Mae Jack yn ddyn ifanc sydd wedi cael anaf i'w ymennydd. Nid yw'n meddu ar allu i gydsynio i dderbyn rhaglen adsefydlu sydd â'r amcan o wella ei gyflwr. Ond mae'r staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gofalu amdano'n credu ei bod yn amlwg bod arno angen y rhaglen, ac maent wedi cael y cyllid angenrheidiol gan yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol.

Fodd bynnag, mae teulu Jack am fynd ag ef adref o'r ysbyty gan eu bod yn credu y gallant ddarparu gwell gofal ar ei gyfer gartref.

Cynhelir cynhadledd achos ar 'y budd gorau', gan gynnwys Jack, ei rieni ac aelodau eraill o'i deulu a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, er mwyn penderfynu pa ddull o weithredu a fyddai er y budd gorau i Jack.

Datblygir cynllun i alluogi Jack i fyw gartref, ac i ddod i'r ysbyty dydd bob diwrnod o'r wythnos. Mae Jack yn ymddangos yn fodlon ar yr argymhellion ac mae'r gofalwyr teuluol a'r staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u bodloni bod y cynllun er y budd gorau iddo.

Beth mae'n rhaid ei ystyried wrth geisio canfod y budd gorau i rywun?

5.13 Gan fod pob achos – a phob penderfyniad – yn wahanol, ni all y gyfraith nodi'r holl ffactorau y bydd angen eu hystyried wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun. Ond mae adran 4 o'r Ddeddf yn nodi rhai ffactorau cyffredin y mae'n rhaid eu hystyried bob amser wrth geisio canfod beth sydd er y budd gorau i rywun. Mae crynodeb o'r ffactorau hynny yn y rhestr wirio isod:

- Ni cheir canfod beth sydd er y budd gorau i rywun ar sail ei oed, ei ymddangosiad, ei gyflwr neu ei ymddygiad yn unig (gweler paragraffau 5.16–5.17).
- Dylid ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun (paragraffau 5.18–5.20).
- Dylid gwneud pob ymdrech i gymell a galluogi'r person sydd heb allu i gymryd rhan wrth wneud y penderfyniad (paragraffau 5.21–5.24).
- Os oes posibilrwydd y bydd y person yn adennill y gallu i wneud penderfyniad penodol, gallai fod yn bosibl gohirio'r penderfyniad os nad yw'n un brys (paragraffau 5.25–5.28).

- Mae ystyriaethau arbennig yn gymwys i benderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd (paragraffau 5.29–5.36).
- Dylid ystyried dymuniadau a theimladau'r person, a'i gredoau a'i werthoedd, yn awr ac yn y gorffennol (paragraffau 5.37–5.48).
- Dylid ystyried barn pobl eraill sy'n agos i'r person sydd heb allu, yn ogystal â barn atwrnai neu ddirprwy (paragraffau 5.49–5.55).

Mae'n bwysig peidio â thorri corneli wrth ganfod beth sydd er y budd gorau, a rhaid gwneud asesiad priodol a gwrthrychol ar bob achlysur. Os yw'r penderfyniad yn un brys, mae'n bosibl na fydd digon o amser i ystyried pob ffactor posibl, ond mae rheidrwydd o hyd i wneud y penderfyniad er y budd gorau i'r person sydd heb allu. Ni fydd yr holl ffactorau sydd ar y rhestr wirio yn berthnasol i bob math o benderfyniad neu weithred, ac mewn llawer achos bydd yn rhaid ystyried ffactorau eraill hefyd, er ei bod yn bosibl y ceir bod llawer ohonynt yn amherthnasol wedyn.

5.14 Mae'n ddigon posibl y bydd newid dros amser o ran yr hyn sydd er y budd gorau i rywun. Oherwydd hynny, hyd yn oed os oes angen cymryd camau tebyg dro ar ôl tro mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth y person dan sylw, dylid adolygu sefyllfa'r person yn rheolaidd er mwyn canfod beth sydd er y budd gorau iddo.

5.15 Dylai unrhyw staff sy'n ymwneud â gofalu am rywun sydd heb allu gymryd camau i sicrhau y cedwir cofnod o'r broses o ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person hwnnw ar gyfer pob penderfyniad perthnasol, gan nodi:

- sut y daethpwyd i'r penderfyniad am beth oedd er y budd gorau i'r person
- beth oedd y rhesymau dros ddod i'r penderfyniad
- pwy yr ymgynghorwyd â hwy i gael cymorth i ganfod beth oedd er y budd gorau
- pa ffactorau penodol a ystyriwyd.

Dylai'r cofnod hwn aros ar ffeil yr unigolyn.

Yn achos penderfyniadau pwysig sy'n seiliedig ar yr hyn sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu, gallai fod yn fuddiol hefyd i ofalwyr teuluol a gofalwyr eraill gadw cofnod tebyg.

Pa fesurau diogelu y mae'r Ddeddf yn eu cynnig ynghylch canfod beth sydd er y budd gorau i rywun?

- 5.16** Mae adran 4(1) yn datgan nad yw unrhyw sy'n ceisio canfod beth sydd er y budd gorau i rywun i ffurfio rhagdybiaethau di-sail am yr hyn a allai fod er y budd gorau iddo dim ond ar sail ei oed, ei ymddangosiad, ei gyflwr neu unrhyw agwedd ar ei ymddygiad. Drwy hyn, mae'r Ddeddf yn sicrhau na fydd pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun yn profi gwahaniaethu neu'n cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw un arall.
- 5.17** Mae ymddangosiad (*'appearance'*) yn derm cynhwysfawr ac mae'n cyfeirio at bob agwedd ar ymddangosiad corfforol, gan gynnwys lliw'r croen, ffasiwn dillad ac unrhyw broblemau meddygol gweladwy, creithiau sy'n anffurfio neu unrhyw anableddau eraill. Mae cyflwr (*'condition'*) rhywun hefyd yn cwmpasu amryw o ffactorau gan gynnwys anableddau corfforol, anawsterau neu anableddau dysgu, salwch sy'n gysylltiedig â henaint neu gyflyrau dros dro (fel meddwdod neu ddiffyg ymwybyddiaeth). Mae ymddygiad (*'behaviour'*) yn cyfeirio at ymddygiad a allai ymddangos yn anarferol i eraill, fel siarad yn rhy uchel neu chwerthin pan fo hynny'n amhriodol.

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

Senario: Dilyn y rhestr wirio

Mae Martina, menyw oedrannus sydd â demensia, yn dechrau esgeuluso ei hymddangosiad a'i hylendid personol a daethpwyd o hyd iddi sawl gwaith yn crwydro yn y stryd ac yn methu â dod o hyd i'r ffordd i fynd adref. Mae ei gweithwyr gofal yn poeni nad yw Martina bellach yn meddu ar allu i wneud penderfyniadau priodol mewn cysylltiad â'i gofal o ddydd i ddydd. Ei merch yw ei hatwrnai lles personol ac mae'n credu ei bod wedi dod yn bryd gweithredu dan yr Atwrneiaeth Arhosol.

Mae'n cymryd mai'r hyn a fyddai er y budd gorau i Martina yw ei symud i gartref gofal, gan y byddai'r staff yn gallu ei helpu i ymolchi a gwisgo amdani'n drwsiadus a'i hatal rhag mynd i grwydro.

Er hynny, ni ellir rhagdybio *dim ond ar sail ei hoed, ei chyflwr, ei hymddangosiad neu ei hymddygiad* un ai nad yw Martina yn meddu ar allu i wneud penderfyniad o'r fath neu y byddai er y budd gorau iddi symud i gartref gofal.

Yn lle hynny, rhaid cymryd camau i asesu ei gallu. Os cytunir wedyn nad yw Martina yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad hwn, rhaid ystyried yr holl ffactorau perthnasol yn rhestr wirio'r budd gorau er mwyn ceisio canfod beth fyddai er y budd gorau iddi.

Felly rhaid i'w merch ystyried:

- dymuniadau a theimladau Martina yn awr ac yn y gorffennol
- barn y bobl sy'n ymwneud â'i gofal
- unrhyw ddulliau eraill o fodloni ei hanghenion o ran gofal yn effeithiol a allai gyfyngu i lai o raddau ar hawliau a rhyddid Martina, fel mwy o ddarpariaeth o ofal cartref neu fynychu canolfan dydd.

Drwy ddilyn y broses hon, gall merch Martina wneud penderfyniadau ar ran ei mam wedyn a hynny er y budd gorau iddi, pan fydd ei mam heb allu i'w gwneud drosti ei hun, ar unrhyw faterion sy'n dod dan awdurdod yr Atwrneiaeth Arhosol.

Sut mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn canfod beth yw'r holl amgylchiadau perthnasol ('*all relevant circumstances*')?

- 5.18 Wrth geisio canfod beth sydd er y budd gorau i rywun, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad geisio dynodi beth yw'r holl faterion a fyddai'n fwyaf perthnasol i'r unigolyn sydd heb allu ac i'r penderfyniad

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

sydd dan sylw, yn ogystal â'r rhai sydd ar y 'rhestr wirio'. Wrth gwrs, nid yw bob amser yn bosibl nac yn ymarferol ymchwilio'n fanwl i bob mater a allai fod yn berthnasol mewn rhyw fodd i'r person sydd heb allu neu i'r penderfyniad dan sylw. Felly mae adran 4(11) o'r Ddeddf yn diffinio amgylchiadau perthnasol fel rhai:

'(a) y mae'r person sy'n gwneud y penderfyniad yn ymwybodol ohonynt, a

(b) y byddai'n rhesymol eu hystyried yn berthnasol'

5.19 Wrth gwrs, bydd yr amgylchiadau sy'n berthnasol yn amrywio rhwng y naill achos a'r llall. Er enghraifft, wrth wneud penderfyniad am driniaeth feddygol sylweddol, byddai angen i feddyg ystyried anghenion clinigol y claf, buddion a beichiau posibl y driniaeth ar gyfer iechyd y person a'i ddisgwyliad einioes ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol wrth wneud dyfarniad proffesiynol¹⁶. Ond ni fyddai'n rhesymol ystyried materion fel disgwyliad einioes wrth geisio canfod a fyddai er y budd gorau i rywun roi meddyginiaeth iddo i drin mân anhwylder.

5.20 Mae penderfyniadau ariannol yn faes arall lle bydd yr amgylchiadau perthnasol yn amrywio. Er enghraifft, os yw rhywun wedi cael swm sylweddol o arian yn ddigollediad am ddamwain a oedd wedi achosi anaf i'r ymennydd, byddai'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried llawer o fathau o amgylchiadau wrth wneud penderfyniadau am y modd i wario neu fuddsoddi'r arian, fel:

- a yw cyflwr y person yn debygol o newid
- a oes angen gofal proffesiynol ar y person
- a oes angen i'r person fyw yn rhywle arall i'w gwneud yn haws iddo.

Rhaid penderfynu ar faterion o'r fath ym mhob achos ar wahân.

Sut y dylai'r person sydd heb allu gymryd rhan wrth ganfod beth sydd er y budd gorau iddo?

5.21 Lle bynnag y bo modd, dylid parhau i gynnwys y person sydd heb allu i wneud penderfyniad yn y broses penderfynu (adran 4(4)).

5.22 Hyd yn oed os nad yw'r person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad, mae'n bosibl y bydd ganddo farn am faterion sy'n effeithio ar y penderfyniad, ac am ba ganlyniad a fyddai orau ganddo. Gellir cael cymorth drwy ei gynnwys i ganfod beth fyddai er y budd gorau iddo.

¹⁶ *An Hospital NHS Trust v S* [2003] EWHC 365 (Fam), paragraff 47

5.23 Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad sicrhau y defnyddir pob modd ymarferol i alluogi ac annog yr unigolyn i gymryd rhan i'r graddau mwyaf posibl yn y broses penderfynu ac unrhyw gamau a gymerir o ganlyniad iddi, neu i helpu'r unigolyn i wella ei allu i gymryd rhan.

5.24 Bydd angen cymryd amser wrth ymgynghori â'r un sydd heb allu i egluro beth sy'n digwydd a pham y mae angen gwneud penderfyniad. Ym mhennod 3 nodir nifer o gamau ymarferol i hwyluso a chreu modd i benderfynu a allai fod o gymorth hefyd wrth gymell yr unigolyn i gymryd rhan i fwy o raddau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnyddio iaith syml a/neu luniau neu ffotograffau i helpu'r person i ddeall y dewisiadau
- ei holi am y penderfyniad ar adeg ac mewn lleoliad lle mae'r person yn teimlo'n fwyaf cartrefol
- rhannu'r wybodaeth yn bwyntiau hawdd eu deall
- defnyddio cyfieithwyr neu ddefnyddwyr iaith arwyddion i gyfathrebu â'r unigolyn.

Gallai hynny olygu y bydd angen i bobl eraill gyfathrebu â'r unigolyn i gael gwybod ei farn. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd ffrind neu berthynas dibynadwy, neu ofalwr llawn amser neu eiriolwr yn gallu helpu'r person i fynegi ei ddymuniadau neu ei ddyheadau neu i nodi beth sydd orau ganddo o blith nifer o ddewisiadau.

Ceir mwy o wybodaeth am bob un o'r camau hyn ym mhennod 3.

Senario: Cynnwys rhywun wrth ganfod beth sydd er y budd gorau iddo

Mae rhieni Amy, menyw ifanc sydd ag anawsterau dysgu, yng nghanol cael ysgariad ac maent yn dadlau ynghylch pwy a ddylai barhau i ofalu am eu merch. Er nad yw'n gallu deall beth sy'n digwydd, gwneir ymdrech i weld a yw Amy yn gallu rhoi rhyw arwydd o ble y byddai'n well ganddi fyw.

Penodir eiriolwr i weithio gydag Amy i'w helpu i ddeall y sefyllfa ac i gael gwybod beth yw ei hoff bethau a'i chas bethau a materion sy'n bwysig ganddi. Gyda chymorth yr eiriolwr, mae Amy yn gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau am ei gofal yn y dyfodol.

Sut mae'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn adennill ac yn datblygu gallu yn effeithio ar y dull o ganfod beth sydd er y budd gorau iddo?

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

5.25 Ceir rhai sefyllfaoedd lle y gellir gohirio penderfyniadau, os oes posibilrwydd y bydd rhywun sydd heb allu ar y pryd yn adennill y gallu i wneud y penderfyniad drosto'i hun. Mae adran 4(3) o'r Ddeddf yn mynnu bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ystyried:

- a yw'r unigolyn dan sylw'n debygol o adennill y gallu i wneud y penderfyniad penodol hwnnw yn y dyfodol, ac
- os ydyw, pa bryd y mae hynny'n debygol o ddigwydd.

Efallai y bydd modd gohirio'r penderfyniad wedyn hyd nes y bydd yr unigolyn yn gallu ei wneud drosto'i hun.

5.26 Mewn sefyllfaoedd brys – fel rhai lle mae angen rhoi triniaeth feddygol ar frys – efallai na fydd modd aros i weld a fydd yr unigolyn yn adennill gallu fel y bydd yn medru penderfynu drosto'i hun a wnaiff dderbyn y driniaeth frys ai peidio.

5.27 Os yw rhywun heb allu ar y pryd i wneud penderfyniad sy'n ymwneud â'i ofal o ddydd i ddydd, mae'n bosibl y bydd – dros amser ac o gael y cymorth priodol – yn gallu datblygu'r sgiliau i wneud hynny. Er ei bod yn bosibl y bydd angen i eraill wneud y penderfyniad ar ran y person ar y pryd, dylid rhoi pob cefnogaeth bosibl i'r person hwnnw i'w alluogi i ddatblygu'r sgiliau fel y bydd modd iddo wneud y penderfyniad drosto'i hun yn y dyfodol.

Senario: Gwneud penderfyniad tymor byr ar ran rhywun a allai adennill gallu

Mae Mr Fowler wedi cael strôc sydd wedi'i adael ag anabledd difrifol a heb y gallu i siarad. O fewn dyddiau, mae wedi dangos arwyddion o welliant, felly mae gobaith, o gael triniaeth ddwys, y bydd yn ymadfer dros amser. Ond ar hyn o bryd, mae ei wraig a staff yr ysbyty yn ei chael yn anodd cyfathrebu ag ef ac nid ydynt wedi gallu cael gwybod beth yw ei ddymuniadau.

Ef sydd wedi gofalu am faterion ariannol y teulu erioed, felly mae Mrs Fowler yn darganfod yn fwyaf sydyn nad yw'n gallu mynd i'w gyfrif banc personol i ddarparu arian i'r teulu i fyw o ddydd i ddydd neu dalu biliau. Gan nad oes modd gohirio'r penderfyniad wrth geisio cael dull effeithiol o gyfathrebu â Mr Fowler, gwneir cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn sy'n caniatáu i Mrs Fowler gael mynediad at arian Mr Fowler.

Mae'r penderfyniad am drefniadau tymor hwy, ar y llaw arall, yn un y gellir ei ohirio nes y rhoddir cynnig ar ddulliau eraill o gyfathrebu a chael gwybod i ba raddau y bydd Mr Fowler yn ymadfer.

5.28 Rhai ffactorau sy'n dangos y gallai rhywun adennill neu ddatblygu gallu yn y dyfodol yw:

- y gellir trin achos y diffyg gallu, un ai drwy feddyginiaeth neu ryw fath arall o driniaeth neu therapi
- bod y diffyg gallu'n debygol o leihau ymhen amser (er enghraifft, os yw wedi'i achosi gan effeithiau meddyginiaeth neu alcohol, neu os yw'n dilyn sioc sydyn)
- ei bod yn bosibl y bydd rhywun sydd ag anableddau dysgu yn gallu dysgu sgiliau newydd neu gael profiadau newydd a fydd yn rhoi mwy o ddealltwriaeth iddo fel y gall wneud rhai penderfyniadau
- y gallai'r person fod â chyflwr sy'n peri i allu fynd a dod ar wahanol adegau (fel rhai mathau o salwch meddwl) felly gallai fod yn bosibl trefnu i wneud y penderfyniad yn ystod cyfnod pan fydd yn meddu ar allu
- bod rhywun nad oedd yn medru cyfathrebu cynt yn gallu dysgu modd newydd i gyfathrebu (gweler pennod 3).

Sut y dylid canfod beth sydd er y budd gorau i rywun wrth wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd?

- 5.29** Ceir ffactor arbennig yn y rhestr wirio sy'n gymwys i benderfyniadau am driniaeth sy'n angenrheidiol i gadw'r person yn fyw ('triniaeth cynnal bywyd') a nodir hynny yn adran 4(5) o'r Ddeddf. Y rheol sylfaenol yw nad yw rhywun sy'n penderfynu a yw triniaeth cynnal bywyd er y budd gorau i rywun sydd heb allu i gydsynio i dderbyn neu i wrthod triniaeth o'r fath i gael ei ysgogi gan awydd i beri marwolaeth y person hwnnw.
- 5.30** Wrth bennu a yw triniaeth yn 'driniaeth cynnal bywyd' ai peidio, rhaid ystyried math y driniaeth a hefyd yr amgylchiadau penodol lle y gellid ei rhagnodi. Er enghraifft, mewn rhai sefyllfaoedd byddai rhoi gwrthfotigau'n fodd i gynnal bywyd, tra defnyddir gwrthfotigau mewn amgylchiadau eraill i drin cyflyrau nad ydynt yn peryglu bywyd. Lle'r meddyg neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n darparu triniaeth yw asesu ym mhob sefyllfa benodol a yw'r driniaeth yn un sy'n cynnal bywyd.
- 5.31** Dylid cymryd pob cam rhesymol sydd er y budd gorau i'r unigolyn i ymestyn ei einioes. Bydd nifer bach o achosion lle bydd y driniaeth yn aneffeithiol, yn ormod o faich i'r claf neu lle nad oes rhagolwg am adferiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl y bydd asesiad o'r hyn sydd er y budd gorau yn arwain at y casgliad mai'r hyn a fyddai er y budd gorau i'r claf yw gwrthod rhoi neu dynnu'n ôl triniaeth cynnal bywyd, hyd yn oed os gallai hynny arwain at farwolaeth y person dan sylw. Rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad wneud penderfyniad ar sail yr hyn sydd er y budd gorau i'r person sydd heb allu. Nid yw i gael ei ysgogi gan awydd i beri marwolaeth y person dan sylw am ba bynnag reswm, hyd yn oed os yw hynny'n deillio o ymdeimlad o dosturi. Dylai staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gyfeirio hefyd at ganllawiau proffesiynol perthnasol wrth wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth cynnal bywyd.
- 5.32** Yn yr un modd â phob penderfyniad arall, cyn penderfynu gwrthod rhoi neu dynnu'n ôl triniaeth cynnal bywyd, rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried y dewis o driniaethau sydd ar gael er mwyn canfod beth a fyddai er y budd gorau i'r person dan sylw. Dylid ystyried yr holl ffactorau yn rhestr wirio'r budd gorau ac, yn benodol, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried unrhyw ddatganiadau a wnaeth y person o'r blaen am ei ddymuniadau a'i deimladau am driniaeth cynnal bywyd.

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

- 5.33 Mae'n bwysig nodi na ellir dehongli adran 4(5) fel ei bod yn golygu bod meddygon dan orfodaeth i ddarparu, neu barhau i ddarparu, triniaeth cynnal bywyd os nad yw triniaeth o'r fath er y budd gorau i'r person dan sylw, hyd yn oed os rhagwelir y bydd y person yn marw. Rhaid i feddygon gymhwyso rhestr wirio'r budd gorau a defnyddio eu sgiliau proffesiynol i benderfynu a yw triniaeth cynnal bywyd er y budd gorau i rywun. Os oes dadl ynghylch asesiad y meddyg, ac os nad oes modd arall i ddatrys yr anghydfod, gellir gofyn yn y pen draw i'r Llys Gwarchod benderfynu beth sydd er y budd gorau i'r person dan sylw.
- 5.34 Os yw rhywun wedi gwneud datganiad ysgrifenedig ymlaen llaw sy'n gofyn am driniaethau meddygol penodol, fel maethu a hydradu artiffisial, dylai'r meddyg sy'n rhoi triniaeth ystyried y ceisiadau hynny yn yr un modd â cheisiadau a wneir gan glaf sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau o'r fath. Fel pawb arall sydd â rhan mewn gwneud y penderfyniad hwn, rhaid i'r meddyg bwysu a mesur datganiadau ysgrifenedig ochr yn ochr â'r holl ffactorau perthnasol eraill i benderfynu a yw er y budd gorau i'r claf ddarparu neu barhau i ddarparu triniaeth cynnal bywyd.
- 5.35 Os yw rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd, mae rheolau penodol i'w cymhwyso. Mae mwy o wybodaeth am y rhain ym mhennod 9 ac ym mharagraff 5.45 isod.
- 5.36 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.33 uchod, os oes unrhyw amheuaeth ynghylch beth sydd er y budd gorau i'r claf, dylid gwneud cais i'r Llys Gwarchod am benderfyniad ynghylch a yw gwrthod rhoi neu dynnu'n ôl triniaeth cynnal bywyd er y budd gorau i'r claf.

Sut y mae dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd rhywun yn effeithio ar y dull o ganfod beth sydd er y budd gorau iddo?

- 5.37 Mae adran 4(6) o'r Ddeddf yn mynnu bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ystyried, hyd y gellir eu casglu'n rhesymol ('*reasonably ascertainable*')

(a) dymuniadau'r person yn awr ac yn y gorffennol (ac yn benodol, unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig perthnasol a wnaeth pan oedd yn meddu ar allu),

(b) y credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar ei benderfyniad pe byddai'n meddu ar allu, ac

(c) y ffactorau eraill y byddai'n debygol o'u hystyried pe byddai'n gallu gwneud hynny.'

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

Mae paragraffau 5.38–5.48 isod yn cynnig canllawiau pellach ar bob un o'r ffactorau hyn.

- 5.38** Wrth nodi'r gofynion ar gyfer canfod beth sydd er y budd gorau i rywun, mae adran 4 o'r Ddeddf yn rhoi'r person sydd heb allu ar ganol y penderfyniad sydd i'w wneud. Hyd yn oed os nad yw'n gallu gwneud y penderfyniad, rhaid rhoi pob ystyriaeth i'w ddymuniadau a'i deimladau, ei gredoau a'i werthoedd – pa un a fynegwyd hwy yn y gorffennol neu ar y pryd. Ond mae'n bosibl nad ei ddymuniadau a'i deimladau, ei gredoau a'i werthoedd fydd y ffactor tyngedfennol wrth ganfod beth sydd er y budd gorau iddo. Mewn unrhyw asesiad o'r fath, rhaid ystyried dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd yn y gorffennol a'r presennol ochr yn ochr â'r holl ffactorau eraill, ond rhaid i'r penderfyniad terfynol fod wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar yr hyn sydd er y budd gorau i'r person dan sylw.

Senario: Ystyried dymuniadau a theimladau o ran yr hyn sydd er y budd gorau

Mae Andre, dyn ifanc ag anableddau dysgu difrifol nad yw'n defnyddio unrhyw system gyfathrebu ffurfiol, yn agor ei goes pan yw yn yr awyr agored. Mae ychydig o bridd yn mynd i'r clwyf. Mae meddyg am roi pigiad tetanws iddo, ond mae'n ymddangos bod ar Andre ofn y nodwydd ac mae'n ei gwthio oddi wrtho. Mae asesiadau wedi dangos nad yw'n gallu deall y perygl o gael haint ar ôl yr anaf, na'r canlyniadau o wrthod y chwistrelliad.

Mae'r meddyg yn penderfynu ei bod er y budd gorau i Andre roi'r brechlyn iddo. Mae'n gofyn i nyrs gysuro Andre ac, os oes angen, ei atal tra bydd yn rhoi'r chwistrelliad iddo. Mae gan y meddyg resymau gwrthrychol dros gredu ei bod yn gweithredu er y budd gorau i Andre, a thros gredu bod Andre heb allu i wneud y penderfyniad drosto'i hun. Felly dylai fod wedi'i hamddiffyn rhag atebolrwydd dan adran 5 o'r Ddeddf (gweler pennod 6).

Beth yw rhywbeth y gellir ei gasglu'n rhesymol ('reasonably ascertainable')?'

- 5.39** Yr amgylchiadau a'r amser sydd ar gael a fydd yn pennu faint y gall rhywun ei ddysgu am farn y person yn awr ac yn y gorffennol. Mae dysgu'r hyn y gellir ei gasglu'n rhesymol yn golygu ystyried yr holl wybodaeth y gellir ei chael yn yr amser sydd ar gael. Bydd yr hyn sydd ar gael mewn argyfwng yn wahanol i'r hyn sydd ar gael mewn sefyllfaoedd eraill. Ond hyd yn oed mewn argyfwng, mae'n bosibl y

bydd cyfle o hyd i geisio cyfathrebu â'r unigolyn neu ei ffrindiau, ei deulu neu ei ofalwyr (gweler pennod 3 lle y ceir canllawiau ar hwyluso cyfathrebu).

Pa ran sydd i ddymuniadau a theimladau'r person yn y presennol a'r gorffennol?

- 5.40 Os nad yw rhywun yn gallu mynegi ei ddymuniadau a'i deimladau presennol mewn geiriau, mae'n bosibl y bydd yn ei fynegi ei hun drwy ei ymddygiad. Bydd mynegiadau o bleser neu ofid ac ymatebion emosiynol yn berthnasol hefyd wrth ganfod beth sydd er y budd gorau iddo. Mae hefyd yn bwysig bod yn sicr nad yw pobl eraill wedi dylanwadu ar farn yr unigolyn. Gallai eiriolwr roi cymorth i'r person ddewis a mynegi ei farn.
- 5.41 Mae'n bosibl bod y person wedi arddel safbwynt pendant yn y gorffennol a allai fod yn berthnasol i'r penderfyniad sydd i'w wneud yn awr. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i ddarganfod a yw'r unigolyn wedi mynegi barn yn y gorffennol a fydd yn dylanwadu ar y penderfyniad sydd i'w wneud. Gallai hynny fod wedi digwydd drwy gyfathrebu ar lafar, drwy ysgrifennu, ymddygiad neu arferion, neu drwy ei chofnodi mewn modd arall (er enghraifft, fideos neu dapiau clywedol a wnaed gartref).
- 5.42 Mae adran 4(6)(a) yn rhoi pwyslais arbennig ar ddatganiadau ysgrifenedig y gallai'r person fod wedi'u gwneud cyn colli gallu. Gallai'r rhain roi llawer o wybodaeth am ddymuniadau rhywun. Er enghraifft, gallai datganiadau o'r fath gynnwys gwybodaeth am y math o driniaeth feddygol y byddai am ei chael os byddai'n sâl yn y dyfodol, ym mhle y byddai'n well ganddo fyw, neu'r math o ofal y mae'n dymuno ei gael.
- 5.43 Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad roi ystyriaeth fanwl i ddatganiadau ysgrifenedig. Os na fydd ei benderfyniad yn unol â rhywbeth y mae'r person wedi'i nodi mewn ysgrifennu, rhaid iddo gofnodi'r rhesymau am hynny. Dylai allu cyfiawnhau ei resymau os bydd rhywun yn herio ei benderfyniad.
- 5.44 Dylai meddyg roi'r un pwys ar ddatganiadau ysgrifenedig a wnaeth rhywun cyn colli gallu sy'n gofyn am driniaethau penodol ag y byddai ar y rhai a wneir gan bobl sydd â gallu ar y pryd i wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth. Ond ni fyddai'n rhaid iddo gydymffurfio â chais ysgrifenedig os yw o'r farn na fyddai angen clinigol am y driniaeth neu y byddai'n amhriodol i drin cyflwr y person dan sylw, ac felly heb fod er y budd gorau iddo.

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

5.45 Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng datganiad ysgrifenedig sy'n mynegi'r hyn sydd orau gan rywun o ran triniaeth a datganiad sy'n gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Ymdrinnir â hynny yn adran 24 o'r Ddeddf, ac mae i ddatganiad o'r fath statws gwahanol dan y gyfraith. Ni chaiff meddygon anwybyddu datganiad ysgrifenedig sy'n benderfyniad ymlaen llaw dilys i wrthod triniaeth. Rhaid gweithredu'n unol â phenderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth os yw'n bodloni gofynion y Ddeddf ac os yw'n gymwys i amgylchiadau'r person dan sylw. Mewn achosion o'r fath, ni cheir rhoi'r driniaeth (gweler pennod 9 i gael mwy o wybodaeth). Os nad oes penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwysadwy, dylid darparu triniaeth ar sail yr hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn.

Pa ran sydd i gredoau a gwerthoedd?

5.46 Mae'r gwerthoedd a'r credoau sydd gan bawb yn dylanwadu ar y penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Gallant ddod yn arbennig o bwysig i rywun sydd heb allu i wneud penderfyniad oherwydd salwch cynyddol fel demensia, er enghraifft. Gellir cael tystiolaeth o gredoau a gwerthoedd rhywun mewn pethau fel:

- eu cefndir diwylliannol
- eu credoau crefyddol
- eu daliadau gwleidyddol, neu
- eu hymddygiad neu eu harferion yn y gorffennol.

Bydd rhai pobl yn nodi eu gwerthoedd a'u credoau mewn datganiad ysgrifenedig tra bydd ganddynt allu.

Senario: Ystyried credoau a gwerthoedd

Mae Anita, sy'n fenyw ifanc, yn cael niwed difrifol i'w hymennydd mewn damwain car. Mae'r llys yn penodi ei thad yn ddirprwy i fuddsoddi'r digollediad a gafodd. Fel y gwneuthurwr penderfyniad, rhaid iddo ystyried ei dymuniadau, ei chredoau a'i gwerthoedd cyn penderfynu sut i fuddsoddi'r arian.

Roedd Anita wedi gweithio dros elusen dramor. Mae ei thad yn siarad â'r rhai a fu'n gydweithwyr iddi. Maent yn dweud wrtho sut yr oedd credoau gwleidyddol Anita wedi dylanwadu ar ei gwaith a'i chredoau personol, felly mae'n penderfynu peidio â buddsoddi yn y bondiau yr oedd cynghorydd ariannol wedi'u hargymell, am eu bod yn rhai o eiddo cwmnïau na fyddai Anita wedi'u cymeradwyo. Yn lle hynny, mae'n cyflogi cynghorydd ar fuddsoddi moesegol i ddewis cwmnïau priodol yn unol â'i chredoau.

Pa ffactorau eraill y dylai'r gwneuthurwr penderfyniad eu hystyried?

5.47 Mae adran 4(6)(c) o'r Ddeddf yn mynnu bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ystyried unrhyw ffactorau eraill y byddai'r person sydd heb allu'n eu hystyried pe byddai'n gallu. Gallai hynny gynnwys effaith y penderfyniad ar bobl eraill, rhwymedigaethau mewn cysylltiad â rhai sy'n ddibynnol arnynt neu ddyletswyddau'r dinesydd cyfrifol.

5.48 Mae'r Ddeddf yn caniatáu gweithredoedd sy'n llesol i bobl eraill, ar yr amod eu bod er y budd gorau i'r person sydd heb allu i wneud y penderfyniad. Er enghraifft, ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos dan sylw, gellid penderfynu cymryd sampl o waed rhywun sydd heb allu i gydsynio i hynny, er mwyn gweld a oes cyswllt genetig â chanser yn y teulu, gan y gallai hynny ddod â budd i rywun arall yn y teulu. Ond gallai hynny fod er y budd gorau i'r person sydd heb allu o hyd. Mae'r 'budd gorau' yn cynnwys mwy na buddiannau meddygol y person dan sylw.

Er enghraifft, mae llysoedd wedi dyfarnu cyn hyn fod buddion cyffredinol posibl i rywun sydd heb allu i gydsynio, fel y gefnogaeth emosiynol a geir neu a roddir drwy gydberthynas agos, yn ffactorau y mae'n bwysig eu hystyried wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person ei hun¹⁷. Os yw'n debygol y byddai'r un sydd heb allu wedi ystyried y ffactorau hynny ei hun, gellir eu hystyried fel rhan o'r hyn sydd er y budd gorau i'r person dan sylw.

Â phwy y dylid ymgynghori wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun?

5.49 Mae'r Ddeddf yn rhoi'r gwneuthurwr penderfyniad dan ddyletswydd i ymgynghori â phobl eraill sy'n agos i'r un sydd heb allu, os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol, ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr unigolyn a'r hyn a allai fod er y budd gorau iddo. Mae hyn yn gymwys hefyd i'r rhai sy'n ymwneud â gofalu am y person ac yn ymddiddori yn ei les. Dan adran 4(7), mae dyletswydd ar y gwneuthurwr penderfyniad i ystyried barn y rhai canlynol, os yw'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny:

- unrhyw un y mae'r person wedi'i enwi o'r blaen fel un y mae am iddo gael ei gynnwys wrth ymgynghori
- unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am y person

¹⁷ Gweler er enghraifft Re Y (*Mental Incapacity: Bone marrow transplant*) [1996] 2 FLR 787; Re A (*Male Sterilisation*) [2000] 1 FLR 549

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

- unrhyw un sy'n ymddiddori yn ei les (er enghraifft, gofawyr teuluol, perthnasau agos eraill, neu eiriolwr sydd eisoes yn gweithio gyda'r unigolyn)
 - atwrnai sydd wedi'i benodi gan y person dan Atwrneiaeth Arhosol, a
 - dirprwy sydd wedi'i benodi ar gyfer y person hwnnw gan y Llys Gwarchod.
- 5.50** Os nad oes unrhyw un y gellir ei gynnwys wrth drafod beth sydd er y budd gorau i rywun, mae'n bosibl mewn rhai amgylchiadau y bydd y person yn gymwys i gael Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGM). I gael mwy o wybodaeth am EAGMau, gweler pennod 10.
- 5.51** Rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad ddangos ei fod wedi meddwl yn ofalus ynghylch pwy y dylai siarad â hwy. Os yw'n ymarferol ac yn briodol siarad â'r rhai uchod, rhaid iddo wneud hynny ac ystyried eu barn. Rhaid iddo allu egluro pam na siaradodd â rhywun penodol – byddai'n arfer da iddo gadw cofnod clir o'i resymau. Mae hefyd yn arfer da rhoi ystyriaeth fanwl i farn gofawyr teuluol, os oes modd gwneud hynny.
- 5.52** Mae hefyd yn arfer da i staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gofnodi ar ddiwedd y broses pam y maent o'r farn bod penderfyniad penodol er y budd gorau i'r person dan sylw. Mae hynny'n arbennig o bwysig os bydd staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn mynd yn groes i farn rhywun yr ymgynghorwyd ag ef wrth geisio canfod beth oedd er y budd gorau i rywun.
- 5.53** Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad geisio darganfod:
- beth mae'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy'n credu sydd er y budd gorau i'r person yn y mater dan sylw, ac
 - a allant roi gwybodaeth am ddymuniadau a theimladau'r person, a'i gredoau a'i werthoedd.
- 5.54** Mae'n bosibl na fydd gwybodaeth o'r fath ond ar gael gan rywun y mae'r person wedi'i enwi cyn colli ei allu fel un yr oedd yn dymuno iddo gael ei gynnwys wrth ymgynghori. Pobl sy'n agos at y person sydd heb allu, fel aelodau'r teulu agos, yw'r rhai sy'n debygol o'i adnabod orau. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn gallu helpu i gyfathrebu neu ddechongli arwyddion sy'n dangos beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn ar y pryd. Mae barn pob un cyn bwysiced â'i gilydd – hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno â'i gilydd. Rhaid ystyried pob barn ochr yn ochr â barn yr un sydd heb allu a ffactorau eraill. Gweler paragraffau 5.62–5.69 isod lle y ceir canllawiau ar ddelio â barnau croes.

Senario: Ystyried barn pobl eraill

Mae Lucia, sy'n fenyw ifanc a gafodd anaf difrifol i'r ymennydd, yn derbyn gofal gartref gan ei rhieni a bydd yn mynd i ganolfan dydd ddau ddiwrnod yr wythnos. Byddai staff y ganolfan dydd yn hoffi mynd â rhai o'r defnyddwyr gwasanaethau ar wyliau. Maent yn siarad â rhieni Lucia fel rhan o'r broses o asesu a fyddai'r gwyliau er y budd gorau iddi.

Mae ei rhieni'n credu y byddai'r gwyliau'n beth da iddi, ond maent yn poeni am fod Lucia yn mynd yn bryderus iawn os bydd pobl ddieithr o'i chwmpas nad ydynt yn gwybod sut i gyfathrebu â hi. Ar ôl ceisio cael barn Lucia a'i chynnwys yn y penderfyniad, mae'r staff a'r rhieni'n cytuno y byddai gwyliau er y budd gorau iddi, ar yr amod y caiff ei chynorthwydd gofal fynd gyda hi i'w helpu i gyfathrebu.

- 5.55** Os yw atwrnai wedi'i benodi dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus, neu os yw dirprwy wedi'i benodi gan lys, rhaid iddo ef wneud y penderfyniadau ynghylch unrhyw faterion y mae wedi'i benodi i ddelio â hwy. Dylid ymgynghori ag atwrneiod a dirprwyon hefyd, os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol, ar faterion eraill sy'n effeithio ar y person sydd heb allu.

Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd atwrnai sydd wedi'i benodi i ofalu am eiddo a materion personol y person yn unig yn meddu ar wybodaeth am greddoau a gwerthoedd y person, a'i ddymuniadau a'i deimladau, a allai fod o gymorth i ganfod beth fyddai er y budd gorau i'r person mewn cysylltiad â phenderfyniadau am driniaeth neu ofal iechyd. (Gweler penodau 7 ac 8 lle y ceir mwy o wybodaeth am rolau atwrneiod a dirprwyon).

Sut y gall gwneuthurwyr penderfyniad barchu cyfrinachedd?

- 5.56** Rhaid i wneuthurwyr penderfyniad gydbwyso'r ddyletswydd i ymgynghori â phobl eraill yn erbyn hawl y person sydd heb allu i gyfrinachedd. Felly os oes bwriad i drafod gwybodaeth gyfrinachol, ni ddylent ond gofyn barn y rhai y mae'n briodol ymgynghori â hwy, lle mae eu barn yn berthnasol i'r penderfyniad sydd i'w wneud a'r amgylchiadau penodol.
- 5.57** Efallai y ceir achlysuron pan fydd yr hyn sydd er y budd gorau i rywun yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol (er enghraifft, am ei gyflwr meddygol, os yw'r penderfyniad yn ymwneud â darparu triniaeth feddygol) i'r bobl yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses o ganfod

beth sydd er y budd gorau iddo (mae mwy o ganllawiau ar hyn ym mhennod 16). Wrth geisio pennu beth sydd er y budd gorau i rywun, rhaid i staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddilyn eu canllawiau proffesiynol, yn ogystal â chanllawiau perthnasol eraill, ar gyfrinachedd.

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

Pryd y mae egwyddor y budd gorau i'w chymhwyso?

5.58 Mae adran 1(5) o'r Ddeddf yn cadarnhau bod yr egwyddor yn gymwys i unrhyw weithred a gyflawnir, neu unrhyw benderfyniad a wneir, ar ran rhywun os oes cred resymol bod y person hwnnw heb allu dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau anffurfiol o ddydd i ddydd yn ogystal â phenderfyniadau a wneir gan y llysoedd.

Cred resymol am yr hyn sydd er y budd gorau i rywun

- 5.59** Mae adran 4(9) yn cadarnhau, os bydd rhywun yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniad gan gredu'n rhesymol fod yr hyn y mae'n ei wneud er y budd gorau i'r un sydd heb allu, yna – ar yr amod ei fod wedi dilyn y rhestr wirio yn adran 4 – bydd wedi cydymffurfio ag egwyddor y budd gorau sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf. Os bydd rhywun yn dod i gasgliad anghywir am allu'r person neu'r hyn sydd er y budd gorau iddo, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd na fyddai'r gwneuthurwr penderfyniad yn cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd (egllurir hyn ym mhennod 6). Ond rhaid iddo allu dangos ei bod yn rhesymol iddo feddwl bod y person yn un a oedd heb allu a'i fod yn gweithredu er y budd gorau i'r person hwnnw ar yr adeg y gwnaeth y penderfyniad neu y cyflawnodd y weithred.
- 5.60** Os bydd angen penderfyniad gan lys, mae'n debyg y bydd y llys yn mynnu cael tystiolaeth ffurfiol o'r hyn a allai fod er y budd gorau i'r person. Bydd hynny'n cynnwys tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol perthnasol (er enghraifft, seiciatryddion neu weithwyr cymdeithasol). Ond yn y rhan fwyaf o'r sefyllfaoedd sy'n codi o ddydd i ddydd, nid oes angen ffurfioldeb o'r fath. Mewn argyfyngau, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol nac yn bosibl casglu tystiolaeth ffurfiol.
- 5.61** Os na fydd y llys yn gysylltiedig, mae disgwyl o hyd i bobl fod â lle i gredu'n rhesymol eu bod yn gweithredu er y budd gorau i rywun. Nid yw hynny'n golygu y caiff gwneuthurwyr penderfyniad orfodi eu barn eu hun. Rhaid iddynt fod â rhesymau gwrthrychol dros eu penderfyniadau – a rhaid iddynt allu eu profi. Rhaid iddynt allu dangos eu bod wedi ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol ac wedi cymhwyso pob elfen yn rhestr wirio'r budd gorau.

Senario: Profi bod cred resymol

Mae Mrs Prior wedi cael ei mygio a'i tharo'n anymwybodol. Deuir â hi i'r ysbyty heb unrhyw fodd i'w hadnabod. Mae wedi cael anafiadau i'w phen ac wedi'i thrywanu, ac mae wedi colli llawer o waed. Yn yr uned ddamweiniau, mae meddyg yn trefnu trallwysiad gwaed ar frys. Gan fod hynny'n angenrheidiol i achub ei bywyd, mae'r meddyg yn credu bod hyn er y budd gorau iddi.

Pan gysylltir â'i pherthnasau, maent yn dweud y byddai Mrs Prior wedi gwrthod derbyn unrhyw gynhyrchion gwaed oherwydd ei chredoau. Ond gan fod bag llaw Mrs Prior wedi cael ei ddwyn, nid oedd gan y meddyg unrhyw syniad pwy oedd y fenyw a beth oedd ei chredoau. Roedd yn rhaid iddo wneud penderfyniad ar unwaith ac nid oedd gallu gan Mrs Prior i wneud y penderfyniad drosti'i hun. Felly roedd ganddo le i gredu'n rhesymol bod ei weithred er y budd gorau i'w glaf – ac felly mae wedi'i amddiffyn rhag atebolrwydd.

Gan fod y meddyg yn gwybod bellach beth yw credoau Mrs Prior, gall eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol am ei thriniaeth feddygol os na fydd ganddi allu i'w gwneud ei hun. Gall ymgynghori â'i theulu hefyd yn awr, ar ôl cael gwybod pwy ydynt.

Pa broblemau a allai godi wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun?

5.62 Mae'n bwysig bod egwyddor y budd gorau a'r rhestr wirio statudol yn hyblyg. Pe na baent yn hyblyg, ni fyddai'n bosibl pennu blaenoriaeth y ffactorau mewn gwahanol achosion – a byddai'n anodd sicrhau bod y canlyniad er y budd gorau i'r person sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol. Bydd rhai achosion yn syml. Mewn achosion eraill, bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad bwysu a mesur y manteision a'r anfanteision sydd ynglŷn â'r holl ffactorau perthnasol.¹⁸ Ond gallai hyblygrwydd o'r fath arwain at broblemau wrth ddod i gasgliad ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i rywun.

Beth fydd yn digwydd os oes ystyriaethau sy'n groes i'w gilydd?

5.63 Efallai y bydd gwneuthurwr penderfyniad yn wynebu pobl sy'n anghytuno ar yr hyn sydd er y budd gorau i rywun. Efallai y bydd aelodau'r teulu, partneriaid a gofalwyr yn anghytuno â'i gilydd. Neu efallai y bydd ganddynt gof gwahanol am y farn yr oedd yr unigolyn

¹⁸ *Re A (Male Sterilisation)* [2000] 1 FLR 549

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

wedi'i mynegi yn y gorffennol. Efallai y bydd gofalwyr ac aelodau o'r teulu'n anghytuno â barn gweithiwr proffesiynol am anghenion yr unigolyn o ran gofal a thriniaeth.

- 5.64 Bydd angen i'r gwneuthurwr penderfyniad ddarganfod modd i gydbwyso'r ystyriaethau hynny neu benderfynu rhyngddynt. Y peth cyntaf y dylid ei wneud yw adolygu'r holl elfennau yn rhestr wirio'r budd gorau gyda phawb sy'n gysylltiedig. Dylai gynnwys y person sydd heb allu (i'r graddau y mae'n medru cymryd rhan) ac unrhyw un a fu'n ymwneud â thrafodaethau cynharach. Efallai y bydd modd dod i gytundeb mewn cyfarfod lle y gall pawb wyntyllu ei bryderon. Ond efallai na fydd cytundeb ohono'i hun er y budd gorau i'r person. Y gwneuthurwr penderfyniad sy'n gyfrifol yn y pen draw am ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person dan sylw.

Senario: Delio ag anghytundeb

Beth amser yn ôl, gwnaeth Mr Graham Atwrneiaeth Arhosol gan benodi ei fab a'i ferch yn atwrneiod ar y cyd i reoli ei eiddo a'i faterion ariannol. Bellach mae wedi cael clefyd Alzheimer ac wedi symud i gartref gofal preifat. Mae'r mab a'r ferch yn gorfod penderfynu beth i'w wneud â thŷ Mr Graham.

Mae ei fab o'r farn ei bod er y budd gorau i'w dad ei werthu a buddsoddi'r arian ar gyfer gofal Mr Graham yn y dyfodol. Ond mae ei ferch yn credu mai'r hyn sydd er y budd gorau i Mr Graham yw cadw'r tŷ, gan ei fod yn mwynhau dod i weld ei hen gartref a threulio amser yno.

Ar ôl gwneud pob ymdrech i gael barn Mr Graham, mae'r teulu'n cwrdd i drafod yr holl ystyriaethau perthnasol. Ar ôl clywed barn rhai eraill yn y teulu, mae'r atwrneiod yn cytuno mai'r hyn a fyddai er y budd gorau i'w tad fyddai cadw'r tŷ mor hir ag y mae ef yn gallu dod i'w weld a'i fwynhau.

Aelodau'r teulu, partneriaid a gofalwyr yr ymgynghorir â hwy

- 5.65 Os bydd yr anghytundeb yn parhau, bydd yn rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad bwysu a mesur barn y gwahanol bartion. Bydd hyn yn dibynnu'n llwyr ar yr amgylchiadau ym mhob achos, y bobl sy'n gysylltiedig a'u perthynas â'r person sydd heb allu. Weithiau bydd y gwneuthurwr penderfyniad yn cael bod gofalwyr yn gallu gweld sut i ddehongli dymuniadau a theimladau rhywun mewn modd a fydd yn gallu ei helpu i ddod i benderfyniad.

- 5.66 Ar yr un pryd, mae'n bosibl y bydd gweithwyr gofal cyflogedig a gweithwyr cefnogi'r sector gwirfoddol yn meddu ar wybodaeth arbenigol am driniaethau neu'r dewisiadau diweddaraf o ran gofal. Efallai fod rhai ohonynt wedi adnabod yr unigolyn ers blynyddoedd lawer.
- 5.67 Ni ddylid cau pobl allan o'r broses am fod ganddynt fuddiannau croes (er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y rhai sydd i etifeddu rhywbeth yn ewyllys y person dan sylw yn dal i fod â hawl i gael eu cynnwys wrth ymgynghori am ofal neu driniaeth feddygol y person hwnnw). Ond rhaid i wneuthurwyr penderfyniad sicrhau bob amser nad yw buddiannau'r rhai yr ymgynghorir â hwy'n dylanwadu'n ormodol ar y broses o ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun. Wrth gydbwysu'r gwahanol gyfraniadau, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried:
- ers pa mor hir y mae'r unigolyn wedi adnabod yr un sydd heb allu, a
 - beth yw'r berthynas rhyngddynt.

Senario: Datrys anghytundebau

Mae Robert yn 19 oed ac mae ganddo anabledau dysgu ac awtistiaeth. Mae ar fin gadael ei ysgol arbennig breswyl. Mae ei rieni am i Robert fynd i uned arbenigol sy'n cael ei rhedeg gan gorff elusennol, ond mae wedi cael cynnig lle mewn cynllun byw gyda chymorth lleol. Nid yw rhieni Robert yn credu y caiff ofal priodol yn y fan honno.

Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfod i drafod 'y budd gorau'. Ymysg y rhai sy'n bresennol y mae Robert, ei rieni, athrawon o'i ysgol a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â pharatoi cynllun gofal Robert. Rhieni ac athrawon Robert sy'n ei adnabod orau. Maent yn egluro eu barn ac yn helpu Robert i roi gwybod ym mhle y carai fyw.

Mae staff gofal cymdeithasol yn dod o hyd i leoliadau gwahanol yn y sir. Mae Robert yn ymweld â'r rhain gyda'i rieni. Ar ôl trafodaeth bellach, mae pawb yn cytuno mai lleoliad yn y gymuned yn agos i gartref ei deulu a fyddai er y budd gorau i Robert.

Datrys anghydfodau ynghylch beth sydd er y budd gorau

- 5.68 Os yw rhywun am herio casgliadau'r gwneuthurwr penderfyniad, mae sawl dewis ar gael:

Pennod 5

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth sôn am y budd gorau?

- Cynnwys eiriolwr i weithredu ar ran y person sydd heb allu i wneud y penderfyniad (gweler paragraff 5.69 isod).
- Cael ail farn.
- Cynnal cynhadledd achos 'y budd gorau' sy'n ffurfiol neu'n anffurfiol.
- Rhoi cynnig ar ryw fath o gyfryngu (gweler pennod 15).
- Cael sylw i gŵyn drwy weithdrefnau ffurfiol y corff.

Yn y pen draw, os bydd pob ymgais arall i ddatrys yr anghydfod wedi methu, efallai y bydd angen i'r llys benderfynu beth sydd er y budd gorau i'r person dan sylw. Mae mwy o wybodaeth am y Llys Gwarchod ym mhennod 8.

Eiriolaeth

5.69 Gallai eiriolwr fod o gymorth o ran cefnogi'r person sydd heb allu i wneud penderfyniad yn y broses o ganfod beth sydd er y budd gorau iddo:

- os nad oes gan yr un sydd heb allu unrhyw ffrindiau neu aelodau agos o'r teulu sy'n ymddiddori yn ei les, ac os nad yw'n gymwys i gael Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (gweler pennod 10)
- os yw aelodau'r teulu'n anghytuno ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn
- os yw aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol yn anghytuno ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn
- os oes gwrthdaro buddiannau yn achos rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn yr asesiad o'r budd gorau (er enghraifft, gwerthu tŷ sy'n eiddo i'r teulu lle mae'r person yn byw)
- os yw'r person sydd heb allu mewn cysylltiad ag eiriolwr eisoes
- os byddai'r cwrs gweithredu sydd wedi'i argymhell yn gallu arwain at ddefnydd o ataliad neu gyfyngiadau eraill ar y person sydd heb allu
- os oes pryder ynghylch amddiffyn oedolyn sy'n fregus.

6 Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn caniatáu i ofalwyr a staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gyflawni rhai tasgau heb ofn atebolrwydd. Mae'r tasgau hyn yn ymwneud â gofal personol, gofal iechyd neu driniaeth pobl sydd heb allu i gydsynio iddynt. Yr amcan yw rhoi cefnogaeth y gyfraith i weithredoedd y mae angen eu cyflawni er y budd gorau i'r person sydd heb allu i gydsynio.¹⁹

Mae'r bennod hon yn egluro:

- sut mae'r Ddeddf yn rhoi amddiffyniad rhag atebolrwydd
- sut mae'r amddiffyniad hwnnw'n gweithio'n ymarferol
- lle mae terfyn neu gyfyngiad ar yr amddiffyniad
- pa bryd y caiff gofalwr ddefnyddio arian rhywun i brynu nwyddau neu wasanaethau heb gael caniatâd ffurfiol.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Mae'r camau canlynol yn rhestru'r holl bethau y dylai pobl sy'n rhoi gofal neu driniaeth eu cofio er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hamddiffyn gan y Ddeddf.

Gweithredu mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth rhywun sydd heb allu i gydsynio

- A yw'r weithred sydd i'w chyflawni'n gysylltiedig â gofal neu driniaeth rhywun sydd heb allu i gydsynio i'r weithred honno?
- A yw'n golygu y bydd newidiadau mawr ym mywyd y person dan sylw? Os ydyw, bydd yn galw am ystyriaeth arbennig.
- Pwy sy'n cyflawni'r weithred? A yw'n briodol i'r person hwnnw wneud hynny ar yr adeg berthnasol?

Gwirio i weld a yw'r person yn meddu ar allu i gydsynio

- A gymerwyd pob cam posibl i helpu'r person i wneud penderfyniad drosto'i hun ynghylch y weithred?

¹⁹ Mae darpariaethau adran 5 wedi'u seilio ar 'athrawiaeth rheidrwydd' cyfraith gwlad fel y'i nodwyd yn *Re F (Mental Patient: Sterilisation)* [1990] 2 AC 1

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

- A ddefnyddiwyd y prawf gallu dau gam?
- A oes sail resymol i gredu nad yw'r person yn meddu ar allu i roi caniatâd?

Gweithredu er y budd gorau i'r person dan sylw

- A ddefnyddiwyd rhestr wirio'r budd gorau ac a ystyriwyd yr holl amgylchiadau perthnasol?
- A oes dewis llai cyfyngiadol ar gael?
- A yw'n rhesymol credu bod y weithred a argymhellwyd yn un sydd er y budd gorau i'r person dan sylw?

Deall y cyfyngiadau posibl ar amddiffyniad rhag atebolrwydd

- Os ystyrir defnyddio ataliad, a yw'n angenrheidiol i atal niwed i'r person sydd heb allu, ac a yw'n ymateb cymesur i'r tebygolrwydd y bydd y person yn cael niwed – ac i ddifrifoldeb y niwed hwnnw?
- A ellid ystyried yr ataliad yn rhywbeth sy'n amddifadu rhywun o'i ryddid ('*deprivation of the person's liberty*')?
- A yw'r weithred yn mynd yn groes i benderfyniad a wnaed gan atwrnai neu ddirprwy dan ei bwerau?

Talu am nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol

- Os yw rhywun yn dymuno defnyddio arian y person i brynu nwyddau neu dalu am wasanaethau ar gyfer rhywun sydd heb allu i wneud hynny ei hun, a yw'r nwyddau neu wasanaethau hynny'n angenrheidiol ac er y budd gorau i'r person hwnnw?
- A oes angen mynd ag arian o gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu'r person neu werthu eiddo'r person i dalu am nwyddau neu wasanaethau? Os oes, bydd yn rhaid cael awdurdod ffurfiol.

Pa amddiffyniad sydd gan bobl wrth ofalu am rai sydd heb allu i gydsynio?

- 6.1 Bob dydd, cyflawnir miliynau o weithredoedd ar gyfer neu ar ran pobl sydd heb allu i un ai:
- gwneud penderfyniadau am eu gofal neu eu triniaeth eu hun, neu
 - ganiatáu i rywun arall ofalu amdanynt.

Mae gweithredoedd o'r fath yn amrywio o dasgau gofal pob dydd (er enghraifft, helpu rhywun i ymolchi) i ddigwyddiadau tyngedfennol (er enghraifft, triniaeth feddygol sylweddol neu drefnu i rywun fynd i gartref gofal).

Yn ddamcaniaethol, gallai llawer o'r gweithredoedd hynny fod yn erbyn y gyfraith. Dan y gyfraith, mae gan bobl hawl i atal eraill rhag ymyrryd â'u corff neu eu heiddo oni bai eu bod yn rhoi caniatâd. Ond beth fydd yn digwydd os nad yw rhywun yn meddu ar allu i roi caniatâd? Gallai gofalmwyr sy'n gwisgo dillad am rai sydd heb y gallu i wisgo amdanynt eu hun fod yn ymyrryd â chorff rhywun heb ei ganiatâd felly, yn ddamcaniaethol, gellid eu herlyn am ymosod. Mae cymydog sy'n mynd i mewn i dŷ rhywun sydd heb allu ac yn ei lanhau yn un a allai fod yn tresmasu ar eiddo'r person hwnnw.

6.2 Mae adran 5 o'r Ddeddf yn darparu amddiffyniad rhag atebolrwydd ('*protection from liability*'). Mewn geiriau eraill, mae'n amddiffyn pobl sy'n cyflawni'r gweithredoedd hynny. Mae'n atal eu herlyn am weithredoedd y gellid eu hystyried fel arall yn gamwri sifil neu'n drosedd. Drwy amddiffyn gofalmwyr teuluol a gofalmwyr eraill rhag atebolrwydd, mae'r Ddeddf yn gadael i weithredoedd gofal neu driniaeth angenrheidiol ddigwydd fel pe bai'r person sydd heb allu i gydsynio wedi cydsynio iddynt. Oherwydd hynny, nid oes angen i rai sy'n darparu gofal o'r fath gael awdurdod ffurfiol i weithredu.

6.3 Mae'n bwysig nodi nad yw adran 5 yn rhoi i bobl sy'n trin neu'n gofalu am rywun arall y pŵer i wneud unrhyw benderfyniadau eraill ar ran y rhai sydd heb allu i wneud eu penderfyniadau eu hun. Yn lle hynny, mae'n cynnig amddiffyniad rhag atebolrwydd fel y gallant weithredu mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth y person. Gellir rhoi pŵer i wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu drwy rannau eraill o'r Ddeddf (fel y pwerau a roddir i atwrneiod a dirprwyon, sydd wedi'u hegluro ym mhenodau 7 ac 8).

Pa fath o weithredoedd y gellid cael amddiffyniad rhag atebolrwydd iddynt?

6.4 Mae adran 5(1) yn darparu amddiffyniad posibl ar gyfer gweithredoedd sydd wedi'u cyflawni *mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth*. Gellir cyflawni'r weithred ar ran rhywun y credir ei fod heb allu i roi caniatâd i gyflawni'r weithred ar yr amod ei bod er y budd gorau i'r person hwnnw (gweler pennod 5). Nid yw'r Ddeddf yn diffinio gofal neu driniaeth. Dylid rhoi eu hystyr arferol iddynt. Fodd bynnag, mae adran 64(1) yn egluro bod triniaeth yn cynnwys gweithdrefnau diagnostig a gweithdrefnau eraill.

6.5 Rhai o'r gweithredoedd y gallai adran 5 eu cwmpasu yw:

Gofal personol

- helpu i ymolchi, gwisgo neu ofalu am hylendid personol
- helpu rhywun i fwyta neu yfed
- helpu rhywun i gyfathrebu
- helpu rhywun i symud o gwmpas
- helpu rhywun i dderbyn addysg neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol neu hamdden
- mynd i mewn i gartref rhywun i adael eitemau a brynwyd neu i sicrhau ei fod yn iawn
- siopa neu brynu nwyddau angenrheidiol ag arian y person
- trefnu gwasanaethau ar gyfer y cartref (er enghraifft, trefnu gwaith trwsio neu waith cynnal a chadw ar gyfer cyflenwadau nwy a thrydan)
- darparu gwasanaethau sydd o gymorth o gwmpas y cartref (fel gofal cartref neu bryd ar glud)
- ymgymryd â gweithredoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal yn y gymuned (er enghraifft, gofal dydd, llety preswyl neu ofal nyrsio) – ond gweler hefyd baragraffau 6.7–6.14 isod
- helpu rhywun i symud tŷ (gan gynnwys symud eiddo a chlirio'r cartref blaenorol).

Gofal iechyd a thriniaeth

- cyflawni archwiliadau a phrofion diagnostig (i ganfod salwch, cyflwr neu broblem arall)
- darparu triniaethau meddygol a deintyddol proffesiynol, a'u tebyg
- rhoi meddyginiaeth
- mynd â rhywun i'r ysbyty i'w asesu neu ei drin
- darparu gofal nyrsio (boed yn yr ysbyty neu yn y gymuned)
- cyflawni unrhyw weithdrefnau meddygol eraill sy'n angenrheidiol (er enghraifft, cymryd sampl gwaed) neu therapïau (er enghraifft, ffisiotherapi neu driniaeth traed)
- darparu gofal mewn argyfwng.

6.6 Dim ond os oes cred resymol bod y person heb allu i roi caniatâd i gyflawni'r weithred y ceir amddiffyniad ar gyfer y gweithredoedd hyn. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r weithred fod er y budd gorau i'r person a bod yn unol ag egwyddorion y Ddeddf (gweler paragraff 6.26 ymlaen).

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

6.7 Mae rhai gweithredoedd sy'n gysylltiedig â gofal neu driniaeth a allai achosi newidiadau mawr mewn bywyd gan ddod â chanlyniadau sylweddol i ran y person dan sylw. Ymhlith y rhai sy'n gofyn ystyriaeth arbennig o fanwl y mae rhai sy'n ymwneud â newid preswylfan, drwy symud i gartref gofal neu gartref nyrsio efallai, neu benderfyniadau pwysig ynghylch gofal iechyd a thriniaeth feddygol. Mae'r rhain wedi'u disgrifio yn y paragraffau canlynol.

Newid preswylfan

6.8 Weithiau ni fydd rhywun yn gallu cael gofal digonol neu briodol yn ei gartref ei hun, ac efallai y bydd yn rhaid iddo symud – i fyw gyda pherthnasau, o bosibl, neu i gartref gofal neu gartref nyrsio. Os nad yw'r person yn meddu ar allu i gydsynio i symud, rhaid i'r gwneuthurwr/gwneuthurwyr penderfyniad ystyried a yw'r symud er y budd gorau i'r person (drwy gyfeirio at restr wirio'r budd gorau ym mhennod 5 ac yn benodol ddymuniadau a theimladau'r person yn awr ac yn y gorffennol, yn ogystal â barn pobl berthnasol eraill). Rhaid i'r gwneuthurwr/gwneuthurwyr penderfyniad ystyried hefyd a oes dewis sy'n llai cyfyngiadol (gweler pennod 2, egwyddor 5).

Gallai hynny olygu siarad ag:

- unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am y person ar y pryd
- gofalcwyr teuluol ac aelodau eraill o'r teulu sy'n agos i'r person ac yn ymddiddori yn ei les
- eraill sy'n ymddiddori yn lles y person
- unrhyw un y mae'r person wedi'i enwi o'r blaen fel un y dylid ymgynghori ag ef
- atwrnai neu ddirprwy sydd wedi'i benodi dan y gyfraith i wneud penderfyniadau penodol ar ei ran.

6.9 Mewn rhai achosion bydd angen cael Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGM). Bydd yr EAGM yn cynrychioli ac yn cefnogi'r person sydd heb allu a bydd yn darparu gwybodaeth er mwyn sicrhau y bydd y penderfyniad terfynol er y budd gorau i'r person dan sylw (gweler pennod 10). Bydd angen EAGM pan nad oes unrhyw un sy'n agos i'r person sydd heb allu a all gynnig barn am yr hyn sydd orau iddo, a bod:

- corff GIG yn cynnig darparu triniaeth feddygol sylweddol, neu
- gorff GIG neu awdurdod lleol yn cynnig trefnu lle mewn ysbyty neu gartref gofal neu fath arall o lety tymor hwy ac
 - y bydd y person yn aros yn yr ysbyty am fwy nag 28 niwrnod, neu

- y bydd yn aros mewn cartref gofal am fwy nag wyth wythnos.

Mae rhai amgylchiadau hefyd lle y ceir penodi EAGM yn ôl disgrisiwn. Mae rhagor o ganllawiau ar hyn ym mhennod 10.

- 6.10** Weithiau ni fydd y canlyniad terfynol fel yr oedd yr un sydd heb allu'n ei ddymuno. Er enghraifft, efallai y bydd am aros yn ei gartref, ond gallai'r rhai sy'n gofalu amdano benderfynu mai ei symud sydd er y budd gorau iddo. Ym mhob achos, rhaid i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad ystyried yn gyntaf unrhyw ddewisiadau eraill a allai gyfyngu'n llai ar hawliau a rhyddid y person i weithredu (gweler pennod 2, egwyddor 5).

- 6.11** Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd dewis arall heblaw symud y person. Fel arfer byddai angen cael caniatâd ffurfiol gan yr unigolyn dan sylw i'w symud os oedd yn meddu ar allu i'w roi neu ei wrthod. Mewn achosion lle nad yw rhywun yn meddu ar allu i gydsynio, mae adran 5 o'r Ddeddf yn caniatáu i ofalwyr gyflawni gweithredoedd sy'n gysylltiedig â'i symud – ar yr amod y gwneir hynny'n unol ag egwyddorion y Ddeddf a'r gofynion ar gyfer canfod beth sydd er y budd gorau i'r person dan sylw. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os bydd y person yn dal i wrthwynebu'r symud.

Fodd bynnag, mae adran 6 yn gosod cyfyngiadau pendant ar y defnydd o rym neu ataliad drwy bennu na cheir defnyddio ataliad (er enghraifft, i gludo'r person i'w gartref newydd) oni bai fod hynny'n angenrheidiol i ddiogelu'r person rhag niwed a'i fod yn ymateb cymesur i'r perygl o niwed (gweler paragraffau 6.40–6.53). Gallai unrhyw gamau a gymerir i symud y person dan sylw neu ei eiddo fod yn rhai sy'n codi atebolrwydd os nad oes amddiffyniad ar eu cyfer dan adran 5.

- 6.12** Os ceir anghytundeb sylweddol ynghylch yr angen i symud y person dan sylw na ellir ei ddatrys mewn modd arall, gellir gofyn i'r Llys Gwarchod benderfynu beth sydd er y budd gorau i'r person ac ym mhle y dylai fyw. Er enghraifft, gallai hynny ddigwydd os bydd aelodau'r teulu'n anghytuno ynghylch beth sydd orau i berthynas sydd heb allu i roi neu wrthod caniatâd i symud i rywle i fyw.

- 6.13** Mewn rhai amgylchiadau, byddai rhoi rhywun mewn ysbyty neu gartref gofal yn gallu ei amddifadu o'i ryddid (gweler paragraffau 6.49–6.53). Os felly y mae, nid oes amddiffyniad rhag atebolrwydd – hyd yn oed os barnwyd bod y lleoliad dan sylw er y budd gorau i'r person hwnnw (adran 6(5)). Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad edrych yn gyntaf ar amryw o ddewisiadau eraill sy'n llai cyfyngiadol i weld a oes modd osgoi amddifadu'r person o'i ryddid.

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

6.14 Os nad oes modd arall i ofalu am y person dan sylw, bydd yn rhaid cael awdurdod penodol i gadw'r person mewn sefyllfa sy'n ei amddifadu o'i ryddid. Er enghraifft, gallai'r Llys Gwarchod fod yn barod weithiau i roi gorchymyn a fyddai'n arwain at amddifadu rhywun o'i ryddid – os yw wedi'i fodloni bod hynny er y budd gorau i'r person dan sylw. Mewn achosion eraill, os oes ar y person angen triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol ac os yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ei gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gellir ei defnyddio i dderbyn rhywun i'r ysbyty neu ei gadw yno (gweler pennod 13).

Penderfyniadau ynghylch gofal iechyd a thriniaeth

6.15 Mae adran 5 hefyd yn caniatáu cymryd camau i sicrhau bod rhywun sydd heb allu i gydsynio yn cael triniaeth feddygol angenrheidiol. Gallai hynny olygu mynd â'r person i ysbyty i gael triniaeth fel claf allanol neu drefnu i'w dderbyn i ysbyty. Hyd yn oed os bydd rhywun sydd heb allu i gydsynio'n gwrthwynebu'r driniaeth sydd wedi'i hargymell neu'r bwriad i'w dderbyn i ysbyty, mae'n bosibl y gellid caniatáu'r camau hynny dan adran 5 (ond gweler paragraffau 6.20 a 6.22 isod). Ond mae cyfyngiadau o ran caniatáu defnyddio grym neu ataliad i orfodi triniaeth (gweler paragraffau 6.40–6.53).

6.16 Bydd penderfyniadau pwysig am ofal iechyd a thriniaeth – er enghraifft, am lawdriniaeth sylweddol neu benderfyniad na wneir ymgais i ddadebru'r claf – yn galw am ystyriaeth arbennig hefyd. Oni bai fod penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwysadwy i wrthod y driniaeth benodol, rhaid i staff gofal iechyd ganfod drwy ystyried yn ofalus beth fyddai er y budd gorau i'r person dan sylw (gweler pennod 5). Fel rhan o'r broses o ganfod hynny, bydd yn rhaid iddynt ystyried (os yw'n ymarferol ac yn briodol):

- dymuniadau a theimladau'r person sydd heb allu i wneud y penderfyniad am driniaeth, a'i gredoau a'i werthoedd, yn awr ac yn y gorffennol, gan gynnwys unrhyw ddatganiad ymlaen llaw a ysgrifennodd y person yn nodi ei ddymuniadau pan oedd yn meddu ar allu
- barn unrhyw un a oedd wedi'i enwi gan y person cyn hynny fel un y dylid ymgynghori ag ef
- barn unrhyw un sy'n ymwneud â gofal y person
- barn unrhyw un sy'n ymddiddori yn ei les
- barn unrhyw atwrnai neu ddirprwy sydd wedi'i benodi ar gyfer y person.

Mewn achosion penodol lle nad oes unrhyw un sydd ar gael y gellir ymgynghori ag ef ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i'r person

dan sylw, rhaid penodi EAGM i gefnogi a chynrychioli'r person (gweler paragraff 6.9 uchod a phennod 10).

Rhaid i staff gofal iechyd ystyried hefyd a oes dewisiadau eraill ar gyfer triniaeth a allai beri llai o ymyrraeth neu gyfyngiad (gweler pennod 2, egwyddor 5). Wrth benderfynu ynghylch darparu neu dynnu'n ôl triniaeth cynnal bywyd, ni chaiff unrhyw un sy'n canfod beth sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu fod yn un sy'n cael ei ysgogi gan awydd i beri marwolaeth y person hwnnw (gweler pennod 5).

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

6.17 Yn aml, cyfarfodydd amlddisgyblaethol yw'r dull gorau o benderfynu ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i rywun. Maent yn cynnwys staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol sydd â gwahanol sgiliau a fydd yn trafod y dewisiadau sydd ar gael i'r person dan sylw a gallant hefyd gynnwys y rhai sy'n agosaf i'r unigolyn dan sylw. Ond bydd y cyfrifoldeb terfynol dros benderfynu beth sydd er y budd gorau i rywun yn eiddo i'r aelod o'r staff gofal iechyd sy'n gyfrifol am driniaeth y person dan sylw. Dylai gofnodi ei benderfyniad, sut y daeth iddo a'r rhesymau drosto yn nodiadau clinigol y claf. Ar yr amod eu bod wedi cofnodi rhesymau gwrthrychol i ddangos bod y penderfyniad er y budd gorau i'r un dan sylw, a bod gofynion eraill adran 5 o'r Ddeddf wedi'u bodloni, bydd yr holl staff gofal iechyd sy'n cymryd camau mewn cysylltiad â'r driniaeth benodol wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd.

6.18 Mae rhai penderfyniadau am driniaeth mor bwysig fel bod rhaid iddynt gael eu gwneud gan y llys – oni bai fod yr unigolyn wedi gwneud Atwrneiaeth Arhosol cyn hynny'n penodi atwrnai i wneud penderfyniadau o'r fath am ofal iechyd ar ei ran (gweler pennod 7) neu ei fod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw dilys i wrthod y driniaeth sydd wedi'i hargymell (gweler pennod 9). Rhaid gofyn i'r Llys Gwarchod wneud penderfyniadau ynghylch:²⁰

- bwriad i wrthod rhoi neu dynnu'n ôl maethu a hydradu artiffisial mewn cysylltiad â chlaf sydd mewn cyflwr disymud parhaol)
- achosion lle y mae argymhelliad y dylai rhywun sydd heb allu i gydsynio roi organ neu fêr esgyrn i rywun arall
- bwriad i anffrwythloni rhywun sydd heb allu i gydsynio am resymau heblaw rhai therapiwtig (er enghraifft, i ddibenion atal cenhedlu)
- achosion lle mae dadl ynghylch a fydd triniaeth benodol er y budd gorau i rywun.

Gweler paragraffau 8.18–8.24 i gael mwy o fanylion am achosion o'r fath.

²⁰ Mae'r trefnau sy'n deillio o'r dyfarniadau hynny gan y llys wedi'u nodi mewn Nodyn Ymarfer (ar gael yn www.officialsolicitor.gov.uk) ac fe'u nodir mewn Cyfarwyddyd Ymarfer gan y Llys Gwarchod newydd.

6.19 Gallai'r categori olaf uchod gynnwys achosion sy'n creu cyfyng-gyngor moesegol ynghylch triniaethau arloesol a rhai sydd heb eu profi (er enghraifft, triniaethau newydd ar gyfer Clefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob (CDJ)) lle na wyddys a fydd y driniaeth yn effeithiol, a rhai achosion sy'n golygu terfynu beichiogrwydd. Gallai hefyd gynnwys achosion lle mae anghydfod rhwng gweithwyr proffesiynol neu rhwng gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r teulu na ellir ei ddatrys fel arall.

Lle ceir anghydfod, mae'n beth doeth i'r partion gael cyngor cyfreithiol, er ei bod yn bosibl na fyddant yn gallu cael cymorth cyfreithiol i dalu am gyngor o'r fath. Mae pennod 8 yn rhoi mwy o wybodaeth am yr angen i gyfeirio achosion i sylw'r llys i gael penderfyniad.

Pwy y mae adran 5 yn ei amddiffyn rhag atebolrwydd?

6.20 Mae adran 5 o'r Ddeddf yn fwyaf tebygol o effeithio ar:

- ofalwyr teuluol a mathau eraill o ofalwyr
- gweithwyr gofal
- staff gofal iechyd a staff gofal cymdeithasol
- eraill a allai fod yn gysylltiedig o bryd i'w gilydd â gofal neu driniaeth rhywun sydd heb allu i gydsynio (er enghraifft, staff ambiwlans, gweithwyr ym maes tai, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cefnogi gwirfoddol).

6.21 Ar unrhyw adeg, mae'n debygol y bydd nifer o bobl yn cyflawni tasgau sydd wedi'u cwmpasu gan adran 5 o'r Ddeddf. Nid yw adran 5:

- yn rhoi mwy o hawliau i un person nag i un arall i gyflawni tasgau
- yn pennu pwy sydd ag awdurdod i weithredu mewn achos penodol
- yn caniatáu i rywun wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â phynciau heblaw gofal a thriniaeth y person sydd heb allu
- yn caniatáu i rywun roi caniatâd ar ran person sydd heb allu i wneud hynny.

6.22 Er mwyn cael amddiffyniad rhag atebolrwydd dan adran 5, rhaid i'r holl weithredoedd fod yn gysylltiedig â gofal neu driniaeth y person sydd heb allu i gydsynio. Ond cyn gweithredu, rhaid i ofalwyr fod â chred resymol yn gyntaf fod:

- y person heb allu i wneud y penderfyniad penodol hwnnw ar yr adeg y mae angen ei wneud, a
- bod y weithred er y budd gorau i'r person dan sylw.

Eglurir hynny ymhellach ym mharagraffau 6.26–6.34 isod.

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

Senario: Amddiffyn nifer o ofalwyr

Mae Mr Rose, dyn hŷn sydd â demensia, yn cael cymorth gan nifer o bobl. Bydd ei chwaer yn coginio prydau bwyd iddo weithiau. Bydd nyrs ardal yn galw arno i newid y rhwymiad ar friw pwyso, a bydd ffrind yn mynd â Mr Rose am dro i'r parc yn aml, gan ei dywys pan fyddant yn croesi'r ffordd. Byddai pob un o'r unigolion hyn wedi'i amddiffyn rhag atebolrwydd dan adran 5 o'r Ddeddf – ond dim ond os cymerant gamau rhesymol i wirio ei fod heb allu i gydsynio i'r gweithredoedd y maent yn eu cyflawni ac os oes ganddynt gred resymol bod y gweithredoedd er y budd gorau i Mr Rose.

- 6.23** Gallai adran 5 gynnig amddiffyniad hefyd i ofalwyr sydd ag angen defnyddio arian y person i dalu am nwyddau neu wasanaethau y mae ar y person eu hangen ac yntau heb allu i'w prynu ei hun. Fodd bynnag, mae rheolaethau caeth ynghylch pwy a gaiff fynediad at arian rhywun arall. Gweler paragraffau 6.56–6.66 i gael mwy o wybodaeth.
- 6.24** Nid yw gofalwyr sy'n darparu gwasanaethau gofal personol i gyflawni gweithdrefnau arbenigol a gyflawnir fel arfer gan staff gofal iechyd hyfforddedig. Os yw'r weithred yn ymwneud â thriniaeth feddygol, y meddyg neu aelod arall o'r staff gofal iechyd sydd â chyfrifoldeb dros y claf fydd y gwneuthurwr penderfyniad a fydd yn gorfod penderfynu a yw'r driniaeth sydd wedi'i hargymell er y budd gorau i'r person dan sylw (gweler pennod 5). Caiff meddyg ddirprwyo cyfrifoldeb dros roi'r driniaeth i bobl eraill yn y tîm clinigol sy'n meddu ar y sgiliau neu'r arbenigedd priodol. Os bydd rhywun yn gwneud mwy nag y mae ei brofiad neu ei gymwysterau'n caniatáu, mae'n bosibl na fydd wedi'i amddiffyn rhag atebolrwydd.

Cynllunio gofal

- 6.25** Bydd penderfyniadau am ofal neu driniaeth rhywun yn cael eu gwneud yn aml gan dîm amlddisgyblaethol (tîm o weithwyr proffesiynol sydd â gwahanol sgiliau sy'n cyfrannu at ofal rhywun), sy'n gwneud cynllun gofal ar gyfer y person. Wrth baratoi cynllun gofal, dylid gwneud asesiad bob tro o allu'r person i gydsynio i'r gweithredoedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gofal, a chadarnhau bod cytundeb bod y gweithredoedd hynny er y budd gorau i'r person. Bydd staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu cymryd wedyn y bydd unrhyw weithredoedd a gyflawnant dan y cynllun gofal yn rhai sydd er y budd gorau i'r person dan sylw, a chael amddiffyniad rhag atebolrwydd drwy hynny dan adran 5. Ond rhaid adolygu gallu'r person a'r hyn sydd er y budd gorau iddo'n rheolaidd.

Pa gamau y dylai pobl eu cymryd i gael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd?

- 6.26 Yn ogystal â chymryd y camau canlynol, dylai rhywun sydd am gael ei amddiffyn rhag atebolrwydd gadw mewn cof yr egwyddorion statudol sydd wedi'u nodi yn adran 1 o'r Ddeddf (gweler pennod 2).
- 6.27 Yn gyntaf, rhaid cymryd camau rhesymol i ddarganfod a yw'r person yn meddu ar allu i wneud penderfyniad am y weithred sydd wedi'i hargymell (adran 5(1)(a)). Os yw'r person yn meddu ar allu, rhaid iddo roi caniatâd i rywun weithredu ar ei ran, fel y bydd yr un sy'n cyflawni'r weithred wedi'i amddiffyn rhag atebolrwydd. I gael canllawiau ar yr hyn a ystyrir yn gamau rhesymol (*'reasonable steps'*), gweler paragraffau 6.29–6.34. Ond rhaid i gamau rhesymol gynnwys y canlynol bob amser:
- cymryd yr holl gamau ymarferol a phriodol i helpu pobl i wneud penderfyniad ynghylch weithred eu hun
 - cymhwyso'r prawf gallu dau gam (gweler pennod 4).

Rhaid i'r un sy'n mynd i gyflawni'r weithred fod â chred resymol (*'reasonable belief'*) nad yw'r unigolyn yn meddu ar allu i roi caniatâd i gyflawni'r weithred ar yr adeg y mae angen ei chyflawni.

- 6.28 Yn ail, rhaid i'r person sy'n mynd i gyflawni'r weithred fod â lle i gredu'n rhesymol bod y weithred er y budd gorau i'r un sydd heb allu. Dylai gymhwyso holl elfennau rhestr wirio'r budd gorau (gweler pennod 5), ac yn benodol
- ystyried a yw'r person yn debygol o adennill gallu i wneud y penderfyniad hwnnw yn y dyfodol. A ellir gohirio'r weithred tan hynny?
 - ystyried a oes dewis llai cyfyngiadol (pennod 2, egwyddor 5)
 - bod â rhesymau gwrthrychol dros gredu bod gweithred er y budd gorau i'r person sydd heb allu i gydsynio iddi.

Beth sy'n rhesymol (*'reasonable'*)?

- 6.29 Fel yr eglurwyd ym mhennod 4, pan fydd rhywun yn asesu gallu unigolyn i wneud penderfyniadau drosto'i hun neu i roi caniatâd, rhaid iddo ganolbwyntio'n llwyr ar ddarganfod a yw'r person yn meddu ar allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud ac nid ar allu'r person i wneud penderfyniadau'n gyffredinol. Er enghraifft, os yw gofalwr yn helpu rhywun i wisgo amdano, gall asesu gallu'r person i gytuno i dderbyn cymorth ganddo drwy egluro'r gwahanol ddewisiadau (gwisgo amdano neu aros yn ei ddillad nos), a'r canlyniadau (gallu mynd allan, neu aros i mewn drwy'r dydd).

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

- 6.30 Nid oes raid i ofalwyr fod yn arbenigwyr o ran asesu gallu. Ond rhaid iddynt allu dangos eu bod wedi cymryd *camau rhesymol* i ddarganfod a yw'r person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad penodol. Dim ond wedyn y bydd ganddynt le i gredu'n rhesymol nad yw'r person yn meddu ar allu mewn cysylltiad â'r mater penodol hwnnw. Gweler paragraffau 4.44–4.45 lle y ceir canllawiau ar yr hyn a ystyrir yn rhesymol (*'reasonable'*) – er y bydd hynny'n amrywio, yn ôl yr amgylchiadau.
- 6.31 Yn achos y rhan fwyaf o benderfyniadau, mae'n annhebygol y bydd angen prosesau asesu ffurfiol. Ond mewn rhai amgylchiadau, mae dulliau ymarfer proffesiynol yn galw am ddilyn rhai gweithdrefnau ffurfiol (er enghraifft, os oes angen rhoi caniatâd i dderbyn triniaeth feddygol, bydd yn rhaid i'r meddyg asesu gallu'r person i gydsynio – a'i gofnodi). Dan adran 5, caiff gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eu hamddiffyn rhag atebolrwydd ar yr amod eu bod yn gallu cynnig rhai rhesymau gwrthrychol sy'n egluro pam y maent yn credu nad yw'r person yn meddu ar allu i gydsynio i'r weithred. Os bydd rhywun yn herio eu cred, bydd gofalwyr a gweithwyr proffesiynol wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd ar yr amod eu bod yn gallu dangos eu bod wedi cymryd camau i ddarganfod a yw'r person yn meddu ar allu a bod ganddynt gred resymol bod y person heb allu.
- 6.32 Yn yr un modd, rhaid i ofalwyr, perthnasau ac eraill sy'n ymwneud â gofalu am rywun sydd heb allu fod â lle i gredu'n rhesymol bod eu gweithred er y budd gorau i'r un dan sylw. Nid ydynt i orfodi eu barn eu hun yn unig. Rhaid iddynt allu dangos eu bod wedi ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol ac wedi cymhwyso rhestr wirio'r budd gorau. Un agwedd ar hynny yw'r angen i ddangos eu bod wedi ceisio cynnwys y person sydd heb allu yn y broses, a darganfod beth yw ei ddymuniadau a'i deimladau, ei gredoau a'i werthoedd. Rhaid iddynt hefyd fod wedi gofyn am farn pobl eraill, os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol. Os bydd rhywun yn herio eu penderfyniad, byddant wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd os gallant ddangos ei bod yn rhesymol iddynt gredu bod eu gweithred er y budd gorau i'r person – yn holl amgylchiadau'r achos penodol hwnnw.
- 6.33 Os yw staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gysylltiedig, bydd eu sgiliau a'u gwybodaeth yn effeithio ar yr hyn sydd i'w ystyried yn 'rhesymol'. Er enghraifft, os bydd meddyg yn asesu gallu rhywun i gydsynio i dderbyn triniaeth, rhaid iddo ddangos mwy o fedr na rhywun sydd heb gael hyfforddiant meddygol. Hefyd, dylai gofnodi yng nghofnod gofal iechyd y person dan sylw y camau a gymerodd a'r rhesymau dros y canfyddiad. Dylai staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gymhwyso'r safonau clinigol a phroffesiynol arferol wrth benderfynu pa driniaethau i'w cynnig. Rhaid iddynt benderfynu wedyn

a yw'r driniaeth sydd wedi'i hargymell er y budd gorau i'r person sydd heb allu i gydsynio. Mae hynny'n cynnwys yr angen i ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol a chymhwyso rhestr wirio'r budd gorau (gweler pennod 5).

6.34 Gellid dweud bod gan staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol le i gredu'n rhesymol (*'reasonable grounds for believing'*) bod rhywun heb allu:

- os ydynt yn dilyn cynllun gofal rhywun, ac
- os oedd y broses cynllunio gofal yn cynnwys asesiad o allu'r person i wneud penderfyniad ynghylch camau gweithredu'r cynllun gofal.

Mae hefyd yn rhesymol iddynt gymryd bod y broses cynllunio gofal wedi asesu'r hyn a oedd er y budd gorau i rywun. Ond, er hynny, dylent wneud pob ymdrech i gyfathrebu â'r person i ddarganfod a yw'n dal i fod heb allu ac a yw'r cam gweithredu'n dal i fod er y budd gorau iddo.

Senario: Gweithio gyda chynllun gofal

Mae Margaret, sy'n fenyw oedrannus, yn profi problemau difrifol o ran ei hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'n byw mewn cartref nyrsio ac mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi paratoi cynllun gofal, gan ymgynghori â'i pherthnasau wrth benderfynu pa gwrs gweithredu a fyddai er y budd gorau i Margaret. Mae'r cynllun gofal yn cwmpasu'r feddyginiaeth sydd wedi'i rhagnodi ar ei chyfer, y ffisiotherapi y mae arni ei angen, cymorth gyda'i gofal personol a gweithgareddau therapiwtig eraill fel therapi celfyddyd.

Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i gynnwys Margaret yn y broses cynllunio gofal, mae'r meddyg sy'n gyfrifol am ei gofal wedi canfod drwy asesu nad oes ganddi allu i gydsynio i'r rhan fwyaf o'r agweddau ar ei chynllun gofal. Mae'r nyrs neu gynorthwy-ydd gofal sy'n rhoi'r feddyginiaeth, y ffisiotherapydd a'r therapydd celfyddyd, a'r cynorthwy-ydd gofal sy'n helpu gyda gofal personol Margaret yn gallu dibynnu ar y cynllun gofal, sy'n rhoi lle iddynt gredu'n rhesymol eu bod yn gweithredu er y budd gorau iddi.

Fodd bynnag, wrth gyflawni pob gweithred, rhaid iddynt oll gymryd camau rhesymol i gyfathrebu â Margaret i egluro beth maent yn ei wneud ac i gael gwybod a yw'n meddu ar allu i gydsynio i'r weithred dan sylw. Os ydynt yn credu ei bod yn meddu ar allu, rhaid iddynt atal y driniaeth hyd nes neu oni fydd Margaret yn cytuno y dylai barhau.

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

Beth fydd yn digwydd mewn argyfwng?

- 6.35 Weithiau bydd angen triniaeth feddygol frys ar bobl sydd heb allu i gydsynio er mwyn achub eu bywyd neu atal niwed sylweddol iddynt. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd bron bob amser er y budd gorau i'r bobl hynny roi triniaeth frys yn ddi-oed. Un eithriad i hynny yw pan fydd staff gofal iechyd sy'n rhoi triniaeth wedi'u bodloni bod penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn bodoli (gweler paragraff 6.37).

Beth fydd yn digwydd mewn achosion o esgeulustod?

- 6.36 Nid yw adran 5 yn rhoi amddiffyniad mewn achosion o esgeulustod – un ai wrth gyflawni gweithred benodol neu drwy fethu â gweithredu pan oedd angen. Er enghraifft, efallai y bydd meddyg wedi'i amddiffyn rhag hawliad am guro am roi llawdriniaeth sydd er y budd gorau i rywun. Ond os bydd yn esgeulus wrth roi'r llawdriniaeth, ni fydd wedi'i amddiffyn rhag cyhuddiad o esgeulustod. Felly mae gan yr un sydd heb allu yr un hawliau mewn achosion o esgeulustod â rhywun sydd wedi cydsynio i dderbyn y llawdriniaeth.

Beth yw effaith penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 6.37 Weithiau bydd pobl yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth tra byddant yn dal i fod â'r gallu i wneud hynny a chyn y bydd arnynt angen y driniaeth benodol honno. Rhaid i staff gofal iechyd barchu'r penderfyniad hwnnw os yw'n un dilys ac os yw'n gymwys i'r driniaeth a gynnigir.
- 6.38 Os yw staff gofal iechyd wedi'u bodloni bod penderfyniad ymlaen llaw yn un dilys a'i fod yn gymwys i'r driniaeth sydd wedi'i hargymell, ni fyddant wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd os rhoddant unrhyw driniaeth sy'n mynd yn groes iddo. Ond byddant wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd os nad oeddent yn gwybod am y penderfyniad ymlaen llaw neu os nad ydynt wedi'u bodloni bod y penderfyniad ymlaen llaw yn un dilys a'i fod yn gymwys yn yr amgylchiadau cyfredol (adran 26(2)). Ceir rhagor o ganllawiau ym mhennod 9.

Pa gyfyngiadau sydd ar amddiffyniad rhag atebolrwydd?

- 6.39 Mae adran 6 yn gosod rhai cyfyngiadau pwysig ar weithredoedd y gellir eu cyflawni a chael amddiffyniad rhag atebolrwydd dan adran 5 (fel y'i disgrifiwyd yn rhan gyntaf y bennod hon). Y meysydd allweddol lle y gallai gweithredoedd fod heb amddiffyniad rhag atebolrwydd yw lle y ceir defnydd amhriodol o ataliad neu lle mae rhywun sydd heb allu'n cael ei amddifadu o'i ryddid.

Defnyddio ataliad

6.40 Mae adran 6(4) o'r Ddeddf yn datgan bod rhywun yn defnyddio ataliad:

- os yw'n defnyddio grym – neu'n bygwth defnyddio grym – i beri i rywun wneud rhywbeth y mae'n ei wrthwynebu, neu
- os yw'n cyfyngu ar ryddid rhywun i symud, pa un a yw'n gwrthwynebu ai peidio.

6.41 Ni fydd gweithred sydd â'r amcan o atal rhywun sydd heb allu yn cael ei hamddiffyn rhag atebolrwydd oni bai fod y ddau amod canlynol wedi'u bodloni:

- rhaid i'r person sy'n cyflawni'r weithred gredu'n rhesymol bod yr ataliad yn *angenrheidiol* i atal *niwed* i'r person sydd heb allu, a
- rhaid i faint neu fath yr ataliad a ddefnyddir a hyd yr amser y bydd yn para fod yn *ymateb cymesur* i debygolrwydd a difrifoldeb y niwed.

Gweler paragraffau 6.44–6.48 i gael eglurhad pellach o'r termau *angenrheidiol*, *niwed ac ymateb cymesur*.

6.42 Dylai staff gofal iechyd a staff gofal cymdeithasol gyfeirio hefyd at:

- ganllawiau proffesiynol a chanllawiau eraill ar ataliad neu ymyrraeth gorfforol, fel y rhai sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Iechyd²¹ neu Lywodraeth Cynulliad Cymru,²² a
- chyfyngiadau sydd wedi'u gosod gan reoliadau a safonau, fel y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal (gweler pennod 14).

6.43 Yn ogystal â gofynion y Ddeddf, mae cyfraith gwlad yn rhoi staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol dan ddyletswydd gofal tuag at yr holl bobl y maent yn darparu gwasanaethau iddynt. Felly os yw rhywun sydd heb allu i gydsynio yn un sydd ag ymddygiad heriol, neu os yw mewn cyfnod aciwt yn ystod salwch a bod hynny'n peri iddo weithredu mewn modd a allai achosi niwed i eraill, caiff staff, dan gyfraith gwlad, gymryd camau priodol ac angenrheidiol i atal neu symud y person, er mwyn atal niwed i'r person hwnnw ac i unrhyw un arall.

²¹ I gael canllawiau ar ddefnyddio ataliad gyda phobl sydd ag anableddau dysgu ac anhwylder yn y sbectrum awtistig, gweler *Guidance for restrictive physical interventions* (cyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau: mae ar gael yn www.dh.gov.uk/assetRoot/04/06/84/61/04068461.pdf).

²² Yng Nghymru, y canllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol* (ar gael yn www.childrenfirst.wales.gov.uk/content/framework/phys-int-w.pdf).

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, ni fyddai cyfraith gwlad yn cynnig sail ddigonol i weithred a gâi'r effaith o amddifadu rhywun o'i ryddid (gweler paragraffau 6.49–6.53).

Pryd y gallai ataliad fod yn angenrheidiol ('*necessary*')?

- 6.44 Rhaid i unrhyw un sy'n ystyried defnyddio ataliad fod â rhesymau gwrthrychol i gyfiawnhau'r angen am yr ataliad hwnnw. Rhaid iddo allu dangos bod y person sy'n derbyn gofal yn debygol o gael niwed os na ddefnyddir ataliad cymesur. Ni chaiff gofalwr neu weithiwr proffesiynol ddefnyddio ataliad dim ond i gael modd i wneud rhywbeth yn haws. Os oes angen ataliad i atal niwed i'r un sydd heb allu, rhaid defnyddio'r lleiaf posibl o rym am y cyfnod byrraf posibl.

Senario: Defnydd priodol o ataliad

Mae Derek, dyn sydd ag anableddau dysgu, wedi dechrau ymddwyn yn heriol. Mae staff y cartref gofal lle mae'n byw yn credu y gallai fod â chyflwr meddygol sy'n peri gofid iddo. Maent yn mynd ag ef at y meddyg, sy'n credu y gallai Derek fod ag anghybwysedd hormonau. Ond rhaid i'r meddyg wneud prawf gwaed i gadarnhau hynny, a phan yw'n ceisio gwneud y prawf mae Derek yn ceisio ei wthio'n ôl.

Gellid cael canlyniadau negyddol – felly mae'n bosibl nad oes angen y prawf. Ond mae'r meddyg yn penderfynu bod y prawf er y budd gorau i Derek, oherwydd gallai problem fel diffyg cydbwysedd hormonau fynd yn waeth o fethu ei thrin. Felly mae er y budd gorau i Derek ei atal er mwyn gwneud y prawf gwaed. Mae'r ataliad dros dro'n gymesur â'r niwed sy'n debygol o gael ei achosi drwy fethu â thrin cyflwr meddygol posibl.

Beth yw niwed ('*harm*')?

- 6.45 Nid yw'r Ddeddf yn diffinio niwed, gan y bydd yn amrywio yn ôl y sefyllfa. Er enghraifft,
- gallai rhywun ag anableddau dysgu redeg i ffordd brysur yn ddirybudd, os nad yw'n deall y perygl o geir
 - gallai rhywun sydd â demensia grwydro o'i gartref a mynd ar goll, os nad yw'n cofio ym mhle mae'n byw
 - gallai rhywun sydd ag iselder manig fynd ati i wario'n ormodol yn ystod cyfnod manig, gan beri iddo fynd i ddyled
 - gallai rhywun fod mewn perygl o gael niwed os bydd yn ymddwyn mewn modd sy'n cymell eraill i ymosod neu gamfanteisio arno (er enghraifft, drwy ymddwyn mewn modd peryglus o herllyd).

6.46 Yn aml, gellir cymryd camau ar sail synnwyr cyffredin i helpu i ddileu'r perygl o gael niwed (er enghraifft, drwy roi cemegolion gwenwynig dan glo neu symud rhwystrau). Hefyd, dylid cynnwys asesiadau risg wrth gynllunio gofal a nodi camau gweithredu priodol i geisio dileu peryglon posibl. Ond ni ellir dileu pob perygl, ac mae angen ymateb cymesur pan fydd perygl o niwed yn codi.

Beth yw ymateb cymesur ('proportionate response')?

6.47 Mae ymateb cymesur yn golygu defnyddio'r math lleiaf ymwithiol a'r graddau lleiaf posibl o ataliad i sicrhau canlyniad penodol er y budd gorau i'r un sydd heb allu. Ar adegau pan allai fod angen defnyddio grym, dylai gofalmwyr a staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddefnyddio'r lleiaf posibl o rym am y cyfnod byrraf posibl.

Er enghraifft, efallai y bydd angen i ofalwr afael ym mraich rhywun wrth iddo groesi'r ffordd, os nad yw'r person yn deall peryglon y ffordd. Ond ni fyddai rhwystro rhywun rhag mynd allan o gwbl yn ymateb cymesur. Gallai fod yn briodol cael clo diogel ar ddrws sy'n wynebu ffordd brysur, ond nid ymateb cymesur fyddai cadw rhywun mewn ystafell wely dan glo drwy'r amser i'w atal rhag ceisio croesi'r ffordd.

6.48 Dylai gofalmwyr a staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ystyried dewisiadau llai cyfyngiadol cyn defnyddio ataliad. Os oes modd, dylent ofyn i bobl eraill sy'n ymwneud â gofal y person pa gamau y maent yn credu eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu'r person rhag cael niwed. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai'n briodol cael eiriolwr i weithio gyda'r person dan sylw i weld a yw'n gallu osgoi neu leihau'r angen i ddefnyddio ataliad.

Senario: Osgoi defnyddio ataliad

Mae Oscar yn un sydd ag anableddau dysgu. Weithiau ni fydd y bobl yn y coleg lle mae'n derbyn ei addysg yn gallu ei ddeall, ac mae'n mynd yn rhwystredig. Weithiau bydd yn taro'r wal ac yn ei frifo ei hun.

Nid yw'r staff yn dymuno gwahardd Oscar o'r dosbarth, gan ei fod yn dweud ei fod yn mwynhau bod yn y coleg ac mae'n dysgu sgiliau newydd. Maent wedi gadael i'w weithiwr cefnogi eistedd gydag ef, ond mae'n dal i fynd yn ofidus. Gallai'r gweithiwr cefnogi geisio dal Oscar yn ôl. Ond mae o'r farn y byddai hynny'n golygu defnyddio gormod o rym, er y byddai hynny'n fodd i'w atal rhag ei frifo ei hun.

Yn lle hynny, mae'n cael cyngor arbenigol gan aelodau'r tîm cymunedol lleol. Drwy arsylwi arno, maent yn gallu deall ymddygiad Oscar yn well. Maent yn dyfeisio strategaeth gymorth sy'n lleihau'r perygl o ymddygiad niweidiol ac yn cyfyngu i lai o raddau ar ei ryddid.

Pryd yr ystyrir bod gweithredoedd yn amddifadu rhywun o'i ryddid?

- 6.49** Er bod adran 5 o'r Ddeddf yn caniatáu defnyddio ataliad pan fo angen hynny dan yr amodau uchod, mae adran 6(5) yn cadarnhau nad oes amddiffyniad dan y Ddeddf i weithredoedd sy'n peri i rywun gael ei amddifadu o'i ryddid (fel y mae wedi'i ddiffinio yn Erthygl 5(1) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol). Mae hyn yn gymwys i awdurdodau lleol sy'n dod dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a hefyd i bawb a allai gael amddiffyniad fel arall dan adran 5 o'r Ddeddf. Mae hefyd yn gymwys i atwrneiod neu ddirprwyon – ni chânt roi caniatâd i gyflawni gweithred sy'n amddifadu rhywun o'i ryddid.
- 6.50** Weithiau ni fydd modd arall i ddarparu gofal neu driniaeth heblaw drwy amddifadu rhywun o'i ryddid. Mewn sefyllfa o'r fath, gellir cadw rhai pobl yn yr ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 – ond nid yw hyn ond yn gymwys i rai sydd ag angen triniaeth mewn ysbyty ar gyfer anhwylder meddyliol (gweler pennod 13). Fel arall, ni fydd gweithredoedd sy'n gyfystyr ag amddifadu rhywun o'i ryddid yn gyfreithlon os na chafwyd awdurdodiad ffurfiol.
- 6.51** Mewn rhai achosion, gallai'r Llys Gwarchod roi gorchymyn sy'n caniatáu amddifadu rhywun o'i ryddid, os yw wedi'i fodloni bod hynny er y budd gorau iddo.
- 6.52** Mae'n anodd diffinio'r gwahaniaeth rhwng gweithredoedd sy'n gyfystyr â chyfyngu ar ryddid rhywun a rhai sy'n peri ei amddifadu o'i ryddid. Mewn achosion cyfreithiol diweddar, mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi dweud bod y gwahaniaeth yn ymwneud â graddau neu ddwysedd yn hytrach na natur neu sylwedd (*'one of degree or intensity, not one of nature or substance'*).²³ Mae'n rhaid felly fod ffactorau penodol yn sefyllfa neilltuol y person dan sylw sy'n rhoi'r 'graddau' neu'r 'dwysedd' sy'n arwain at ei amddifadu o'i ryddid. Yn ymarferol, gall hynny ymwneud â:
- math y gofal a ddarperir
 - pa mor hir y mae'r sefyllfa'n parhau
 - ei heffeithiau, neu
 - y modd y cododd sefyllfa benodol.²⁴

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

²³ HL v The United Kingdom (Rhif Cais, 45508/99). Dyfarniad 5 Hydref 2004, paragraff 89

²⁴ Yn HL v UK (a elwir hefyd yn achos 'Bournemouth'), dywedodd Llys Ewrop mai'r ffactor allweddol yn yr achos dan sylw oedd bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn trin ac yn rheoli'r ceisydd wedi arfer rheolaeth gyflawn ac effeithiol ar ei ofal a'i symudiadau ("the key factor in the present case [is] that the health care professionals treating and managing the applicant exercised complete and effective control over his care and movements"). Cafodd mai'r sefyllfa bendant oedd bod y ceisydd dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus ac nad oedd yn rhydd i adael ("the concrete situation was that the applicant was under continuous supervision and control and was not free to leave")

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi enwi'r ffactorau canlynol fel rhai sy'n cyfrannu at amddifadu rhywun o'i ryddid yn ei ddyfarniadau ar achosion hyd yn hyn:

- defnyddiwyd ataliad, gan gynnwys tawelyddu, i dderbyn rhywun sy'n gwrthwynebu i'r ysbyty
- roedd gweithwyr proffesiynol wedi arfer rheolaeth llwyr ac effeithiol dros ofal a symud am gyfnod hir
- roedd gweithwyr proffesiynol wedi arfer rheolaeth dros asesiadau, triniaeth, cysylltiadau a phreswyllo
- byddai'r person wedi'i atal rhag gadael pe bai wedi gwneud ymdrech ystyrlon i wneud hynny
- gwrthodwyd cais gan ofalwyr am i'r person gael ei ryddhau i'w gofal
- nid oedd y person yn gallu cadw cysylltiadau cymdeithasol oherwydd cyfyngiadau a roddwyd ar fynediad at bobl eraill
- colodd y person ei ymreolaeth am ei fod dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaol.²⁵

6.53 Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu diwygio'r Ddeddf er mwyn cyflwyno gweithdrefnau a darpariaethau newydd ar gyfer pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol ond y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid, er y budd gorau iddynt, heblaw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ('darpariaethau Bournemouth' fel y'u gelwir). Bydd y bennod hon yn cael ei hadolygu'n llwyr gyda hyn i adlewyrchu'r newidiadau hynny. Ceir gwybodaeth am gynigion presennol y Llywodraeth mewn cysylltiad â mesurau diogelu Bournemouth ar wefan yr Adran Iechyd. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys canllawiau ar ffurf Cod Ymarfer enghreifftiol drafft ar y mesurau diogelu arfaethedig. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ym mharagraffau 13.52–13.55.

Sut mae adran 5 i'w chymhwyso i atwrneiod a dirprwyon?

6.54 Nid yw adran 5 yn rhoi amddiffyniad ar gyfer gweithredoedd sy'n mynd yn groes i benderfyniad rhywun sydd wedi'i awdurdodi i wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad o'r fath drosto'i hun. Er enghraifft, os bydd rhywun yn mynd yn groes i benderfyniad gan atwrnai sy'n gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol (gweler paragraff 7) neu un gan ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod (gweler pennod 8), ni fydd wedi'i amddiffyn dan adran 5.

6.55 Nid yw atwrneiod a dirprwyon ond i wneud penderfyniadau sydd o

²⁵ Mae'r rhain wedi'u rhestru yng nghanllawiau Cod Ymarfer enghreifftiol drafft yr Adran Iechyd ar y mesurau diogelu sydd wedi'u hargymell. www.dh.gov.uk/assetRoot/04/14/17/64/04141764.pdf

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

fewn cwmpas awdurdod yr Atwrneiaeth Arhosol neu'r gorchymyn llys. Weithiau gallai gofalwyr neu staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol deimlo bod atwrnai neu ddirprwy'n gwneud penderfyniadau na ddylai eu gwneud, neu rai nad ydynt er y budd gorau i'r person dan sylw. Os felly, ac os na ellir datrys yr anghytundeb mewn modd arall, bydd un ai'r gofalwyr, y staff neu'r atwrnai neu'r dirprwy yn cael gwneud cais i'r Llys Gwarchod. Os yw'r anghydfod yn ymwneud â darparu triniaeth feddygol, bydd staff meddygol yn dal i gael rhoi triniaeth cynnal bywyd, neu driniaeth sy'n atal cyflwr rhywun rhag gwaethygu'n sylweddol, tra bydd y llys yn dod i benderfyniad (adran 6(6)).

Pwy a all dalu am nwyddau neu wasanaethau?

- 6.56 Efallai y bydd yn rhaid i ofalwyr wario arian ar ran rhywun sydd heb allu i brynu nwyddau neu wasanaethau angenrheidiol. Er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt dalu am ddanfôn llaeth neu dalu i giropodydd am ddarparu gwasanaeth yng nghartref y person. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt dalu am drefniadau drutach fel gwaith trwsio ar dŷ neu am drefnu gwyliau. Mae gofalwyr yn debygol o gael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd os cyflawnir eu gweithredoedd yn briodol dan adran 5, ac er y budd gorau i'r person sydd heb allu.
- 6.57 Yn gyffredinol, ni ellir gorfodi contract a wnaed gan rywun sydd heb allu i wneud y contract os yw'r person arall yn gwybod am y diffyg gallu, neu os oes raid cymryd ei fod yn gwybod amdano. Mae adran 7 o'r Ddeddf yn addasu'r rheol hon ac yn datgan, yn achos contract sydd am nwyddau neu wasanaethau angenrheidiol (*'necessary'*), os yw rhywun sydd heb allu i wneud y trefniadau drosto'i hun, fod rhaid i'r person hwnnw dalu pris rhesymol amdanynt.

Beth yw nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol?

- 6.58 'Mae 'angenrheidiol' yn golygu rhywbeth sy'n addas i gyflwr rhywun mewn bywyd (ei le mewn cymdeithas, yn hytrach nag unrhyw gyflwr corfforol neu feddyliol) a'i union anghenion pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau (adran 7(2)). Yr amcan yw sicrhau bod pobl yn gallu mwynhau safon byw a ffordd o fyw debyg i'r un a oedd ganddynt cyn colli gallu. Er enghraifft, os oedd rhywun sydd heb allu'n awr wedi dewis prynu dillad cynllunydd drud o'r blaen, mae'r rhain yn dal i fod yn nwyddau angenrheidiol – ar yr amod ei fod yn dal i allu eu fforddio. Ond ni fyddent yn angenrheidiol i rywun a oedd bob amser yn gwisgo dillad rhad, beth bynnag oedd maint ei gyfoeth.
- 6.59 Nid yw nwyddau'n angenrheidiol os oes gan y person gyflenwad digonol ohonynt eisoes. Er enghraifft, gallai fod yn angenrheidiol prynu un neu ddau o barau o esgidiau i rywun sydd heb allu. Ond mae'n debyg na fyddai dwsin o barau'n angenrheidiol.

Sut y dylid trefnu taliadau?

- 6.60** Os yw rhywun heb allu i drefnu i dalu am nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol, mae adrannau 5 ac 8 yn caniatáu i ofalwr drefnu i dalu ar ei ran.
- 6.61** Rhaid i'r gofalwr gymryd camau rhesymol yn gyntaf i weld a yw rhywun yn gallu trefnu i dalu ei hun, neu a yw'n meddu ar allu i gydsynio i'r gofalwr wneud hynny ar ei ran. Os nad yw'r person yn meddu ar allu i gydsynio neu dalu ei hun, rhaid i'r gofalwr benderfynu pa nwyddau neu wasanaethau a fyddai'n angenrheidiol i'r person ac er y budd gorau iddo. Wedyn caiff y gofalwr ddelio'n gyfreithlon â thaliadau am y nwyddau a'r gwasanaethau hynny mewn un o dri modd:
- Os nad yw'r gofalwr na'r person sydd heb allu â digon o arian wrth law, caiff y gofalwr addo y bydd y person sydd heb allu'n talu. Efallai na fydd y cyflenwr yn fodlon ar hynny, neu efallai y bydd y gofalwr yn poeni y bydd yn cael ei ddal yn atebol am unrhyw ddyled. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r gofalwr ddilyn y camau ffurfiol ym mharagraffau 6.62–6.66 isod.
 - Os oes arian parod gan y person sydd heb allu, caiff y gofalwr ddefnyddio'r arian hwnnw i dalu am nwyddau neu wasanaethau (er enghraifft, i dalu'r dyn llaeth neu'r triniwr gwallt).
 - Caiff y gofalwr ddewis talu am y nwyddau neu'r gwasanaethau â'i arian ei hun. Rhaid i'r person sydd heb allu dalu'n ôl iddo. Gallai hynny olygu defnyddio arian sydd gan y person yn ei feddiant neu wneud dylednod (IOU). (Nid yw hyn yn briodol i weithwyr gofal cyflogedig sydd â chontract a allai eu gwahardd rhag trin arian eu cleientiaid.) Rhaid i'r gofalwr ddilyn camau ffurfiol i gael arian sydd wedi'i ddal mewn cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu (gweler paragraffau 6.63–6.66 isod).
- 6.62** Dylai gofalwyr gadw biliau, derbynebion a phrawf arall o dalu wrth dalu am nwyddau a gwasanaethau. Bydd arnynt angen y dogfennau hynny wrth ofyn am gael arian yn ôl. Un o ofynion y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref yw y cedwir cofnodion a dogfennau ariannol priodol.

Mynediad at asedau'r person

- 6.63** Nid yw'r Ddeddf yn rhoi mynediad i'r gofalwr neu'r gweithiwr gofal at incwm neu asedau'r unigolyn. Nid yw ychwaith yn caniatáu iddo werthu eiddo'r person.
- 6.64** Os bydd rhywun yn dymuno cael mynediad at arian sydd gan unigolyn mewn banc neu gymdeithas adeiladu, bydd yn rhaid iddo gael awdurdod cyfreithiol ffurfiol i wneud hynny. Bydd yn rhaid iddo hefyd

gael awdurdod cyfreithiol i werthu eiddo rhywun. Gellid rhoi awdurdod o'r fath mewn Atwrneiaeth Arhosol a oedd yn penodi atwrnai i ddelio ag eiddo a materion personol, neu mewn gorchymyn gan y Llys Gwarchod (un ai drwy un penderfyniad gan y Llys neu orchymyn yn penodi dirprwy i wneud penderfyniadau ariannol ar ran yr un sydd heb allu i wneud penderfyniadau o'r fath).

Pennod 6

Pa amddiffyniad y mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

Senario: Cael mynediad at asedau rhywun

Roedd storm wedi chwythu ychydig o deils oddi ar do tŷ sy'n eiddo i Gordon, dyn sydd â chlefyd Alzheimer. Nid yw'n meddu ar allu i drefnu i gael trwsio'r to nac i wneud hawliad ar ei yswiriant. Mae'r gwaith trwsio'n debygol o fod yn gostus.

Mae mab Gordon yn penderfynu trefnu'r gwaith trwsio, ac mae'n cytuno i dalu am nad oes digon o arian parod ar gael gan ei dad. Gallai'r mab wneud cais wedyn i'r Llys Gwarchod am awdurdod i hawlio arian yswiriant ar ran ei dad ac am gael ei ad-dalu o gyfrif banc ei dad am gost y gwaith trwsio ar ôl derbyn y taliad yswiriant.

- 6.65 Weithiau bydd gan rywun arall reolaeth gyfreithiol eisoes dros eiddo a materion ariannol rhywun sydd heb allu i reoli ei faterion ariannol ei hun. Gallai hwnnw fod yn atwrnai sy'n gweithredu dan Atwrneiaeth Barhaus sydd wedi'i chofrestru neu Atwrneiaeth Arhosol briodol (gweler pennod 7) neu'n ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod (gweler pennod 8). Neu gallai fod yn rhywun (gofalwr fel arfer) sydd â hawl i weithredu fel swyddog penodedig (dan Reoliadau Nawdd Cymdeithasol) a hawlio budd-daliadau ar ran rhywun sydd heb allu i wneud hawliad ei hun a defnyddio'r arian ar ran y person hwnnw. Ond ni chaiff swyddog penodedig ddelio ag asedau eraill neu gynilion o ffynonellau heblaw budd-daliadau.
- 6.66 Mae adran 6(6) yn egluro na chaiff gofalwr teuluol neu ofalwr arall wneud trefniadau ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i rywun sydd heb allu os yw hynny'n mynd yn groes i benderfyniad a wnaed gan rywun sydd â phwerau ffurfiol dros arian ac eiddo'r person, fel atwrnai neu ddirprwy sy'n gweithredu o fewn cwrdd ei awdurdod. Os nad oes unrhyw wrthdaro ac os yw'r gofalwr wedi talu am nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol, caiff y gofalwr ofyn am gael arian yn ôl gan atwrnai, dirprwy neu, os yw'n berthnasol, swyddog penodedig.

7 Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

Mae'r bennod hon yn egluro beth yw Atwrneiaeth Arhosol a sut y dylid ei defnyddio. Mae hefyd yn nodi:

- y gwahaniaethau rhwng Atwrneiaeth Arhosol ac Atwrneiaeth Parhaus
- y mathau o benderfyniadau y caiff pobl benodi atwrneiod i'w gwneud (mae atwrneiod yn cael eu galw'n rhoddeion ('donees') hefyd yn y Ddeddf)
- sefyllfaoedd lle y gellir a lle na ellir defnyddio Atwrneiaeth Arhosol
- tdyletswyddau a chyfrifoldebau atwrneiod
- y safonau y mae'n ofynnol i atwrneiod gadw atynt, a
- mesurau i ddelio ag atwrneiod nad ydynt yn cyrraedd y safonau priodol.

Mae'r bennod hon yn egluro hefyd beth a ddylai ddigwydd i Atwrneiaethau Parhaus a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Dylai unrhyw un y gofynnir iddo fod yn atwrnai:

- cystyried a yw'n meddu ar y sgiliau a'r medr angenrheidiol i weithredu fel atwrnai (yn enwedig yn achos Atwrneiaeth ar gyfer eiddo a materion personol)
- gofyn iddo'i hun a oes arno wir eisiau bod yn atwrnai ac ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl honno.

Cyn gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol, rhaid i atwrneiod:

- sicrhau bod yr Atwrneiaeth Arhosol wedi'i chofrestru gyda'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- cymryd yr holl gamau ymarferol a phriodol i helpu'r rhoddwr i wneud y penderfyniad dan sylw drosto'i hun.

Pennod 7

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

Wrth weithredu dan Atwrneiaeth Arhosol:

- sicrhau y dilynir egwyddorion statudol y Ddeddf
- gwirio a yw'r person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad sydd dan sylw drosto'i hun. Os ydyw:
 - ni cheir defnyddio Atwrneiaeth Arhosol lles personol – rhaid i'r person wneud y penderfyniad
 - gellir defnyddio Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol hyd yn oed os yw'r person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad, oni bai ei fod wedi datgan yn yr Atwrneiaeth Arhosol y dylai wneud penderfyniadau drosto'i hun os oes ganddo allu i wneud hynny.

Dylid cofio bob amser fod:

- unrhyw beth a wneir dan awdurdod Atwrneiaeth Arhosol i'w wneud er y budd gorau i'r person
- rhaid i unrhyw un sy'n gweithredu fel atwrnai ddal sylw ar ganllawiau yn y Cod Ymarfer hwn sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd i'w wneud
- rhaid i atwrneiod gyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau tuag at y person sydd heb allu.

Beth yw Atwrneiaeth Arhosol?

- 7.1** Weithiau bydd un person am roi i berson arall yr awdurdod i wneud penderfyniad ar ei ran. Mae atwrneiaeth yn ddogfen gyfreithiol sy'n caniatáu iddo wneud hynny. Dan atwrneiaeth, caiff y person a ddewiswyd (yr atwrnai neu'r rhoddai) wneud penderfyniadau sydd yn un mor ddilys â rhai a wnaed gan y person (y rhoddwr).
- 7.2** Cyn gwneud Deddf Atwrneiaethau Parhaus 1985, roedd pob atwrneiaeth yn dod yn annilys yn awtomatig cyn gynted ag y byddai'r rhoddwr heb allu i wneud penderfyniad drosto'i hun. Ond yn y Ddeddf honno, cyflwynwyd yr Atwrneiaeth Barhaus. Mae Atwrneiaeth Barhaus yn caniatáu i atwrnai wneud penderfyniadau am eiddo a materion ariannol hyd yn oed os yw'r rhoddwr heb allu i reoli ei faterion personol ei hun.
- 7.3** Mae Deddf Gallu Meddyliol yn rhoi'r Atwrneiaeth Arhosol yn lle'r Atwrneiaeth Barhaus. Mae hefyd yn creu mwy o fathau o benderfyniadau y caiff pobl awdurdodi eraill i'w gwneud ar eu rhan. Gall Atwrneiaethau Arhosol gynnwys penderfyniadau am eiddo a materion personol (gan gynnwys materion ariannol), yn ogystal â lles personol (yn cynnwys gofal iechyd a chydysnio i dderbyn triniaeth feddygol) ar gyfer pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau o'r fath drostynt eu hun.

7.4 Caiff y rhoddwr ddewis un person neu sawl person i wneud gwahanol fathau o benderfyniadau. Gweler paragraffau 7.21–7.31 lle y ceir mwy o wybodaeth am Atwrneiaethau Arhosol lles personol. Gweler paragraffau 7.32–7.42 i gael mwy o wybodaeth am Atwrneiaethau Arhosol eiddo a materion personol.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Atwrneiaethau Arhosol ac Atwrneiaethau Parhaus?

7.5 Mae nifer o wahaniaethau rhwng Atwrneiaethau Arhosol ac Atwrneiaethau Parhaus. Mae crynodeb o'r rhain isod:

- Nid yw Atwrneiaethau Parhaus ond yn delio ag eiddo a materion personol. Gall Atwrneiaethau Arhosol gwmpasu lles personol hefyd.
- Rhaid i roddwyr ddefnyddio'r ffurflen benodol sy'n berthnasol (sydd wedi'i rhagnodi mewn rheoliadau) i wneud Atwrneiaethau Parhaus ac Atwrneiaethau Arhosol. Mae gwahanol ffurflenni ar gyfer Atwrneiaethau Parhaus, Atwrneiaethau Arhosol lles personol ac Atwrneiaethau Arhosol eiddo a materion personol.
- Rhaid cofrestru Atwrneiaethau Parhaus gyda'r Gwarcheidwad Cyhoeddus pan na fydd y rhoddwr bellach yn gallu rheoli ei faterion ei hun (neu pan fydd yn dechrau colli gallu). Ond gellir cofrestru Atwrneiaethau Arhosol ar unrhyw adeg cyn eu defnyddio – cyn neu ar ôl yr adeg y bydd y rhoddwr yn colli gallu i wneud penderfyniadau penodol sydd wedi'u cynnwys dan yr Atwrneiaeth Arhosol. Os nad yw'r Atwrneiaeth Arhosol wedi'i chofrestru, ni ellir ei defnyddio.
- Ceir defnyddio Atwrneiaethau Parhaus tra bydd y rhoddwr yn dal i fod â'r gallu i reoli ei eiddo a'i faterion personol, fel y ceir yn achos Atwrneiaethau Arhosol eiddo a materion personol, ar yr amod nad yw'r rhoddwr yn dweud fel arall yn yr Atwrneiaeth Arhosol. Ond ni cheir defnyddio Atwrneiaethau Arhosol lles personol hyd nes bydd y rhoddwr heb allu i wneud y penderfyniad am les sydd dan sylw.
- Wedi i'r Ddeddf ddod i rym, dim ond Atwrneiaethau Arhosol y ceir eu gwneud ond bydd Atwrneiaethau Parhaus a wnaed eisoes yn dal i fod yn ddilys. Bydd gwahanol ddeddfau a gweithdrefnau ar gyfer Atwrneiaethau Parhaus ac Atwrneiaethau Arhosol.
- Wrth wneud penderfyniadau dan Atwrneiaeth Parhaus neu Atwrneiaeth Arhosol a gofrestrwyd, rhaid i atwrneiod ddilyn egwyddorion y Ddeddf a gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr.
- Mae'r dyletswyddau dan gyfraith asiantaeth yn gymwys i atwrneiod Atwrneiaethau Parhaus ac Atwrneiaethau Arhosol (gweler paragraffau 7.58–7.68 isod).
- Mae'n bosibl y bydd penderfyniadau a wnaeth y llysoedd am Atwrneiaethau Parhaus yn effeithio hefyd ar y modd y bydd pobl yn defnyddio Atwrneiaethau Arhosol.

- Mae dyletswydd gyfreithiol ar atwrneiod sy'n gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol i ddal sylw ar y canllawiau yn y Cod Ymarfer hwn. Nid yw atwrneiod Atwrneiaeth Barhaus dan ddyletswydd o'r fath. Ond bydd canllawiau'r Cod o gymorth iddynt er hynny.

Sut mae rhoddwr yn creu Atwrneiaeth Arhosol?

- 7.6 Rhaid i'r rhoddwr hefyd ddilyn y gweithdrefnau priodol ar gyfer creu a chofrestru Atwrneiaeth Arhosol, fel y nodir isod. Fel arall, mae'n bosibl na fydd yr Atwrneiaeth Arhosol yn ddilys. Nid oes angen cael cyngor cyfreithiol ym mhob achos. Ond mae hynny'n syniad da mewn rhai achosion (er enghraifft, os yw amgylchiadau'r rhoddwr yn gymhleth).
- 7.7 Dim ond oedolion 18 oed a throsodd a gaiff wneud Atwrneiaeth Arhosol, ac ni fyddant ond yn cael gwneud Atwrneiaeth Arhosol os ydynt yn meddu ar allu i wneud hynny. Os yw Atwrneiaeth Arhosol i fod yn ddilys:
- rhaid i'r Atwrneiaeth Arhosol fod yn ddogfen ysgrifenedig sydd wedi'i gwneud ar y ffurf statudol sydd wedi'i rhagnodi mewn rheoliadau²⁶
 - rhaid i'r ddogfen gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i rhagnodi am natur ac effaith yr Atwrneiaeth Arhosol (fel y nodwyd yn y rheoliadau)
 - rhaid i'r rhoddwr lofnodi datganiad yn dweud ei fod wedi darllen yr wybodaeth sydd wedi'i rhagnodi (neu fod rhywun wedi'i darllen iddo) a'i fod yn dymuno i'r Atwrneiaeth Arhosol fod yn gymwys pan na fydd bellach yn meddu ar allu
 - rhaid i'r ddogfen enwi pobl (nad ydynt yn atwrneiod) y dylid eu hysbysu am gais i gofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol, neu dylai nodi nad oes unrhyw un y mae'n dymuno ei hysbysu
 - rhaid i'r atwrneiod lofnodi datganiad yn dweud eu bod wedi darllen yr wybodaeth sydd wedi'i rhagnodi a'u bod yn deall eu dyletswyddau – yn benodol, y ddyletswydd i weithredu er y budd gorau i'r rhoddwr
 - rhaid i'r ddogfen gynnwys tystysgrif a gwblhawyd gan drydydd parti annibynnol,²⁷ yn cadarnhau:
 - bod y rhoddwr yn deall pwrpas yr Atwrneiaeth Arhosol, yn ei farn ef

Pennod 7

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

²⁶ Bydd y ffurflenni rhagnodedig ar gael gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu gan siop llyfrau cyfreithiol.

²⁷ Bydd manylion ar gael mewn rheoliadau ynghylch pwy a gaiff a phwy na chaiff ddarparu tystysgrif. Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer darparwyr tystysgrif ynghylch eu rôl.

- nad oedd unrhyw un wedi defnyddio twyll neu bwysau gormodol i dwyllo neu orfodi'r rhoddwr i wneud yr Atwrneiaeth Arhosol, ac
- nad oes dim i atal creu'r Atwrneiaeth Arhosol.

Pwy a gaiff fod yn atwrnai?

7.8 Dylai rhoddwr feddwl yn ofalus cyn dewis rhywun i fod yn atwrnai iddo. Dylai atwrnai fod yn rhywun dibynadwy a galluog y gellir ymddiried ynddo. Dylai feddu ar y sgiliau a'r medr y mae eu hangen i gyflawni'r tasgau gofynnol.

7.9 Rhaid i atwrneiod fod yn 18 mlwydd oed o leiaf. Yn achos Atwrneiaethau Arhosol ar gyfer eiddo a materion personol, gallai'r atwrnai fod un ai'n:

- unigolyn (ar yr amod nad yw'n fethdalwr ar adeg gwneud yr Atwrneiaeth Arhosol), neu'n
- gorfforaeth ymddiriedaeth (rhannau o fanciau neu sefydliadau ariannol eraill yn aml).

Os bydd atwrnai a enwebwyd dan Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer eiddo a materion personol yn mynd yn fethdalwr ar unrhyw adeg, ni fydd bellach yn cael gweithredu fel atwrnai ar gyfer eiddo a materion personol. Bydd rhai sydd wedi mynd yn fethdalwyr yn dal i gael gweithredu fel atwrnai ar gyfer Atwrneiaethau Arhosol lles personol.

7.10 Rhaid i'r rhoddwr enwi unigolyn yn hytrach na theitl swydd mewn cwmni neu gorff (er enghraifft, ni fyddai 'Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion' neu 'fy nhwrnai' yn ddigon). Ni ddylai gweithiwr gofal cyflogedig (rheolwr cartref gofal, er enghraifft) gytuno i weithredu fel atwrnai, heblaw mewn amgylchiadau anarferol (er enghraifft, os mai ef yw'r unig berthynas agos i'r rhoddwr).

7.11 Mae adran 10(4) o'r Ddeddf yn caniatáu i'r rhoddwr benodi dau neu ragor o atwrneiod ac i bennu a ddylent weithredu ar y cyd ('jointly'), ar y cyd ac yn unigol ('*jointly and severally*'), neu ar y cyd mewn cysylltiad â rhai materion ac ar y cyd ac yn unigol mewn cysylltiad â rhai eraill ('*jointly in respect of some matters and jointly and severally in respect of others*').

- Rhaid i atwrneiod ar y cyd weithredu gyda'i gilydd bob amser. Rhaid i'r holl atwrneiod gytuno ar benderfyniadau a llofnodi unrhyw ddogfennau perthnasol.

Pennod 7

Beth mae'r
Ddeddf yn ei
ddweud am
Atwrneiaeth
Arhosol?

- Caiff atwrneiod cyd ac unigol weithredu gyda'i gilydd ond maent hefyd yn cael gweithredu'n annibynnol os dymunant. Bydd unrhyw weithred a gyflawnir gan unrhyw atwrnai ar ei ben ei hun yr un mor ddilys â phe bai'n unig atwrnai.

- 7.12** Efallai y bydd y rhoddwr am benodi atwrneiod i weithredu ar y cyd mewn rhai materion ond ar y cyd ac yn unigol mewn rhai eraill. Er enghraifft, gallai rhoddwr ddewis penodi dau neu ragor o atwrneiod ariannol cyd ac unigol. Ond gallai ddweud wedyn fod rhaid i'r atwrneiod weithredu ar y cyd wrth werthu t'r rhoddwr. Caiff y rhoddwr benodi atwrneiod lles personol i weithredu ar y cyd ac yn unigol ond gallai bennu bod rhaid iddynt weithredu ar y cyd mewn cysylltiad â chydysynio mewn cysylltiad â rhoi llawdriniaeth. Os na fydd rhoddwr a benododd ddau neu ragor o atwrneiod wedi pennu sut y dylent weithredu, rhaid iddynt weithredu ar y cyd bob amser (adran 10(5)).
- 7.13** Mae adran 10(8) yn datgan y caiff rhoddwyr ddewis enwi atwrneiod amnewid i gymryd drosodd y dyletswyddau mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, os bydd atwrnai'n marw). Caiff y rhoddwr enwi atwrnai penodol y mae atwrnai amnewid i gymryd ei lle, neu caiff yr atwrneiod amnewid gymryd lle unrhyw atwrnai, os bydd angen. Ni chaiff rhoddwyr roi'r hawl i'w hatwrneiod benodi olynydd neu rywun i gymryd eu lle.

Sut y dylai rhywun gofrestru a defnyddio Atwrneiaeth Arhosol?

- 7.14** Rhaid cofrestru Atwrneiaeth Arhosol gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus cyn y gellir ei defnyddio. Ni fydd Atwrneiaeth Arhosol sydd heb ei chofrestru'n rhoi unrhyw bwerau cyfreithiol i'r atwrnai wneud penderfyniad ar ran y rhoddwr. Caiff y rhoddwr gofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol tra bo'n dal i fod yn alluog, neu caiff yr atwrnai wneud cais i gofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol ar unrhyw adeg.
- 7.15** Mae manteision ynglŷn â chofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol yn fuan wedi i'r rhoddwr ei gwneud (er enghraifft, i sicrhau na fydd unrhyw oedi pan fydd angen defnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol). Ond os na wnaed hynny, gellir cofrestru Atwrneiaeth Arhosol wedi i'r rhoddwr ddod yn un sydd heb allu i wneud penderfyniad sydd wedi'i gynnwys yn yr Atwrneiaeth Arhosol.
- 7.16** Os nad yw Atwrneiaeth Arhosol wedi'i chofrestru, rhaid i atwrneiod ei chofrestru cyn gwneud unrhyw benderfyniadau dan yr Atwrneiaeth Arhosol. Os yw'r Atwrneiaeth Arhosol wedi cael ei chofrestru ond ei bod heb gael ei defnyddio ers cryn amser, dylai'r atwrnai ddweud wrth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus pan fydd yn dechrau gweithredu o dani – fel y gellir anfon gwybodaeth gyfredol a pherthnasol at yr atwrnai am y rheolau sy'n llywodraethu Atwrneiaethau Arhosol.

7.17 Tra byddant yn dal i fod â gallu, dylai rhoddwyr roi gwybod i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am unrhyw newid cyfeiriad parhaol mewn cysylltiad â'r rhoddwr neu'r atwrnai neu unrhyw newid arall mewn amgylchiadau. Os nad yw'r rhoddwr yn meddu ar allu i wneud hynny bellach, dylai atwrneiod hysbysu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am unrhyw newidiadau o'r fath. Enghreifftiau o newidiadau mewn amgylchiadau yw methdalau ar ran atwrnai dan Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol neu ddiwedd priodas rhwng y rhoddwr a'r atwrnai. Bydd hynny o gymorth i sicrhau bod cofnodion Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfoes, ac yn sicrhau na fydd atwrneiod yn gwneud penderfyniadau nad oes ganddynt awdurdod bellach i'w gwneud.

Pa ganllawiau y dylai atwrnai eu dilyn?

7.18 Mae adran 9(4) yn datgan bod rhaid i atwrneiod fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf. Yn bwysicaf oll, rhaid iddynt ddilyn yr egwyddorion statudol (adran 1) a gwneud penderfyniadau sydd er y budd gorau i'r person sydd heb allu (adran 4). Rhaid iddynt hefyd barchu unrhyw amodau neu gyfyngiadau sydd yn nogfen yr Atwrneiaeth Arhosol. Gweler pennod 2 i gael canllawiau ar y modd i gymhwyso egwyddorion y Ddeddf.

7.19 Mae pennod 3 yn cynnig awgrymiadau am ddulliau o helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hun yn unol ag ail egwyddor y Ddeddf. Dylai atwrneiod gyfeirio hefyd at y canllawiau ym mhennod 4 wrth asesu gallu'r rhoddwr i wneud penderfyniadau neilltuol ac, yn benodol, dylent ddilyn y camau sydd wedi'u hawgrymu ar gyfer dangos 'cred resymol' bod y rhoddwr heb allu (gweler paragraffau 4.44–4.45). Ni cheir seilio asesiadau o allu neu'r budd gorau ar y canlynol:

- oed neu ymddangosiad y rhoddwr, neu
- ragdybiaethau di-sail am unrhyw gyflwr y gallai fod ganddo neu ei ymddygiad.

7.20 Wrth benderfynu beth sydd er y budd gorau i'r rhoddwr, dylai atwrneiod gyfeirio at y canllawiau ym mhennod 5. Yn benodol, rhaid iddynt ystyried dymuniadau a theimladau'r rhoddwr, a'i gredoau a'i werthoedd, yn awr ac yn y gorffennol. Os yw'n ymarferol ac yn briodol, dylent ymgynghori ag:

- unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am y rhoddwr
- perthnasau agos ac unrhyw un arall sy'n ymddiddori yn ei les
- atwrneiod eraill sydd wedi'u penodi gan y rhoddwr.

Gweler paragraffau 7.52–7.68 lle y ceir disgrifiad o ddyletswyddau atwrnai.

Pennod 7

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

Senario: Gwneud penderfyniadau er y budd gorau i'r rhoddwr

Bu Mr Young yn aelod o'r Blaid Werdd ers amser maith. Mae wedi penodi ei dwrnai'n atwrnai iddo dan Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol. Ond nid oedd Mr Young wedi datgan yn yr Atwrneiaeth Arhosol fod buddsoddiadau a wneir ar ei ran i fod yn rhai moesegol. Fodd bynnag, pan yw'r atwrnai'n asesu'r hyn sydd er y budd gorau i'w gleient, mae'n ystyried beth oedd dymuniadau, gwerthoedd a chredoau'r rhoddwr yn y gorffennol. Mae'n sicrhau na fydd ond yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfrifol.

Pa benderfyniadau y gall atwrnai eu gwneud dan Atwrneiaeth Arhosol?**Atwrneiaethau Arhosol lles personol**

7.21 Gellir defnyddio Atwrneiaethau Arhosol i benodi atwrneiod i wneud penderfyniadau am les personol, a gall hynny gynnwys penderfyniadau am ofal iechyd a thriniaeth feddygol. Gallai Atwrneiaethau Arhosol lles personol gynnwys penderfyniadau ynghylch:

- ym mhle y dylai'r rhoddwr fyw a gyda phwy y dylai fyw
- gofal am y rhoddwr o ddydd i ddydd, gan gynnwys deiet a dillad
- gyda phwy y caiff y rhoddwr fod mewn cysylltiad
- cydsynio i dderbyn neu wrthod archwiliadau a thriniaeth feddygol ar ran y rhoddwr
- y trefniadau y mae eu hangen i roi triniaeth feddygol, deintyddol neu optegol i'r rhoddwr
- asesu ar gyfer gwasanaethau gofal yn y gymuned a'u darparu
- a ddylai'r rhoddwr gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gweithgareddau hamdden, addysg neu hyfforddiant
- gohebiaeth a phapurau personol y rhoddwr
- hawl i gael gweld gwybodaeth bersonol am y rhoddwr, neu
- gwynion am ofal neu driniaeth y rhoddwr.

7.22 Mae'r ffurf safonol ar gyfer Atwrneiaethau Arhosol lles personol yn caniatáu i atwrneiod wneud penderfyniadau am unrhyw beth sy'n ymwneud â lles personol y rhoddwr. Ond caiff rhoddwyr ychwanegu cyfyngiadau neu amodau at feysydd lle na fyddent yn dymuno i'r atwrnai gael p er i weithredu. Er enghraifft, efallai na fydd rhoddwr ond yn dymuno i atwrnai wneud penderfyniadau am ei ofal cymdeithasol

ac nid am ei ofal iechyd. Mae rheolau penodol ar gyfer Atwrneiaethau Arhosol sy'n awdurdodi atwrnai i wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd (gweler paragraffau 7.30–7.31 isod).

- 7.23 Mae Atwrneiaeth Arhosol lles personol gyffredinol yn rhoi hawl i'r atwrnai wneud yr holl benderfyniadau sydd wedi'u nodi uchod er nad yw hon yn rhestr lawn o'r gweithredoedd y gall ei gyflawni neu'r penderfyniadau y gall eu gwneud. Fodd bynnag, dim ond ar adeg pan fydd y rhoddwr heb allu i wneud penderfyniad penodol am ei les y ceir defnyddio Atwrneiaeth Arhosol lles personol.

Senario: Gwrthod hawl i atwrneiod wneud rhai penderfyniadau

Mae Mrs Hutchison yn dechrau profi effeithiau clefyd Alzheimer. Mae'n awyddus i gael trefn ar ei holl faterion personol tra bydd yn dal i fod â'r gallu i wneud hynny. Mae'n gwneud Atwrneiaeth Arhosol lles personol, gan benodi ei merch yn atwrnai. Ond mae Mrs Hutchison yn gwybod nad yw ei merch yn dod ymlaen yn dda bob amser â rhai aelodau o'r teulu – ac ni fyddai'n dymuno i'w merch rwystro'r perthnasau hynny rhag dod i'w gweld.

Mae'n datgan yn yr Atwrneiaeth Arhosol nad oes awdurdod gan ei hatwrnai i benderfynu pwy a gaiff gysylltu â hi neu ddod i'w gweld. Os bydd ei merch am atal rhywun rhag cysylltu â Mrs Hutchison, rhaid iddi ofyn i'r Llys Gwarchod benderfynu ar hynny.

- 7.24 Cyn gwneud penderfyniad dan Atwrneiaeth Arhosol lles personol, rhaid i'r atwrnai fod yn sicr:

- bod yr Atwrneiaeth Arhosol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- bod y rhoddwr heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw neu rhaid bod yr atwrnai'n credu'n rhesymol bod y rhoddwr heb allu i wneud y penderfyniadau sy'n dod dan yr Atwrneiaeth Arhosol (ar ôl cymhwyso egwyddorion y Ddeddf)
- ei fod yn gwneud y penderfyniad er y budd gorau i'r rhoddwr.

- 7.25 Pan fydd staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn ymwneud â pharatoi cynllun gofal ar gyfer rhywun sydd wedi penodi atwrnai lles personol, rhaid iddynt asesu'n gyntaf a yw'r rhoddwr yn meddu ar allu i gytuno ar y cynllun gofal neu ar rannau ohono. Os yw'r rhoddwr heb allu, rhaid i weithwyr proffesiynol ymgynghori â'r atwrnai wedyn a dod i gytundeb ag ef ynghylch gwneud y cynllun gofal. Bydd yn rhaid iddynt ymgynghori â'r atwrnai hefyd wrth ystyried pa gamau sydd er y budd gorau i'r person.

Pennod 7

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

Atwrneiaethau Arhosol lles personol sy'n awdurdodi atwrnai i wneud penderfyniadau am ofal iechyd

- 7.26** Mae Atwrneiaeth Arhosol lles personol yn caniatáu i atwrneiod wneud penderfyniadau i dderbyn neu wrthod gofal iechyd neu driniaeth oni bai fod y rhoddwr wedi datgan yn glir yn yr Atwrneiaeth Arhosol nad yw'n dymuno i'r atwrnai wneud penderfyniadau o'r fath.
- 7.27** Hyd yn oed os yw'r Atwrneiaeth Arhosol yn cynnwys penderfyniadau am ofal iechyd, nid oes hawl gan atwrneiod i gydsynio neu wrthod mewn cysylltiad â thriniaeth mewn sefyllfaoedd lle:
- **mae gallu gan y rhoddwr i wneud y penderfyniad penodol am ofal iechyd (adran 11(7)(a))**
Nid oes gan yr atwrnai unrhyw bŵer i wneud penderfyniadau os yw'r rhoddwr yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun am driniaeth.
 - **mae'r rhoddwr wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod y driniaeth sydd wedi'i hargymell (adran 11(7)(b))**
Ni chaiff atwrnai gydsynio mewn cysylltiad â thriniaeth os yw'r rhoddwr wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwysadwy i wrthod triniaeth benodol (gweler pennod 9). Ond os gwnaeth y rhoddwr Atwrneiaeth Arhosol ar ôl y penderfyniad ymlaen llaw, gan roi hawl i'r atwrnai gydsynio neu wrthod mewn cysylltiad â'r driniaeth, caiff yr atwrnai ddewis peidio â chydymffurfio â'r penderfyniad ymlaen llaw.
 - **mae penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd (adran 11(7)(c))** Nid oes gan atwrnai unrhyw bŵer i gydsynio neu wrthod mewn cysylltiad â thriniaeth cynnal bywyd, oni bai fod dogfen yr Atwrneiaeth Arhosol wedi awdurdodi hynny'n benodol (Gweler paragraffau 7.30–7.31 isod.)
 - **mae'r rhoddwr wedi'i gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl (adran 28)** Ni chaiff atwrnai gydsynio neu wrthod mewn cysylltiad â thriniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol i glaf sydd wedi'i gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gweler hefyd bennod 13).
- 7.28** Ni chaiff Atwrneiaethau Arhosol roi pŵer i atwrneiod fynnu cael mathau penodol o driniaeth feddygol nad yw staff gofal iechyd yn credu eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol i gyflwr penodol y rhoddwr.
- 7.29** Rhaid i atwrneiod ddilyn egwyddorion y Ddeddf bob amser a gwneud penderfyniadau sydd er y budd gorau i'r rhoddwr. Os bydd staff gofal iechyd yn anghydweld ag asesiad yr atwrnai o'r hyn sydd er y budd gorau, dylent drafod yr achos gydag arbenigwyr meddygol eraill a/neu gael ail farn ffurfiol. Wedyn dylent drafod y mater ymhellach gyda'r atwrnai. Os na allant gytuno, gallant wneud cais i'r Llys Gwarchod (gweler paragraffau 7.45–7.49 isod). Tra bydd y llys yn

dod i benderfyniad, caiff staff gofal iechyd roi triniaeth cynnal bywyd i ymestyn einioes y rhoddwr neu atal ei gyflwr rhag dirywio.

Atwrneiaethau Arhosol lles personol sy'n awdurdodi atwrnai i wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd

- 7.30** Ni fydd atwrnai ond yn cael cydsynio i dderbyn neu wrthod triniaeth cynnal bywyd ar ran y rhoddwr os oedd y rhoddwr, wrth wneud yr Atwrneiaeth Arhosol, wedi datgan yn benodol yn nogfen yr Atwrneiaeth Arhosol ei fod yn dymuno i'r atwrnai gael yr awdurdod hwnnw.
- 7.31** Yn yr un modd â phob penderfyniad, rhaid i atwrnai weithredu er y budd gorau i'r rhoddwr wrth wneud penderfyniadau am driniaeth o'r fath. Bydd hyn yn golygu cymhwyso rhestr wirio'r budd gorau (gweler pennod 5) ac ymgynghori â gofalwyr, aelodau'r teulu ac eraill sy'n ymddiddori yn lles y rhoddwr (gweler paragraffau 5.29–5.36). Os bydd unrhyw un yn amau nad yw'r atwrnai'n gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr, gall wneud cais i'r Llys Gwarchod am benderfyniad.

Senario: Gwneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd

Nid yw Mrs Joshi erioed wedi ymddiried mewn meddygon. Mae'n well ganddi ddibynnu ar therapïau eraill. Am iddi weld ei thad yn dioddef ar ôl cael triniaeth ymyrrol am ganser, mae'n bendant y byddai'n gwrthod triniaeth o'r fath ei hun.

Canfyddir bod canser arni ac mae'n trafod ei dymuniadau gyda'i g r. Mae Mrs Joshi yn gwybod y byddai'n parchu ei dymuniadau pe byddai byth yn gorfod gwneud penderfyniad ynghylch ei thriniaeth. Mae Mrs Joshi yn gwneud Atwrneiaeth Arhosol lles personol gan ei benodi'n atwrnai iddi gydag awdurdod i wneud yr holl benderfyniadau am ei lles a'i gofal iechyd. Mae'n cynnwys datganiad penodol yn ei awdurdodi i gydsynio i dderbyn neu wrthod triniaeth cynnal bywyd.

Bydd ef wedyn yn gallu ystyried ei barn a gwneud penderfyniadau am driniaeth er y budd gorau iddi os bydd heb allu'n ddiweddarach i wneud y penderfyniadau hynny ei hun.

Atwrneiaethau Arhosol eiddo a materion personol

- 7.32** Gall rhoddwr wneud Atwrneiaeth Arhosol sy'n rhoi hawl i atwrnai wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol (gan gynnwys rhai ariannol). Oni bai fod y rhoddwr yn datgan fel arall, ar ôl cofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol bydd yr atwrnai'n cael gwneud yr holl benderfyniadau am eiddo a materion personol y rhoddwr hyd yn oed os yw'r rhoddwr yn dal i fod â gallu i wneud y penderfyniadau drosto'i hun. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd yr Atwrneiaeth Arhosol yn dal i fod yn gymwys pan na fydd y rhoddwr bellach yn meddu ar allu.

Pennod 7

Beth mae'r
Ddeddf yn ei
ddweud am
Atwrneiaeth
Arhosol?

- 7.33 Fel arall, gall y rhoddwr ddatgan yn nogfen yr Atwrneiaeth Arhosol na ddylai'r Atwrneiaeth Arhosol ond bod yn gymwys pan fydd heb allu i wneud penderfyniad perthnasol. Cyfrifoldeb y rhoddwr yw penderfynu sut y dylid asesu ei allu wedyn. Er enghraifft, efallai y bydd y rhoddwr yn ymddiried yn yr atwrnai i wneud asesiad, neu efallai y bydd yn dweud na fydd yr Atwrneiaeth Arhosol ond yn gymwys os bydd ei feddyg teulu neu feddyg arall yn cadarnhau mewn ysgrifen ei fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol am eiddo neu faterion personol. Efallai y bydd sefydliadau ariannol yn dymuno gweld y cadarnhad ysgrifenedig cyn cydnabod awdurdod yr atwrnai i weithredu dan yr Atwrneiaeth Arhosol.
- 7.34 Nid yw'r ffaith bod rhywun wedi gwneud Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol yn golygu na all barhau i gyflawni trafodion ariannol drosto'i hun. Efallai y bydd gallu llawn gan y rhoddwr, ond mae'n bosibl ei fod yn rhagweld y gallai fod heb allu ar ryw adeg yn y dyfodol. Neu efallai ei fod yn meddu ar allu rhannol neu gyfnewidiol a'i fod felly'n gallu gwneud rhai penderfyniadau (neu eu gwneud ar rai adegau), ond bod arno angen atwrnai i wneud rhai eraill (neu rai ar adegau eraill). Dylai'r atwrnai ganiatáu i'r rhoddwr wneud cymaint ag y bo modd, gan roi anogaeth iddo, ac ni ddylai ond gweithredu pan fydd y rhoddwr yn gofyn iddo wneud neu wneud y penderfyniadau hynny y mae'r rhoddwr heb allu i'w gwneud. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd y rhoddwr yn dymuno trosglwyddo cyfrifoldeb dros yr holl benderfyniadau i'r atwrnai, hyd yn oed y rhai y mae ganddo allu i'w gwneud o hyd.
- 7.35 Os bydd y rhoddwr yn cyfyngu ar y penderfyniadau y caiff atwrnai eu gwneud, gallai banciau ofyn i'r atwrnai lofnodi datganiad sy'n amddiffyn y banc rhag atebolrwydd os bydd yr atwrnai'n camddefnyddio'r cyfrif.²⁸
- 7.36 Os na fydd y rhoddwr yn cyfyngu ar y penderfyniadau y gall atwrnai eu gwneud, bydd yr atwrnai'n gallu penderfynu ar unrhyw un neu'r cwbl o faterion personol y person sy'n ymwneud ag eiddo ac arian. Gallai hynny gynnwys:
- prynu neu werthu eiddo
 - agor, cau neu weithredu unrhyw gyfrif mewn banc, cymdeithas adeiladu neu le arall
 - rhoi mynediad at wybodaeth ariannol am y rhoddwr
 - hawlio, derbyn a defnyddio (ar ran y rhoddwr) yr holl fudd-daliadau, pensiynau, lwfansau ac ad-daliadau (oni bai fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi penodi rhywun eisoes a bod pawb yn fodlon i hynny barhau)

²⁸ Gweler canllawiau Cymdeithas Bancio Prydain i staff banciau o'r enw 'Banking for mentally incapacitated and learning disabled customers'.

- derbyn ar ran y rhoddwr unrhyw incwm, etifeddiaeth neu unrhyw beth arall y mae ganddo hawl iddo
- delio â materion treth y rhoddwr
- talu morgais, rhent a chostau cadw tŷ'r rhoddwr
- yswirio, cynnal a chadw a thrwsio eiddo'r rhoddwr
- buddsoddi cynilion y rhoddwr
- rhoi rhoddion cyfyngedig ar ran y rhoddwr (ond gweler paragraffau 7.40–7.42 isod)
- talu am ofal meddygol a gofal preswyl preifat neu dalu ffioedd cartref nyrsio
- ymgeisio am unrhyw gyllid y mae ganddo hawl iddo am ofal y GIG, gofal cymdeithasol neu addasiadau
- defnyddio arian y rhoddwr i brynu cerbyd neu unrhyw gyfarpar neu gymorth arall y mae arno eu hangen
- ad-dalu llog a chyfalaf ar unrhyw fenthyciad y mae'r rhoddwr wedi'i gymryd.

7.37 Bydd Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol gyffredinol yn caniatáu i'r atwrnai gyflawni unrhyw un neu'r cwbl o'r gweithredoedd uchod (er nad yw hon yn rhestr lawn o'r camau y gall eu cymryd). Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y rhoddwr am bennu'r mathau o bwerau y mae'n dymuno i'r atwrnai eu cael, neu beidio â chynnwys penderfyniadau o fath penodol. Os yw'r rhoddwr yn dal unrhyw asedau fel ymddiriedolwr, dylai ofyn cyngor cyfreithiol am effaith bosibl yr Atwrneiaeth Arhosol ar hynny.

7.38 Rhaid i'r atwrnai wneud y penderfyniadau hyn yn bersonol ac fel arfer ni all roi awdurdod i rywun arall gyflawni ei ddyletswyddau (gweler paragraffau 7.61–7.62 isod). Ond os yw'r rhoddwr yn dymuno i'r atwrnai allu rhoi awdurdod i arbenigwr i wneud penderfyniadau penodol, rhaid iddo ddatgan hynny'n glir yn nogfen yr Atwrneiaeth Arhosol (er enghraifft, penodi rheolwr buddsoddi i wneud penderfyniadau penodol ynghylch buddsoddi).

7.39 Mae'n bosibl y bydd rhoddwyr yn dymuno penodi rhywun (aelod o'r teulu, efallai, neu weithiwr proffesiynol) i fynd drwy ei gyfrifon gyda'r atwrnai o bryd i'w gilydd. Gallai hynny fod o gymorth i roi sicrwydd i roddwyr y bydd rhywun yn gwirio ei faterion ariannol pan fyddant hwy heb allu i wneud hynny. Gallai fod yn fuddiol hefyd i atwrneiod drefnu i wirio'n rheolaidd fod popeth yn cael ei wneud mewn modd priodol. Dylai'r rhoddwr sicrhau bod y person dan sylw'n barod i gyflawni'r rôl hon a'i fod yn barod i ofyn am gael gweld y cyfrifon os na fydd yr atwrnai'n eu darparu. Dylai gynnwys y trefniant hwn yn

nogfen yr Atwrneiaeth Arhosol sydd wedi'i llofnodi. Dylid nodi hefyd yn yr Atwrneiaeth Arhosol a yw'r person hwnnw'n cael codi ffi am y gwasanaeth hwnnw.

Pa roddion y gall atwrnai eu rhoi dan Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol?

- 7.40** Ni fydd atwrnai ond yn cael rhoi arian neu eiddo'r rhoddwr yn rhodd i rai sy'n perthyn iddo neu sydd â chysylltiad ag ef (gan gynnwys yr atwrnai) ar achlysuron penodol, gan gynnwys:
- genedigaethau neu benblwyddi
 - priodasau a phenblwyddi priodas
 - seremonïau neu benblwyddi partneriaethau sifil
 - unrhyw achlysur arall pryd y mae aelodau'r teulu, ffrindiau neu rai o'i gydnabod yn arfer rhoi anrhegion (adran 12(3)(b)).
- 7.41** Os oedd y rhoddwr wedi rhoi rhoddion o'r blaen i elusen, yn rheolaidd neu'n achlysurol, gall yr atwrnai roi rhoddion o arian y person. Mae hyn yn gymwys hefyd os gellid bod wedi disgwyl i'r rhoddwr wneud taliadau o'r fath (adran 12(2)(b)). Ond rhaid i werth unrhyw rodd fod yn rhesymol a rhaid ystyried maint ystad y rhoddwr cyn ei rhoi. Er enghraifft, ni fyddai'n rhesymol prynu anrhegion drud adeg y Nadolig os mai ychydig o foddion byw a oedd gan y rhoddwr ac os oedd yn gorfod mynd heb eitemau hanfodol er mwyn talu amdanynt.
- 7.42** Ni all y rhoddwr ddefnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol i roi rhoddion mwy helaeth na'r rhai a ganiateir dan adran 12 o'r Ddeddf. Ond gall osod amodau neu gyfyngiadau mwy caeth ar bwerau'r atwrnai i roi rhoddion. Dylai ddatgan y cyfyngiadau hynny'n glir yn nogfen yr Atwrneiaeth Arhosol wrth ei chreu. Wrth benderfynu ynghylch rhoddion priodol, dylai'r atwrnai ystyried dymuniadau a theimladau'r rhoddwr er mwyn canfod beth fyddai er y budd gorau i'r rhoddwr. Gall yr atwrnai wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i roi rhoddion sydd heb eu cynnwys yn yr Atwrneiaeth Arhosol (er enghraifft, i ddibenion cynllunio treth).

A oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar bwerau atwrneiod?

- 7.43** Ni fydd atwrneiod wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd os byddant yn gwneud rhywbeth sydd â'r bwriad o roi ataliad ar y rhoddwr, oni bai:
- fod yr atwrnai'n credu'n rhesymol bod y rhoddwr heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw, a
 - bod yr atwrnai'n credu'n rhesymol bod angen ataliad i atal niwed i'r rhoddwr, a

Pennod 7

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

- bod y math o ataliad a ddefnyddir yn gymesur â thebygolrwydd a difrifoldeb y niwed.

Os oes angen i atwrnai wneud penderfyniad neu gyflawni gweithred a allai olygu'r defnydd o ataliad, dylai ystyried y canllawiau sydd wedi'u nodi ym mhennod 6.

- 7.44** Nid oes gan atwrneiod unrhyw awdurdod i gymryd camau sy'n arwain at amddifadu'r rhoddwr o'i ryddid. Ni fydd yn gyfreithlon amddifadu rhywun o'i ryddid oni bai fod hynny wedi'i awdurdodi'n briodol a bod amddiffyniad arall ar gael i'r un sydd heb allu. Un enghraifft o hynny yw amddiffyniad mewn cysylltiad â chadw rhai dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gweler pennod 13) neu ddyfarniad gan lys. Mae mwy o ganllawiau ym mhennod 6 am y modd i ganfod a yw gweithred yn ataliad neu'n fodd i amddifadu rhywun o'i ryddid.

Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod dros Atwrneiaethau Arhosol?

- 7.45** Mae gan y Llys Gwarchod amryw o bwerau i:

- benderfynu a yw Atwrneiaeth Arhosol yn ddilys
- rhoi cyfarwyddiadau ynghylch defnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol, a
- diswyddo atwrnai (er enghraifft, os na fydd yr atwrnai'n gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr).

Mae mwy o wybodaeth ym mhennod 8 am bwerau'r Llys Gwarchod.

- 7.46** Os oes gan rywun unrhyw amheuon ynghylch a yw Atwrneiaeth Arhosol yn ddilys, caiff ofyn i'r llys benderfynu a yw'r Atwrneiaeth Arhosol:

- yn bodloni gofynion y Ddeddf
- wedi'i diddymu (ei dileu) gan y rhoddwr, neu
- wedi dod i ben am unrhyw reswm arall.

- 7.47** Hefyd caiff y llys atal rhywun rhag cofrestru Atwrneiaeth Arhosol neu ddyfarnu bod Atwrneiaeth Arhosol yn annilys:

- os gwnaeth y rhoddwr yr Atwrneiaeth Arhosol o ganlyniad i bwysau gormodol neu dwyll, neu
- os yw'r atwrnai'n ymddwyn, neu wedi ymddwyn neu'n bwriadu ymddwyn mewn modd sy'n mynd yn groes i'w ddyletswyddau neu sydd heb fod er y budd gorau i'r rhoddwr.

- 7.48** Gall y llys hefyd egluro ystyr Atwrneiaeth Arhosol, os nad yw'n glir, a gall ddweud wrth atwrneiod sut y dylent ddefnyddio Atwrneiaeth

Pennod 7

Beth mae'r
Ddeddf yn ei
ddweud am
Atwrneiaeth
Arhosol?

Arhosol. Os yw atwrnai o'r farn nad yw Atwrneiaeth Arhosol yn rhoi digon o bwerau iddo, gall ofyn i'r llys ymestyn ei bwerau – os nad oes gallu gan y rhoddwr i awdurdodi hynny bellach. Yn ogystal â hynny, gall y llys awdurdodi atwrnai i roi rhodd nad yw'r Ddeddf yn ei chaniatáu fel arfer (adran 12(2)), os yw hynny er y budd gorau i'r rhoddwr.

- 7.49 Dylai pob atwrnai gadw cofnodion o'i ymwneud â materion personol y rhoddwr (gweler hefyd baragraff 7.67 isod). Gall y llys orchymyn i atwrneiod ddangos cofnodion (er enghraifft, cyfrifon ariannol) a darparu adroddiadau, gwybodaeth neu ddogfennau penodol. Os oes gan rywun bryderon ynghylch taliadau neu dreuliau atwrnai, gallai'r llys ddatrys y mater hwnnw.

Pa gyfrifoldebau sydd gan atwrneiod?

- 7.50 Ni all rhoddwr fynnu bod rhywun yn cytuno i fod yn atwrnai. Mater i'r atwrnai a gynigir yw penderfynu a yw'n dymuno ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Pan fydd atwrnai'n derbyn y rôl drwy lofnodi dogfen yr Atwrneiaeth Arhosol, mae hyn yn cadarnhau ei fod yn barod i weithredu dan yr Atwrneiaeth Arhosol wedi iddi gael ei chofrestru. Gall atwrnai dynnu'n ôl o'r penodiad os bydd yn dod yn analluog neu'n amharod i weithredu ar ryw adeg, ond os yw'r Atwrneiaeth Arhosol wedi'i chofrestru, rhaid iddo ddilyn y gweithdrefnau cywir i dynnu'n ôl (gweler paragraff 7.66 isod).
- 7.51 Wedi i'r atwrnai ddechrau gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol, rhaid iddo gyrraedd rhai safonau. Os na fydd yn cyflawni'r dyletswyddau isod, gellid ei ddiswyddo. Mewn rhai amgylchiadau gallai wynebu cyhuddiadau o dwyll neu esgeulustod.

Pa ddyletswyddau y mae'r Ddeddf yn eu gosod?

- 7.52 Mae dyletswydd ar atwrneiod sy'n gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol i:
- ddilyn egwyddorion statudol y Ddeddf (gweler pennod 2)
 - gwneud penderfyniadau er y budd gorau i'r rhoddwr
 - dal sylw ar y canllawiau yn y Cod Ymarfer
 - gwneud y penderfyniadau hynny y mae'r Atwrneiaeth Arhosol yn rhoi awdurdod iddynt eu gwneud yn unig.

Egwyddorion a'r budd gorau

- 7.53 Rhaid i atwrneiod weithredu'n unol ag egwyddorion statudol y Ddeddf (adran 1) ac er y budd gorau i'r rhoddwr (mae'r camau ar gyfer canfod beth sydd er y budd gorau wedi'u nodi yn adran 4). Yn benodol, rhaid i atwrneiod ystyried a yw'r rhoddwr yn meddu ar allu i wneud y

penderfyniad drosto'i hun. Os nad ydyw, dylai ystyried a yw'r rhoddwr yn debygol o adennill gallu i wneud y penderfyniad yn y dyfodol. Os ydyw, efallai y bydd modd gohirio'r penderfyniad nes bydd y rhoddwr yn gallu ei wneud.

Y Cod Ymarfer

7.54 Yn ogystal â'r bennod hon, dylai atwrneiod roi sylw arbennig i'r canllawiau canlynol sydd wedi'u nodi yn y Cod:

- pennod 2, sy'n nodi sut y dylid cymhwysu egwyddorion y Ddeddf
- pennod 3, sy'n disgrifio'r camau y gellir eu cymryd i geisio helpu'r person i wneud penderfyniadau drosto'i hun
- pennod 4, sy'n disgrifio diffiniad y Ddeddf o ddiffyg gallu ac yn rhoi canllawiau ar asesu gallu
- pennod 5, sy'n rhoi canllawiau ar ganfod beth sydd er y budd gorau i'r rhoddwr.

7.55 Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd atwrneiod yn cael ei bod yn fuddiol cyfeirio at ganllawiau ym:

- mhennod 6, sy'n egluro dan ba amgylchiadau y gallai atwrneiod sydd â chyfrifoldebau gofalu gael amddiffyniad rhag atebolrwydd ac yn rhoi canllawiau ar y nifer bach o amgylchiadau lle mae'r Ddeddf yn caniatáu ataliad mewn cysylltiad â gofal a thriniaeth
- pennod 8, sy'n cynnig crynodeb o bwerau'r Llys Gwarchod mewn cysylltiad ag Atwrneiaethau Arhosol
- pennod 9, sy'n egluro'r effaith bosibl ar Atwrneiaethau Arhosol os bydd y rhoddwr wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth
- pennod 15, sy'n disgrifio dulliau o ddatrys anghytundebau.

Gwneud penderfyniadau sydd wedi'u cynnwys mewn Atwrneiaeth Arhosol yn unig

7.56 Nid oes gan atwrnai lles personol unrhyw awdurdod i wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol (er enghraifft, materion ariannol) mewn cysylltiad â'r rhoddwr. Nid oes gan atwrnai eiddo a materion personol unrhyw awdurdod o ran penderfyniadau am ofal personol y rhoddwr. (Ond gellid penodi'r un person mewn Atwrneiaethau Arhosol ar wahân i gyflawni'r ddwy rôl hyn.) Dan unrhyw Atwrneiaeth Arhosol, bydd awdurdod gan yr atwrnai mewn llawer o fathau o benderfyniadau. Ond os bydd rhoddwr yn cynnwys cyfyngiadau yn nogfen yr Atwrneiaeth Arhosol, bydd hynny'n cyfyngu ar awdurdod yr atwrnai (adran 9(4)(b)). Os yw'r atwrnai o'r farn bod arno angen mwy o bwerau, caiff wneud cais i'r Llys Gwarchod, a

Pennod 7

Beth mae'r
Ddeddf yn ei
ddweud am
Atwrneiaeth
Arhosol?

gallai'r llys benderfynu rhoi i'r atwrnai yr awdurdod y mae'n gofyn amdano neu, fel arall, penodi'r atwrnai'n ddirprwy gyda'r pwerau angenrheidiol (gweler pennod 8).

- 7.57 Mae'n arfer da i wneuthurwyr penderfyniad ymgynghori ag atwrneiod ynghylch unrhyw benderfyniad neu weithred, pa un a yw'r Atwrneiaeth Arhosol yn ei gynnwys ai peidio. Y rheswm am hynny yw ei bod yn debygol bod yr atwrnai wedi adnabod y rhoddwr ers cryn amser a gallai fod â gwybodaeth bwysig am ei ddymuniadau a'i deimladau. Gall ymchwilyr ymgynghori ag atwrneiod hefyd os ydynt yn ystyried cynnwys y rhoddwr mewn ymchwil (gweler pennod 11).

Senario: Ymgynghori ag atwrneiod

Mae Mr Varadi yn gwneud Atwrneiaeth Arhosol lles personol gan benodi ei fab a'i ferch yn atwrneiod ar y cyd iddo. Mae hefyd yn gwneud Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol, gan benodi ei fab a'i dwrnai i weithredu ar y cyd ac yn unigol. Mae'n cofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol ar unwaith, fel y gall ei atwrneiod roi cymorth i wneud penderfyniadau ariannol.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, cafodd Mr Varadi strôc ac nid yw'n gallu siarad ac mae'n ei chael yn anodd rhoi gwybod am ei ddymuniadau. Nid oes ganddo allu i wneud penderfyniadau am driniaeth ychwaith. Mae'r atwrneiod yn gwneud cais i gofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol lles personol. Mae'r ddau'n teimlo y dylent ohirio penderfyniadau am ofal Mr Varadi yn y dyfodol, gan ei bod yn bosibl y bydd yn adennill y gallu i wneud y penderfyniadau ei hun. Ond maent yn cytuno bod rhaid gwneud rhai penderfyniadau ar unwaith.

Er nad oes gan y twrnai unrhyw awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch lles, mae'r atwrneiod lles personol yn ymgynghori ag ef ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i'w tad. Maent yn siarad ag ef ynghylch y penderfyniadau ar driniaeth y mae'n rhaid eu gwneud ar unwaith a'u hawgrym y dylid gohirio penderfyniadau am ei ofal yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae'r atwrneiod eiddo a materion personol yn ymgynghori â'r ferch ynghylch y penderfyniadau ariannol nad oes gan Mr Varadi allu i'w gwneud ei hun.

Beth yw dyletswyddau eraill yr atwrnai?

- 7.58 Mae atwrnai a benodwyd dan Atwrneiaeth Arhosol yn gweithredu fel dewis asiant y rhoddwr ac, felly, dan gyfraith asiantaeth, mae gan yr atwrnai ddyletswyddau penodol tuag at y rhoddwr. Mae'r atwrnai'n ymgymryd â rôl sydd â llawer iawn o bwêr, a rhaid iddo'i ddefnyddio'n ofalus ac yn gyfrifol. Mae dan ddyletswydd i:

- gymhwyso safonau gofal a sgiliau penodol (dyletswydd gofal) wrth wneud penderfyniadau
- cyflawni cyfarwyddiadau'r rhoddwr
- peidio â manteisio ar ei sefyllfa a pheidio â dod â budd iddo'i hun, ond dod â budd i'r rhoddwr (dyletswydd ymddiriedol)
- peidio â dirprwyo penderfyniadau, oni bai ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hynny
- gweithredu'n ddidwyll
- parchu cyfrinachedd
- cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod
- peidio â rhoi'r gorau i'r rôl heb ddweud wrth y rhoddwr a'r llys.

Mewn cysylltiad ag Atwrneiaethau Arhosol eiddo a materion personol, mae dan ddyletswydd i:

- gadw cyfrifon
- cadw arian ac eiddo'r rhoddwr ar wahân i'w rhai ei hun.

Dyletswydd gofal

7.59 Mae 'dyletswydd gofal' yn golygu cymhwyso safon benodol o ofal a medr – yn ôl a yw'r atwrnai'n cael ei dalu am ei wasanaethau neu'n meddu ar gymwysterau proffesiynol perthnasol.

- Yn achos atwrneiod nad ydynt yn cael tâl, rhaid iddynt gymhwyso'r un gofal, medr a diwydrwydd ag y byddent yn eu harfer i wneud penderfyniadau am eu bywyd eu hun. Os yw atwrnai'n honni bod ganddo sgiliau neu gymwysterau penodol, rhaid iddo amlygu mwy o fedr yn y meysydd penodol hynny na rhywun nad yw'n gwneud honiadau o'r fath.
- Os yw atwrnai'n cael ei dalu am ei wasanaethau, dylai amlygu mwy o ofal a medr.
- Os yw atwrnai'n ymgymryd â'i ddyletswyddau yng nghwrs ei waith proffesiynol (fel twrnai neu ymddiriedolwr corfforaethol, er enghraifft), rhaid iddo amlygu cymhwysedd proffesiynol a chadw rheolau a safonau ei broffesiwn.

Dyletswydd ymddiriedol

7.60 Mae dyletswydd ymddiriedol yn golygu nad yw atwrneiod i fanteisio ar eu swydd. Ni ddylent ychwaith eu rhoi eu hun mewn sefyllfa lle mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â'u dyletswyddau. Nid ydynt ychwaith i ganiatáu i unrhyw ddylanwadau eraill effeithio ar y modd

y maent yn gweithredu fel atwrnai. Dylai penderfyniadau fod er budd i'r rhoddwr bob amser, ac nid i'r atwrnai. Nid yw atwrneiod i elwa neu gael unrhyw fudd personol o'u swydd, ar wahân i dderbyn rhoddion lle mae'r Ddeddf yn caniatáu hynny, pa un a yw hynny ar draul y rhoddwr ai peidio.

Pennod 7

Beth mae'r
Ddeddf yn ei
ddweud am
Atwrneiaeth
Arhosol?

Dyletswydd i beidio â dirprwyo

- 7.61 Fel arfer, nid yw atwrneiod yn gallu dirprwyo eu hawdurdod i rywun arall. Rhaid iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n bersonol. Caiff yr atwrnai geisio cyngor arbenigol neu broffesiynol (er enghraifft, cyngor ar fuddsoddi gan gynghorydd ariannol neu gyngor ar driniaeth feddygol gan feddyg). Ond, fel rheol gyffredinol, ni allant adael i rywun arall wneud penderfyniad y maent wedi'u penodi i'w wneud, oni bai fod y rhoddwr wedi awdurdodi hynny'n benodol yn yr Atwrneiaeth Arhosol.
- 7.62 Mewn rhai amgylchiadau, gallai atwrneiod fod â phwerau cyfyngedig i ddirprwyo (er enghraifft, oherwydd rheidrwydd neu amgylchiadau nas rhagwelwyd, neu ar gyfer tasgau penodol na fyddai'r rhoddwr wedi disgwyl i'r atwrnai roi sylw iddynt yn bersonol). Ond fel arfer ni fydd atwrneiod yn gallu dirprwyo unrhyw benderfyniadau sy'n dibynnu ar eu disgrisiwn.

Dyletswydd diddwyll

- 7.63 Mae gweithredu'n ddidwyll yn golygu gweithredu'n onest ac yn gywir. Er enghraifft, rhaid i atwrnai geisio sicrhau na fydd ei benderfyniadau'n mynd yn groes i benderfyniad a wnaeth y rhoddwr pan oedd yn dal i fod â gallu (oni bai fod hynny er y budd gorau i'r rhoddwr).

Dyletswydd cyfrinachedd

- 7.64 Mae atwrneiod dan ddyletswydd i gadw materion personol y rhoddwr yn gyfrinachol, oni bai:
- fod y rhoddwr, cyn iddo golli'r gallu i wneud hynny, wedi cytuno y ceir datgelu rhywfaint o wybodaeth bersonol neu ariannol i ddiben penodol (os yw wedi enwi rhywun y mae am iddo wirio ei gyfrifon ariannol, er enghraifft), neu
 - fod rheswm da arall dros ei rhoi (am fod hynny er budd i'r cyhoedd, er enghraifft, neu er y budd gorau i'r un sydd heb allu, neu am fod perygl o niwed i'r rhoddwr neu i eraill).

Dan yr amgylchiadau olaf uchod, gallai fod yn ddoeth i'r atwrnai gael cyngor cyfreithiol. Mae mwy o wybodaeth am gyfrinachedd ym mhennod 16.

Dyletswydd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod

7.65 Dan adrannau 22 a 23 o'r Ddeddf, mae gan y Llys Gwarchod bwerau pellgyrhaeddol i benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â gweithrediad neu ddilysrwydd Atwrneiaeth Arhosol. Mae hefyd yn gallu:

- rhoi awdurdod ychwanegol i atwrneiod
- rhoi gorchymyn iddynt ddangos cofnodion (er enghraifft, cyfrifon ariannol), neu
- roi gorchymyn iddynt ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth benodol i'r llys.

Rhaid i atwrneiod gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu orchymyn y mae'r llys yn ei wneud.

Dyletswydd i beidio ag ymwadu heb hysbysu'r rhoddwr a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

7.66 Wedi i rywun ddod yn atwrnai, ni all roi'r gorau i'r rôl honno heb hysbysu'r rhoddwr a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Os bydd yn penderfynu rhoi'r gorau i gyflawni'r rôl, rhaid iddo ddilyn y canllawiau perthnasol sydd ar gael gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Dyletswydd i gadw cyfrifon

7.67 Rhaid i atwrneiod eiddo a materion personol gadw cyfrifon o drafodion a wnaed ar ran y rhoddwr. Weithiau bydd y Llys Gwarchod yn gofyn am gael gweld cyfrifon. Os nad yw'r atwrnai'n arbenigwr ariannol ac os yw materion ariannol y rhoddwr yn gymharol syml, mae'n bosibl y bydd cofnod o incwm a gwariant y rhoddwr (er enghraifft, drwy gyfriflenni banc) yn ddigon. Mwyaf cymhleth fydd materion ariannol y rhoddwr, mwyaf manwl y gallai fod angen i'r cyfrifon fod.

Dyletswydd i gadw arian ac eiddo'r rhoddwr ar wahân

7.68 Fel arfer, dylai atwrneiod eiddo a materion personol gadw arian ac eiddo'r rhoddwr ar wahân i'w rhai eu hun a rhai unrhyw un arall. Efallai y bydd achlysuron pan fydd rhoddwyr ac atwrneiod wedi cytuno yn y gorffennol i gadw eu harian mewn cyfrif banc ar y cyd (er enghraifft, os yw gŵr yn gweithredu fel atwrnai i'w wraig). Gallai fod yn bosibl parhau â hynny dan yr Atwrneiaeth Arhosol. Ond yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, rhaid i atwrneiod gadw materion ariannol ar wahân er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gamgymeriadau neu ddryswch.

Sut mae'r Ddeddf yn amddiffyn rhoddwyr rhag eu cam-drin?

Beth y dylai rhywun ei wneud os yw'n credu bod atwrnai'n camddefnyddio ei swydd?

7.69 Mae atwrneiod mewn swydd gyfrifol, felly mae perygl bob amser y byddant yn camddefnyddio eu swydd. Gall rhoddwyr helpu i atal camddefnydd o'r fath drwy fynd ati'n ofalus i ddewis atwrnai addas a dibynadwy. Ond mae gan eraill ran i'w chwarae drwy gadw golwg am arwyddion posibl o gam-drin neu gamfanteisio, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Wedyn bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ymchwilio i hynny drwy gydweithredu â'r asiantaethau perthnasol.

7.70 Rhai arwyddion a allai ddangos bod atwrnai'n camfanteisio ar y rhoddwr (neu'n methu â gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr) yw:

- atal perthnasau neu ffrindiau rhag cysylltu â'r rhoddwr – er enghraifft, gallai'r atwrnai rwystro cysylltiadau neu gallai'r rhoddwr ddechrau gwrthod ymweliadau neu alwadau ffôn gan aelodau o'r teulu a ffrindiau heb reswm
- newidiadau sydyn ac anesboniadwy o ran trefniadau byw (er enghraifft, rhywun na chafodd y rhoddwr fawr o gysylltiad ag ef yn symud i mewn i ofalu amdano)
- peidio â gadael i staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol gael gweld y rhoddwr
- mynd â'r rhoddwr o'r ysbyty'n groes i gyngor meddygol, tra bo'r rhoddwr yn cael triniaeth feddygol angenrheidiol
- biliau heb eu talu (er enghraifft, ffioedd gofal preswyl neu gartref nyrso)
- atwrnai'n agor cyfrif cerdyn credyd ar ran y rhoddwr
- gwario arian ar bethau sydd heb gysylltiad amlwg ag anghenion y rhoddwr
- yr atwrnai'n gwario arian mewn modd anarferol neu afradlon
- trosglwyddo asedau ariannol i wlad arall.

7.71 Os yw rhywun yn amau bod camdriniaeth yn digwydd, dylai gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar unwaith. Efallai y bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyfarwyddo un o Ymwelwyr y Llys Gwarchod i ddod i weld atwrnai i ymchwilio. Mewn achosion lle mae amheuaeth o gamdriniaeth gorfforol neu rywiol, dwyn neu dwyll difrifol, dylai'r person gysylltu â'r heddlu. Efallai y bydd yn gallu cyfeirio'r mater hefyd i sylw'r awdurdodau amddiffyn oedolion lleol.

Pennod 7

Beth mae'r
Ddeddf yn ei
ddweud am
Atwrneiaeth
Arhosol?

7.72 Mewn achosion difrifol, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyfeirio'r mater i sylw'r Llys Gwarchod. Gallai'r Llys ddiddymu'r Atwrneiaeth Arhosol neu (drwy Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus) atal ei chofrestru, os bydd yn penderfynu:

- nad yw'r Atwrneiaeth Arhosol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer creu Atwrneiaeth Arhosol
- bod yr Atwrneiaeth Arhosol wedi'i diddymu neu wedi dod i ben am unrhyw reswm arall
- bod rhywun wedi defnyddio twyll neu bwysau gormodol i beri i'r rhoddwr wneud yr Atwrneiaeth Arhosol
- bod yr atwrnai wedi gwneud rhywbeth nad oes ganddo awdurdod i'w wneud, neu
- fod yr atwrnai wedi ymddwyn neu'n bwriadu ymddwyn mewn modd nad yw er y budd gorau i'r rhoddwr.

Gallai'r llys ystyried wedyn a ellir rheoli'r awdurdod a roddwyd cynt i atwrnai drwy:

- wneud un penderfyniad gan y llys, neu
- drwy benodi dirprwy.

Beth y dylai atwrnai ei wneud os yw'n credu bod rhywun arall yn cam-drin y rhoddwr?

7.73 Os yw atwrnai'n credu bod rhywun arall yn cam-drin neu'n camfanteisio ar y rhoddwr, dylai roi gwybod am hynny i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a gofyn am gyngor ar y camau y dylai eu cymryd. Dylai gysylltu â'r heddlu os yw'n amau bod camdriniaeth gorfforol neu rywiol, dwyn neu dwyll difrifol, yn digwydd. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn gallu cyfeirio'r mater i sylw awdurdodau amddiffyn oedolion lleol.

7.74 Ceir mwy o wybodaeth ym mhennod 13 am amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag eu cam-drin, rhag cael cam neu rhag eu hesgeuluso. Ymdrinnir hefyd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r gwahanol asiantaethau sy'n gysylltiedig, gan gynnwys Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac awdurdodau lleol. Yn benodol, mae'n drosedd (ac iddo'r gosb fwyaf o bum mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau) i unrhyw un (gan gynnwys atwrneiod) esgeuluso neu gam-drin yn fwriadol rywun sydd dan ei ofal sydd heb allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun (adran 44).

Beth fydd yn digwydd i'r Atwrneiaethau Parhaus presennol wedi i'r Ddeddf ddod i rym?

- 7.75** Wedi i'r Ddeddf ddod i rym, ni fydd yn bosibl gwneud Atwrneiaethau Parhaus newydd. Dim ond Atwrneiaethau Arhosol y gellir eu gwneud wedyn.
- 7.76** Bydd rhai rhoddwyr wedi creu Atwrneiaeth Barhaus cyn i'r Ddeddf ddod i rym gan ddisgwyl y bydd eu dewis atwrneiod yn rheoli eu heiddo a'u materion personol yn y dyfodol, pa un a fydd ganddynt allu i wneud hynny eu hun ai peidio.
- 7.77** Os bydd rhoddwyr yn dal i fod â gallu wedi i'r Ddeddf ddod i rym, gallant ddileu'r Atwrneiaeth Barhaus a gwneud Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer eu heiddo a'u materion personol. Dylent hefyd roi gwybod i atwrneiod ac unrhyw un arall sy'n gwybod am yr Atwrneiaeth Barhaus (er nghraifft, banc) eu bod wedi'i dileu.
- 7.78** Bydd rhai rhoddwyr yn dewis peidio â dileu eu Hatwrneiaeth Barhaus neu efallai y byddant eisoes wedi colli'r gallu i wneud hynny. Mewn achosion o'r fath, mae'r Ddeddf yn caniatáu i Atwrneiaethau Parhaus sy'n bod eisoes barhau'n ddilys, pa un a ydynt wedi'u cofrestru neu beidio, fel y gall atwrneiod gyflawni disgwyliadau'r rhoddwr (Atodlen 4). Rhaid cofrestru Atwrneiaeth Barhaus gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus pan fydd yr atwrnai o'r farn bod y rhoddwr heb allu i reoli ei faterion personol ei hun, neu pan fydd yn dechrau colli'r gallu i wneud hynny.
- 7.79** Mae'n bosibl y bydd atwrneiod Atwrneiaethau Parhaus yn cael bod y canllawiau yn y bennod hon yn ddefnyddiol. Yn benodol, rhaid i bob atwrnai gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd wedi'u disgrifio ym mharagraffau 7.58–7.68 uchod. Gellir cael atwrneiod Atwrneiaethau Parhaus yn atebol dan adran 44 o'r Ddeddf newydd, sy'n nodi'r troseddau newydd o gam-drin ac esgeuluso bwriadol. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi llunio canllawiau ar Atwrneiaethau Parhaus (gweler Atodiad A lle y ceir manylion y cyhoeddiadau a'r wybodaeth ar gyfer cysylltu).

Pennod 7

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am Atwrneiaeth Arhosol?

8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

Yn y bennod hon ceir disgrifiad o rôl y Llys Gwarchod a rôl dirprwyon a benodir gan y llys. Eglurir pwerau'r llys a'r modd i wneud cais i'r llys. Ymdrinnir hefyd â'r modd y mae'r llys yn penodi dirprwy i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu i wneud y penderfyniadau hynny. Yn benodol, cynigir canllawiau ar ddyletswyddau'r dirprwy a'r canlyniadau o beidio â'u cyflawni'n gyfrifol.

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynhyrchu canllawiau manwl ar gyfer dirprwyon. Mae mwy o fanylion yn yr Atodiad am y cyhoeddiadau a sut i'w cael. Ceir mwy o fanylion am drefnau'r llys yn Rheolau a Chyfarwyddiadau Ymarfer y Llys Gwarchod sydd wedi'u cyhoeddi gan y llys.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Mae gan y Llys Gwarchod bwerau i:

- benderfynu a yw rhywun yn meddu ar allu i wneud penderfyniad penodol drosto'i hun
- gwneud datganiadau, penderfyniadau neu orchmynion ar faterion ariannol a materion sy'n ymwneud â lles sy'n effeithio ar bobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau o'r fath
- penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau ar ran pobl sydd heb allu i wneud y penderfyniadau hynny
- penderfynu a yw Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus yn ddilys
- diswyddo dirprwyon neu atwrneiod sy'n methu â chyflawni eu dyletswyddau.

Cyn derbyn ei benodi fel dirprwy, dylai rhywun y mae'r llys yn ei enwebu ystyried:

- a yw'n meddu ar y sgiliau a'r medr y mae eu hangen i gyflawni dyletswyddau'r dirprwy (yn enwedig mewn cysylltiad ag eiddo a materion personol)

- a yw'n dymuno ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau.

Rhaid i unrhyw un sy'n gweithredu fel dirprwy:

- sicrhau na fydd ond yn gwneud y penderfyniadau hynny y mae wedi'i awdurdodi i'w gwneud drwy orchymyn y llys
- sicrhau ei fod yn dilyn egwyddorion statudol y Ddeddf, gan gynnwys:
 - ystyried a yw'r person yn meddu ar allu i wneud penderfyniad penodol drosto'i hun. Os ydyw, dylai'r dirprwy adael iddo wneud hynny oni bai fod y person yn penderfynu y dylai'r dirprwy wneud y penderfyniad
 - cymryd pob cam posibl i geisio helpu'r person i wneud y penderfyniad penodol
- gwneud penderfyniadau sydd er y budd gorau i'r person bob amser
- dal sylw ar ganllawiau yn y Cod Ymarfer sy'n berthnasol i'r sefyllfa
- cyflawni ei ddyletswyddau tuag at y person dan sylw (yn benodol y ddyletswydd gofal a'r dyletswyddau ymddiriedol i barchu maint yr ymddiriedaeth y mae'r llys wedi'i rhoi ynddo).

Beth yw'r Llys Gwarchod?

- 8.1** Mae adran 45 yn sefydlu llys arbenigol, y Llys Gwarchod, i ddelio â phenderfyniadau ar gyfer oedolion (a phlant mewn ychydig o achosion) a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hun. Mae'r Llys Gwarchod newydd yn cymryd lle'r hen lys o'r un enw, nad oedd ond yn delio â phenderfyniadau ynghylch eiddo a materion ariannol pobl sydd heb allu i drefnu eu materion personol eu hun. Yn ogystal ag eiddo a materion ariannol, mae'r llys newydd yn delio â phenderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar faterion sy'n ymwneud â gofal iechyd a lles personol. Yr Uchel Lys a oedd yn delio â'r rhain o'r blaen dan ei awdurdodaeth gynhenid.
- 8.2** Mae'r Llys Gwarchod newydd yn llys cofnodion uwch ac mae'n gallu creu cynsail (yn gallu gosod esiamplau ar gyfer achosion yn y dyfodol) a meithrin arbenigedd o ran yr holl faterion sy'n ymwneud â diffyg gallu. Mae ganddo'r un pwerau, hawliau, breintiau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad, rhaid i'r llys gymhwysu'r holl egwyddorion sylfaenol sydd wedi'u nodi yn adran 1 o'r Ddeddf. Yn benodol, rhaid iddo wneud penderfyniad sydd er y budd gorau i'r un sydd heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw. Codir ffi fel arfer am geisiadau i'r llys.²⁹

²⁹ Mae manylion ar gael gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am y ffioedd y mae'r llys yn eu codi, a'r amgylchiadau lle y gellir hepgor neu ddileu'r ffioedd.

Sut y gall rhywun wneud cais i'r Llys Gwarchod?

8.3 Yn y rhan fwyaf o achosion sy'n ymwneud â materion lles personol, bydd egwyddorion craidd y Ddeddf a'r prosesau sydd wedi'u nodi ym mhenodau 5 a 6 yn ddigon i:

- helpu pobl i gymryd camau neu wneud penderfyniadau er y budd gorau i rywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau am ei ofal neu ei driniaeth ei hun, neu
- ddarganfod dulliau o ddatrys anghytundebau ynghylch camau neu benderfyniadau o'r fath.

Ond efallai y bydd angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod yn achos:

- penderfyniadau arbennig o anodd
- anghytundebau na ellir eu datrys mewn modd arall (gweler pennod 15), neu
- sefyllfaoedd lle y gallai fod angen gwneud penderfyniadau olynol am les personol rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun.

8.4 Fel arfer, bydd angen cael gorchymyn gan y llys ar gyfer materion sy'n ymwneud ag eiddo a materion personol (gan gynnwys materion ariannol) mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol am faterion ariannol drosto'i hun, oni bai:

- mai budd-daliadau gwladol yw'r unig incwm sydd ganddo (gweler paragraff 8.36 isod), neu
- ei fod cyn hynny wedi gwneud Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol i roi awdurdod i rywun reoli ei eiddo a'i faterion personol (gweler pennod 7).

8.5 Bydd derbynyddion sydd wedi'u penodi gan y llys cyn i'r Ddeddf gychwyn yn cael eu trin fel dirprwyon. Ond byddant yn cadw eu pwerau a'u dyletswyddau presennol. Rhaid iddynt fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf ac, yn benodol, rhaid iddynt ddilyn yr egwyddorion statudol a gweithredu er y budd gorau i'r person y maent wedi'u penodi ar ei gyfer. Rhaid iddynt hefyd ddal sylw ar y canllawiau sydd yn y bennod hon ac mewn rhannau eraill o'r Cod Ymarfer. Mae rhagor o ganllawiau ar gael i dderbynyddion gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

Achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc 16 neu 17 oed

8.6 Bydd un ai llys sy'n delio ag achosion teuluol neu'r Llys Gwarchod yn gallu gwrandao achosion sy'n ymwneud â phobl 16 neu 17 oed sydd heb allu. Mewn rhai achosion, gall y Llys Gwarchod wrando achosion sy'n ymwneud â phobl sy'n iau nag 16 oed (er enghraifft, pan fo angen penodi rhywun i wneud penderfyniadau tymor hwy am eu materion ariannol). Dan adran 21 o Ddeddf Gallu Meddyliol, gall y Llys Gwarchod drosglwyddo achosion sy'n ymwneud â phlant i lys sydd â phwerau dan Ddeddf Plant 1989. Mae llys o'r fath yn gallu trosglwyddo achosion i'r Llys Gwarchod hefyd, os oes angen. Mae mwy o fanylion ym mhennod 12 am achosion lle y gallai hynny fod yn gymwys.

Pwy a ddylai wneud y cais?

8.7 Bydd gwahanol rai'n gwneud y cais, yn ôl yr amgylchiadau. Er enghraifft, bydd rhywun sy'n dymuno herio canfyddiad ei fod heb allu'n cael gwneud cais i'r llys, gyda chefnogaeth eraill os oes angen. Os ceir anghytuno ymysg aelodau'r teulu, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd aelod o'r teulu am wneud cais i'r llys i ddatrys yr anghytundeb – gan gofio'r angen, yn y rhan fwyaf o achosion, i gael caniatâd ymlaen llaw (gweler paragraffau 8.11–8.12 isod).

8.8 Mewn achosion sy'n ymwneud â phenderfyniadau pwysig neu ddifrifol am driniaeth feddygol (gweler paragraffau 8.18–8.24 isod), yr Ymddiriedolaeth GIG neu gorff arall sy'n gyfrifol am ofal y claf a fydd yn gwneud y cais fel arfer. Os yw staff gofal cymdeithasol yn pryderu ynghylch penderfyniad sy'n effeithio ar les rhywun sydd heb allu, yr awdurdod lleol perthnasol a ddylai wneud y cais.

8.9 Yn achos penderfyniadau am eiddo a materion personol rhywun sydd heb allu i reoli ei faterion personol ei hun, yr ceisydd fel arfer fydd y person (gofalwr teuluol, er enghraifft) y mae arno angen cael awdurdod penodol gan y llys i ddelio ag arian neu eiddo'r unigolyn.

8.10 Os mai'r ceisydd yw'r un yr honnir ei fod heb allu, bydd yn barti yn yr achos llys bob amser. Ym mhob achos arall, bydd y llys yn penderfynu a ddylid cynnwys yr un sydd heb allu, neu'r un yr honnir ei fod heb allu, fel parti yn yr achos. Os yw'r person yn barti yn yr achos, caiff y llys benodi'r Twrnai Swyddogol i weithredu ar ei ran.

Pwy sy'n gorfod gofyn am ganiatâd y llys i wneud cais?

8.11 Fel rheol gyffredinol, rhaid i ddarpar geisyddion gael caniatâd gan y Llys Gwarchod cyn gwneud cais (adran 50). Ymhlith y rhai y mae'r Ddeddf yn dweud nad oes angen iddynt ofyn caniatâd y mae:

- rhywun sydd heb allu, neu yr honnir ei fod heb allu, mewn cysylltiad â phenderfyniad neu weithred benodol (neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhieni os yw'r person dan 18 mlwydd oed)
- rhoddwr yr Atwrneiaeth Arhosol y mae'r cais yn ymwneud â hi – neu ei atwrnai
- dirprwy sydd wedi'i benodi gan y llys i weithredu ar ran y person dan sylw
- rhywun sydd wedi'i enwi mewn gorchymyn llys a wnaed eisoes sy'n ymwneud â'r cais.

Mae Rheolau'r Llys Gwarchod hefyd yn nodi mathau penodol o achosion lle nad oes angen cael caniatâd.

8.12 Wrth benderfynu a fydd yn rhoi caniatâd i wneud cais, rhaid i'r llys ystyried:

- cysylltiad yr ceisydd â'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef
- y rhesymau dros y cais
- a fydd gorchymyn neu gyfarwyddyd arfaethedig gan y llys yn dod â budd i'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef
- a ellir cael y budd hwnnw mewn modd arall.

Senario: Ystyried a ddylid rhoi caniatâd i wneud cais

Mae Sunita, menyw Asiaidd ifanc, wedi bod yn agos i'w brawd hŷn erioed. Mae gan ei brawd anabledau dysgu difrifol ac mae'n byw mewn cartref gofal. Ddwy flynedd yn ôl, priododd Sunita â dyn sydd heb fod yn Asiaidd, a thorrodd ei theulu ei gysylltiadau â hi. Ond mae hi'n dal i ddymuno mynd i weld ei brawd a chael ei chynnwys mewn unrhyw ymgyngori am ei ofal ac am yr hyn sydd er y budd gorau iddo. Ond nid yw'r teulu'n caniatáu hynny. Mae'r Llys Gwarchod yn rhoi caniatâd i Sunita wneud cais i'r llys am orchymyn yn caniatáu iddi gael cysylltiad â'i brawd.

Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod?

8.13 Caiff y Llys Gwarchod:

- wneud datganiadau, penderfyniadau a gorchmynion ar faterion ariannol a materion sy'n ymwneud â lles sy'n effeithio ar bobl sydd heb allu, neu yr honnir eu bod heb allu (rhaid i'r diffyg gallu fod yn gysylltiedig â'r mater penodol sy'n cael ei gyflwyno i'r llys)

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

- penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau ar ran pobl sydd heb allu i wneud y penderfyniadau hynny
- diswyddo dirprwyon neu atwrneiod sy'n gweithredu'n amhriodol.

Gall y llys hefyd wrando achosion am Atwrneiaethau Arhosol ac Atwrneiaethau Parhaus. Mae pwerau'r llys mewn cysylltiad ag Atwrneiaethau Parhaus wedi'u nodi yn Atodlen 4 i'r Ddeddf.

- 8.14 Rhaid i'r llys ddilyn yr egwyddorion statudol sydd wedi'u nodi yn adran 1 o'r Ddeddf bob amser (gweler pennod 2) a gwneud y penderfyniad er y budd gorau i'r person dan sylw (gweler pennod 5).

Pa ddatganiadau y gall y llys eu gwneud?

- 8.15 Mae adran 15 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r llys i wneud datganiad (dyfarniad) ar faterion penodol. Er enghraifft, gall wneud datganiad ynghylch a oes gallu gan rywun i wneud penderfyniad penodol neu gyflawni gweithred benodol neu gydsynio iddi. Bydd y llys yn gofyn am dystiolaeth o unrhyw asesiad o allu'r person ac mae'n bosibl y bydd am weld dystiolaeth ysgrifenedig berthnasol (er enghraifft, dyddiadur, llythyrau neu bapurau eraill). Os bydd y llys yn penderfynu bod y person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad hwnnw, ni fydd yn mynd â'r achos ymhellach. Bydd y person wedyn yn gallu gwneud y penderfyniad drosto'i hun.
- 8.16 Mae'n debygol mai prin fydd y ceisiadau ynghylch gallu rhywun – fel arfer bydd pobl yn gallu dileu amheuan a datrys anghytundebau'n anffurfiol (gweler penodau 4 a 15). Ond gallai cais fod yn berthnasol:
- os yw rhywun am herio penderfyniad ei fod heb allu
 - os yw gweithwyr proffesiynol yn anghytuno ynghylch gallu rhywun i wneud penderfyniad penodol (un pwysig fel arfer
 - os oes anghytuno ynghylch a yw'r person yn meddu ar allu (er enghraifft, rhwng aelodau'r teulu).
- 8.17 Gall y llys wneud datganiad hefyd ynghylch a yw gweithred benodol mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth y person yn gyfreithlon (un ai lle mae rhywun wedi cyflawni'r weithred neu lle mae'n bwriadu gwneud hynny). Dan adran 15, gall hynny gynnwys anwaith neu fethiant o ran darparu gofal neu driniaeth y mae ar y person ei angen.

Mae'r pŵer hwn i benderfynu a yw gweithred yn gyfreithlon yn arbennig o berthnasol i achosion sy'n ymwneud â thriniaeth feddygol sylweddol lle mae amheuaeth neu anghytundeb ynghylch a fyddai'r

driniaeth er y budd gorau i'r person dan sylw. Mae staff gofal iechyd yn dal i gael rhoi triniaeth cynnal bywyd, neu driniaeth sy'n atal cyflwr y person rhag dirywio'n sylweddol, tra bydd y llys yn dod i benderfyniad.

Penderfyniadau pwysig ynghylch gofal iechyd a thriniaeth

8.18 Cyn i'r Ddeddf ddod i rym, penderfynodd y llysoedd fod rhai penderfyniadau sy'n ymwneud â darparu triniaeth feddygol yn rhai sydd mor bwysig fel y dylid gwneud cais ym mhob achos i'r llys am ddatganiad bod y weithred a oedd wedi'i hargymell yn gyfreithlon cyn ei chyflawni. Felly os yw achos yn ymwneud ag unrhyw un o'r penderfyniadau canlynol, dylid ei ddwyn gerbron llys:

- penderfyniadau ynghylch y bwriad i wrthod rhoi neu dynnu'n ôl maethu a hydradu artiffisial mewn cysylltiad â chleifion sydd mewn cyflwr disymud parhaol
- achosion sy'n ymwneud â rhoi organ neu fêr esgyrn gan rywun sydd heb allu i gydsynio
- achosion sy'n ymwneud â bwriad i anffrwythloni rhywun am resymau heblaw rhai therapiwtig os nad yw'r person yn meddu ar allu i gydsynio i hynny (er enghraifft, i ddibenion atal cenhedlu)
- pob achos arall lle mae amheuaeth neu ddatganiad ynghylch a fydd triniaeth benodol er y budd gorau i rywun.

8.19 Nid yw'r Ddeddf yn effeithio ar y gofyniad mewn cyfraith achosion i geisio datganiad mewn achosion sy'n ymwneud â gwrthod rhoi neu dynnu'n ôl maethu a hydradu artiffisial mewn cysylltiad â rhai sydd mewn cyflwr disymud parhaol a dylid cyflwyno achosion o'r fath i'r Llys Gwarchod i'w cymeradwyo fel mater o arfer³⁰.

8.20 Dylid hefyd gyfeirio achosion sy'n ymwneud â rhoi organ neu fêr esgyrn gan rywun sydd heb allu i gydsynio i sylw'r Llys Gwarchod. Mae achosion o'r fath yn golygu cyflawni gweithdrefnau meddygol ar rywun sydd heb allu i gydsynio a fyddai er budd i drydydd parti (er na fyddent o reidrwydd yn dod â budd corfforol neu uniongyrchol i'r un sydd heb allu). Fodd bynnag, gall gweithdrefnau o'r fath fod er y budd gorau i rywun yn gyffredinol mewn rhai achosion (gweler pennod 5). Er enghraifft, gallai'r person gael buddion emosiynol, cymdeithasol a seicolegol o ganlyniad i'r cymorth y mae wedi'i roi ac, mewn rhai achosion, mae'n bosibl mai dim ond ychydig iawn o anghysur corfforol y bydd y person yn ei brofi.

³⁰ Airedale NHS Trust v Bland [1993] AC 789

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

- 8.21 Un enghraifft ragorol o hynny yw achos *Re Y*³¹ lle y cafwyd ei bod er y budd gorau i Y iddi roi mêt esgyrn i'w chwaer. Penderfynodd y llys ei bod er y budd gorau i Y iddi ddal i gael cefnogaeth emosiynol gadarn gan ei mam, a gallai hynny leihau pe byddai iechyd ei chwaer yn dirywio ymhellach, neu pe byddai'n marw. Mae mwy o wybodaeth ar gael am y maes hwn yng nghanllawiau'r Adran Iechyd neu Lywodraeth Cynulliad Cymru.³²
- 8.22 Anffrwythloni antherapiwtig yw anffrwythloni i ddibenion atal cenhedlu mewn cysylltiad â rhywun nad yw'n gallu cydsynio. Bydd achosion o'r fath yn galw am asesiad gofalus i ganfod a fyddai anffrwythloni o'r fath er y budd gorau i'r un sydd heb allu a dylid parhau i gyfeirio achosion o'r fath i sylw'r llys³³. Mae'r llys wedi rhoi canllawiau hefyd ynghylch pa bryd y dylid dwyn rhai achosion sy'n ymwneud â therfynu beichiogrwydd gerbron y llys.³⁴
- 8.23 Ymhlith yr achosion eraill sy'n debygol o gael eu cyfeirio i sylw'r llys y mae rhai sy'n ymwneud â chyfyng-gyngor moesegol mewn meysydd sydd heb eu profi (fel triniaethau newydd ar gyfer Clefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob (CJD)), a rhai lle mae anghydfodau na ellir eu datrys fel arall rhwng staff gofal iechyd, neu rhwng staff ac aelodau o deuluoedd.
- 8.24 Mae rhai mathau o achosion y dylai'r llys ddelio â hwy hefyd fel arfer am ei bod yn annhebygol y bydd dulliau eraill o ddatrys anghydfod yn briodol (gweler pennod 15). Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, achosion lle nad yw'n amlwg a yw triniaeth feddygol sylweddol a/ neu ymyrrol yn debygol o fod er y budd gorau i'r un sydd heb allu i gydsynio.

Pa bwerau sydd gan y llys i wneud penderfyniadau a phenodi dirprwyon?

- 8.25 Mewn achosion lle mae gwahaniaeth barn sylweddol, lle nad oes modd arall i ganfod ateb neu lle mae angen awdurdod y llys er mwyn gwneud

³¹ *Re Y (Mental incapacity: Bone marrow transplant) [1996] 2 FLR 787*

³² Reference Guide to Consent for Examination or Treatment, yr Adran Iechyd, Mawrth 2001 www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPolicyAndGuidanceArticle/fs/en?CONTENT_ID=4006757&chk=snmdw8

³³ Gweler er enghraifft *Re A (medical treatment: male sterilisation) (1999) 53 BMLR 66* lle y gwnaeth mam gais am ddatganiad bod fasectomi er y budd gorau i A, ei mab, (a oedd â syndrom Down ac a oedd ar y ffin rhwng bod â nam sylweddol a nam difrifol ar ei ddeallusrwydd), yn niffyg cydsyniad ganddo. Ar ôl cydbwyso beichiau a buddion y fasectomi a argymhellwyd i A, daliodd y Llys Apêl na fyddai'r fasectomi er y budd gorau i A

³⁴ *D v An NHS Trust (Medical Treatment: Consent: Termination) [2004] 1 FLR 1110*

penderfyniad penodol neu gyflawni gweithred benodol, gellir gofyn i'r llys wneud penderfyniad ar fater gan ddefnyddio ei bwerau dan adran 16.

Fodd bynnag, os oes angen pwerau penderfynu parhaus ac os nad oes Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol sy'n berthnasol, caiff y llys benodi dirprwy i wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Bydd hefyd yn datgan pa benderfyniadau y mae gan y dirprwy awdurdod i'w gwneud ar ran yr unigolyn.

8.26 Wrth benderfynu pa fath o orchymyn i'w wneud, rhaid i'r llys gymhwyso egwyddorion y Ddeddf a rhestr wirio'r budd gorau. Yn ogystal â hynny, rhaid iddo ddilyn dwy egwyddor bellach, sydd â'r amcan o sicrhau bod unrhyw ymyriad mor gyfyngedig ag y bo modd:

- Os oes modd, dylai'r llys wneud y penderfyniad ei hun yn hytrach na phenodi dirprwy.
- Os oes angen penodi dirprwy, dylai cwmpas ei swydd a'r cyfnod y bydd yn para fod mor gyfyngedig ag y bo modd.

Pa benderfyniadau y gall y llys eu gwneud?

8.27 Mewn rhai achosion, rhaid i'r llys wneud penderfyniad, am fod ar rywun angen awdurdod penodol i weithredu ac am nad oes ffordd arall i'w gael. Mae hyn yn cynnwys achosion:

- lle nad yw Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol wedi'i gwneud a bod ar rywun angen gwneud penderfyniad ynghylch materion ariannol ar ran rhywun sydd heb allu i wneud y penderfyniad hwnnw (er enghraifft, penderfyniad i derfynu cytundeb tenantiaeth), neu
- lle mae angen gwneud ewyllys, neu newid ewyllys sy'n bod eisoes, ar ran rhywun sydd heb allu i wneud hynny.

8.28 Ymhlith y mathau eraill o achosion lle y gallai fod yn briodol cael penderfyniad gan y llys y mae rhai:

- lle mae amheuaeth wirioneddol neu anghytundeb ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu gymhwysedd penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth (gweler pennod 9)
- lle mae anghytundeb sylweddol ynghylch penderfyniad pwysig (er enghraifft, ynghylch lle byw rhywun sydd heb allu i benderfynu hynny drosto'i hun)

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

- lle mae gofalwr teuluol neu dwrnai'n gofyn am wybodaeth bersonol am rywun sydd heb allu i gydsynio i'r wybodaeth honno gael ei datgelu (er enghraifft, lle bu honiadau am gam-drin rhywun sy'n byw mewn cartref gofal).
- lle mae rhywun yn amau bod un sydd heb allu i wneud penderfyniadau i'w amddiffyn ei hun mewn perygl o gael niwed neu o gael ei gam-drin gan unigolyn sydd wedi'i enwi (gallai'r llys atal yr unigolyn hwnnw rhag cysylltu â'r un sydd heb allu).

8.29 Os yw rhywun yn cyflawni gweithredoedd dan benderfyniad neu orchymyn y llys, rhaid iddo ddilyn egwyddorion y Ddeddf o hyd.

Senario: Gwneud penderfyniad i ddatrys anghytundebau

Mae clefyd Alzheimer ar Mrs Worrell. Mae ei mab a'i merch yn anghytuno ynghylch pa gartref gofal y dylai eu mam symud iddo. Er nad yw Mrs Worrell yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad hwnnw ei hun, mae ganddi ddigon o arian i dalu ffioedd cartref gofal.

Mae ei thwrnai'n gweithredu mewn cysylltiad â'i materion ariannol dan Atwrneiaeth Barhaus sydd wedi'i chofrestru. Ond nid oes ganddo bŵer i ymwneud â'r anghydfod teuluol hwn – ac nid yw am fod yn gysylltiedig ychwaith.

Mae'r Llys Gwarchod yn gwneud penderfyniad er y budd gorau i Mrs Worrell, ac yn penderfynu pa gartref gofal a all ddiwallu ei hanghenion orau. Ar ôl datrys y mater hwn, nid oes angen penodi dirprwy.

Pa bwerau sydd gan y llys mewn cysylltiad ag Atwrneiaethau Arhosol?

8.30 Gall y Llys Gwarchod benderfynu a yw Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus yn ddilys a gall roi cyfarwyddiadau am y modd y dylai atwrnai arfer ei bwerau dan Atwrneiaeth Arhosol (gweler pennod 7). Yn benodol, gall y llys ddileu Atwrneiaeth Arhosol a therfynu penodiad yr atwrnai. Gallai'r llys wneud hynny os nad oedd yr atwrnai'n cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol neu'n gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr. Rhaid i'r llys benderfynu wedyn a oes angen penodi dirprwy i gymryd drosodd rôl yr atwrnai.

Beth yw'r rheolau ar gyfer penodi dirprwyon?

8.31 Weithiau ni fydd yn ymarferol neu'n briodol i'r llys wneud datganiad neu benderfyniad unigol. Mewn achosion o'r fath, os bydd y llys yn credu bod angen i rywun wneud penderfyniadau yn y dyfodol, neu rai olynol, ar ran rhywun y mae ei gyflwr yn peri ei bod yn debygol y bydd

heb allu i wneud rhai penderfyniadau pellach yn y dyfodol, gall benodi dirprwy i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran y person hwnnw. Dylai awdurdod y dirprwy fod mor gyfyngedig ag y bo modd o ran ei gwmpas a'r cyfnod y bydd yn para (gweler paragraffau 8.35–8.39 isod).

Sut mae'r llys yn penodi dirprwyon?

8.32 Y llys sydd i benderfynu pwy i'w benodi'n ddirprwy. Efallai y bydd angen gwahanol sgiliau yn ôl pa un a fydd penderfyniadau'r dirprwy'n ymwneud â lles rhywun (yn cynnwys gofal iechyd), ei faterion ariannol neu'r ddau. Bydd y llys yn penderfynu a yw'r dirprwy a gynigir yn ddibynadwy ac yn un y gellir ymddiried ynddo ac a yw'n meddu ar lefel briodol o fedr a chymhwysedd i gyflawni'r tasgau angenrheidiol.

8.33 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r dirprwy'n debygol o fod yn aelod o'r teulu neu'n rhywun sy'n adnabod y person yn dda. Ond mewn rhai achosion gallai'r llys benderfynu penodi dirprwy sy'n annibynnol ar y teulu (er enghraifft, os yw materion personol yr unigolyn neu ei anghenion iechyd yn arbennig o gymhleth). Er enghraifft, gallai fod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion yn yr awdurdod lleol perthnasol (ond gweler paragraff 8.60 isod) neu'n ddirprwy proffesiynol. Mae gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus banel o ddirprwyon proffesiynol (y rhan fwyaf ohonynt yn dwrneiod sy'n arbenigo yn y maes cyfreithiol hwn) y gellir eu penodi i ddelio ag eiddo a materion personol os yw'r llys yn penderfynu y byddai hynny er y budd gorau i'r person.

Pryd y gallai'r angen i benodi dirprwy godi?

8.34 Bydd yr angen sydd ar rywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol am ddirprwy'n dibynnu ar:

- amgylchiadau neilltuol y person dan sylw
- a yw'n debygol y bydd angen gwneud penderfyniadau yn y dyfodol neu benderfyniadau olynol
- a yw'r penodiad ar gyfer penderfyniadau ynghylch eiddo a materion personol neu les personol.

Eiddo a materion personol

8.35 Bydd y llys yn penodi dirprwy i reoli eiddo'r person a'i faterion personol (gan gynnwys rhai ariannol) mewn amgylchiadau tebyg i'r rhai lle byddai wedi penodi derbynnydd yn y gorffennol. Os nad yw rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol wedi gwneud Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol, bydd angen gwneud ceisiadau i'r llys:

- i ddelio ag asedau ariannol sy'n fwy na swm penodedig sy'n weddill ar ôl talu unrhyw ddyledion

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

- i werthu eiddo rhywun, neu
- os oes lefel incwm neu gyfalaf gan rywun y mae'r llys yn credu bod angen dirprwy i'w rheoli.

8.36 Os mai'r unig incwm sydd gan rywun sydd heb allu yw budd-daliadau nawdd cymdeithasol ac os nad oes ganddo unrhyw eiddo neu gynilion, ni fydd angen penodi dirprwy fel arfer. Y rheswm am hynny yw bod modd i fudd-daliadau'r person gael eu rheoli gan *swyddog penodedig*, a benodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, i dderbyn a delio â budd-daliadau rhywun sydd heb allu i wneud hynny drosto'i hun. Er nad yw'r Ddeddf yn cwmpasu swyddogion penodedig, bydd disgwyl iddynt weithredu er y budd gorau i'r person a rhaid iddynt wneud hynny os ydynt yn ymwneud â gofalu am y person. Os bydd y llys yn penodi dirprwy eiddo a materion personol dros rywun y mae swyddog penodedig ar ei gyfer, mae'n debygol y byddai'r dirprwy'n cymryd drosodd rôl y swyddog penodedig.

8.37 Bydd yn ofynnol i unrhyw un yr ystyrir ei benodi'n ddirprwy dros eiddo a materion personol lofnodi datganiad sy'n rhoi manylion am ei amgylchiadau a'i allu i reoli materion ariannol. Bydd y datganiad yn cynnwys manylion y tasgau a'r dyletswyddau y mae'n rhaid i'r dirprwy eu cyflawni. Rhaid i'r dirprwy sicrhau'r llys ei fod yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymroddiad y mae eu hangen i'w cyflawni.

Lles personol (yn cynnwys gofal iechyd)

8.38 Ni fydd angen dirprwyon ar gyfer penderfyniadau lles personol heblaw yn yr achosion mwyaf anodd:

- lle na ellir cyflawni gweithredoedd pwysig ac angenrheidiol heb gael awdurdod y llys, neu
- lle nad oes modd arall i benderfynu ar y mater er y budd gorau i'r un sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol ynghylch lles.

8.39 Rhai enghreifftiau o hynny yw:

- pan fydd angen i rywun wneud cyfres o benderfyniadau cysylltiedig ynghylch lles dros amser a lle na fyddai'n fuddiol neu'n briodol mynnu bod yr holl benderfyniadau hynny'n cael eu gwneud gan y llys. Er enghraifft, byddai rhywun (fel gofalwr teuluol) sy'n agos i berson sydd ag anableddau dysgu dwys a lluosog yn gallu gwneud cais am ei benodi'n ddirprwy gydag awdurdod i wneud penderfyniadau o'r fath
- os mai'r dull mwyaf priodol o weithredu er y budd gorau i rywun yw drwy gael dirprwy, a fydd yn ymgynghori â rhai perthnasol ond a fydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau

- os oes hanes o anghydfodau difrifol yn y teulu a allai amharu ar ofal y person yn y dyfodol oni bai fod dirprwy'n cael ei benodi i wneud penderfyniadau sy'n angenrheidiol
- os teimlir bod y person sydd heb allu mewn perygl o gael niwed difrifol os caiff ei adael yng ngofal aelodau o'r teulu. Mewn achosion prin o'r fath, efallai y bydd angen i benderfyniadau am les gael eu gwneud gan rywun sy'n annibynnol ar y teulu, fel swyddog mewn awdurdod lleol. Gallai hyd yn oed fod yn angenrheidiol cael gorchymyn llys ychwanegol yn gwahardd aelodau'r teulu rhag dod i gysylltiad â'r person.

Pwy a gaiff fod yn ddirprwy?

- 8.40 Mae adran 19(1) yn datgan bod rhaid i ddirprwyon fod yn 18 mlwydd oed o leiaf. Bydd dirprwyon sydd â chyfrifoldeb dros eiddo a materion personol yn gallu bod yn unigolyn neu'n gorfforaeth ymddiriedaeth (sy'n aml yn rhan o fanciau neu sefydliadau ariannol eraill). Ni ellir penodi unrhyw un yn ddirprwy heb gael ei ganiatâd.
- 8.41 Ni ddylai gweithwyr gofal cyflogedig (er enghraifft, rheolwyr cartrefi gofal) gytuno i weithredu fel dirprwy oherwydd y gwrthdaro buddiannau posibl – oni bai fod amgylchiadau eithriadol (er enghraifft, os mai'r gweithiwr gofal yw'r unig berthynas agos i'r un sydd heb allu). Ond gall y llys benodi rhywun sy'n ddeiliad swydd neu sydd mewn swydd benodedig (er enghraifft, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion yr awdurdod lleol perthnasol). Mewn sefyllfa o'r fath, bydd angen i'r llys fod wedi'i fodloni nad oes gwrthdaro buddiannau cyn gwneud penodiad o'r math hwn (gweler paragraffau 8.58–8.60).
- 8.42 Gall y llys benodi dau neu ragor o ddirprwyon a datgan a ddylent weithredu ar y cyd (*'jointly'*), ar y cyd ac yn unigol (*'jointly and severally'*) neu ar y cyd o ran rhai materion ac ar y cyd ac yn unigol o ran eraill (*'jointly in respect of some matters and jointly and severally in respect of others'*) (adran 19 (4)(c)).
- Rhaid i gyd-ddirprwyon weithredu gyda'i gilydd bob amser. Rhaid i bob un ohonynt gytuno ar benderfyniadau neu weithredoedd, a rhaid i bob un ohonynt lofnodi unrhyw ddogfennau perthnasol.
 - Gall dirprwyon cyd ac unigol weithredu gyda'i gilydd, ond cânt hefyd weithredu'n annibynnol os ydynt yn dymuno. Bydd unrhyw weithred a gyflawnir gan unrhyw ddirprwy ar ei ben ei hun yr un mor ddilys â phe bai'r person hwnnw'n unig ddirprwy.
- 8.43 Ceir penodi dirprwyon ar y cyd ar gyfer rhai materion ac ar y cyd ac yn unigol ar gyfer eraill. Er enghraifft, gellid penodi dau ddirprwy ar y cyd ac yn unigol ar gyfer y rhan fwyaf o'r penderfyniadau, ond gallai'r llys ddyfarnu eu bod i weithredu ar y cyd wrth werthu eiddo.

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

Senario: Gweithredu ar y cyd ac yn unigol

Cafodd Toby ddamwain ffordd a chael anaf i'w ymennydd ac anabledau eraill. Caiff ddigollediad ariannol ond nid oes ganddo allu i reoli swm o'r fath neu i wneud penderfyniadau am ei ofal yn y dyfodol. Mae ei fam a'i dad wedi cael ysgariad ac maent yn dadlau ynghylch lle y dylai eu mab fyw a sut y dylid defnyddio'r arian a gafodd fel digollediad. Mae Toby wedi bod yn agos i'w chwaer erioed, ac mae hi'n awyddus iawn i chwarae rhan ond yn bryderus ynghylch delio â swm mor fawr o arian.

Mae'r llys yn penderfynu lle bydd Toby yn byw. Mae hefyd yn penodi ei chwaer a thwrnai'n ddirprwyon cyd ac unigol i reoli ei eiddo a'i faterion personol. Gall ei chwaer ddelio ag unrhyw benderfyniadau o ddydd i ddydd nad oes gan Toby allu i'w gwneud, a gall y twrnai ddelio â materion mwy cymhleth.

Beth fydd yn digwydd os na fydd dirprwy'n gallu parhau i gyflawni ei ddyletswyddau?

- 8.44 Wrth benodi dirprwy, gall y llys hefyd benodi rhywun yn ddirprwy olynol (rhywun a all gymryd drosodd dyletswyddau'r dirprwy mewn sefyllfaoedd penodol). Bydd y llys yn datgan dan ba amgylchiadau y gallai hynny ddigwydd. Mewn rhai achosion, bydd hefyd yn datgan dros ba gyfnod amser y gall y dirprwy olynol weithredu. Efallai y bydd yn fuddiol penodi dirprwy olynol os yw'r un a benodwyd yn ddirprwy eisoes yn oeddrannus ac yntau am fod yn sicr y bydd rhywun yn cymryd drosodd ei ddyletswyddau yn y dyfodol, os bydd angen.

Senario: Penodi dirprwy olynol

Mae Neil, dyn sydd â syndrom Down, yn etifeddu llawer o arian ac eiddo. Roedd ei fam a'i dad wedi ymddeol eisoes pan gawsant eu penodi gan y llys yn gyd-ddirprwyon i reoli eiddo a materion personol Neil. Maent yn poeni ynghylch beth fydd yn digwydd i Neil pan na fyddant yn gallu parhau i gyflawni eu dyletswyddau fel dirprwyon. Mae'r llys yn cytuno i benodi perthnasau eraill yn ddirprwyon olynol. Byddant hwy wedyn yn gallu cymryd drosodd fel dirprwyon wedi i'r rhieni farw neu os na fydd ei rieni'n gallu parhau i gyflawni rôl y dirprwy.

A all y llys amddiffyn pobl sydd heb allu rhag colled ariannol?

8.45 Dan adran 19(9)(a) o'r Ddeddf gall y llys ofyn i ddirprwy dros eiddo a materion personol roi rhyw fath o warant (er enghraifft, bond gwarant) i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i dalu am unrhyw golled a geir o ganlyniad i ymddygiad y dirprwy wrth gyflawni ei rôl. Gall y llys hefyd ofyn i ddirprwy roi adroddiadau a chyfrifon i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, fel y mae'n gweld orau.

A oes unrhyw gyfyngiadau ar bwerau dirprwy?

8.46 Mae adran 20 yn nodi rhai cyfyngiadau neilltuol ar bwerau dirprwy. Yn benodol, nid oes gan ddirprwy unrhyw awdurdod i wneud penderfyniadau neu gymryd camau:

- os yw'n gwneud rhywbeth sydd â'r bwriad o roi ataliad ar y person sydd heb allu – ar wahân i'r hyn a wneir dan amgylchiadau penodol (ceir canllawiau ar yr amgylchiadau lle y gellid caniatáu ataliad ym mhennod 6)³⁵
- os yw'n credu bod y person dan sylw yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad penodol drosto'i hun
- os yw ei benderfyniad yn mynd yn groes i benderfyniad a wnaeth atwrnai a oedd yn gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol a roddwyd gan y person cyn iddo golli gallu, neu
- i wrthod darparu neu barhau â thriniaeth cynnal bywyd ar gyfer rhywun sydd heb allu i gydsynio – rhaid i'r llys wneud penderfyniadau o'r fath.

Os yw dirprwy'n credu nad yw ei bwerau'n ddigonol iddo gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, gall wneud cais i'r llys i newid ei bwerau. Gweler paragraff 8.54 isod.

Pa gyfrifoldebau sydd gan ddirprwyon?

8.47 Ar ôl penodi dirprwy gan y llys, bydd y gorchymyn penodi yn nodi ei bwerau penodol a chwmpas ei awdurdod. Wrth dderbyn ei benodi, bydd y dirprwy'n ymgymryd â nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau a bydd yn ofynnol iddo weithredu'n unol â safonau penodol. Gallai methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi isod beri i'r Llys Gwarchod ddiddymu gorchymyn penodi'r dirprwy ac, mewn rhai amgylchiadau, gallai'r dirprwy fod yn bersonol atebol i hawliadau am esgeulustod neu gyhuddiadau troseddol o dwyll.

³⁵ Mae'n werth nodi bod gwall drafftio yn adran 20 o'r Ddeddf. Roedd y gair 'or' yn adran 20(11)(a) i fod yn 'and' er mwyn bod yn gyson ag adrannau 6(3)(a) ac 11(4)(a). Bydd y Llywodraeth yn gwneud y newid angenrheidiol i gywiro'r gwall hwn ar y cyfle cyntaf a geir i ddeddfu.

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

- 8.48 Dylai dirprwyon roi gwybod bob amser i unrhyw drydydd parti y maent yn delio ag ef fod y llys wedi'u penodi'n ddirprwy. Bydd y llys yn rhoi dogfennau swyddogol i'r dirprwy i brofi ei fod wedi'i benodi ac i ddangos cwrpas ei awdurdod.
- 8.49 Rhaid i ddirprwy weithredu pryd bynnag y mae angen penderfyniad neu weithred ac mae hyn yn rhan o'i ddyletswyddau fel y maent wedi'u nodi yn y gorchymyn llys a oedd yn ei benodi. Os bydd dirprwy'n methu â gweithredu ym mhob sefyllfa o'r fath, gallai fod wedi torri'r ddyletswydd.

Pa ddyletswyddau y mae'r Ddeddf yn eu gosod?

8.50 Rhaid i ddirprwyon:

- ddilyn egwyddorion statudol y Ddeddf (gweler pennod 2)
- gwneud penderfyniadau neu weithredu er y budd gorau i'r un sydd heb allu
- dal sylw ar y canllawiau yn y Cod Ymarfer hwn
- gwneud penderfyniadau y mae'r Llys wedi'u hawdurdodi i'w gwneud yn unig.

Egwyddorion a'r budd gorau

8.51 Rhaid i ddirprwyon weithredu'n unol ag egwyddorion statudol y Ddeddf (adran 1) ac yn benodol er y budd gorau i'r person sydd heb allu (mae'r camau ar gyfer canfod y budd gorau wedi'u nodi yn adran 4). Yn benodol, rhaid i ddirprwyon ystyried a yw'r person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad drosto'i hun. Os nad yw, dylent ystyried a yw'r person yn debygol o adennill gallu i wneud y penderfyniad yn y dyfodol. Os ydyw, gallai fod yn bosibl gohirio'r penderfyniad nes bydd y person yn gallu'i wneud.

Y Cod Ymarfer

8.52 Yn ogystal â'r bennod hon, dylai dirprwyon roi sylw neilltuol i'r canllawiau canlynol sydd wedi'u nodi yn y Cod:

- pennod 2, sy'n nodi sut y dylid cymhwysu egwyddorion y Ddeddf
- pennod 3, sy'n disgrifio'r camau y gellir eu cymryd i geisio helpu'r person i wneud penderfyniadau drosto'i hun
- pennod 4, sy'n disgrifio diffiniad y Ddeddf o ddiffyg gallu ac yn cynnig canllawiau ynghylch asesu gallu
- pennod 5, sy'n rhoi canllawiau ar y modd i ganfod yr hyn sydd er y budd gorau i rywun.

8.53 Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd dirprwyon yn cael ei bod yn fuddiol cyfeirio at ganllawiau:

- ym mhennod 6, sy'n egluro dan ba amgylchiadau y gallai dirprwyon sydd â chyfrifoldebau gofalu gael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd ac yn cynnig canllawiau ynghylch yr ychydig amgylchiadau lle mae'r Ddeddf yn caniatáu ataliad mewn cysylltiad â gofal a thriniaeth, ac
- ym mhennod 15, sy'n disgrifio dulliau o ddatrys anghytundebau.

Gwneud penderfyniadau y mae'r llys wedi awdurdodi'r dirprwy i'w gwneud yn unig

8.54 Mae dyletswydd ar ddirprwy i weithredu'n gyfan gwbl o fewn cwmpas y pwerau hynny a roddwyd gan y llys, sydd wedi'u nodi yn y gorchymyn penodi. Mae'n bosibl y bydd dirprwy o'r farn nad yw ei bwerau'n ddigon iddo gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid iddo wneud cais i'r llys i gael un ai:

- gofyn i'r llys wneud y penderfyniad dan sylw, neu
- ofyn i'r llys newid pwerau'r dirprwy.

Beth yw dyletswyddau eraill y dirprwy?

8.55 Mae adran 19(6) yn datgan bod dirprwy i'w drin fel yr asiant (*the agent*) i'r un sydd heb allu pan fydd yn gweithredu ar ei ran. Mae bod yn asiant yn golygu bod dyletswyddau cyfreithiol gan y dirprwy (dan gyfraith asiantaeth) tuag at y person y mae'n ei gynrychioli. Mae hefyd yn golygu na fydd yn bersonol atebol i drydydd partïon wrth gyflawni tasgau sydd o fewn eu pwerau.

8.56 Rhaid i ddirprwyon gyflawni eu dyletswyddau'n ofalus ac yn gyfrifol. Maent dan ddyletswydd i:

- weithredu gyda gofal a medr dyladwy (dyletswydd gofal)
- peidio â manteisio ar eu sefyllfa (dyletswydd ymddiriedol)
- indemnio'r person rhag atebolrwydd i drydydd parti sydd wedi'i achosi gan esgeulustod y dirprwy
- peidio â dirprwyo dyletswyddau oni bai eu bod wedi'i hawdurdodi i wneud hynny
- gweithredu'n ddidwyll
- parchu cyfrinachedd y person
- cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod.

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

Mae dirprwyon dros eiddo a materion personol dan ddyletswydd hefyd i:

- gadw cyfrifon
- cadw arian ac eiddo'r person ar wahân i'w rhai eu hun.

Dyletswydd gofal

8.57 Mae 'dyletswydd gofal' yn golygu cymhwyso safon benodol o ofal a medr – yn ôl a yw'r dirprwy'n cael ei dalu am ei wasanaethau neu'n meddu ar gymwysterau proffesiynol perthnasol.

- Yn achos dirprwyon nad ydynt yn cael tâl, rhaid iddynt arfer yr un gofal, medr a diwydrwydd ag y byddent yn eu harfer wrth wneud penderfyniadau drostynt eu hun neu wrth reoli eu materion personol eu hun. Os yw dirprwy'n honni bod ganddo sgiliau neu gymwysterau penodol, rhaid iddo amlygu mwy o fedr yn y meysydd penodol hynny na rhywun nad yw'n gwneud honiadau o'r fath.
- Os yw dirprwy'n cael ei dalu am ei wasanaethau, disgwylir iddo amlygu mwy o ofal neu fedr wrth gyflawni ei ddyletswyddau.
- Os yw dyletswyddau'r dirprwy'n rhan o'i waith proffesiynol (fel twrnai neu gyfrifydd, er enghraifft), rhaid iddo amlygu'r cymhwysedd proffesiynol arferol a dilyn rheolau a safonau ei broffesiwn.

Dyletswydd ymddiriedol

8.58 Mae dyletswydd ymddiriedol yn golygu nad yw dirprwyon i fanteisio ar eu swydd. Ni ddylent ychwaith eu rhoi eu hun mewn sefyllfa lle mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â'u dyletswyddau. Er enghraifft, ni ddylai dirprwyon brynu eiddo y maent yn ei werthu ar ran y person y maent wedi'u penodi i'w gynrychioli. Ni ddylent ychwaith dderbyn comisiwn gan drydydd parti mewn unrhyw drafodion. Nid ydynt i ganiatáu i unrhyw beth arall ddylanwadu ar eu dyletswyddau. Ni chânt ddefnyddio eu swydd i gael unrhyw fudd personol, pa un a yw hynny ar draul y person ai peidio.

8.59 Mewn llawer o achosion, bydd y dirprwy'n aelod o'r teulu. Mewn rhai sefyllfaoedd prin, gallai hynny arwain at y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Wrth wneud penderfyniadau, dylai dirprwyon ddilyn egwyddorion statudol y Ddeddf a chymhwyso rhestr wirio'r budd gorau a pheidio â gadael i'w buddiannau personol eu hun ddylanwadu ar y penderfyniad.

8.60 Weithiau bydd y llys yn ystyried penodi'n ddirprwy y sawl sy'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion yn Lloegr neu'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn yr awdurdod lleol

perthnasol. Bydd yn rhaid i'r llys fod wedi'i fodloni bod trefniadau gan yr awdurdod i osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Er enghraifft, os yw'r person y mae angen dirprwy dros faterion ariannol ar ei gyfer yn cael gwasanaethau gofal yn y gymuned gan yr awdurdod lleol, bydd y llys am gael ei fodloni y bydd penderfyniadau am faterion ariannol y person yn cael eu gwneud er y budd gorau i'r person hwnnw, heb ystyried unrhyw oblygiadau i'r gwasanaethau a ddarperir.

Dyletswydd i beidio â dirprwyo

8.61 Caiff dirprwy geisio cyngor proffesiynol neu arbenigol (er enghraifft, cyngor ar fuddsoddi gan gynghorydd ariannol neu ail farn feddygol gan feddyg). Ond ni all roi ei gyfrifoldebau penderfynu i rywun arall. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y llys yn rhoi awdurdod i ddirprwyo tasgau penodol (er enghraifft, penodi rheolwr buddsoddi sydd â disgresiwn i weithredu i ymgymryd â thrafodion buddsoddi).

8.62 Mewn rhai amgylchiadau, gallai dirprwyon fod â phwerau cyfyngedig i ddirprwyo (er enghraifft, oherwydd rheidrwydd neu amgylchiadau nas rhagwelwyd, neu ar gyfer tasgau penodol na fyddai'r llys wedi disgwyl i'r dirprwy roi sylw iddynt yn bersonol). Ond fel arfer ni fydd dirprwyon yn gallu dirprwyo unrhyw benderfyniadau sy'n dibynnu ar eu disgresiwn. Os yw'r dirprwy'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion yn Lloegr neu'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, neu'n dwnnai, gall ddirprwyo tasgau penodol i staff eraill. Ond mae'r dirprwy'n dal i fod yn gyfrifol am unrhyw weithredoedd a gyflawnir neu unrhyw benderfyniadau a wneir, ac felly gellir ei ddal yn atebol am unrhyw wallau a wneir.

Dyletswydd didwyllledd

8.63 Mae gweithredu'n ddidwyll yn golygu gweithredu'n onest ac yn gywir. Er enghraifft, rhaid i ddirprwy geisio sicrhau na fydd ei benderfyniadau'n mynd yn groes i benderfyniad a wnaeth y person pan oedd yn dal i fod â gallu (oni bai fod hynny er y budd gorau i'r person).

Dyletswydd cyfrinachedd

8.64 Mae dirprwyon dan ddyletswydd i gadw materion personol y person yn gyfrinachol, oni bai:

- fod y person, cyn iddo golli'r gallu i wneud hynny, wedi cytuno y ceir datgelu gwybodaeth os oes angen
- bod rheswm da arall dros roi gwybodaeth (am fod hynny er budd i'r cyhoedd, er enghraifft, neu er y budd gorau i'r un sydd heb allu, neu am fod perygl o niwed i'r person dan sylw neu i eraill).

Dan yr amgylchiadau olaf uchod, byddai'n ddoeth i'r dirprwy gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gael canllawiau, neu gael cyngor cyfreithiol. Mae mwy o wybodaeth am ddatgelu gwybodaeth bersonol ym mhennod 16.

Pennod 8

Beth yw rôl y Llys Gwarchod a dirprwyon a benodir gan y llys?

Dyletswydd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod

8.65 Caiff y Llys Gwarchod roi cyfarwyddiadau penodol i ddirprwyon ynghylch y modd y dylent ddefnyddio eu pwerau. Gall hefyd orchymyn i ddirprwyon ddarparu adroddiadau (er enghraifft, cyfrifon ariannol neu adroddiadau am les y person sydd heb allu) i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar unrhyw adeg neu o bryd i'w gilydd fel y bydd y llys yn cyfarwyddo. Rhaid i ddirprwyon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan y llys neu unrhyw gais gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Dyletswydd i gadw cyfrifon

8.66 Disgwylir i ddirprwy a benodwyd i reoli eiddo a materion personol gadw cyfrifon cywir o'r holl fusnes a thrafodion a gyflawnodd ar ran y person, a'u cyflwyno bob hyn a hyn i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Dyletswydd i gadw arian ac eiddo'r person ar wahân

8.67 Fel arfer, dylai dirprwyon eiddo a materion personol gadw arian ac eiddo'r person ar wahân i'w rhai eu hun a rhai unrhyw un arall. Gwneir hynny er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o gamgymeriad neu ddryswch wrth drafod materion personol y person. Weithiau mae'n bosibl y bydd rheswm da dros beidio â gwneud hynny (er enghraifft, gallai gŵr fod yn ddirprwy i'w wraig ac efallai fod ganddynt gyfrif banc ar y cyd ers blynyddoedd lawer).

Newid manylion cysylltu

8.68 Dylai dirprwy hysbysu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am unrhyw newidiadau o ran manylion cysylltu neu amgylchiadau (yn achos y dirprwy neu'r un y mae'n gweithredu ar ei ran). Bydd hynny o gymorth i sicrhau bod cofnodion Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfredol. Bydd hefyd yn rhoi modd i'r llys ryddhau rhai nad ydynt yn gymwys bellach i weithredu fel dirprwy.

Pwy sy'n gyfrifol am arolygu dirprwyon?

8.69 Mae dirprwyon yn atebol i'r Llys Gwarchod. Gall y llys ddileu penodiad dirprwy ar unrhyw adeg os yw'n penderfynu nad yw'r penodiad bellach er y budd gorau i'r un sydd heb allu.

- 8.70** Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfrifol am arolygu a chynorthwyo dirprwyon. Ond rhaid iddi hefyd amddiffyn pobl sydd heb allu rhag y posibilrwydd o'u cam-drin neu o gamfanteisio arnynt. Os yw unrhyw un yn amau bod dirprwy'n camddefnyddio ei swydd, dylai gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar unwaith. Caiff Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gyfarwyddo un o Ymwelwyr y Llys Gwarchod i ddod i weld dirprwy i ymchwilio i unrhyw fater sy'n peri pryder. Gall hefyd wneud cais i'r llys i ddileu penodiad dirprwy.
- 8.71** Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw bryderon neu gwynion yn erbyn dirprwyon. Ond os bydd rhywun yn amau bod cam-drin corfforol neu rywiol neu dwyll difrifol yn digwydd, dylai gysylltu â'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol ar unwaith, yn ogystal â hysbysu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Ceir mwy o wybodaeth ym mhennod 14 am rôl Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r bennod honno'n ymdrin hefyd ag amddiffyn rhai sy'n agored i niwed rhag eu cam-drin, rhag cael cam a rhag eu hesgeuluso'n fwriadol, yn ogystal â chyfrifoldebau amryw o asiantaethau perthnasol.

9 Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Mae'r bennod hon yn egluro beth i'w wneud os bydd rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Mae'n nodi:

- beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth benderfyniad ymlaen llaw ('*advance decision*')
- canllawiau ar wneud, diweddarau a dileu penderfyniadau ymlaen llaw
- sut i ganfod a yw penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli
- sut i wirio bod penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys a'i fod yn gymwys i'r amgylchiadau ar y pryd
- cyfrifoldebau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol os yw penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli
- sut i drafod anghytundebau ynghylch penderfyniadau ymlaen llaw.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

- Mae penderfyniad ymlaen llaw yn galluogi rhywun 18 oed a throsodd, tra bo'n parhau'n alluog, i wrthod triniaeth feddygol benodedig dros gyfnod yn y dyfodol pryd y gallai fod heb allu i gydsynio i dderbyn y driniaeth honno neu ei gwrthod.
- Rhaid i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth fod yn ddilys ac yn gymwys i'r amgylchiadau ar y pryd. Os ydyw, caiff yr un effaith â phenderfyniad a wneir gan rywun sydd â gallu: rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddilyn y penderfyniad.
- Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd os byddant:
 - yn atal neu'n gwrthod rhoi triniaeth am eu bod yn credu'n rhesymol bod penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli, a'i fod yn ddilys ac yn gymwysadwy
 - yn trin rhywun am nad ydynt yn gwybod neu wedi'u bodloni bod penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwysadwy i wrthod triniaeth yn bodoli, a hwythau wedi cymryd pob cam ymarferol a phriodol i

ddarganfod a yw'r person wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw o'r fath.

- Ni fydd pobl ond yn gallu gwneud penderfyniad ymlaen llaw dan y Ddeddf os ydynt yn 18 oed neu drosodd ac yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad. Rhaid iddynt ddweud pa driniaeth y maent yn dymuno ei gwrthod, a gallant ddileu eu penderfyniad – neu ran ohono – ar unrhyw adeg.
- Os yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn gwrthod triniaeth cynnal bywyd, rhaid iddo:
 - fod mewn ysgrifen (gall rhywun arall ei ysgrifennu neu gellir ei gofnodi mewn nodiadau gofal iechyd)
 - bod wedi'i lofnodi a'i ardystio, a
 - datgan yn glir bod y penderfyniad yn gymwys hyd yn oed os bydd perygl i fywyd.
- Er mwyn darganfod a yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys ac yn gymwysadwy, rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol geisio cael gwybod a yw'r person:
 - wedi gwneud unrhyw beth y mae'n amlwg ei fod yn mynd yn groes i'w benderfyniad ymlaen llaw
 - wedi tynnu'n ôl ei benderfyniad
 - wedi rhoi'r pŵer i wneud y penderfyniad hwnnw wedyn i atwrnai, neu
 - a fyddai wedi newid ei benderfyniad pe buasai'n gwybod mwy am yr amgylchiadau ar y pryd.
- Weithiau bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dod i'r casgliad nad yw penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli, nad yw'n ddilys a/neu nad yw'n gymwysadwy – ond ei fod yn cyfleu dymuniadau'r person. Rhaid i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ystyried wedyn beth sydd wedi'i nodi yn y penderfyniad ymlaen llaw fel datganiad o deimladau blaenorol y person wrth ganfod beth sydd er y budd gorau iddo (gweler pennod 5).
- Gallai rhai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol anghydweld mewn egwyddor â phenderfyniadau cleifion i wrthod triniaeth cynnal bywyd. Nid oes raid iddynt weithredu'n groes i'w daliadau. Ond nid ydynt yn cael gadael cleifion neu weithredu mewn modd sy'n effeithio ar eu gofal.
- Mae'n bosibl na fydd penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol yn gymwys os yw'r person a wnaeth y penderfyniad ymlaen llaw wedi'i gadw neu'n agored i'w gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Sut y gall rhywun wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Beth yw penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

9.1 Mae'n egwyddor gyffredinol yn y gyfraith ac mewn ymarfer meddygol bod hawl gan bobl i gydsynio i dderbyn triniaeth neu ei gwrthod. Mae'r llysoedd wedi cydnabod bod hawl gan oedolion i ddweud ymlaen llaw eu bod yn dymuno gwrthod triniaeth os byddant yn colli gallu yn y dyfodol – hyd yn oed os bydd hynny'n achosi eu marwolaeth. Mae'r un grym yn perthyn i benderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwysadwy i wrthod triniaeth ag sydd i benderfyniad cyfredol. Mae hyn wedi bod yn egwyddor sylfaenol mewn cyfraith gwlad ers blynyddoedd lawer ac mae bellach wedi'i nodi yn y Ddeddf. Mae adrannau 24–26 o'r Ddeddf yn nodi pryd y gall rhywun wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Mae hyn yn gymwys:

- os yw'r person yn 18 oed neu'n hŷn, ac
- os yw'n meddu ar allu i wneud penderfyniad ymlaen llaw am driniaeth.

Bydd gwybodaeth ar gael am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth a wneir gan bobl ifanc (dan 18 oed) yn www.dh.gov.uk/consent

9.2 Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddilyn penderfyniad ymlaen llaw os yw'n ddilys ac os yw'n gymwys i'r amgylchiadau dan sylw. Os na wnânt hynny, gallent gael eu herlyn am gyflawni trosedd (gellid eu cyhuddo o gyflawni trosedd) neu wynebu atebolrwydd sifil (gallai rhywun ddod ag achos yn eu herbyn).

9.3 Gall penderfyniadau ymlaen llaw fod â chanlyniadau difrifol i'r rhai sy'n eu gwneud. Gallant gael effaith sylweddol hefyd ar aelodau o'r teulu a ffrindiau, ac ar weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofalu amdanynt. Cyn y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gymhwyso penderfyniad ymlaen llaw, rhaid cael prawf bod y penderfyniad:

- yn bodoli
- yn ddilys
- yn gymwys i'r amgylchiadau ar y pryd.

Mae'r profion hyn yn ofynion cyfreithiol dan adran 25(1). Mae paragraffau 9.38–9.44 yn egluro safon y prawf sy'n ofynnol dan y Ddeddf.

Pwy a all wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

9.4 Mater i unigolion yw penderfynu a ydynt yn dymuno gwrthod triniaeth ymlaen llaw. Mae ganddynt hawl i wneud hynny os ydynt yn dymuno, ond nid oes gorfodaeth arnynt i wneud hynny. Bydd rhai pobl yn dewis gwneud penderfyniadau ymlaen llaw tra byddant yn dal i fod yn iach, hyd yn oed os nad oes rhagolwg o salwch. Gallent ddymuno gwneud hynny am eu bod am gadw rhywfaint o reolaeth dros yr hyn a allai ddigwydd iddynt yn y dyfodol. Gallai eraill feddwl am benderfyniad ymlaen llaw fel rhan o'u paratodau ar gyfer mynd yn hŷn (yn debyg i wneud ewyllys). Neu efallai y byddant am wneud penderfyniad ymlaen llaw ar ôl cael gwybod bod clefyd neu gyflwr penodol arnynt.

Mae'n well gan lawer o bobl beidio â gwneud penderfyniad ymlaen llaw ac, yn lle hynny, gadael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud penderfyniadau er y budd gorau iddynt ar yr adeg y mae angen gwneud penderfyniad. Dewis arall yw gwneud Atwrneiaeth Arhosol. Mae hyn yn fodd i adael i ffrind neu aelod o'r teulu y mae rhywun yn ymddiried ynddo wneud penderfyniadau am les personol, fel y rhai sy'n ymwneud â thriniaeth, ar ei ran, ac er y budd gorau iddo os bydd byth yn colli'r gallu i wneud y penderfyniadau hynny drosto'i hun (gweler paragraff 9.33 isod a phennod 7).

9.5 Nid yw pobl ond yn cael gwneud penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Nid oes gan unrhyw un hawl gyfreithiol i fynnu cael triniaeth benodol, un ai ar y pryd neu ymlaen llaw. Felly ni all neb fynnu (un ai ar y pryd neu ymlaen llaw) y bydd yn cael triniaethau y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eu hystyried yn ddiangen, yn ddi-fudd neu'n amhriodol mewn cyd-destun clinigol. Ond gall pobl wneud cais neu ddatgan beth y maent yn ei ddymuno neu'r hyn sydd orau ganddynt ymlaen llaw. Wedyn dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried y cais wrth benderfynu beth sydd er y budd gorau i glaf (gweler pennod 5) os yw'r claf heb allu.

9.6 Ni all neb geisio neu gael ei drin drwy ddull sydd yn erbyn y gyfraith (er enghraifft, cymorth i gyflawni hunanladdiad). Fel y mae adran 62 yn nodi, nid yw'r Ddeddf yn newid unrhyw un o'r deddfau sy'n ymwneud â llofruddiaeth, dynladdiad neu helpu rhywun i gyflawni hunanladdiad.

Gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw

9.7 Yn achos y rhan fwyaf o bobl, ni fydd amheuaeth ynghylch eu gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw. Hyd yn oed yn achos rhai sydd heb allu i wneud rhai penderfyniadau, mae'n bosibl y bydd ganddynt allu i wneud penderfyniad ymlaen llaw. Mewn rhai achosion, gallai fod yn fuddiol cael tystiolaeth o allu rhywun i wneud y penderfyniad ymlaen

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

llaw (er enghraifft, os oes posibilrwydd y gellid herio'r penderfyniad ymlaen llaw yn y dyfodol). Mae hefyd yn bwysig cofio y bydd gallu'n newid dros amser mewn rhai achosion, a'i bod yn bosibl y bydd rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad yn awr yn gallu ei wneud yn y dyfodol.

Mae pennod 3 yn egluro sut i asesu gallu rhywun i wneud penderfyniad.

Senario: Parchu gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw

Mae hanes o gael syndrom ofariau amlsystig yn nheulu Mrs Long. Mae wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw ysgrifenedig yn gwrthod unrhyw driniaeth neu weithdrefnau a allai effeithio ar ei ffrwythlondeb. Mae'r ddogfen yn datgan na cheir tynnu ei hofariau na'i chroth. Mae'n cael llawdriniaeth i drin tiwb Ffalopaidd sydd wedi'i flocio ac, yn ystod y broses o gydsynio, soniodd wrth ei meddyg am ei phenderfyniad ymlaen llaw.

Yn ystod y llawdriniaeth mae'r meddyg yn darganfod lwmp solet y mae'n credu y gallai fod yn ganseraidd. Yn ei farn fel clinigydd, mae'n credu y byddai er y budd gorau i Mrs Long iddo dynnu'r ofari. Ond mae'n gwybod bod Mrs Long yn meddu ar allu pan wnaeth ei phenderfyniad ymlaen llaw, sy'n ddilys ac yn gymwysadwy, felly rhaid iddo barchu ei hawliau a dilyn ei phenderfyniad. Ar ôl rhoi'r llawdriniaeth, gall drafod y mater gyda Mrs Long a'i chynghori ynghylch y dewisiadau o ran triniaeth.

- 9.8 Yn unol ag egwyddor 1 y Ddeddf, sef bod rhaid cymryd bod person yn meddu ar allu oni phofir ei fod heb allu (*'a person must be assumed to have capacity unless it is established that he lacks capacity'*), dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ragdybio ar y dechrau bob amser fod rhywun sydd wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw yn meddu ar y gallu i'w wneud, oni bai eu bod yn ymwybodol o sail resymol i amau nad oedd y person yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw ar yr adeg y'i gwnaeth. Os nad yw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi'i fodloni bod y person yn meddu ar allu ar yr adeg y gwnaeth y penderfyniad ymlaen llaw, neu os oes amheuan ynghylch a yw'n bod, a yw'n ddilys neu a yw'n gymwysadwy, gall drin y person hwnnw heb ofni y bydd yn agored i atebolrwydd. Mae'n arfer da iddo gofnodi ei benderfyniadau a'r rhesymau drostynt. Nid yw'r Ddeddf yn mynnu ei fod yn cofnodi ei asesiad o allu'r person ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad, ond byddai'n arfer da iddo wneud hynny.

9.9 Mae'n bosibl y bydd pryderon neilltuol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ynghylch gallu rhywun sydd â hanes o geisio lladd ei hun neu o feddyliau hunanladdol sydd wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw. Mae'n bwysig cofio nad yw'r ffaith bod rhywun yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw a allai, o'i ddilyn, arwain at farwolaeth yn golygu o reidrwydd fod rhywun yn ceisio lladd ei hun neu'n teimlo awydd gwneud hynny. Nid yw ychwaith yn golygu o reidrwydd fod y person hwnnw heb allu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw. Os yw'n amlwg bod y person â'i fryd ar ladd ei hun, gallai hynny godi amheuan ynghylch ei allu i wneud penderfyniad ymlaen llaw ar yr adeg y'i gwnaeth.

Beth y dylai pobl ei gynnwys mewn penderfyniad ymlaen llaw?

9.10 Nid oes unrhyw ffurfioldebau penodol ynghylch fformat penderfyniad ymlaen llaw. Gall fod yn ysgrifenedig neu ar lafar, oni bai ei fod yn delio â thriniaeth cynnal bywyd ac, os felly, rhaid iddo fod yn ysgrifenedig ac mae rheolau penodol yn gymwys iddo (gweler paragraffau 9.24–9.28 isod).

9.11 Mae penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn un:

- y mae'n rhaid iddo ddatgan yn union pa driniaeth sydd i'w gwrthod – nid yw datganiad yn nodi awydd cyffredinol i beidio â chael triniaeth yn ddigon
- a gaiff nodi'r amgylchiadau pryd y dylai'r gwrthodiad fod yn gymwys – mae'n fuddiol cynnwys cynifer o fanylion ag y bo modd
- na fydd ond yn gymwys ar adeg pan fydd y person heb allu i gydsynio i dderbyn neu wrthod y driniaeth benodol.

Mae rheolau penodol yn gymwys i driniaeth cynnal bywyd.

9.12 Caiff pobl ddefnyddio iaith feddygol neu iaith bob dydd yn eu penderfyniad ymlaen llaw. Ond rhaid iddynt egluro beth yw eu dymuniadau a pha driniaeth yr hoffent ei gwrthod.

9.13 Gallai penderfyniad ymlaen llaw yn gwrthod pob triniaeth mewn unrhyw sefyllfa (er enghraifft, os bydd rhywun yn egluro bod ei benderfyniad yn seiliedig ar ei gredoau crefyddol neu bersonol) fod yn ddilys ac yn gymwysadwy.

9.14 Argymhellir y dylai rhai sy'n ystyried gwneud penderfyniad ymlaen llaw gael cyngor gan:

- weithwyr gofal iechyd proffesiynol (er enghraifft, eu meddyg teulu neu'r person sy'n ymwneud yn fwyaf agos â'u gofal iechyd neu eu triniaeth), neu

Pennod 9

Beth mae'r
Ddeddf yn ei
ddweud am
benderfyniadau
ymlaen llaw i
wrthod triniaeth?

- gorff sy'n gallu rhoi cyngor ar gyflyrau neu sefyllfaoedd penodol (efallai y bydd gan y corff ei fformat ei hun ar gyfer cofnodi penderfyniad ymlaen llaw).

Ond mater i'r unigolyn yw penderfynu a yw am wneud hynny neu beidio. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi manylion unrhyw drafodaethau mewn cofnodion gofal iechyd.

- 9.15 Efallai y bydd rhai am gael cyngor cyfreithiol hefyd. Bydd hynny'n eu helpu i sicrhau eu bod yn mynegi eu penderfyniad yn glir ac yn gywir. Bydd o gymorth hefyd i sicrhau bod pobl eraill yn deall eu penderfyniad ymlaen llaw yn y dyfodol.
- 9.16 Syniad da yw ceisio cynnwys amgylchiadau posibl yn y dyfodol yn y penderfyniad ymlaen llaw. Er enghraifft, efallai y bydd menyw am ddatgan yn y penderfyniad ymlaen llaw a ddylai fod yn gymwys o hyd os bydd yn mynd yn feichiog yn y dyfodol. Os nad yw'r ddogfen yn darparu ar gyfer rhyw newid mewn amgylchiadau, gallai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol benderfynu nad yw'n gymwysadwy os bydd yr amgylchiadau penodol hynny'n codi.
- 9.17 Os yw penderfyniad ymlaen llaw wedi'i gofnodi yng nghofnodion gofal iechyd y claf, mae'n gyfrinachol. Bydd rhai cleifion yn dweud wrth eraill am eu penderfyniad ymlaen llaw (er enghraifft, gallent ddweud wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol, eu ffrindiau neu aelodau o'u teulu). Bydd eraill na fyddant yn gwneud hynny. Os na fydd rhywun yn gofyn am gofnodi ei benderfyniad ymlaen llaw ar ei gofnod gofal iechyd, rhaid iddo ystyried ym mhle y dylid ei gadw a sut y bydd yn rhoi gwybod i bobl am ei benderfyniad.

Penderfyniadau ymlaen llaw ysgrifenedig

- 9.18 Gall dogfen ysgrifenedig fod yn dystiolaeth o benderfyniad ymlaen llaw. Bydd yn fuddiol sôn wrth eraill am fodolaeth y ddogfen a dweud ym mhle y mae. Efallai y bydd rhywun am ei chadw gydag ef rhag ofn y ceir argyfwng, neu gadw cerdyn, breichled neu ryw arwydd arall i ddangos ei fod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw ac egluro ym mhle y mae wedi'i gadw.
- 9.19 Nid oes ffurf benodedig ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw ysgrifenedig, gan y bydd y cynnwys yn amrywio yn ôl dymuniadau a sefyllfa'r unigolyn. Ond bydd yn fuddiol cynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- manylion llawn y person sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw, yn cynnwys ei ddyddiad geni, cyfeiriad ei gartref ac unrhyw fannau amlwg ar y corff (rhag ofn y bydd angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol adnabod rhywun anymwybodol, er enghraifft)

- enw a chyfeiriad meddyg teulu'r person ac a oes ganddo gopi o'r ddogfen
- datganiad i'r perwyl y dylid defnyddio'r ddogfen os bydd y person byth heb allu i wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth
- datganiad clir o'r penderfyniad, y driniaeth sydd i'w gwrthod a'r amgylchiadau lle bydd y penderfyniad yn gymwys
- dyddiad ysgrifennu (neu adolygu) y ddogfen
- llofnod y person (neu llofnod rhywun y mae'r person wedi gofyn iddo lofnodi ar ei ran ac yn ei bresenoldeb)
- llofnod yr un sy'n dyst i'r llofnod, os oes un (neu ddatganiad yn cyfarwyddo rhywun i lofnodi ar ran y person).

Gweler paragraffau 9.24–9.28 isod os yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd.

9.20 Nid yw'n hanfodol cael tyst i lofnod y person, ac eithrio pan fo'r person yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd. Ond os oes tyst, mae'n dyst i'r llofnod ac i'r ffaith bod hwnnw'n cadarnhau'r dymuniadau sydd wedi'u nodi yn y penderfyniad ymlaen llaw. Gallai fod o gymorth rhoi disgrifiad o'r berthynas rhwng y tyst a'r un sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw. Rôl y tyst yw tystio i lofnod y person, nid ardystio bod y person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw – hyd yn oed os yw'r tyst yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu'n un sy'n adnabod y person.

9.21 Mae'n bosibl mai'r gweithiwr proffesiynol sy'n gweithredu fel tyst fydd yr un a fydd hefyd yn asesu gallu'r person. Os felly, dylai'r gweithiwr proffesiynol gofnodi'r asesiad hefyd, oherwydd nid yw'r ffaith ei fod yn gweithredu fel tyst yn profi bod asesiad wedi'i wneud.

Penderfyniadau ymlaen llaw llafar

9.22 Nid oes fformat penodedig ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw llafar. Y rheswm am hynny yw y byddant yn amrywio yn ôl dymuniadau a sefyllfa'r person. Bydd yn rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried a yw penderfyniad ymlaen llaw llafar yn bod ac a yw'n ddilys ac yn gymwysadwy (gweler paragraffau 9.38–9.44).

9.23 Os oes modd, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi penderfyniad ymlaen llaw llafar i wrthod triniaeth yng nghofnod gofal iechyd y person. Bydd hynny'n creu cofnod ysgrifenedig a allai ddileu unrhyw ddryswch ynghylch y penderfyniad yn y dyfodol. Dylai'r cofnod gynnwys:

- nodyn i'r perwyl y dylai'r penderfyniad fod yn gymwys os bydd y person heb allu i wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth yn y dyfodol

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- nodyn clir o'r penderfyniad, y driniaeth sydd i'w gwrthod a'r amgylchiadau lle bydd y penderfyniad yn gymwys
- manylion rhywun a oedd yn bresennol pan gofnodwyd y penderfyniad ymlaen llaw llafar ac yn rhinwedd pa rôl (er enghraifft, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu aelod o'r teulu)
- a oedd wedi clywed y penderfyniad, a gymerodd ran ynddo neu a yw'n ymwybodol o'i fodolaeth yn unig.

Pa reolau sy'n gymwys i benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd?

9.24 Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion a mesurau diogelu cyfreithiol penodol ar y dull o wneud penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd. *Rhaid* bodloni gofynion penodol wrth wneud penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd:

- Rhaid eu rhoi mewn ysgrifen. Os nad yw'r person yn gallu ysgrifennu, dylai rhywun arall ei ysgrifennu ar ei ran. Er enghraifft, gall aelod o'r teulu ysgrifennu'r penderfyniad ar ei ran, neu gall gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ei gofnodi yn nodiadau gofal iechyd y person.
- Rhaid i'r person lofnodi'r penderfyniad ymlaen llaw. Os nad yw'n gallu llofnodi, gall gyfarwyddo rhywun i lofnodi ar ei ran yn ei bresenoldeb.
- Mae'n ofynnol i'r un sy'n gwneud y penderfyniad lofnodi ym mhresenoldeb tyst i'r llofnod. Rhaid i'r tyst lofnodi'r ddogfen wedyn ym mhresenoldeb yr un sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw. Os nad yw'r un sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw yn gallu llofnodi, gall y tyst dystio ei fod yn cyfarwyddo rhywun arall i lofnodi ar ei ran. Rhaid i'r tyst lofnodi wedyn i ddangos iddo fod yn dyst bod y person a enwebwyd wedi llofnodi'r ddogfen gerbron yr un sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw.
- Rhaid i'r penderfyniad ymlaen llaw gynnwys datganiad clir, penodol gan yr un sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw fod y penderfyniad ymlaen llaw i'w gymhwysu i'r driniaeth benodol hyd yn oed os oes perygl i fywyd.
- Os gwneir y datganiad hwn ar adeg wahanol neu mewn dogfen wahanol i'r penderfyniad ymlaen llaw, rhaid i'r un sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw (neu rywun y mae wedi'i gyfarwyddo i lofnodi) ei lofnodi ym mhresenoldeb tyst, a rhaid i'r tyst ei lofnodi hefyd.

- 9.25 Mae adran 4(10) yn datgan bod triniaeth cynnal bywyd yn driniaeth y mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n darparu gofal i'r person yn ei hystyried yn angenrheidiol i gynnal bywyd. Ni fydd y penderfyniad hwn yn dibynnu ar y math o driniaeth yn unig. Bydd hefyd yn dibynnu ar yr amgylchiadau lle mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ei rhoi. Er enghraifft, mewn rhai sefyllfaoedd gallai gwrthfotigau gynnal bywyd, ond mewn eraill gellir eu defnyddio i drin cyflyrau nad ydynt yn fgygythiad i einioes.
- 9.26 Mae maethu a hydradu artiffisial wedi'i gydnabod yn fath o driniaeth feddygol. Mae maethu a hydradu artiffisial yn golygu defnyddio tiwbiau i ddarparu maeth a hylifau i rywun nad yw'n gallu eu derbyn drwy ei geg. Mae'n osgoi'r mecanweithiau naturiol sy'n rheoli syched ac eisiau bwyd ac mae'n galw am fonitro clinigol. Gellir gwrthod maethu a hydradu artiffisial drwy benderfyniad ymlaen llaw. Mae gwrthod maethu a hydradu artiffisial mewn penderfyniad ymlaen llaw yn debygol o arwain at farwolaeth y person, os dilynir y penderfyniad ymlaen llaw.
- 9.27 Mae'n bwysig iawn trafod penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Ond nid yw hynny'n orfodol. Bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gallu egluro:
- pa fathau o driniaeth a allai fod yn rhai sy'n cynnal bywyd, ac ym mha amgylchiadau
 - y goblygiadau a'r canlyniadau o wrthod triniaeth o'r fath (gweler hefyd baragraff 9.14).
- 9.28 Ni ellir defnyddio penderfyniad ymlaen llaw i wrthod gweithredoedd sy'n angenrheidiol i gadw rhywun yn gyfforddus (gofal sylfaenol neu hanfodol yw'r enw a roddir ar hyn weithiau). Rhai enghreifftiau o hynny yw cynhesrwydd, cysgod, gweithredoedd i gadw rhywun yn lân a chynnig bwyd a dŵr drwy'r geg. Mae adran 5 o'r Ddeddf yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gyflawni'r gweithredoedd hyn er y budd gorau i'r un sydd heb allu i gydsynio (gweler pennod 6). Gellir defnyddio penderfyniad ymlaen llaw i wrthod maethu a hydradu artiffisial.

Pryd y dylai rhywun adolygu neu ddiweddarau penderfyniad ymlaen llaw?

- 9.29 Os yw rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw, fe'i cynghorir i'w adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen. Nid yw penderfyniadau a wnaed ymhell o flaen llaw yn annilys neu'n anghymwys oherwydd hynny, ond gallai amheuan godi yn eu cylch wrth benderfynu a ydynt

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

yn ddilys ac yn gymwysadwy. Mae datganiad ysgrifenedig a gaiff ei adolygu'n rheolaidd yn fwy tebygol o fod yn ddilys ac yn gymwys i'r amgylchiadau ar y pryd – yn enwedig yn achos salwch sy'n datblygu'n raddol. Y rheswm am hynny yw ei bod yn fwy tebygol o ddarparu ar gyfer newidiadau a fu ym mywyd yr unigolyn ers iddo wneud ei benderfyniad.

- 9.30 Gall safbwyntiau ac amgylchiadau newid dros amser. Efallai y ceir adegau priodol i adolygu a diweddarau penderfyniad ymlaen llaw pan geir cyfnod newydd yn natblygiad salwch rhywun, pan ddatblygir triniaethau newydd neu pan geir newid mawr mewn amgylchiadau personol.

Sut y gall rhywun dynnu'n ôl penderfyniad ymlaen llaw?

- 9.31 Mae adran 24(3) yn caniatáu i bobl ddileu neu newid penderfyniad ymlaen llaw ar unrhyw adeg tra byddant yn dal i fod â gallu i wneud hynny. Nid oes unrhyw brosesau ffurfiol i'w dilyn. Gall pobl ddileu eu penderfyniad ar lafar neu mewn ysgrifen, a gallant ddinistrio unrhyw ddogfen ysgrifenedig wreiddiol. Os oes modd, dylai'r un a wnaeth y penderfyniad ymlaen llaw ddweud wrth unrhyw un a wyddai am ei benderfyniad ymlaen llaw ei fod wedi'i ddileu. Gall wneud hynny ar unrhyw adeg. Er enghraifft, gall wneud hynny ar y ffordd i'r ystafell lawdriniaeth neu'n union cyn cael anesthetig. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi dilead llafar mewn cofnodion gofal iechyd. Bydd hynny wedyn yn creu cofnod ysgrifenedig y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol.

Sut y gall rhywun wneud newidiadau i benderfyniad ymlaen llaw?

- 9.32 Gall pobl wneud newidiadau i benderfyniad ymlaen llaw ar lafar neu mewn ysgrifen (adran 24(3)) pa un a wnaed y penderfyniad ymlaen llaw mewn ysgrifen ai peidio. Mae'n arfer da i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi newid i benderfyniad yn nodiadau gofal iechyd y person. Ond os yw'r person yn dymuno newid penderfyniad ymlaen llaw fel ei fod yn cynnwys gwrthod triniaeth cynnal bywyd, rhaid iddo ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u disgrifio ym mharagraffau 9.24–9.28.

Beth yw'r berthynas rhwng penderfyniadau ymlaen llaw a rheolau eraill ar wneud penderfyniadau?

- 9.33 Mae penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwys i wrthod triniaeth yr un mor effeithiol â gwrthodiad a wneir pan fydd rhywun â gallu. Felly, mae penderfyniad ymlaen llaw yn dirymu:

- penderfyniad mewn unrhyw Atwrneiaeth Arhosol lles personol a wnaed cyn gwneud y penderfyniad ymlaen llaw. Felly ni all atwrnai roi cydsyniad ar gyfer triniaeth a wrthodwyd mewn penderfyniad ymlaen llaw a wnaed ar ôl llofnodi'r Atwrneiaeth Arhosol
- penderfyniad unrhyw ddirprwy a benodwyd gan lys (felly ni all dirprwy roi cydsyniad ar gyfer triniaeth a wrthodwyd mewn penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwys)
- darpariaethau adran 5 o'r Ddeddf, a fyddai fel arall yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol roi triniaeth y maent yn credu ei bod er y budd gorau i rywun.

9.34 Bydd Atwrneiaeth Arhosol a wneir ar ôl penderfyniad ymlaen llaw yn peri i'r penderfyniad ymlaen llaw fod yn annilys, os yw'r Atwrneiaeth Arhosol yn rhoi awdurdod i'r atwrnai wneud penderfyniadau am yr un driniaeth (gweler paragraff 9.40).

9.35 Caiff y Llys Gwarchod wneud datganiadau ynghylch bodolaeth, dilysrwydd a chymhwysedd y penderfyniad ymlaen llaw, ond nid oes ganddo bŵer i ddirymu penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwys i wrthod triniaeth.

9.36 Os yw rhywun yn dilyn penderfyniad ymlaen llaw, nid yw egwyddor y budd gorau (gweler pennod 5) yn gymwys. Y rheswm am hynny yw bod penderfyniad ymlaen llaw yn adlewyrchu penderfyniad gan oedolyn sydd â gallu a wnaeth y penderfyniad drosto'i hun. Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddilyn penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwys, hyd yn oed os ydynt yn credu ei fod yn groes i'r hyn sydd er y budd gorau i rywun.

Penderfyniadau ymlaen llaw ynghylch triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol

9.37 Gellir defnyddio penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod unrhyw fath o driniaeth, boed honno ar gyfer anhwylder corfforol neu un meddyliol. Ond, yn gyffredinol, gellir dirymu penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol os yw'r person wedi'i gadw mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, pryd y gellid rhoi triniaeth yn orfodol dan Ran 4 o'r Ddeddf honno. Nid yw'r ffaith bod rhywun wedi'i gadw mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer afiechydon neu gyflyrau eraill. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ym mhennod 13.

Sut y gall rhywun benderfynu ar fodolaeth, dilysrwydd a chymhwysedd penderfyniadau ymlaen llaw?

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Penderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn bod

9.38 Cyfrifoldeb yr un sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw yw sicrhau y bydd ei benderfyniad yn cael ei ddwyn i sylw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo'i angen. Bydd rhai pobl yn dymuno i'w penderfyniad gael ei gofnodi yn eu cofnodion gofal iechyd. Os oes rhai nad ydynt yn dymuno hynny, bydd yn rhaid iddynt gael dulliau eraill o dynnu sylw pobl at y ffaith eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw a rhoi gwybod ym mhle y bydd unrhyw ddogfen ysgrifenedig a thystiolaeth ategol ar gael. Bydd rhai pobl yn cario cerdyn neu'n gwisgo breichled i'r diben hwnnw. Mae hefyd yn fuddiol rhannu'r wybodaeth hon ag aelodau o'r teulu a ffrindiau, a allai dynnu sylw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol at fodolaeth penderfyniad ymlaen llaw. Ond nid yw hynny'n orfodol. Os bydd yr unigolyn yn rhoi copi o'r ddogfen ysgrifenedig i'w feddyg teulu, bydd modd i hwnnw gofnodi'r penderfyniad yng nghofnodion gofal iechyd y person hwnnw.

9.39 Mae'n bwysig gallu cadarnhau bod y person a wnaeth y penderfyniad ymlaen llaw yn 18 oed neu'n hŷn pan wnaeth ei benderfyniad, a'i fod yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad hwnnw pan wnaeth ef, yn unol â'r prawf gallu dau gam sydd wedi'i nodi ym mhennod 3. Ond, fel yr eglurwyd ym mharagraffau 9.7–9.9 uchod, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ragdybio bob amser ar y dechrau fod y person yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw.

Penderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys

9.40 Os gwnaed penderfyniad ymlaen llaw, rhaid iddo fod yn ddilys o hyd ar yr adeg y mae angen ei roi mewn grym. Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried y ffactorau yn adran 25 o'r Ddeddf cyn dod i'r casgliad bod penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys. Ymhlith y digwyddiadau a fyddai'n peri i benderfyniad ymlaen llaw fod yn annilys y mae rhai lle:

- roedd y person wedi tynnu'n ôl y penderfyniad tra oedd yn dal i fod â gallu i wneud hynny
- roedd y person, ar ôl gwneud y penderfyniad ymlaen llaw, wedi gwneud Atwrneiaeth Arhosol yn rhoi awdurdod i atwrnai wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth sydd yr un fath â'r rhai sy'n dod dan y penderfyniad ymlaen llaw (gweler hefyd baragraff 9.33)
- roedd y person wedi gwneud rhywbeth sy'n amlwg yn mynd yn groes i'r penderfyniad ymlaen llaw sy'n awgrymu ei fod wedi newid ei feddwl.

Senario: Asesu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys

Mae dyn ifanc, Angus, yn gweld ffrind yn marw ar ôl cael triniaeth am gyfnod hir mewn ysbyty. Mae Angus yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw sydd wedi'i lofnodi ym mhresenoldeb tyst i wrthod triniaeth i'w gadw'n fyw os byth y caiff anaf o'r fath. Mae'r datganiad ymlaen llaw yn cynnwys datganiad i'r perwyl y bydd hyn yn gymwys hyd yn oed os yw ei fywyd mewn perygl.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, caiff Angus ei anafu'n ddifrifol mewn damwain traffig ffyrdd. Mae wedi'i barlysu o'r gwddf i lawr ac ni all anadlu heb gymorth peiriant. Ar y dechrau mae'n aros yn ymwybodol ac yn cydsynio i dderbyn triniaeth. Mae'n cymryd rhan mewn rhaglen adsefydlu. Rai misoedd yn ddiweddarach mae'n colli ymwybyddiaeth.

Ar yr adeg hon, mae rhywun yn dod o hyd i'w benderfyniad ymlaen llaw ysgrifenedig, er nad yw Angus wedi sôn amdano yn ystod ei driniaeth. Mae'n amlwg bod ei weithredoedd cyn iddo golli gallu yn mynd yn groes i'r penderfyniad ymlaen llaw. Bydd unrhyw un sy'n asesu'r penderfyniad ymlaen llaw yn gorfod ystyried yn ofalus iawn yr amheuan y mae hyn wedi'u codi ynghylch dilysrwydd y penderfyniad ymlaen llaw, ac a yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys ac yn gymwysadwy o ganlyniad.

Penderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn gymwysadwy

- 9.41 Os yw penderfyniad ymlaen llaw i gael ei gymhwyso, rhaid iddo fod yn gymwys i'r sefyllfa dan sylw ac i'r amgylchiadau ar y pryd. Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol benderfynu'n gyntaf a yw'r person yn dal i fod â gallu i dderbyn neu wrthod triniaeth ar yr adeg berthnasol (adran 25(3)). Os yw'r person yn meddu ar allu, gall wrthod triniaeth yn y fan a'r lle. Neu gall newid ei benderfyniad a derbyn triniaeth. Nid yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn gymwys mewn sefyllfaoedd o'r fath.
- 9.42 Rhaid i'r penderfyniad ymlaen llaw fod yn gymwys hefyd i'r driniaeth a gynigir. Ni fydd yn gymwys i'r driniaeth sydd dan sylw (adran 25(4)):
- os nad y driniaeth sydd wedi'i hargymell yw'r driniaeth sydd wedi'i nodi yn y penderfyniad ymlaen llaw
 - os yw'r amgylchiadau'n wahanol i'r rhai a allai fod wedi'u nodi yn y penderfyniad ymlaen llaw, neur
 - os oes lle i gredu'n rhesymol bod amgylchiadau wedi newid mewn modd a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad pe buasai'r person yn gwybod am hynny ar yr adeg y gwnaeth y penderfyniad ymlaen llaw.

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 9.43 Felly wrth benderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn gymwys i'r driniaeth sydd wedi'i hargymell, rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried:
- pa mor bell yn ôl y gwnaed y penderfyniad ymlaen llaw
 - a fu newidiadau ym mywyd personol y claf (er enghraifft, mae'r person yn feichiog, ac ni ragwelwyd hynny pan wnaeth y penderfyniad ymlaen llaw) a allai effeithio ar ddilysrwydd y penderfyniad ymlaen llaw
 - a fu datblygiadau mewn triniaeth feddygol nad oedd y person wedi'u rhagweld (er enghraifft, meddyginiaethau, triniaethau neu therapïau newydd).
- 9.44 Os yw penderfyniad ymlaen llaw i fod yn gymwys i driniaeth cynnal bywyd, rhaid iddo fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 9.24–9.28.

Senario: Asesu penderfyniad ymlaen llaw i weld a yw'n gymwysadwy

Mae HIV ar Mr Moss. Rai blynyddoedd yn ôl dechreuodd brofi symptomau sy'n gysylltiedig ag AIDS. Mae wedi derbyn triniaeth gyffredinol, ond gwnaeth penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaethau gwrthfyrusol, gan ddweud nad oedd am fod yn destun arbrofion gan feddygon. Bum mlynedd yn ddiweddarach, caiff ei dderbyn i'r ysbyty'n ddifrifol wael ac mae'n mynd yn anymwybodol yn aml.

Mae'r meddygon sy'n trin Mr Moss yn edrych ar ei benderfyniad ymlaen llaw. Maent yn ymwybodol bod datblygiadau mawr wedi bod yn ddiweddar mewn triniaeth wrthfyrusol. Maent yn trafod hyn gyda phartner Mr Moss ac mae'r ddwy ochr yn cytuno bod lle i gredu'n rhesymol y gallai Mr Moss fod wedi newid ei feddwl pe buasai'n gwybod am y triniaethau a oedd ar gael wedyn. Felly mae'r meddygon yn penderfynu nad yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn gymwys i'r meddyginiaethau gwrthfyrusol newydd ac maent yn rhoi triniaeth iddo.

Os bydd Mr Moss yn adennill ei allu, gall newid ei benderfyniad ymlaen llaw a derbyn neu wrthod triniaeth yn y dyfodol.

Beth y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ei wneud os nad yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys neu'n gymwysadwy?

9.45 Os nad yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys neu'n gymwys i'r amgylchiadau ar y pryd:

- rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried y penderfyniad ymlaen llaw fel rhan o'u hasesiad o'r hyn sydd er y budd gorau i'r person (gweler pennod 5) os oes ganddynt le i gredu'n rhesymol ei fod yn wir fynegiant o ddymuniadau'r person
- ni chânt gymryd, am fod penderfyniad ymlaen llaw yn annilys neu'n anghymwysadwy, y dylent bob amser roi'r driniaeth a nodwyd (gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd) – rhaid iddynt seilio'r penderfyniad hwnnw ar yr hyn sydd er y budd gorau i'r person.

Beth fydd yn digwydd i benderfyniadau a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym?

9.46 Mae'n bosibl y bydd penderfyniadau ymlaen llaw a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym yn dal i fod yn ddilys ac yn gymwysadwy. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gymhwyso'r rheolau yn y Ddeddf at benderfyniadau ymlaen llaw a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym, yn amodol ar y mesurau diogelu dros dro a fydd yn gymwys i benderfyniadau ymlaen llaw sy'n gwrthod triniaeth cynnal bywyd. Bydd canllawiau pellach ar gael yn www.dh.gov.uk/consent.

Pa oblygiadau sydd mewn penderfyniadau ymlaen llaw i weithwyr gofal iechyd proffesiynol?

Pa gyfrifoldebau sydd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol?

9.47 Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn ymwybodol:

- y gallai claf y maent yn bwriadu ei drin fod wedi gwrthod triniaeth ymlaen llaw
- bod yr un statws cyfreithiol i benderfyniadau ymlaen llaw dilys a chymwys i wrthod triniaeth ag sydd i benderfyniadau a wneir gan rai sydd â gallu ar adeg y driniaeth.

9.48 Os yw'n briodol, wrth drafod y dewisiadau o ran triniaeth gyda rhai sydd â gallu, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ofyn a oes unrhyw fathau penodol o driniaeth nad ydynt yn dymuno eu cael os byddant byth heb allu i gydsynio yn y dyfodol.

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 9.49 Os bydd rhywun yn dweud wrth weithiwr gofal iechyd proffesiynol fod penderfyniad ymlaen llaw yn bod ar gyfer claf sydd bellach heb allu i gydsynio, dylai wneud ymdrech resymol i ddarganfod beth yw'r penderfyniad. Rhai ymdrechion rhesymol posibl yw trafod gyda pherthnasau'r claf, edrych yn nodiadau clinigol y claf sydd wedi'u dal yn yr ysbyty neu gysylltu â meddyg teulu'r claf.
- 9.50 Wedi iddynt gael gwybod bod penderfyniad ymlaen llaw llafar neu ysgrifenedig yn bod, rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol benderfynu:
- a yw'n ddilys (gweler paragraff 9.40)
 - a yw'n gymwys i'r driniaeth sydd wedi'i hargymell (gweler paragraffau 9.41–9.44).
- 9.51 Wrth gadarnhau a yw penderfyniad ymlaen llaw yn gymwys i'r amgylchiadau cyfredol, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn arbennig o ofalus os yw'n ymddangos nad yw'r penderfyniad wedi'i adolygu neu ei ddiweddarau ers cryn amser. Os yw amgylchiadau cyfredol y person yn wahanol iawn i'r rhai a geid pan wnaed y penderfyniad, mae'n bosibl na fydd y penderfyniad ymlaen llaw yn gymwys. Efallai y bydd pobl sy'n agos i'r person dan sylw, neu rywun sydd wedi'i enwi yn y penderfyniad ymlaen llaw, yn gallu helpu i egluro dymuniadau blaenorol yr unigolyn.
- 9.52 Os yw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u bodloni bod penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn bodoli, ei fod yn ddilys a'i fod yn gymwysadwy, rhaid iddynt ei ddilyn a pheidio â darparu'r driniaeth a wrthodwyd yn y penderfyniad ymlaen llaw.
- 9.53 Os nad yw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u bodloni bod penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli sy'n ddilys ac yn gymwysadwy, cânt drin y person heb ofni y byddant yn agored i atebolrwydd. Ond rhaid i'r driniaeth fod er y budd gorau i'r person hwnnw (gweler pennod 5). Dylent wneud nodiadau clir yn egluro pam nad ydynt wedi dilyn penderfyniad ymlaen llaw y maent yn ei ystyried yn annilys neu'n anghymwysadwy.
- 9.54 Weithiau gall gweithwyr proffesiynol roi neu barhau i roi triniaeth tra byddant yn dileu amheuan ynghylch penderfyniad ymlaen llaw. Gallai fod yn fuddiol cael gwybodaeth gan rywun a all ddarparu gwybodaeth am allu'r person pan wnaeth y penderfyniad ymlaen llaw. Gall y Llys Gwarchod ddatrys anghytundebau ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu gymhwysedd penderfyniad ymlaen llaw. Mae adran 26 o'r Ddeddf yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol roi triniaeth angenrheidiol, gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd, i atal cyflwr rhywun rhag dirywio'n sylweddol wrth i'r llys benderfynu.

A yw penderfyniadau ymlaen llaw yn gymwys mewn argyfwng?

- 9.55 Rhaid i weithiwr gofal iechyd proffesiynol ddarparu triniaeth er y budd gorau i'r claf, oni bai ei fod wedi'i fodloni bod penderfyniad ymlaen llaw sydd:
- yn ddilys
 - yn gymwys i'r amgylchiadau.
- 9.56 Ni ddylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ohirio triniaeth i chwilio am benderfyniad ymlaen llaw os nad oes arwydd clir bod penderfyniad o'r fath yn bodoli. Ond os yw'n amlwg bod rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw sy'n debygol o fod yn berthnasol, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ei asesu i weld a yw'n ddilys ac yn gymwysadwy cyn gynted ag y bo modd. Weithiau bydd y brys i wneud penderfyniadau am driniaeth yn peri bod hynny'n anodd.

Pryd y gellir cael gweithwyr iechyd gofal proffesiynol yn atebol?

- 9.57 Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddilyn penderfyniad ymlaen llaw os ydynt wedi'u bodloni ei fod yn bodoli, ei fod yn ddilys a'i fod yn gymwys i'w hamgylchiadau. Byddai methiant i ddilyn penderfyniad ymlaen llaw mewn sefyllfa o'r fath yn gallu arwain at hawliad am iawndal am guro neu gyhuddiad troseddol o ymosod.
- 9.58 Ond byddant wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd:
- os nad ydynt yn ymwybodol o fodolaeth penderfyniad ymlaen llaw, neu
 - os nad ydynt wedi'u bodloni bod penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli, ei fod yn ddilys a'i fod yn gymwys i'r driniaeth benodol a'r amgylchiadau ar y pryd (adran 26(2)).

Os oes amheuan gwirioneddol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, a hwythau felly heb eu 'bodloni', ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu gymhwysedd y penderfyniad ymlaen llaw, gellir darparu triniaeth heb ddod yn atebol.

- 9.59 Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd am fethu â darparu triniaeth os ydynt yn credu'n rhesymol (*'reasonably believe'*) bod penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwysadwy i wrthod y driniaeth honno mewn bodolaeth. Ond rhaid iddynt allu dangos bod eu cred yn rhesymol (adran 26(3)) a chyfeirio at sail resymol sy'n dangos pam y maent yn credu hynny.

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Ni fydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ond yn gallu gwneud eu penderfyniad ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar yr adeg y mae angen iddynt ystyried penderfyniad ymlaen llaw.

- 9.60 Gallai rhai sefyllfaoedd fod yn ddigon ar eu pen eu hun i beri pryder ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu gymhwysedd penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Sefyllfaoedd posibl o'r fath yw rhai:
- lle mae anghytundeb rhwng perthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ynghylch a oedd sylwadau llafar yn benderfyniad ymlaen llaw mewn gwirionedd
 - lle mae tystiolaeth am gyflwr meddwl y person yn codi amheuan ynghylch ei allu ar yr adeg y gwnaeth y penderfyniad (gweler paragraffau 9.7–9.9)
 - tystiolaeth o newidiadau pwysig yn ymddygiad y person cyn iddo golli gallu a allai awgrymu ei fod wedi newid ei feddwl.

Mewn achosion lle mae amheuan dybryd yn aros na ellir eu dileu mewn unrhyw fodd arall, bydd yn bosibl ceisio datganiad gan y llys.

Beth fydd yn digwydd os oes gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthwynebiad cydwybodol i atal neu ddarparu triniaeth cynnal bywyd?

- 9.61 Gallai rhai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wrthwynebu mewn egwyddor hawliau cleifion i wrthod triniaeth cynnal bywyd. Nid yw'r Ddeddf yn newid y sefyllfa gyfreithiol bresennol. Nid oes raid iddynt wneud rhywbeth sy'n groes i'w daliadau. Ond ni chânt adael cleifion neu beri i'w gofal ddiodef.
- 9.62 Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol egluro eu barn i'r claf ac i'r tîm gofal iechyd cyn gynted ag y bydd rhywun yn codi mater gwrthod, atal neu ddarparu triniaeth cynnal bywyd. Wedyn dylai cleifion sy'n meddu ar allu o hyd gael y dewis o drosglwyddo eu gofal fel ei fod yn gyfrifoldeb i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, os oes modd gwneud hynny heb effeithio ar eu gofal.
- 9.63 Mewn achosion lle mae claf sydd heb allu bellach wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwysadwy i wrthod triniaeth na all meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol gydymffurfio ag ef am resymau cydwybodol, dylid gwneud trefniadau i drosglwyddo gofal y claf fel ei fod yn gyfrifoldeb i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.³⁶ Os na ellir cytuno i'w drosglwyddo, gall y Llys Gwarchod

³⁶ *Re B (Adult: Refusal of Medical Treatment)* [2002] EWHC 429 (Fam) at paragraph 100(viii)

gyfarwyddo'r rhai sy'n gyfrifol am ofal iechyd y person (er enghraifft, Ymddiriedolaeth, meddyg neu weithiwr gofal iechyd arall) i wneud trefniadau i gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ofal iechyd y person hwnnw (adran 17(1)(e)).

Beth fydd yn digwydd os oes anghytundeb ynghylch penderfyniad ymlaen llaw?

- 9.64** Yn y pen draw, cyfrifoldeb y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â rheolaeth ar ofal y person pan fo angen y driniaeth yw penderfynu a oes penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwys i'r amgylchiadau. Os ceir anghytuno ynghylch penderfyniad ymlaen llaw rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, neu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau o'r teulu neu eraill sy'n agos i'r person, rhaid i'r uwch glinigydd ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Mae'n debygol y bydd hwnnw'n feddyg ymgynghorol mewn ysbyty neu'n feddyg teulu os yw'r person yn cael ei drin yn y gymuned.
- 9.65** Efallai y bydd angen i'r uwch glinigydd ymgynghori â chydweithwyr perthnasol ac eraill sy'n agos i'r claf neu'n ei adnabod. Dylid rhoi cyfle i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gofal y person gael mynegi eu barn. Os yw'r person mewn ysbyty, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth berthnasol gan ei feddyg teulu hefyd.
- 9.66** Nid er mwyn ceisio dirymu penderfyniad ymlaen llaw y person y dylid cynnal trafodaethau o'r fath ond yn hytrach er mwyn chwilio am dystiolaeth sy'n ymwneud â'i ddilysrwydd a chadarnhau ei gwmpas a'i gymhwysedd yn yr amgylchiadau ar y pryd. Dylid cofnodi manylion y trafodaethau hynny yng nghofnodion gofal iechyd y person. Os oes cred resymol gan yr uwch glinigydd fod penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol yn ddilys ac yn gymwysadwy, dylid cydymffurfio â phenderfyniad ymlaen llaw y person hwnnw.

Pryd y gall rhywun wneud cais i'r Llys Gwarchod?

- 9.67** Gall y Llys Gwarchod wneud penderfyniad os oes amheuaeth wirioneddol neu anghytuno ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu gymhwysedd penderfyniad ymlaen llaw. Ond nid oes pŵer gan y llys i wrthdroi penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn gymwysadwy.

- 9.68 Mae gan y llys amryw o bwerau (adrannau 16–17) i ddatrys anghydfodau ynghylch gofal personol a thriniaeth feddygol rhywun sydd heb allu (gweler pennod 8). Gall benderfynu:
- a oes gallu gan rywun i dderbyn neu wrthod triniaeth yr ar adeg y caiff ei hargymell
 - a yw penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn ddilys
 - a yw penderfyniad ymlaen llaw yn gymwys i'r driniaeth sydd wedi'i hargymell yn yr amgylchiadau cyfredol.
- 9.69 Tra bydd y llys yn penderfynu, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddarparu triniaeth cynnal bywyd neu driniaeth i atal ei gyflwr rhag dirywio'n sylweddol. Mae gan y llys drefnau brys sy'n rhedeg bob awr o'r dydd a'r nos i ddelio ag achosion brys yn gyflym. Gweler pennod 8 lle y ceir canllawiau ar wneud cais i'r llys.

Pennod 9

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGMau) newydd sydd wedi'i greu dan y Ddeddf. Pwrpas y gwasanaeth EAGMau yw helpu pobl sy'n arbennig o agored i niwed sydd heb allu i wneud penderfyniadau pwysig ynghylch triniaeth feddygol sylweddol a newidiadau o ran llety, ac sydd heb unrhyw aelodau o'u teulu neu ffrindiau y byddai'n briodol ymgynghori â hwy am y penderfyniadau hynny. Bydd EAGMau yn gweithio gyda phobl sydd heb allu ac yn eu cefnogi, ac yn cyfleu eu barn i'r rhai sy'n ceisio canfod beth sydd er y budd gorau iddynt.

Mae'r bennod hon yn cynnig canllawiau i EAGMau ac i bawb a allai fod ag angen cyfarwyddo EAGM. Mae'n egluro sut y dylid penodi EAGMau. Mae hefyd yn egluro dyletswyddau'r EAGM a'r sefyllfaoedd lle y dylid cyfarwyddo EAGM. Mae'n ofynnol i EAGMau a gwneuthurwyr penderfyniad ddal sylw ar y Cod Ymarfer.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Deall rôl y gwasanaeth EAGMau

- Nod y gwasanaeth EAGMau yw darparu mesurau diogelu annibynnol ar gyfer pobl sydd heb allu i wneud rhai penderfyniadau pwysig ac sydd heb unrhyw un arall (heblaw staff cyflogedig), ar yr adeg y mae angen gwneud penderfyniadau o'r fath, i'w cefnogi neu eu cynrychioli neu i gael eu cynnwys wrth ymgynghori.
- Rhaid i EAGMau fod yn annibynnol.

Cyfarwyddo ac ymgynghori ag EAGM

- Rhaid cyfarwyddo EAGM, ac ymgynghori ag ef wedyn, yn achos pobl sydd heb allu nad oes ganddynt unrhyw un arall i'w cefnogi (heblaw staff cyflogedig), pryd bynnag:
 - y mae corff GIG yn argymhell darparu triniaeth feddygol sylweddol, neu
 - y mae corff GIG neu awdurdod lleol yn argymhell trefnu llety (neu newid llety) mewn ysbyty neu gartref gofal, ac

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- y bydd y person yn aros yn yr ysbyty am fwy nag 28 niwrnod, neu
- y bydd yn aros yn y cartref gofal am fwy nag wyth wythnos.
- Ceir cyfarwyddo EAGM i gefnogi rhywun sydd heb allu i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch:
 - adolygiadau gofal, os nad oes unrhyw un arall ar gael y gellir ymgynghori ag ef
 - achosion amddiffyn oedolion, pa un a yw aelodau o'r teulu, ffrindiau neu eraill yn cymryd rhan neu beidio

Sicrhau ystyriaeth i farn EAGM

- Rôl yr EAGM yw cefnogi a chynrychioli'r person sydd heb allu. Oherwydd hynny, mae hawl gan EAGMau i weld cofnodion gofal iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol.
- Rhaid ystyried unrhyw wybodaeth neu adroddiadau y mae EAGM yn eu rhoi fel rhan o'r broses o ganfod a yw penderfyniad sydd wedi'i argymhell er y budd gorau i'r person.

Beth yw'r gwasanaeth EAGMau?

- 10.1** Mae adrannau 35–41 o'r Ddeddf yn sefydlu gwasanaeth EAGMau newydd sy'n darparu mesurau diogelu ar gyfer pobl:
- sydd heb allu i wneud penderfyniad penodedig ar yr adeg y mae angen ei wneud
 - sy'n wynebu penderfyniad am symudiad tymor hir neu driniaeth feddygol sylweddol
 - ac sydd heb unrhyw un arall sy'n barod ac yn abl i'w cynrychioli neu gael ei gynnwys wrth ymgynghori yn y broses o ganfod beth sydd er y budd gorau iddynt
- 10.2** Mae rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf yn datgan hefyd y ceir cynnwys EAGMau mewn penderfyniadau eraill ynghylch:
- adolygiad gofal, neu
 - achos amddiffyn oedolion.
- Mewn achosion amddiffyn oedolion, ceir penodi EAGM hyd yn oed os yw aelodau o'r teulu neu eraill ar gael fel y gellir ymgynghori â hwy.
- 10.3** Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol yn gallu cael cefnogaeth gan bobl eraill (er enghraifft, aelodau o'u teulu neu ffrindiau sy'n ymddiddori yn eu lles). Wrth i unrhyw un geisio canfod beth sydd er y budd gorau i rywun, rhaid iddo ymgynghori â'r

bobl hynny, os oes modd, ac ystyried eu barn (gweler pennod 5). Ond os nad oes gan y person sydd heb allu unrhyw un i'w gynrychioli neu unrhyw un y mae'n briodol ymgynghori ag ef, rhaid cyfarwyddo EAGM mewn amgylchiadau sydd wedi'u rhagnodi. Yr amgylchiadau sydd wedi'u rhagnodi yw:

- darparu, gwrthod rhoi neu atal triniaeth feddygol sylweddol
- symud rhywun i dderbyn gofal tymor hir mewn ysbyty neu gartref gofal (gweler 10.11 lle y ceir diffiniad o hynny), neu
- symud y person i ysbyty neu gartref gofal gwahanol.

Yr unig eithriad y gellir ei gael i hyn yw hynny mewn sefyllfaoedd lle mae angen penderfyniad brys. Ceir mwy o fanylion am y sefyllfaoedd lle mae dyletswydd i gyfarwyddo EAGM ym mharagraffau 10.40–10.58.

Mewn sefyllfaoedd eraill, ceir penodi EAGM ar gyfer y person (gweler paragraffau 10.59–10.68). Mae'r rhain yn cynnwys:

- adolygiadau gofal neu
- achosion amddiffyn oedolion.

10.4 Bydd yr EAGM:

- yn annibynnol ar y person sy'n gwneud y penderfyniad
- yn cefnogi'r person sydd heb allu
- yn cynrychioli'r person sydd heb allu mewn trafodaethau i ganfod a yw'r penderfyniad sydd wedi'i argymhell er y budd gorau i'r person hwnnw
- yn darparu gwybodaeth i helpu i ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person (gweler pennod 5)
- yn codi cwestiynau ac yn herio penderfyniadau y mae'n ymddangos nad ydynt er y budd gorau i'r person.

Rhaid i wneuthurwyr penderfyniad ystyried yr wybodaeth y mae'r EAGM yn ei darparu pryd bynnag y byddant yn ceisio canfod beth sydd er y budd gorau i rywun. Gweler paragraffau 10.20–10.39 i gael mwy o wybodaeth am rôl yr EAGM. I gael mwy o wybodaeth ynghylch pwy sy'n wneuthurwr penderfyniad, gweler pennod 5.

10.5 Bydd y gwasanaeth EAGMau yn adeiladu ar sail arferion da yn y sector eiriolaeth annibynnol. Ond mae gan EAGMau rôl wahanol i'r hyn sydd gan lawer o eiriolwyr eraill. Maent:

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- yn darparu gwasanaeth eirioli statudol
- yn cael eu cyfarwyddo i gefnogi a chynrychioli pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau ar faterion penodol
- yn meddu ar hawl i gwrdd yn breifat â'r person y maent yn ei gynrychioli
- yn cael gweld cofnodion gofal iechyd a chofnodion gofal cymdeithasol perthnasol
- yn cefnogi ac yn cynrychioli pobl tra gwneir y penderfyniad yn benodol
- yn gweithredu'n gyflym fel bod modd cynnwys eu hadroddiad yn y broses penderfynu.

Pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth?

10.6 Mae'r gwasanaeth EAGMau ar gael yng Nghymru a Lloegr. Mae gan y ddwy wlad reoliadau ar gyfer sefydlu a rheoli'r gwasanaeth.

- Mae'r rheoliadau ar gyfer Lloegr³⁷ ar gael yn www.opsi.gov.uk/si/si200618.htm ac yn www.opsi.gov.uk/si/dsis2006.htm.
- Mae'r rheoliadau ar gyfer Cymru³⁸ ar gael yn www.new.wales.gov.uk/consultations/closed/healandsoccarecloscons/.

Rhoddwyd canllawiau i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau EAGMau ar gyfer eu hardal.

³⁷ *Rheoliadau Deddf Gallu Meddyliol 2005 (Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol) (Cyffredinol) 2006 OS: 2006 /Rhif 1832.* Y 'Rheoliadau Cyffredinol'. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi manylion y dull o benodi EAGM, swyddogaethau'r EAGM, gan gynnwys ei rôl o ran herio'r gwneuthurwr penderfyniad ac maent yn cynnwys diffiniadau o driniaeth feddygol sylweddol ('serious medical treatment') a chorff GIG ('NHS body').

Rheoliadau Deddf Gallu Meddyliol 2005 (Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol) (Ehangu Rôl) 2006 OS: 2883. Y 'Rheoliadau Ehangu'. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu dan ba amgylchiadau y caiff awdurdodau lleol a chyrff GIG ddarparu gwasanaeth EAGMau yn ôl eu disgrisiwn. Ymhlith yr amgylchiadau hyn, mae rhai lle y ceir cynnwys EAGM mewn adolygiad gofal ac mewn achosion amddiffyn oedolion.

³⁸ *Rheoliadau Deddf Gallu Meddyliol 2005 (Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol) (Cymru) 2007 OS: /Rhif (Cy).* Bydd y rheoliadau hyn yn aros ar ffurf drafft hyd nes cânt eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Y dyddiad targed ar gyfer eu rhoi mewn grym yw 1 Hydref 2007. Yn wahanol i'r ddwy set o reoliadau ar gyfer Lloegr, dim ond un set a fydd ar gyfer Cymru. Er y bydd rheoliadau Cymru yn aros ar ffurf drafft tan y dyddiad dod i rym, maent wedi'u drafftio fel y byddant yn gweithredu darpariaethau tebyg a chyfatebol i'r rhai yn y rheoliadau i Loegr.

- 10.7 Yn Lloegr, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn darparu'r gwasanaeth drwy awdurdodau lleol, sy'n gweithio mewn partneriaeth â chyrrff GIG. Awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb ariannol dros y gwasanaeth. Yng Nghymru, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu'r gwasanaeth drwy fyrddau iechyd lleol, sydd â chyfrifoldeb ariannol dros y gwasanaeth ac sy'n gweithio mewn partneriaeth ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol a chyrrff GIG eraill. Comisiynir y gwasanaeth oddi wrth gyrff annibynnol sydd fel arfer yn gyrff eiriolaeth.
- 10.8 Mae awdurdodau lleol neu gyrff GIG yn gyfrifol am gyfarwyddo EAGM i gynrychioli rhywun sydd heb allu. Yn yr amgylchiadau hynny, fe'u gelwir yn 'gorff cyfrifol'.
- 10.9 Yn achos penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol, y corff cyfrifol fydd y corff GIG sy'n darparu gofal iechyd neu driniaeth i'r person. Ond os yw'r person mewn ysbyty annibynnol neu ysbyty sector gwirfoddol, y corff cyfrifol fydd y corff GIG sy'n trefnu ac yn ariannu gofal y person hwnnw, a dylai fod â threfniadau ar waith gyda'r ysbyty annibynnol neu'r ysbyty sector gwirfoddol i sicrhau y caiff EAGM ei benodi'n brydlon.
- 10.10 Yn achos penderfyniadau ynghylch derbyn rhywun i lety mewn ysbyty am 28 o ddiwrnodau neu ragor, y corff cyfrifol fydd y corff GIG sy'n rheoli'r ysbyty hwnnw. Yn achos penderfyniadau sy'n ymwneud â derbyn rhywun i ysbyty annibynnol neu ysbyty sector gwirfoddol am 28 o ddiwrnodau neu ragor, y corff cyfrifol fydd y corff GIG sy'n trefnu ac yn ariannu gofal y person. Rhaid i'r ysbyty annibynnol neu wirfoddol fod â threfniadau ar waith gyda'r corff GIG i sicrhau y gellir penodi EAGM yn ddi-oed.
- 10.11 Yn achos penderfyniadau ynghylch symud i lety tymor hir³⁹ (am wyth wythnos neu fwy), neu ynghylch newid llety, y corff cyfrifol fydd un ai:
- y corff GIG sy'n argymhell y symud neu'r newid llety (e.e. cartref nyrsio), neu
 - yr awdurdod lleol a wnaeth asesiad o'r person dan Ddeddf y GIG a Gofal yn y Gymuned 1990 ac a benderfynodd y gallai'r symud fod yn angenrheidiol.

³⁹ Gallai hyn fod yn llety mewn cartref gofal, cartref nyrsio, tai cyffredin a thai gwarchod, tai cymdeithasau tai neu dai cymdeithasol cofrestredig arall neu dai sector preifat wedi'u darparu gan awdurdod lleol neu mewn hostel..

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

10.12 Weithiau bydd cyrff GIG ac awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd ynghylch symud rhywun i dderbyn gofal tymor hir. Mewn achosion o'r fath, y corff sy'n gorfod cyfarwyddo'r EAGM yw'r un sy'n gyfrifol yn y pen draw am y penderfyniad i symud y person. Yr EAGM sydd i'w gyfarwyddo yw'r un sy'n gweithio ym mhle bynnag y mae'r person ar yr adeg y mae ar y person angen cael ei gefnogi a'i gynrychioli.

Beth yw dyletswyddau'r corff cyfrifol?

10.13 Mae'r corff cyfrifol:

- *yn gorfod* cyfarwyddo EAGM i gefnogi a chynrychioli rhywun yn y sefyllfaoedd sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 10.40–10.58
- *yn cael* penderfynu cyfarwyddo EAGM mewn sefyllfaoedd sydd wedi'u disgrifio ym mharagraffau 10.59–10.68
- *yn gorfod*, yn yr holl amgylchiadau lle mae EAGM wedi'i gyfarwyddo, roi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth y mae'r EAGM yn ei darparu wrth ganfod a yw'r penderfyniad neilltuol (fel un i roi, gwrthod rhoi neu atal triniaeth, newid llety'r person, neu gyflawni argymhelliad ar ôl adolygiad gofal neu honiad sy'n galw am fesurau amddiffyn oedolion) er y budd gorau i'r un sydd heb allu.

10.14 Dylai'r corff cyfrifol feddu hefyd ar weithdrefnau, trefniadau hyfforddi a rhaglenni hybu ymwybyddiaeth i sicrhau:

- bod yr holl staff perthnasol yn gwybod pa bryd y mae angen iddynt gyfarwyddo EAGM a'u bod yn gallu gwneud hynny'n ddi-oed
- bod yr holl staff perthnasol yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth EAGMau ac yn gwybod beth yw'r weithdrefn ar gyfer cyfarwyddo EAGM
- ei fod yn cofnodi'r ymwneud gan EAGM mewn achos ac unrhyw wybodaeth y mae'r EAGM yn ei darparu i roi cymorth i wneud penderfyniadau
- ei fod hefyd yn cofnodi sut mae gwneuthurwr penderfyniad wedi ystyried yr adroddiad a'r wybodaeth a roddodd yr EAGM fel rhan o'r broses o ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person (dylai hynny gynnwys rhesymau dros anghytuno â'r cyngor hwnnw, os yw hynny'n berthnasol)
- ei fod yn rhoi mynediad at gofnodion perthnasol pan yw EAGM yn gofyn am hynny dan adran 35(6)(b) o'r Ddeddf
- bod yr EAGM yn cael gwybodaeth am newidiadau a allai effeithio ar y gefnogaeth a'r gynrychiolaeth y mae'r EAGM yn eu darparu
- bod gwneuthurwyr penderfyniad yn rhoi gwybod i'r holl bobl berthnasol pan fydd EAGM yn gweithio ar achos rhywun, a

- bod gwneuthurwyr penderfyniad yn hysbysu'r EAGM am y penderfyniad terfynol a wnaed a'r rheswm drosto.

10.15 Weithiau gellid cael anghytuno rhwng EAGM a staff sy'n gweithio i'r corff cyfrifol. Os digwydd hynny, dylent geisio datrys yr anghytundeb drwy drafod a negodi cyn gynted ag y bo modd. Os na allant wneud hynny, dylent wedyn ddilyn gweithdrefnau ffurfiol y corff cyfrifol ar gyfer datrys anghydfodau neu gwynion (gweler paragraffau 10.34 i 10.39 isod).

10.16 Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai'r EAGM herio penderfyniad gan gorff cyfrifol, neu gallai helpu rhywun sy'n herio penderfyniad. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn Lloegr a'r Rheoliadau yng Nghymru yn nodi pryd y caiff hynny ddigwydd (gweler hefyd bennod 15). Os nad oes modd arall i ddatrys yr anghytundeb, ceir herio'r penderfyniad yn y Llys Gwarchod.

Pwy a gaiff fod yn EAGM?

10.17 Yn Lloegr, ni fydd rhywun ond yn cael bod yn EAGM os bydd yr awdurdod lleol yn cymeradwyo ei benodi. Yng Nghymru, y bwrdd iechyd lleol fydd yn ei gymeradwyo. Mae cyflogeion cymwysedig mewn cyrff sydd wedi'u cymeradwyo yn gallu gweithredu fel EAGMau. Fel arfer bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn comisiynu cyrff eiriolaeth annibynnol i ddarparu'r gwasanaeth EAGMau. Bydd y cyrff hynny'n gweithio'n ôl safonau trefniadol priodol sydd wedi'u pennu drwy'r broses contractio/comisiynu.

10.18 Rhaid i EAGMau unigol:

- fod â phrofiad penodol
- bod wedi'u hyfforddi fel EAGM
- bod yn onest a bod â chymeriad da
- gallu gweithredu'n annibynnol.

Rhaid i bob EAGM gwblhau'r hyfforddiant ar gyfer EAGMau fel y gall weithio fel eiriolwr annibynnol o ran gallu meddyliol. Mae cymhwyster eiriolaeth cenedlaethol yn cael ei ddatblygu hefyd, a fydd yn cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer EAGMau.

Cyn y bydd awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol yn penodi EAGM, rhaid iddo gwblhau gwiriadau gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol er mwyn cael tystysgrif cofnod troseddol neu dystysgrif cofnod troseddol uwch ar gyfer yr unigolyn hwnnw.⁴⁰

⁴⁰ Enwyd EAGMau fel grwp sy'n ddarostyngedig i wirio gorfodol dan y system fetio a gwahardd newydd yn Neddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006. Bydd y rhan fwyaf o'r cynllun yn cael ei roi ar waith yn 2008.

10.19 Rhaid i EAGMau fod yn annibynnol. Ni all pobl weithredu fel EAGMau:

- os ydynt yn trin neu'n gofalu am y person y byddant yn ei gynrychioli (yn rhinwedd swydd gyflogedig neu mewn cymhwyster proffesiynol) (nid yw hyn yn gymwys os ydynt eisoes yn eiriolwr sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw), neu
- os oes cysylltiadau rhyngddynt a'r person sy'n ei gyfarwyddo, y gwneuthurwr penderfyniad neu unigolion eraill sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth y person a allai effeithio ar eu hannibyniaeth.

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

Beth yw rôl EAGM?**10.20** Rhaid i EAGM benderfynu ar y modd gorau i gynrychioli a chefnogi'r person sydd heb allu y mae'n ei gynorthwyo:

- Rhaid iddo gadarnhau bod y person sy'n ei gyfarwyddo yn meddu ar awdurdod i wneud hynny
- Dylai gyfweld neu gwrdd yn breifat â'r person sydd heb allu, os oes modd
- Rhaid iddo weithredu'n unol ag egwyddorion y Ddeddf (fel y maent wedi'u nodi yn adran 1 o'r Ddeddf ac ym mhennod 2 o'r Cod) ac ystyried canllawiau perthnasol yn y Cod
- Caiff archwilio unrhyw gofnodion perthnasol y mae adran 35(6) o'r Ddeddf yn rhoi hawl iddo eu gweld
- Dylai gael barn gweithwyr proffesiynol a gweithwyr cyflogedig sy'n darparu gofal neu driniaeth ar gyfer y person sydd heb allu
- Dylai gael barn unrhyw un arall sy'n gallu rhoi gwybodaeth am ddymuniadau a theimladau, credoau neu werthoedd y person sydd heb allu
- Dylai gael gafael ar unrhyw wybodaeth arall y mae'n credu y bydd yn angenrheidiol
- Rhaid iddo ddarganfod pa gefnogaeth a gafodd y person sydd heb allu i'w helpu i wneud y penderfyniad penodol
- Rhaid iddo geisio darganfod beth fyddai dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd y person yn debygol o fod pe byddai'r person hwnnw'n meddu ar allu
- Dylai ddarganfod pa ddewisiadau eraill sydd ar gael
- Dylai ystyried a fyddai o gymorth i'r un sydd heb allu pe byddai'n cael barn feddygol arall
- Rhaid iddo ysgrifennu adroddiad ar ei ganfyddiadau ar gyfer yr awdurdod lleol neu'r corff GIG.

- 10.21** Os oes modd, dylai gwneuthurwyr penderfyniad wneud penderfyniadau ar sail dealltwriaeth lawn o ddymuniadau'r person yn awr ac yn y gorffennol. Dylai'r EAGM roi cymaint ag y bo modd o'r wybodaeth hon i'r gwneuthurwr penderfyniad – ac unrhyw beth arall y mae'n credu ei fod yn berthnasol. Bydd yr adroddiad y mae'n ei roi i'r gwneuthurwr penderfyniad yn cael cynnwys cwestiynau am y weithred sydd wedi'i hargymell neu caiff awgrymu dewisiadau eraill, os yw o'r farn y byddent yn fwy addas mewn cysylltiad â dymuniadau a theimladau'r person.
- 10.22** Agwedd bwysig arall ar rôl yr EAGM yw rhoi gwybod am ei ganfyddiadau. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad ddarganfod y dull mwyaf effeithiol iddo wneud hynny. Yn rhai o'r ardaloedd lle y cafwyd cynlluniau peilot ar gyfer EAGMau⁴¹, roedd timau rhyddhau cleifion mewn ysbytai wedi ychwanegu'r cwestiwn 'A oes angen cyfarwyddo EAGM?' at eu ffurflenni i gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd hyn yn caniatáu i staff ganfod yr angen am EAGM mor fuan ag yr oedd modd, a thrafod yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad. Mae rhai penderfyniadau'n galw am ymateb cyflym iawn gan EAGM; mae mwy o amser ar gael ar gyfer eraill. Yn ardaloedd y cynlluniau peilot, roedd yr ymwneud gan EAGMau wedi arwain at well cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, a oedd yn canolbwyntio i fwy o raddau ar y budd gorau i'r person a oedd heb allu. Nid oedd wedi achosi oedi ychwanegol wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Cynrychioli a chefnogi'r person sydd heb allu

- 10.23** Dylai EAGMau ystyried y canllawiau ym mhennod 5.
- Dylai EAGMau ddarganfod a yw'r gwneuthurwr penderfyniad wedi rhoi pob cefnogaeth ymarferol a phriodol i helpu'r un sydd heb allu i ymwneud i'r graddau mwyaf posibl â'r broses penderfynu. Os yw'r person yn profi anawsterau o ran cyfathrebu, dylai'r EAGM ddarganfod hefyd a yw'r gwneuthurwr penderfyniad wedi cael unrhyw gymorth arbenigol (er enghraifft, gan therapydd iaith a lleferydd).
 - Mae'n bosibl y bydd EAGM weithiau'n cael gwybodaeth sy'n awgrymu y gallai rhywun adennill gallu yn y dyfodol, fel y gall un ai gwneud y penderfyniad ei hun neu gymryd mwy o ran wrth benderfynu. Mewn sefyllfa o'r fath, gall yr EAGM ofyn i'r gwneuthurwr penderfyniad ohirio'r penderfyniad, os nad yw'n un brys.
 - Bydd angen i'r EAGM gael cymaint o wybodaeth ag y bo modd am ddymuniadau a theimladau'r person, a'i gredoau a'i werthoedd – yn y presennol a'r gorffennol. Dylai hefyd ystyried crefydd y person sydd dan sylw ac unrhyw ffactorau diwylliannol a allai ddylanwadu ar y penderfyniad.

⁴¹ Am wybodaeth bellach gweler www.dh.gov.uk/imca

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- 10.24** Weithiau ni fydd gan y corff cyfrifol ddigon o amser i gyfarwyddo EAGM (er enghraifft, mewn argyfwng neu os yw'r penderfyniad yn un brys). Os felly y mae, dylid cofnodi hynny, gan roi'r rheswm dros beidio â chyfarwyddo EAGM. Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â symud llety, rhaid i'r awdurdod lleol benodi EAGM cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny. Weithiau ni fydd gan yr EAGM ddigon o amser i gwblhau ymchwiliad llawn. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, rhaid i'r EAGM farnu ynghylch beth y gall ei gyflawni yn yr amser sydd ar gael i gefnogi a chynrychioli'r person sydd heb allu.
- 10.25** Mae'n bosibl weithiau na fydd yr EAGM yn gallu gweld yn glir beth y gallai fod ar y person ei eisiau. Dylai ddal i geisio sicrhau bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol drwy:
- godi materion a chwestiynau perthnasol, a
 - darparu gwybodaeth berthnasol ychwanegol i hwyluso'r penderfyniad terfynol.

Darganfod gwybodaeth a'i gwerthuso

- 10.26** Mae adran 35(6) yn rhoi pwerau penodol i EAGMau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- yr hawl i gael cyfweiliad preifat gyda'r person sydd heb allu
 - yr hawl i archwilio a gwneud copiau o unrhyw gofnodion y mae'r person sy'n dal y cofnod yn credu eu bod yn berthnasol i'r ymchwiliad (er enghraifft, cofnodion clinigol, cynlluniau gofal, dogfennau asesu gofal cymdeithasol neu gofnodion cartrefi gofal).
- 10.27** Mae hefyd yn bosibl y bydd angen i'r EAGM gwrdd â gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr cyflogedig sy'n darparu gofal neu driniaeth i'r person sydd heb allu. Gall y bobl hynny helpu i asesu'r wybodaeth mewn cofnodion achos neu wybodaeth o ffynonellau eraill. Gallant wneud sylw hefyd am gyrsiau gweithredu eraill sy'n bosibl. Yn y pen draw, cyfrifoldeb y gwneuthurwr penderfyniad yw penderfynu a yw cwrs gweithredu sydd wedi'i argymhell er y budd gorau i'r person. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn mynnu bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ystyried yr adroddiadau a wnaed a'r wybodaeth a roddwyd gan yr EAGM. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd penderfyniad ar yr hyn sydd er y budd gorau i rywun yn cael ei wneud drwy drafodaeth sy'n cynnwys yr holl bobl gysylltiedig sy'n darparu gofal neu driniaeth, yn ogystal â'r EAGM.

Darganfod beth yw dymuniadau a theimladau'r person, a'i gredoau a'i werthoedd

10.28 Rhaid i'r EAGM geisio darganfod beth yw dymuniadau a theimladau'r person, yn ogystal â'i gredoau a'i werthoedd sylfaenol. Dylai'r EAGM geisio cyfathrebu ar lafar ac yn ddieiriau gyda'r person a allai fod heb allu, fel y bo'n briodol. Er enghraifft, gallai hynny olygu defnyddio lluniau neu ffotograffau. Ond bydd achosion lle nad yw'r person yn gallu cyfathrebu o gwbl (er enghraifft, os yw'n anymwybodol). Caiff yr EAGM siarad hefyd â gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr cyflogedig eraill sydd neu a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gofal neu driniaeth. Efallai y bydd angen hefyd i'r EAGM archwilio cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig a wnaeth y person am yr hyn a oedd orau ganddo pan oedd yn dal i fod â gallu i wneud hynny.

Mae canllawiau pellach ym mhennod 5 ar ddarganfod barn pobl sydd heb allu. Mae pennod 3 yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar helpu rhywun i wneud penderfyniadau drosto'i hun.

Ystyried ffyrdd eraill o weithredu

10.29 Bydd angen i'r EAGM ymchwilio i weld a yw'r gwneuthurwr penderfyniad wedi ystyried yr holl ddewisiadau posibl. Dylai hefyd ofyn a yw'r dewis sydd wedi'i argymhell yn cyfyngu i lai o raddau ar hawliau'r person neu ei ddewisiadau ar gyfer y dyfodol neu a fyddai'n caniatáu mwy o ryddid iddo (pennod 2, egwyddor 5).

10.30 Efallai y bydd yr EAGM yn dymuno trafod y dewisiadau posibl gyda gweithwyr proffesiynol eraill neu ofalwyr cyflogedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gofal neu driniaeth i'r person. Ond rhaid iddo barchu cyfrinachedd y person y mae'n ei gynrychioli.

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

Senario: Defnyddio EAGM

Mae demensia ar Mrs Nolan. Mae'n cael ei rhyddhau o'r ysbyty. Nid oes ganddi unrhyw ffrindiau neu aelodau o'i theulu sy'n agos iddi. Nid yw'n meddu ar allu ychwaith i benderfynu a ddylai ddychwelyd i'w chartref neu symud i gartref gofal. Mae'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo EAGM.

Mae Mrs Nolan yn dweud wrth yr EAGM ei bod yn dymuno dychwelyd i'w chartref ei hun. Mae'n gallu cofio ei chartref a'i ddisgrifio. Ond mae tîm gofal yr ysbyty o'r farn bod arni angen cymorth ychwanegol, na ellir ei ddarparu heblaw mewn cartref gofal.

Adolygodd yr EAGM yr holl asesiadau o anghenion Mrs Nolan, siaradodd â rhai sy'n ymwneud â'i gofal ac ysgrifennodd adroddiad yn datgan bod dymuniadau pendant a chlir gan Mrs Nolan. Awgrymodd yr EAGM hefyd y gellid darparu pecyn gofal i gynorthwyo Mrs Nolan os byddai'n cael dychwelyd i'w chartref. Yn awr mae'n rhaid i'r rheolwr gofal benderfynu beth sydd er y budd gorau i Mrs Nolan. Rhaid iddo ystyried barn tîm gofal yr ysbyty ac adroddiad yr EAGM.

Cael ail farn feddygol

10.31 Yn achos penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol, caiff yr EAGM ystyried ceisio ail farn feddygol gan feddyg sydd ag arbenigedd priodol. Mae hynny'n rhoi rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol yn yr un sefyllfa â rhywun sy'n meddu ar allu, sydd â'r hawl i ofyn am ail farn.

Beth fydd yn digwydd os yw'r EAGM yn anghytuno â'r gwneuthurwr penderfyniad?

10.32 Rôl yr EAGM yw cefnogi a chynrychioli ei gleient. Caiff wneud hynny drwy ofyn cwestiynau, codi materion i'w trafod, cynnig gwybodaeth ac ysgrifennu adroddiad. Yn aml bydd yn cymryd rhan mewn cyfarfod sy'n cynnwys gwahanol aelodau staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol i ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person. Efallai y bydd achosion weithiau lle bydd EAGM o'r farn nad yw gwneuthurwr penderfyniad wedi rhoi digon o sylw i'w adroddiad ac i wybodaeth berthnasol arall ac y bydd yn arbennig o bryderus ynghylch y penderfyniad a wnaed. Mae'n bosibl y bydd angen wedyn iddo herio'r penderfyniad.

10.33 Mae gan EAGM yr un hawliau i herio penderfyniad ag sydd gan unrhyw un arall sy'n gofalu am y person neu'n ymddiddori yn ei les. Mae'r hawl i herio'n gymwys i benderfyniadau am ddiffyg gallu a rhai am yr hyn sydd er y budd gorau i'r person.

10.34 Mae pennod 15 yn disgrifio sut y gellir datrys anghytundebau. Bydd y dull o weithredu'n amrywio, yn ôl y math o anghytundeb a'r brys i'w ddatrys. Gallai fod yn ddull ffurfiol neu anffurfiol.

Anghytundebau ynghylch gofal iechyd neu driniaeth

- Ymgynghori â'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion (Lloegr)
- Ymgynghori â'r Cyngor Iechyd Cymuned (Cymru)
- Defnyddio Gweithdrefn Gwyno'r GIG
- Cyfeirio'r mater i sylw'r panel adolygu gofal parhaus lleol
- Defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol (Lloegr) neu eiriolwr arall.

Anghytundebau ynghylch gofal cymdeithasol

- Defnyddio gweithdrefn gwyno'r cartref gofal (os yw'r person mewn cartref gofal)
- Defnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol.

10.35 Cyn defnyddio'r dulliau ffurfiol hyn, dylai'r EAGM a'r gwneuthurwr penderfyniad drafod y meysydd y maent yn anghytuno arnynt – yn enwedig y rhai a allai effeithio'n sylweddol ar y person y mae'r EAGM yn ei gynrychioli. Dylai'r EAGM a'r gwneuthurwr penderfyniad neilltuo amser i wrando ar farn ei gilydd a deall y rhesymau dros y gwahaniaethau barn. Weithiau bydd trafodaethau o'r fath yn gymorth i ddatrys anghytundeb.

10.36 Weithiau bydd grwp llywio gan wasanaeth EAGMau, ac ynddo gynrychiolwyr y cyrff GIG lleol a'r awdurdod lleol. Mewn rhai achosion bydd y cynrychiolwyr hyn yn gallu negodi rhwng dau sydd â gwahanol farn. Neu gallant egluro'r polisi ar fater penodol. Dylid eu cynnwys hefyd os bydd EAGM o'r farn ei fod wedi darganfod ymarfer gwael ar fater pwysig.

10.37 Caiff EAGMau ddefnyddio gweithdrefnau cwyno yn ôl yr angen i ddatrys anghytundeb – a gallant ddilyn cŵyn mor bell â'r ombwdsmon perthnasol os oes angen. Mewn achosion arbennig o ddifrifol neu rai lle mae brys neilltuol, caiff EAGM ofyn caniatâd i gyfeirio achos i'r Llys Gwarchod i gael penderfyniad. Bydd y Llys yn gwneud penderfyniad er y budd gorau i'r person sydd heb allu.

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- 10.38** Y cam cyntaf wrth gynnig her ffurfiol yw cysylltu â'r Twrnai Swyddogol gan roi ffeithiau'r achos. Gall y Twrnai Swyddogol benderfynu gwneud cais i'r llys fel cyfaill cyfreitha (gan weithredu ar ran y person y mae'r EAGM yn ei gynrychioli). Os bydd y Twrnai Swyddogol yn penderfynu peidio â gwneud cais ei hun, gall yr EAGM ofyn am ganiatâd i wneud cais i'r Llys Gwarchod. Gellir gofyn o hyd i'r Twrnai Swyddogol weithredu fel cyfaill cyfreitha i'r person sydd heb allu.
- 10.39** Mewn achosion difrifol dros ben, mae'n bosibl y bydd yr EAGM yn dymuno ystyried gwneud cais am adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Gallai hynny ddigwydd os bydd yr EAGM o'r farn bod canlyniadau difrifol iawn i benderfyniad a wnaed gan awdurdod cyhoeddus. Mae terfynau amser ar gyfer gwneud cais, a byddai'n rhaid i'r EAGM gyfarwyddo twrneiod – a gallai fod yn atebol i dalu am gostau mynd â'r achos i'r llys. Felly dylai EAGMau gael cyngor cyfreithiol cyn dewis y dull gweithredu hwn. Gall yr EAGM ofyn hefyd i'r Twrnai Swyddogol ystyried gwneud yr hawliad.

Pe benderfyniadau sy'n galw am gyfarwyddo EAGM?

10.40 Mae tri math o benderfyniad y mae angen cyfarwyddo EAGM ar eu cyfer os bydd rhywun heb allu, sef:

- penderfyniadau ynghylch darparu, gwrthod rhoi neu atal triniaeth feddygol sylweddol
- penderfyniadau ynghylch a ddylid lleoli pobl mewn llety (er enghraifft, cartref gofal neu ysbyty arhosiad hir)
- penderfyniadau ynghylch a ddylid symud pobl i wahanol lety arhosiad hir.

Yn achos y penderfyniadau hyn, rhaid i'r holl awdurdodau lleol a'r holl gyrff iechyd gyfeirio'r un mathau o benderfyniadau i sylw EAGM ar gyfer unrhyw un sydd heb allu ac sy'n gymwys i dderbyn gwasanaeth gan EAGM.

10.41 Mae dau fath o benderfyniad ar ben hynny lle mae pŵer gan y corff cyfrifol i gyfarwyddo EAGM ar gyfer rhywun sydd heb allu. Mae'r rhain yn benderfyniadau sy'n ymwneud ag:

- adolygiadau gofal ac
- achosion amddiffyn oedolion.

Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol neu'r corff GIG perthnasol benderfynu ym mhob achos unigol a fyddai o fudd penodol i'r un sydd heb allu gael EAGM i'w gefnogi. Eglurir y ffactorau y dylid eu hystyried ym mharagraffau 10.59–10.68.⁴²

Penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol

10.42 Os yw penderfyniad am driniaeth feddygol sylweddol dan ystyriaeth ar gyfer rhywun sydd heb allu i gydsynio, ac sy'n gymwys i gael mesurau diogelu ychwanegol, mae adran 37 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y corff GIG i gyfarwyddo EAGM. Rhaid i gyrff GIG gyfarwyddo EAGM pryd bynnag y maent yn bwriadu gwneud penderfyniad ynghylch triniaeth feddygol sylweddol (*'serious medical treatment'*), neu'n cynnig y dylai corff arall (fel ysbyty preifat) gyflawni'r driniaeth ar eu rhan:

- os nad yw'r person dan sylw yn meddu ar allu i wneud penderfyniad am y driniaeth, ac
- os nad oes unrhyw un priodol y gellir ymgynghori ag ef ynghylch a yw'r penderfyniad er y budd gorau i'r person, heblaw staff gofal cyflogedig.

10.43 Mae rheoliadau ar gyfer Cymru a Lloegr yn nodi'r diffiniad o driniaeth feddygol sylweddol (*'serious medical treatment'*) ar gyfer penderfyniadau sy'n galw am gyfarwyddo EAGM. Mae'n cynnwys triniaethau ar gyfer cyflyrau corfforol a rhai meddyliol.

Y diffiniad o driniaeth feddygol sylweddol yw triniaeth sy'n golygu rhoi triniaeth newydd, atal triniaeth sydd wedi dechrau eisoes neu wrthod rhoi triniaeth y gellid ei chynnig mewn amgylchiadau:

- lle yr argymhellir un driniaeth yn unig, pan fo gwahaniaeth main iawn rhwng ei budd i'r claf a'r gofid a'r peryglon sy'n debygol o ddod i'r claf yn ei sgîl
- lle mae dewis o driniaethau, pan fo'r penderfyniad ar ba un i'w defnyddio yn troi ar wahaniaeth main iawn, neu
- lle mae canlyniadau'r hyn a argymhellir yn debygol o fod yn sylweddol i'r claf.

10.44 'Canlyniadau sylweddol' yw'r rhai a allai gael effaith sylweddol ar y claf, un ai oherwydd effeithiau'r driniaeth ei hun neu oherwydd ei goblygiadau mwy cyffredinol. Gallai hynny gynnwys triniaethau:

- sy'n achosi poen, gofid neu sgîl-ffeithiau sy'n sylweddol ac yn para am gyfnod hir

⁴² Gweler pennod 11 i gael gwybodaeth am rôl 'ymgyngoreion' pan gynigir cynnal ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad ynghylch cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil. Mewn rhai sefyllfaoedd, gellir cynnwys EAGMau fel ymgyngoreion i ddibenion ymchwil.

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- a allai beri canlyniadau sylweddol i'r claf (er enghraifft, atal triniaeth cynnal bywyd neu gael llawdriniaeth sylweddol fel llawdriniaeth ar y galon), neu
- sy'n cael effaith sylweddol ar ddewisiadau bywyd y claf yn y dyfodol (er enghraifft, ymyriadau ar gyfer canser yr ofariau).

10.45 Mae'n amhosibl nodi'r holl fathau o weithdrefnau a allai fod yn 'driniaeth feddygol sylweddol', ond rhai o'r triniaethau meddygol y gellid eu hystyried yn sylweddol yw:

- cemotherapi a llawdriniaeth ar gyfer canser
- therapi electrogynhyrfol
- anffrwythloni therapiwtig
- llawdriniaeth helaeth (fel llawdriniaeth ar y galon neu llawdriniaeth niwrolegol/ar yr ymennydd)
- llawdriniaeth helaeth i dorri aelodau o'r corff i ffwrdd (er enghraifft, colli braich neu goes)
- triniaethau a fydd yn arwain at gollu'r golwg neu'r clyw yn barhaol
- gwrthod neu atal maethu a hydradu artiffisial
- terfynu beichiogrwydd.

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain, a phenderfynir a yw'r gweithdrefnau hyn neu eraill i'w hystyried yn driniaeth feddygol sylweddol mewn unrhyw achos penodol yn ôl yr amgylchiadau a'r canlyniadau i'r claf. Mae llawer o driniaethau yn ogystal â'r rhain a gaiff eu diffinio'n driniaethau meddygol sylweddol dan reoliadau'r Ddeddf. Os yw gwneuthurwr penderfyniad yn ansicr a oes angen iddo gyfarwyddo EAGM, dylai ymgynghori â'i gydweithwyr.

10.46 Yr unig sefyllfa lle nad oes raid cydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfarwyddo EAGM yw un lle mae angen penderfyniad brys (er enghraifft, i achub bywyd rhywun). Rhaid cofnodi'r rheswm hwnnw gyda'r rheswm dros beidio at atgyfeirio. Er hynny, bydd yn dal i fod yn ofynnol i gyrff cyfrifol gyfarwyddo EAGM ar gyfer unrhyw driniaeth sylweddol sy'n dilyn y driniaeth frys.

10.47 Wrth i'r gwneuthurwr penderfyniad aros am adroddiad yr EAGM, rhaid iddo barhau i weithredu er y budd gorau i'r person (er enghraifft, rhoi triniaeth sy'n atal cyflwr y person rhag gwaethygu).

Senario: Defnyddio EAGM pan geir triniaeth feddygol sylweddol

Mae Mr Jones wedi cael codwm a chael anafiadau sylweddol i'w ben. Nid oedd staff yr ysbyty yn gallu dod o hyd i unrhyw un o'i deulu neu ffrindiau. Roedd arno angen llawdriniaeth ar frys, ond ar ei hôl roedd yn dal i fod heb allu i dderbyn neu wrthod triniaeth feddygol.

Nid oedd yr ysbyty wedi cynnwys EAGM yn y penderfyniad i roi llawdriniaeth, gan fod rhaid iddo wneud penderfyniad ar frys. Ond rhoddodd gyfarwyddyd i EAGM pan oedd angen iddo roi triniaeth feddygol sylweddol ychwanegol.

Cyfarfu'r EAGM â Mr Jones, edrychodd ar ei nodiadau achos ac adolygodd y dewisiadau a oedd ar gael gyda'r meddyg ymgynghorol. Wedyn gwnaeth y gwneuthurwr penderfyniad y penderfyniad clinigol ynghylch yr hyn a oedd er y budd gorau i Mr Jones gan ystyried adroddiad yr EAGM.

10.48 Mae rhai penderfyniadau am driniaeth feddygol mor bwysig fel bod rhaid i'r llysoedd eu gwneud (gweler pennod 8). Ond dylai cyrff cyfrifol gyfarwyddo EAGM mewn achosion o'r fath, er hynny. Gallai'r Trwnai Swyddogol fod â rhan fel cyfaill cyfreitha i'r person sydd heb allu.

10.49 Nid oes raid i gyrff cyfrifol gyfarwyddo EAGM yn achos cleifion sydd wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983:

- os yw'r driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol, ac
- os gallant ei rhoi heb gael cydsyniad gan y claf dan y Ddeddf honno.

10.50 Os nad yw triniaeth feddygol sylweddol sydd wedi'i hargymell ar gyfer claf sydd wedi'i gadw yn driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol, mae gan y claf felly hawl i gael EAGM – ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gallu Meddyliol. Felly os yw claf wedi'i gadw ac yntau heb allu i gydsynio i dderbyn triniaeth ar gyfer canser, er enghraifft, dylai fod yn gymwys i gael gwasanaeth EAGM os nad oes unrhyw aelodau o'r teulu neu ffrindiau y byddai'n briodol ymgynghori â hwy.

Penderfyniadau am lety neu newid preswylfan

10.51 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau tebyg ar gyrff GIG ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch llety tymor hir ar gyfer rhywun sydd heb allu i dderbyn y lleoliad ac sy'n gymwys i gael mesur diogelu ychwanegol yr EAGM. Mae'r hawl i gael EAGM yn gymwys i benderfyniadau am lety tymor hir mewn ysbyty neu gartref gofal os yw:

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- wedi'i ddarparu neu ei drefnu gan y GIG, neu
- yn achos gofal preswyl sydd wedi'i ddarparu neu ei drefnu gan yr awdurdod lleol neu ei ddarparu dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu
- yn achos symudiad rhwng y mathau o hynny o lety.

10.52 Mae cyrff cyfrifol dan ddyletswydd i gyfarwyddo EAGM:

- os yw corff GIG yn argymhell lleoli rhywun sydd heb allu mewn ysbyty – neu ei symud i ysbyty arall – am gyfnod hwy nag 28 o ddiwrnodau, neu
- os yw corff GIG yn argymhell lleoli rhywun sydd heb allu mewn cartref gofal – neu ei symud i gartref gofal gwahanol – am gyfnod sy'n debygol o fod yn hwy nag wyth wythnos.

Yn y naill sefyllfa a'r llall, rhaid cymhwyso'r amodau eraill ar gymhwysedd. Felly, os yw'r llety i bara am gyfnod o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn ysbyty neu lai nag 8 wythnos mewn cartref gofal, nid oes angen penodi EAGM.

10.53 Mae'r ddyletswydd yn gymwys hefyd os yw awdurdod lleol yn gwneud asesiad dan adran 47 o Ddeddf y GIG a Gofal yn y Gymuned 1990, ac yn penderfynu:

- darparu gwasanaethau gofal ar gyfer rhywun sydd heb allu ar ffurf llety preswyl mewn cartref gofal neu'r hyn sy'n cyfateb iddo (gweler paragraff 10.11) sy'n debygol o bara'n hwy nag wyth wythnos, neu
- symud rhywun sydd heb allu i gartref gofal arall neu'r hyn sy'n cyfateb iddo am gyfnod sy'n debygol o fod yn hwy nag wyth wythnos.

10.54 Mewn rhai achosion, gallai cartref gofal benderfynu datgofrestru fel y bydd yn gallu darparu llety a gofal mewn modd arall. Os yw awdurdod lleol yn gwneud y trefniadau newydd, dylid dal i gyfarwyddo EAGM os yw claf heb allu ac os yw'n bodloni'r amodau eraill ar gymhwysedd.

10.55 Weithiau bydd lleoliad rhywun yn para'n hwy na'r disgwyl. Dylai'r corff cyfrifol gynnwys EAGM cyn gynted ag y bydd yn sylweddoli y bydd yr arhosiad yn hwy nag 28 o ddiwrnodau neu wyth wythnos, fel y bo'n briodol.

10.56 Mae pobl sy'n eu hariannu eu hun mewn llety tymor hir yn meddu ar yr un hawliau i gael EAGM ag sydd gan eraill, os yw'r awdurdod lleol:

- yn gwneud asesiad dan adran 47 o Ddeddf y GIG a Gofal yn y Gymuned 1990, ac
- yn penderfynu bod arno ddyletswydd tuag at y person (un ai dan adran 21 neu 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1947 neu dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).

10.57 Ni fydd cyrff cyfrifol yn gallu rhoi heibio'r ddyletswydd i gynnwys EAGM oni bai fod y lleoliad neu'r symudiad yn un brys (er enghraifft, wrth dderbyn rhywun i ysbyty fel achos brys neu os oes posibilrwydd y bydd rhywun yn ddigartref). Rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad gynnwys EAGM cyn gynted ag y bo modd ar ôl gwneud penderfyniad brys:

- os yw'r person yn debygol o aros mewn ysbyty am fwy nag 28 o ddiwrnodau, neu
- os bydd yn aros mewn llety arall am gyfnod hwy nag wyth wythnos.

10.58 Nid oes raid i gyrff cyfrifol gynnwys EAGMau os bydd gofyniad i'r person dan sylw aros mewn llety dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Ond os caiff rhywun ei ryddhau ar ôl ei gadw, bydd ganddo hawl i gael EAGM ar gyfer penderfyniadau am lety yn y dyfodol (os yw'n bodloni'r amodau arferol sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf).

Pryd y gall awdurdod lleol neu gorff GIG benderfynu cyfarwyddo EAGM?

10.59 Mae'r Rheoliadau Ehangu wedi rhoi i awdurdodau lleol ac i gyrff GIG y pŵer i gymhwyso rôl yr EAGM at ddau fath o benderfyniad yn ychwanegol at hyn:

- adolygiad gofal
- achosion amddiffyn oedolion sy'n ymwneud â phobl sy'n agored i niwed.

10.60 Yn y sefyllfaoedd hyn, rhaid i'r corff cyfrifol ystyried ym mhob achos ar wahân a ddylai gyfarwyddo EAGM. Os caiff EAGM ei gyfarwyddo:

- rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad fod wedi'i fodloni y bydd cael EAGM yn dod â budd penodol i'r person sydd heb allu
- rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad hefyd ddilyn rhestr wirio'r budd gorau, gan gynnwys yr angen i gael barn unrhyw un sy'n ymwneud â gofal rhywun, wrth asesu beth sydd er y budd gorau iddo, a

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried adroddiad yr EAGM a gwybodaeth gysylltiedig wrth wneud penderfyniad.

10.61 Disgwylir i gyrff cyfrifol ddilyn dull gweithredu strategol wrth benderfynu pryd y byddant yn defnyddio EAGMau yn y ddwy sefyllfa ychwanegol hyn. Dylent bennu polisi'n lleol ar gyfer gwneud y penderfyniadau hynny, gan nodi'r meini prawf ar gyfer penodi EAGM gan gynnwys y materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a fydd EAGM o fudd penodol i'r person dan sylw. Fodd bynnag, bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad ystyried pob achos ar wahân i weld a yw'r meini prawf wedi'u bodloni. Efallai y bydd awdurdodau lleol neu gyrff GIG yn dymuno cyhoeddi eu dull gweithredu fel y bydd ar gael yn rhwydd, gan nodi ym mha fodd y maent yn bwriadu defnyddio'r pwerau ychwanegol hyn, a'i adolygu o bryd i'w gilydd.

Cynnwys EAGM mewn adolygiadau gofal

10.62 Gall corff cyfrifol gyfarwyddo EAGM i gefnogi a chynrychioli rhywun sydd heb allu:

- os yw wedi trefnu llety ar gyfer y person hwnnw
- os yw'n bwriadu adolygu'r trefniadau (fel rhan o gynllun gofal neu fel arall), ac
- os nad oes unrhyw aelodau o'r teulu neu ffrindiau y byddai'n briodol ymgynghori â hwy.

10.63 Mae adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 yn nodi'r gofynion cyfredol ar gyfer adolygiadau gofal. Mae'n dweud y dylid cynnal adolygiad cyn pen tri mis ar ôl darparu gofal neu wneud newidiadau sylweddol i wasanaethau (*'within three months of help being provided or major changes made to services'*). Dylid cael adolygiad bob blwyddyn wedyn – neu'n amlach, os oes angen.

10.64 Dylai'r adolygiadau fod yn rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau am lety:

- ar gyfer rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad am lety
- a ddarperir am gyfnod di-dor o fwy na 12 wythnos
- nad ydynt yn ganlyniad i rwymedigaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac
- nad ydynt yn ymwneud ag amgylchiadau lle byddai adrannau 37 i 39 o'r Ddeddf yn gymwys.

10.65 Os yw'r person i'w gadw neu os yw'n ofynnol iddo fyw mewn llety dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ni fydd angen EAGM gan y bydd y mesurau diogelu sydd ar gael dan y Ddeddf honno yn gymwys.

Cynnwys EAGMau mewn achosion amddiffyn oedolion

10.66 Mae gan gyrff cyfrifol bwerau i gyfarwyddo EAGM i gefnogi a chynrychioli rhywun sydd heb allu os oes honiad:

- bod y person yn cael neu wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso gan rywun arall, neu
- fod y person yn cam-drin neu wedi cam-drin rhywun arall.

Ni all gyrff cyfrifol gyfarwyddo EAGM oni bai eu bod yn bwriadu cymryd, neu eisoes wedi cymryd, mesurau amddiffynnol. Mae hyn yn unol â gweithdrefnau amddiffyn oedolion a bennwyd dan ganllawiau statudol.⁴³

10.67 Mewn achosion amddiffyn oedolion (ac yn yr achosion hynny yn unig), nid yw mynediad at EAGMau wedi'i gyfyngu i rai sydd heb unrhyw un arall i'w cefnogi a'u cynrychioli. Mae pobl sydd heb allu sydd ag aelodau o'u teulu a ffrindiau yn dal i allu cael EAGM i'w cefnogi yn y gweithdrefnau amddiffyn oedolion.

10.68 Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai achos ddechrau fel achos amddiffyn oedolion lle y gallai awdurdod lleol ystyried a ddylai gynnwys EAGM ai peidio dan y meini prawf y mae wedi'u pennu – a throi wedyn yn achos lle mae'r honiadau neu'r dystiolaeth yn codi'r cwestiwn a ddylid symud y person er y budd gorau iddo. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'r achos wedi troi'n un lle mae'n rhaid cynnwys EAGM os nad oes unrhyw un arall y byddai'n briodol iddo gefnogi a chynrychioli'r person wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

Pwy sy'n gymwys i gael EAGM?

10.69 Ar wahân i'r achosion amddiffyn oedolion a drafodwyd uchod, nid yw EAGMau ond ar gael i bobl:

- sydd heb allu i wneud penderfyniad penodol am driniaeth feddygol sylweddol neu lety tymor hir, ac
- sydd heb unrhyw aelodau o'r teulu neu ffrindiau sydd ar gael ac sydd yn rhai priodol i'w cefnogi neu eu cynrychioli heblaw am weithwyr proffesiynol neu weithwyr cyflogedig sy'n darparu gofal neu driniaeth, ac

⁴³ Canllawiau cyhoeddedig: *No secrets: Guidance on developing and implementing multi-agency policies and procedures to protect vulnerable adults from abuse* ar gyfer Lloegr (ar wefan yr Adran Iechyd) ac *Mewn dwylo diogel* ar gyfer Cymru.

Mae No secrets yn gymwys i oedolion 18 oed neu drosodd. Mae Deddf Plant 1989 yn gymwys i rai 16 a 17 flwydd oed a allai wynebu camdriniaeth. Mae Rhan V o'r Ddeddf yn cwmpasu Amddiffyn Plant, sy'n cynnwys yn adran 47 y ddyletswydd sydd ar awdurdod lleol i ymchwilio er mwyn penderfynu a ddylai gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn os oes arno angen ei amddiffyn neu os gallai gael niwed. Gweler hefyd bennod 12 yn y Cod hwn.

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- sydd heb enwi rhywun o'r blaen a allai roi cymorth i wneud penderfyniad, ac
- sydd heb wneud Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus (gweler paragraff 10.70 isod).

10.70 Mae'r Ddeddf yn dweud na ellir cyfarwyddo EAGMau:

- os yw person sydd heb allu'n awr wedi enwi person cyn hynny fel un y dylid ymgynghori ag ef ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arno, a bod y person hwnnw ar gael ac yn barod i helpu
- os yw'r person sydd heb allu wedi penodi atwrnai, un ai dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus, a bod yr atwrnai'n dal i reoli materion personol y person hwnnw
- os yw'r Llys Gwarchod wedi penodi dirprwy, sy'n dal i weithredu ar ran y person.

10.71 Fodd bynnag, yn achos rhywun sydd heb unrhyw aelodau o'i deulu neu ffrindiau i'w gynrychioli, ond y penodwyd atwrnai neu ddirprwy ar ei gyfer i ddelio â'i eiddo a'i faterion personol yn unig, ni ddylid gwrthod mynediad at EAGM iddo. Mae'r Llywodraeth yn ceisio newid y Ddeddf mor fuan ag y bo modd i sicrhau, mewn amgylchiadau o'r fath, y dylai EAGM gael ei benodi ym mhob achos i gyfleu barn y person os yw heb allu i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â thriniaeth feddygol sylweddol neu symudiadau i lety tymor hir.

10.72 Mae corff cyfrifol yn dal i gael cyfarwyddo EAGM os yw'r Llys Gwarchod yn penderfynu ar ddirprwy, ond ei fod heb ei benodi eto pan fo angen gwneud penderfyniad.

Senario: Bod yn gymwys i gael EAGM

Mae Ms Lewis, menyw sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl, wedi byw mewn cartref gofal ers rhai blynnyddoedd. Bydd y cartref hwnnw'n cau cyn hir, ac nid oes ganddi unrhyw un a allai ei helpu. Mae wedi mynd yn bryderus dros ben ac nid oes ganddi allu'n awr i wneud penderfyniad ynghylch ei llety yn y dyfodol. Mae'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo EAGM i'w chefnogi. Mae'r EAGM yn dod i weld Ms Lewis, yn siarad â staff a fu'n gysylltiedig â'i gofal, ac yn adolygu ei nodiadau achos.

Yn ei adroddiad, mae'r EAGM yn cynnwys yr wybodaeth bod Ms Lewis yn agos iawn at gleient arall sydd yn y cartref gofal. Mae'r EAGM yn nodi y gallent symud gyda'i gilydd – os yw hynny er y budd gorau i'r cleient arall hefyd. Yn awr, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu ar yr hyn sydd er y budd gorau i'r cleient, gan ystyried yr wybodaeth y mae'r EAGM wedi'i rhoi.

A fydd EAGMau ar gael i bobl sydd yn y carchar?

10.73 Dylai EAGMau fod ar gael i bobl sydd yn y carchar ac sydd heb allu i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol neu lety tymor hir.

Pwy yw'r rhai y mae'n briodol ymgynghori â hwy ('appropriate to consult')?

10.74 Mae'r EAGM yn fodd i ddiogelu'r bobl hynny sydd heb allu, nad oes ganddynt unrhyw un agos iddynt y byddai'n briodol ymgynghori ag ef (*'it would be appropriate to consult'*). (Mae hyn yn wahanol i achosion amddiffyn oedolion lle nad yw'r maen prawf hwn yn gymwys.) Bwriedir i'r dull diogelu hwn fod yn gymwys i'r bobl hynny sydd heb rwydwaith i'w cefnogi, fel aelodau agos o'r teulu neu ffrindiau, sy'n ymddiddori yn eu lles, nac unrhyw un sy'n barod neu'n alluog i gael ei gynnwys wrth ymgynghori'n ffurfiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

10.75 Nid yw'r Ddeddf yn diffinio'r rhai y byddai'n briodol ymgynghori â hwy ac yn yr adroddiad ar y gwerthusiad o gynlluniau peilot yr EAGMau, nodwyd bod gwneuthurwyr penderfyniad yn yr awdurdod lleol ac yn y GIG, sydd i bennu hynny drwy eu penderfyniad, yn ei chael yn anodd canfod weithiau pa bryd yr oedd angen EAGM.⁴⁴ Mae adran 4(7) yn darparu bod rhaid cynnwys, ymysg eraill, wrth ymgynghori ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i'r person, unrhyw un:

- sydd wedi'i enwi gan y person fel rhywun y dylid ymgynghori ag ef ynghylch penderfyniad perthnasol
- sy'n ymwneud â gofalu amdano, neu
- sy'n ymddiddori yn ei les (gweler pennod 4).

10.76 Rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad benderfynu a yw'n bosibl ac yn ymarferol siarad â'r bobl hynny, a'r rhai sydd wedi'u disgrifio ym mharagraff 10.70, wrth geisio canfod a yw'r penderfyniad sydd wedi'i argymhell er y budd gorau i'r person dan sylw. Os nad yw'n bosibl, yn ymarferol nac yn briodol ymgynghori ag unrhyw un, dylid cyfarwyddo EAGM.

10.77 Efallai y ceir sefyllfaoedd lle mae aelodau o'r teulu neu ffrindiau gan y person sydd heb allu, ond nad yw'n ymarferol neu'n briodol ymgynghori â hwy. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun oedrannus sydd â demensia a chanddo blentyn sy'n oedolyn ac sydd bellach yn byw yn Awstralia, neu efallai y ceir rhywun hŷn a chanddo berthnasau nad ydynt ond yn dod i'w weld yn anaml iawn. Neu efallai y bydd aelod o'r

⁴⁴ gweler www.dh.gov.uk/PolicyAndGuidance/HealthAndSocialCareTopics/SocialCare/IMCA/fs/en

Pennod 10

Beth yw'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol a sut mae'n gweithio?

- teulu yn gwrthod cael ei gynnwys wrth ymgynghori. Mewn achosion o'r fath, rhaid i wneuthurwyr penderfyniad gyfarwyddo EAGM – ar gyfer triniaeth feddygol sylweddol a symudiadau mewn gofal – a chofnodi'r rheswm dros y penderfyniad.
- 10.78** Efallai y bydd gan yr un sydd heb allu ffrindiau neu gymdogion sy'n gwybod ei ddymuniadau a'i deimladau ond sydd heb fod yn barod neu'n alluog i helpu gyda'r penderfyniad penodol y mae angen ei wneud. Efallai y byddant yn credu ei fod yn ormod o gyfrifoldeb. Os ydynt yn oedrannus neu'n fregus eu hun, gallai fod yn rhy anodd iddynt ddod i gynadleddau achos a chymryd rhan yn ffurfiol. Mewn sefyllfa o'r fath, dylai'r corff cyfrifol gyfarwyddo EAGM, a gallai'r EAGM ddod i'w gweld a'u galluogi i gymryd rhan yn fwy anffurfiol.
- 10.79** Os yw teulu'n anghytuno ar y weithred y mae'r gwneuthurwr penderfyniad wedi'i argymhell, nid yw hynny'n rheswm dros ddod i'r casgliad nad oes unrhyw un y mae ei farn yn berthnasol i'r penderfyniad.
- 10.80** Os yw rhywun heb allu ac os oes ganddo eiriolwr eisoes, mae'n bosibl y bydd yn dal i fod â hawl i gael EAGM. Byddai'r EAGM yn ymgynghori â'r eiriolwr. Os yw'r eiriolwr hwnnw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer penodi rhai i'r gwasanaeth EAGMau, gellir ei benodi i gyflawni rôl yr EAGM ar gyfer y person hwnnw yn ychwanegol at ei ddyletswyddau eraill.

11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

Mae'n bwysig bod modd cyflawni ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd heb allu, a'i bod yn cael ei chyflawni'n briodol. Heb hynny, ni allem ddysgu mwy am yr hyn sy'n peri i rywun fod heb allu neu ei golli, ac am y modd i ddiagnosisio, trin a gofalu am bobl sydd heb allu a diwallu eu hanghenion.

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar y modd i gynnwys pobl sydd heb allu i gydsynio mewn ymchwil. Mae'n egluro:

- beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth ymchwil ('research')
- y gofynion y mae'n rhaid i bobl eu bodloni os yw eu prosiect ymchwil yn cynnwys rhywun sydd heb allu
- y cyfrifoldebau penodol sydd gan ymchwilwyr, a
- sut mae'r Ddeddf i'w chymhwyso i ymchwil a ddechreuodd cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

Mae'r bennod hon yn ymdrin ag ymchwil mewn cysylltiad ag oedolion yn unig. Rhoddir canllawiau pellach ar y modd i gymhwyso'r Ddeddf i ymchwil sy'n cynnwys rhai dan 18 oed.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Mae rheolau'r Ddeddf ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd heb allu i gydsynio i gymryd rhan yn ymdrin â'r canlynol:

- pryd y gellir cynnal ymchwil
- y broses gymeradwyo foesegol
- parchu dymuniadau a theimladau pobl sydd heb allu
- mesurau diogelu eraill i amddiffyn pobl sydd heb allu
- sut i ymgysylltu â rhywun sydd heb allu
- sut i ymgysylltu â gofalwyr a phobl berthnasol eraill.

Mae'r bennod hon yn egluro hefyd:

- y rheolau penodol sy'n gymwys i ymchwil sy'n ymwneud â meinweoedd dynol a

- beth i'w wneud os rhoddwyd caniatâd i gynnal prosiect ymchwil eisoes.

Mae'r Ddeddf yn gymwys i'r holl ymchwil sy'n ymyrrol. Mae 'ymyrrol' yn golygu ymchwil a fyddai'n anghyfreithlon pe byddai'n cynnwys rhywun a oedd yn meddu ar allu ond a oedd heb gydsynio i gymryd rhan. Nid yw'r Ddeddf yn gymwys i ymchwil sy'n ymwneud â threialon clinigol (profi cyffuriau newydd).

Pam y mae'r Ddeddf yn cwmpasu ymchwil?

- 11.1 Am mai amcan y Ddeddf yw cynorthwyo a chefnogi pobl a allai fod heb allu, mae'r Ddeddf yn gwarchod pobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil ond sydd heb allu i wneud penderfyniadau ynghylch cymryd rhan. Mae'n sicrhau bod ymchwilwyr yn parchu eu dymuniadau a'u teimladau. Nid yw'r Ddeddf yn gymwys i ymchwil sy'n ymwneud â threialon clinigol ar feddyginiaethau – gan fod rheolau eraill ar gyfer y rhain.⁴⁵

Sut y gall ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd heb allu fod o gymorth?

Mae canran uchel o gleifion sydd â syndrom Down yn rhai sydd heb allu i wrthod neu gytuno i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae ymchwil sy'n cynnwys cleifion sydd â syndrom Down wedi dangos eu bod yn fwy tebygol na phobl eraill o gael demensia cyn heneiddio. Mae ymchwil wedi dangos hefyd fod y newidiadau patholegol (rhai sy'n effeithio ar y corff a'r ymennydd) a geir pan fydd hynny'n digwydd yn achos rhywun sydd â syndrom Down yn debyg i'r rhai a welir mewn rhywun sydd â chlefyd Alzheimer. Oherwydd hynny rydym yn gwybod bellach ei bod yn briodol defnyddio triniaeth debyg i honno ar gyfer anhwylderau'r cof ymysg cleifion sydd â chlefyd Alzheimer i drin demensia ymysg y rhai sydd â syndrom Down.

Beth yw ymchwil ('research')?

- 11.2 Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys diffiniad penodol o ymchwil. Mae cyhoeddiad yr Adran Iechyd *Research governance framework for health and social care* a chyhoeddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn datgan fel a ganlyn:

'Gellir diffinio ymchwil fel yr ymgais i ddarganfod gwybodaeth newydd y gellir ei chyffredinol drwy fynd i'r afael â chwestiynau a ddiffiniwyd yn glir mewn modd systematig a thrwyadl'.⁴⁶

Pennod 11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

⁴⁵ Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004.

⁴⁶ www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPolicyAndGuidanceArticle/fs/en?CONTENT_ID=4008777&chk=dMRd/5 ac www.word.wales.gov.uk/content/governance/governance-e.htm

Gall ymchwil:

- gynnig gwybodaeth y gellir ei chymhwyso'n gyffredinol at salwch, anhwylder neu gyflwr
- dangos pa mor effeithiol a diogel y mae triniaeth newydd
- ychwanegu at dystiolaeth sy'n dangos bod un math o driniaeth yn gweithio'n well nag un arall
- ychwanegu at dystiolaeth sy'n dangos bod un math o driniaeth yn fwy diogel nag un arall, neu
- ystyried materion mwy cyffredinol (er enghraifft, y ffactorau sy'n effeithio ar allu rhywun i wneud penderfyniad).

11.3 Os yw rhyw weithgarwch yn rhan o ofal rhywun ac nid yn rhan o'r ymchwil, rhaid i'r ymchwilwyr ddatgan hynny'n glir. Weithiau ceir defnyddio meddyginiaeth neu driniaeth arbrofol er budd i'r person ac mae'n bosibl mai hynny fydd y dewis gorau er gofalu amdano. Ond mewn achosion o'r fath, gallai fod yn anodd penderfynu ai ymchwil ynteu gofal yw'r driniaeth. Os oes amheuaeth, dylai'r ymchwilydd geisio cyngor cyfreithiol.

Pa ragdybiaethau y gall ymchwilydd eu gwneud ynghylch gallu?

11.4 Dylai ymchwilwyr gymryd bod rhywun yn meddu ar allu, oni bai fod prawf ei fod heb allu i wneud penderfyniad penodol (gweler pennod 3). Rhaid i'r person gael cymorth hefyd i geisio ei helpu i wneud penderfyniad drosto'i hun (gweler pennod 2). Mae hawl gan y person y mae ei allu dan ystyriaeth i wneud penderfyniadau y gallai eraill anghydweld â hwy, ac mae ganddo hawl i beidio â chymryd rhan mewn ymchwil.

Pa fathau o ymchwil y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

11.5 Disgwylir mai ymchwilwyr ym maes meddygaeth neu ofal cymdeithasol fydd y rhan fwyaf o'r ymchwilwyr sy'n gofyn am gymeradwyaeth i'w hymchwil dan y Ddeddf. Fodd bynnag, gall y Ddeddf gwmpasu mwy nag ymchwil ym maes meddygaeth a gofal cymdeithasol yn unig. Os nad yw ymchwil ymyrrol yn bodloni gofynion y Ddeddf, ni ellir ei chyflawni'n gyfreithlon mewn cysylltiad â phobl sydd heb allu.

11.6 Mae'r Ddeddf yn gymwys i ymchwil sydd:

- yn ymyrrol (*'intrusive'*) (pe byddai rhywun sy'n cymryd rhan yn meddu ar allu, byddai'n rhaid i'r ymchwilydd gael caniatâd ganddo er mwyn ei gynnwys)

Pennod 11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

- yn cynnwys pobl sydd â nam ar eu meddwl neu eu hymennydd, neu anhwylder sy'n effeithio ar weithrediad eu meddwl neu eu hymennydd, sy'n peri eu bod yn analluog i benderfynu a fyddant yn cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil neu beidio (h.y. nid oes ganddynt allu i gydsynio)
- heb fod yn dreial clinigol sy'n dod dan Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004.

11.7 Ceir amgylchiadau lle nad oes angen cydsyniad i gynnwys rhywun yn gyfreithlon mewn ymchwil. Mae'r rhain yn gymwys i bob person, pa un a yw'n meddu ar allu neu beidio:

- Weithiau ni fydd ymchwil ond yn ymwneud â data dienw (ni ellir eu priodoli i unigolion). Nid yw deddfau sy'n ymwneud â chyfrinachedd a diogelu data yn gymwys yn yr achos hwn.
- Dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, nid oes angen rhoi cydsyniad ar gyfer ymchwil sy'n ymwneud yn llwyr â meinweoedd dynol na ellir eu priodoli i unigolion (gweler paragraffau 11.37–11.40). Mae hyn yn gymwys i rai sy'n meddu ar allu a'r rhai sydd heb allu. Ond rhaid cael cymeradwyaeth foesegol i'r ymchwil, a rhaid cael y meinweoedd gan berson byw.⁴⁷
- Os oedd ymchwilwyr wedi casglu samplau o feinweoedd dynol cyn 31 Awst 2006, nid oes raid iddynt gael caniatâd gan yr unigolyn i weithio arnynt. Ond bydd yn rhaid iddynt gael cymeradwyaeth foesegol fel arfer.
- Mae rheoliadau⁴⁸ a wnaed dan adran 251 o Ddeddf y GIG 2006 (a elwid cynt yn adran 60 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001⁴⁹) yn caniatáu i bobl ddefnyddio gwybodaeth cleifion gyfrinachol heb dorri cyfraith cyfrinachedd drwy wneud cais i'r Grŵp Cynghori ar Wybodaeth Cleifion am gymeradwyaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol)⁵⁰

⁴⁷ Deddf Meinweoedd Dynol 2004 adran 1(9).

⁴⁸ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth Cleifion) 2002 Adran I. 2002/1438.

⁴⁹ Cafodd adran 60 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ei chynnwys yn Neddf y GIG 2006 a oedd yn cyfuno'r holl ddeddfwriaeth iechyd flaenorol a oedd yn dal i fod mewn grym

⁵⁰ Mae'r Grŵp Cynghori ar Wybodaeth Cleifion yn ystyried ceisiadau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu rhoi dyletswydd cyfraith gwlad cyfrinachedd o'r neilltu. Fe'i sefydlwyd dan adran 61 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2006 (sy'n cael ei galw bellach yn adran 252 o Ddeddf y GIG 2006). Gellir cael mwy o wybodaeth yn www.advisorybodies.doh.gov.uk/PIAG

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod ymchwil yn bodloni gofynion y Ddeddf?

11.8 Mae'r cyfrifoldeb dros fodloni gofynion y Ddeddf yn perthyn i'r:

- 'corff priodol' ('*appropriate body*'), fel y mae wedi'i ddiffinio mewn rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn achos rheoliadau sy'n gymwys i Loegr) neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yn achos rheoliadau sy'n gymwys i Gymru) (gweler paragraff 11.10)
- tymchwilyr sy'n cyflawni'r ymchwil (gweler paragraffau 11.20–11.40).

Sut y gellir cael cymeradwyaeth i gynnal ymchwil?

11.9 Ni ellir cynnwys pobl sydd heb allu i gydsynio i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n dod dan y Ddeddf oni bai fod yr ymchwil honno:

- wedi'i chymeradwyo gan 'y corff priodol'
- yn bodloni gofynion eraill yn y Ddeddf o ran:
 - ystyried barn gofalwyr a phobl berthnasol eraill
 - trin buddiannau'r person fel rhai sy'n bwysicach na buddiannau gwyddoniaeth a chymdeithas
 - parchu unrhyw wrthwynebiadau a wnaiff rhywun sydd heb allu yn ystod ymchwil.

11.10 Mae'r 'corff priodol' yn gorff sy'n gallu cymeradwyo prosiectau ymchwil. Yn Lloegr, rhaid i'r 'corff priodol' fod yn bwyllgor moeseg ymchwil sydd wedi'i gydnabod gan yr Ysgrifennydd Gwladol.⁵¹ Yng Nghymru, rhaid i'r 'corff priodol' fod yn bwyllgor moeseg ymchwil sydd wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

11.11 Ni fydd y corff priodol yn gallu cymeradwyo prosiect ymchwil oni bai fod yr ymchwil yn gysylltiedig â:

- chyflwr niweidiol sy'n effeithio ar y person sydd heb allu, neu
- driniaeth ar gyfer y cyflwr hwnnw (gweler paragraff 11.17)

a:

- bod lle i gredu'n rhesymol y byddai'r ymchwil yn llai effeithiol o gynnwys dim ond pobl sy'n meddu ar allu, a

⁵¹ Rheoliadau Deddf Gallu Meddyliol 2005 (Corff Priodol) (Lloegr) 2006

Pennod 11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

- bod y prosiect ymchwil wedi gwneud trefniadau i ymgynghori â gofalwyr a bodloni gofynion eraill y Ddeddf.

11.12 Hefyd rhaid i'r ymchwil fodloni un o ddau ofyniad:

1. Rhaid i'r ymchwil gynnig rhywfaint o gyfle i ddod â budd i'r person sydd heb allu, fel y nodir ym mharagraff 11.14 isod. Rhaid i'r budd fod yn gymesur ag unrhyw faich a geir drwy gymryd rhan, neu
2. Rhaid i'r ymchwil fod â'r amcan o ddarparu gwybodaeth am achos yr un cyflwr niweidiol, neu gyflwr tebyg, neu'r dull o drin neu ofalu am rywun sydd â chyflwr o'r fath.

Os yw ymchwilwyr yn dibynnu ar yr ail ofyniad, mae'r Ddeddf yn nodi gofynion pellach y mae'n rhaid eu bodloni:

- rhaid i'r perygl i'r un sydd heb allu fod yn anwybyddadwy
- ni cheir ymyrryd yn sylweddol â rhyddid i weithredu neu breifatrwydd y person sydd heb allu
- ni cheir gwneud dim i'r person sydd heb allu, neu mewn cysylltiad ag ef, sy'n ymyrryd neu'n gyfyngol i raddau gormodol (gweler paragraffau 11.16–11.19 isod).

11.13 Mae cyflwr niweidiol yn un:

- sydd wedi'i achosi gan (neu y gall fod wedi'i achosi gan) nam ar feddwl neu ymennydd y person, neu anhwylder ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd
- sy'n achosi (neu a all achosi) nam neu anhwylder ar y meddwl neu'r ymennydd, neu
- sy'n cyfrannu at (neu a all gyfrannu at) nam neu anhwylder ar y meddwl neu'r ymennydd.

Cydbwysu buddion a beichiau'r ymchwil

11.14 Rhai o'r buddion y byddai modd i rywun sydd heb allu eu cael o ymchwil yw:

- datblygu dulliau mwy effeithiol o drin rhywun neu o reoli ei gyflwr
- gwella ansawdd gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu wasanaethau eraill y mae'n cael mynediad atynt
- darganfod achos ei gyflwr, os byddai'n elwa o gael yr wybodaeth honno, neu
- leihau'r perygl o niweidio'r person, ei allgáu neu ei roi dan anfantais.

11.15 Gallai'r buddion fod yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol (er enghraifft, gallai'r person gael budd rywbryd yn y dyfodol os bydd polisiau neu becynnau gofal sy'n effeithio arnynt yn cael eu newid oherwydd yr ymchwil). Mae'n bosibl y bydd y broses o gymryd rhan yn yr ymchwil ei hun yn llesol i'r person mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, os yw'r ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau ac os caiff y person gyfle i fynegi ei farn, gellid ystyried bod hynny'n dod â budd pendant i unigolyn penodol.

Darparu gwybodaeth am achosion yr un cyflwr niweidiol, neu gyflwr tebyg, ac am driniaeth neu ofal am bobl sydd â chyflwr o'r fath

11.16 Mae'n bosibl cynnal ymchwil nad yw'n dod â budd gwirioneddol i'r person sy'n cymryd rhan, ar yr amod ei bod â'r amcan o ddarparu gwybodaeth am achosion yr un cyflwr niweidiol, neu gyflwr tebyg, ac am driniaeth neu ofal am bobl sydd â chyflwr o'r fath. Nid yw '*gofal*' a '*triniaeth*' yn gyfyngedig i ofal a thriniaeth feddygol. Er enghraifft, gallai ymchwil edrych ar effaith bywyd o ddydd i ddydd mewn carchar ar garcharorion sydd â chyflyrau iechyd meddwl.

11.17 Union gyflwr y person sy'n gorfod bod yr un fath neu'n debyg mewn ymchwil, nid yr achos sylfaenol. Felly gallai '*cyflwr tebyg*' fod ag achos gwahanol i'r cyflwr sydd ar y person sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Er enghraifft, byddai ymchwil i ddulliau o helpu pobl sydd ag anabledau dysgu i fyw'n fwy annibynnol yn gallu cynnwys rhywun sydd ag anabledau dysgu a achoswyd gan drawma i'r pen. Ond gallai'r canfyddiadau fod o gymorth i bobl ag anabledau dysgu tebyg ac iddynt achosion gwahanol.

Senario: Ymchwil sy'n helpu i ddod o hyd i achos neu driniaeth

Mae syndrom Down ar Mr Neal. Bu'n byw ers blynyddoedd lawer mewn tai â chymorth ac yn gweithio mewn archfarchnad leol. Ond rai misoedd yn ôl, trodd yn ymosodol ac yn anghofus a dechreuodd wneud camgymeriadau yn y gwaith. Mae ei feddyg ymgynghorol o'r farn y gallai hynny fod yn arwydd ei fod wedi dechrau datblygu clefyd Alzheimer.

Mae cyflwr Mr Neal wedi gwaethygu i'r fath raddau bellach fel nad yw'n meddu ar allu i gydsynio i dderbyn triniaeth neu wneud penderfyniadau eraill am ei ofal. Mae tîm ymchwil yn ymchwilio i achos demensia ymysg pobl sydd â syndrom Down. Byddent yn hoffi cynnwys Mr Neal. Mae'r ymchwil yn bodloni'r gofyniad yn y Ddeddf iddi fod â'r amcan o ddarparu gwybodaeth am achosion y cyflwr hwnnw neu'r driniaeth ar ei gyfer, er ei bod yn bosibl na fydd o fudd uniongyrchol i Mr Neal. Felly gallai'r corff cymeradwyo roi caniatâd i'w chynnal – os yw'r ymchwil yn bodloni gofynion eraill.

Pennod 11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

- 11.18** Rhaid i unrhyw berygl i bobl sy'n ymwneud ag ymchwil yn y categori hwn fod yn anwybyddadwy neu'r lleiaf posibl (*'negligible'*). Mae hyn yn golygu na ddylai'r person gael unrhyw niwed neu ofid drwy gymryd rhan. Rhaid i ymchwilwyr ystyried peryglon i les seicolegol yn ogystal â lles corfforol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos ymchwil sy'n ymwneud ag arsylwadau neu gyfweiliadau.
- 11.19** Mae hefyd yn ofynnol na fydd ymchwil yn y categori hwn yn effeithio'n sylweddol ar ryddid i weithredu'r person neu ei breifatrwydd, ac na fydd yn ymyrrol neu'n gyfyngol i raddau gormodol. Bydd yr hyn a ystyrir yn rhy ymyrrol yn wahanol yn achos gwahanol bobl a mathau gwahanol o ymchwil. Er enghraifft, mewn ymchwil seicolegol, mae'n bosibl y bydd rhai pobl o'r farn bod cwestiwn neilltuol yn ymyrrol, ond na fydd pobl eraill. Ni fydd gweithredoedd yn cael eu hystyried yn ormodol o ymyrrol fel arfer os nad ydynt yn mynd y tu hwnt i'r hyn a brofir mewn bywyd pob dydd, mewn archwiliad meddygol cyffredin neu mewn archwiliad seicolegol.

Senario: Asesu'r risg i rai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil

Mae prosiect ymchwil yn astudio:

- pa mor dda y mae pobl sydd ag anabledd dysgu yn gwneud penderfyniadau ariannol
- technegau cyfathrebu a allai wella eu gallu i wneud penderfyniadau.

Mae nifer o'r rhai sy'n cymryd rhan heb allu i gytuno i wneud hynny. Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi'i fodloni y gallai nifer o'r bobl hynny gael budd o'r astudiaeth gan ei bod yn bosibl y bydd eu gallu i wneud penderfyniadau ariannol yn gwella. Yn achos y rhai na fydd yn cael unrhyw fudd personol, mae'r Pwyllgor wedi'i fodloni:

- bod yr ymchwil yn bodloni amodau eraill y Ddeddf
- nad yw'r dulliau ymchwil (profion seicolegol a gwahanol dechnegau cyfathrebu) yn golygu unrhyw berygl i'r rhai sy'n cymryd rhan
- na ellid bod wedi cyflawni'r ymchwil mor effeithiol gyda phobl sy'n meddu ar allu.

Pa gyfrifoldebau sydd gan ymchwilydd?

11.20 Cyn dechrau'r ymchwilydd, rhaid i'r tîm ymchwilydd wneud trefniadau i:

- gael cymeradwyaeth i'r ymchwilydd gan y 'corff priodol'
- cael barn unrhyw ofalwyr a phobl berthnasol eraill cyn cynnwys rhywun sydd heb allu mewn gwaith ymchwilydd (gweler paragraffau 11.22–11.28). Mae eithriad i'r gofyniad hwn i ymgynghori mewn sefyllfaoedd lle mae angen rhoi triniaeth frys neu lle mae triniaeth frys ar fin cael ei rhoi
- parchu gwrthwynebiadau, dymuniadau a theimladau'r person, a
- rhoi mwy o bwys ar fuddiannau'r person nag ar fuddiannau gwyddoniaeth a chymdeithas.

11.21 Rhaid cynnwys digon o wybodaeth yn y cynnig ar gyfer ymchwilydd am yr hyn a wnaiff y tîm os bydd ar rhywun sydd heb allu angen triniaeth frys yn ystod gwaith ymchwilydd ac os na fydd modd siarad â gofalwr y person neu rhywun arall sy'n gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau ar ran y person (gweler paragraffau 11.32–11.36).

Ymgynghori â gofalwyr

11.22 Ar ôl cadarnhau nad yw rhywun yn meddu ar allu i gytuno i gymryd rhan, rhaid i'r ymchwilydd ymgynghori wedyn, cyn ei gynnwys mewn ymchwilydd, gyda phobl sydd wedi'u rhagnodi'n unol ag adran 32 o'r Ddeddf er mwyn penderfynu a ddylid cynnwys y person yn y gwaith ymchwilydd.

Â phwy y gall ymchwilydd ymgynghori?

11.23 Fel mater o arfer da, dylai'r ymchwilydd gymryd camau rhesymol i enwi rhywun y bydd yn ymgynghori ag ef. Rhaid i'r person hwnnw (yr ymgynghori) fod yn un sy'n ymwneud â gofal y person, yn ymddiddori yn ei les ac yn barod i helpu. Ni chaiff fod yn weithiwr proffesiynol neu'n weithiwr gofal cyflogedig. Mae'n debygol y bydd yn aelod o'r teulu, ond gallai fod yn rhywun arall.

11.24 Rhaid i'r ymchwilydd ystyried dymuniadau a theimladau y gallai'r person fod wedi'u mynegi o'r blaen am y rhai y byddai neu na fyddai'n hoffi iddynt fod yn gysylltiedig â phenderfyniadau yn y dyfodol.

11.25 Ni fydd y ffaith bod rhywun yn atwrnai sydd wedi'i awdurdodi dan Atwrneiaeth Arhosol gofrestredig neu'n ddirprwy sydd wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod yn golygu na ellir ymgynghori ag ef. Ond ni chaiff y person hwnnw fod yn un sy'n gweithredu mewn cymhwyster proffesiynol neu yn rhinwedd swydd gyflogedig (er enghraifft, fel twrnai i'r unigolyn).

Pennod 11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

- 11.26** Os nad oes unrhyw un sy'n bodloni'r amodau sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 11.23 ac 11.25, rhaid i'r ymchwilydd enwebu rhywun yn ymgynghorai. Yn y sefyllfa hon, rhaid iddo ddilyn canllawiau a geir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (bydd y canllawiau ar gael o ganol 2007). Ni chaiff yr un a enwebir fod ag unrhyw gysylltiad â'r prosiect ymchwil.
- 11.27** Rhaid i'r ymchwilydd roi gwybodaeth i'r ymgynghorai am y prosiect ymchwil a gofyn iddo:
- am gyngor ynghylch a ddylai'r person sydd heb allu gymryd rhan yn y prosiect
 - am ei farn am y teimladau a'r dymuniadau a fyddai gan y person pe byddai'n meddu ar allu i benderfynu cymryd rhan ai peidio.
- 11.28** Weithiau bydd yr ymgynghorai'n dweud ei bod yn debygol na fyddai'r person yn dymuno cymryd rhan yn y prosiect neu y byddai'n gofyn am gael tynnu allan. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid i'r ymchwilydd beidio â chynnwys y person yn y prosiect, neu dylai ei dynnu allan ohono. Ond os yw'r prosiect wedi dechrau, ac os yw'r person yn cael triniaeth fel rhan o'r ymchwil, mae'n bosibl y bydd yr ymchwilydd yn penderfynu na ddylid tynnu'r person allan os yw'r ymchwilydd yn credu'n rhesymol y byddai hynny'n achosi perygl sylweddol i iechyd y person. Gallai'r ymchwilydd benderfynu y dylai'r person ddal i gymryd rhan yn yr ymchwil tra bo'r perygl yn bod. Ond dylai atal unrhyw rannau o'r astudiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r perygl i iechyd y person.

Pa fesurau diogelu eraill y mae'r Ddeddf yn mynnu eu cael?

- 11.29** Hyd yn oed os yw ymgynghorai'n cytuno y gall rhywun gymryd rhan mewn ymchwil, rhaid i'r ymchwilydd ddal i ystyried dymuniadau a theimladau'r person.
- 11.30** Ni chaiff ymchwilwyr wneud unrhyw beth y mae'r person sydd heb allu'n ei wrthwynebu. Ni chânt wneud unrhyw beth sy'n mynd yn groes i unrhyw benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth neu unrhyw ddatganiad arall a wnaeth y person o'r blaen yn mynegi'r hyn a fyddai orau ganddo o ran ei ofal neu ei driniaeth. Rhaid iddynt gymryd bod buddiannau'r person yn y mater hwn yn bwysicach na rhai gwyddoniaeth a chymdeithas.
- 11.31** Rhaid i ymchwilydd dynnu rhywun allan o brosiect:
- os yw'n nodi mewn unrhyw fodd ei fod yn dymuno cael ei dynnu allan o brosiect (er enghraifft, os bydd yn teimlo gofid neu'n cael ei dramgwyddo), neu
 - os oes unrhyw un o ofynion y Ddeddf sydd heb ei fodloni bellach.

Beth fydd yn digwydd os oes angen gwneud penderfyniadau brys yn ystod y prosiect ymchwil?

11.32 Os yw rhywun yn gyfrifol am ofalu am unigolyn, rhaid rhoi triniaeth frys iddo os bydd arno ei hangen. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd modd gwahanu'r ymchwil oddi wrth y driniaeth frys.

11.33 Dylid egluro i'r corff cyfrifol mewn cynnig ar gyfer ymchwil sut y bydd ymchwilwyr yn delio â phenderfyniadau brys a allai godi yn ystod y prosiect, pryd na fyddai digon o amser, o bosibl, i gwblhau'r ymgynoriadau sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Er enghraifft, ar ôl dod â chlaf i uned gofal dwys, mae'n bosibl y bydd y meddyg yn dymuno dilyn cwrs anaf drwy gymryd samplau neu fesuriadau ar unwaith a chymryd samplau pellach wedyn ar ôl rhoi rhyw fath o driniaeth er mwyn eu cymharu â'r set gyntaf.

11.34 Mae rheolau penodol yn gymwys os yw rhywun sydd heb allu'n cael neu ar fin cael triniaeth frys ac os yw ymchwilwyr yn dymuno ei gynnwys mewn prosiect ymchwil. Os bydd ymchwilydd yn credu, yn yr amgylchiadau hynny, fod angen cymryd camau brys i ddibenion yr ymchwil, ac os yw'n credu nad yw'n ymarferol ymgynghori â rhywun ynghylch hynny, gall yr ymchwilydd gymryd camau o'r fath:

- os bydd ymarferydd meddygol cofrestredig nad yw'n ymwneud â'r ymchwil yn cytuno ar hynny, neu
- os bydd yn dilyn gweithdrefn y cytunodd y corff priodol arno ar adeg cymeradwyo'r prosiect.

11.35 Efallai y bydd cysylltiad rhwng yr ymarferydd meddygol a'r un sydd heb allu (er enghraifft, gallai fod yn feddyg iddo). Ond ni chaiff fod ag unrhyw fath o gysylltiad â'r prosiect ymchwil. Mae hyn yn ofynnol er mwyn peidio â chael gwrthdaro buddiannau.

11.36 Ni fydd yr eithriad hwn i'r ddyletswydd i ymgynghori ond yn gymwys:

- tra bydd ar y person angen triniaeth frys
- pan fydd ar yr ymchwilydd angen cymryd camau ar frys er mwyn i'r ymchwil fod yn ddilys.

Mae hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig i ymchwil i weithdrefnau neu driniaethau a ddefnyddir mewn argyfwng. Ni fydd yn gymwys os mai'r unig reswm dros gymryd camau brys yw bod yr ymchwilydd yn dymuno gweithredu'n gyflym.

Beth fydd yn digwydd yn achos ymchwil sy'n ymwneud â meinweoedd dynol?

Pennod 11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

- 11.37** Rhaid cael caniatâd gan rywun sydd â gallu i rywun dynnu meinwe o'i gorff (er enghraifft, wrth wneud biopsi (cymryd sampl) i roi diagnosis neu dynnu meinwe wrth roi llawdriniaeth). Mae'r Ddeddf yn caniatáu tynnu meinwe o gorff rhywun sydd heb allu, os yw hynny er y budd gorau iddo (gweler pennod 5).
- 11.38** Rhaid cael caniatâd hefyd gan bobl sydd â gallu i storio neu ddefnyddio meinweoedd i ddibenion penodol, sydd wedi'u nodi yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004 (er enghraifft, ar gyfer trawsblannu ac ymchwil). Ond mae sefyllfaoedd lle nad oes angen cael caniatâd yn ôl y gyfraith:
- ymchwil lle nad oes modd priodoli samplau i unigolion a lle mae'r ymchwil wedi cael cymeradwyaeth foesegol⁵²
 - archwilio clinigol
 - addysg neu hyfforddiant sy'n ymwneud ag iechyd dynol
 - asesu perfformiad
 - monitro iechyd cyhoeddus
 - sicrhau ansawdd.
- 11.39** Os na fydd oedolyn yn meddu ar allu i gydsynio, mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn dweud y gellir storio neu ddefnyddio meinweoedd heb geisio caniatâd os mai amcan y storio neu'r defnydd yw:
- cael gwybodaeth sy'n berthnasol i iechyd unigolyn arall (er enghraifft, cyn rhoi trawsblaniad), ar yr amod bod yr ymchwilydd neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n storio'r feinwe'n credu ei fod yn gwneud hynny er y budd gorau i'r person sydd heb allu i gydsynio
 - cynnal treial clinigol sydd wedi'i gymeradwyo a'i gyflawni dan Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004, neu
 - wneud ymchwil ymyrrol:
 - wedi i Ddeddf Gallu Meddyliol ddod i rym
 - sy'n bodloni gofynion y Ddeddf, ac
 - y cafwyd cymeradwyaeth foesegol iddi.

⁵² Adran 1(9) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004

11.40 Mae samplau o feinweoedd a gafwyd cyn 31 Awst 2006 yn ddaliadau sy'n bod eisoes dan Ddeddf Meinweoedd Dynol. Gall ymchwilydd weithio gyda'r meinweoedd hyn heb geisio caniatâd. Ond bydd angen iddynt gael cymeradwyaeth foesegol o hyd. Mae canllawiau ar gael yng Nghod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gydsynio.⁵³

Beth ddylai ddigwydd i ymchwil a ddechreuodd cyn i'r Ddeddf ddod i rym?

Beth fydd yn digwydd os yw rhywun yn meddu ar allu pan fydd ymchwil yn dechrau ond yn colli gallu wedyn?

11.41 Bydd rhai pobl sy'n meddu ar allu'n cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil ond yn colli gallu wedyn cyn i'r ymchwil ddod i ben. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd ymchwilydd yn gallu parhau â'u hymchwil ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Gallu Meddyliol 2005 (Colli Gallu yn ystod Prosiect Ymchwil) (Lloegr) 2007 neu yn y rheoliadau cyfatebol ar gyfer Cymru.

Nid yw'r rheoliadau ond yn gymwys i feinweoedd a data a gasglwyd cyn colli gallu oddi wrth berson a roddodd ganiatâd cyn 31 Mawrth 2008 i gymryd rhan mewn prosiect sy'n dechrau cyn 1 Hydref 2007.

11.42 Nid yw'r rheoliadau'n cwmpasu ymchwil sy'n ymwneud ag ymyrryd uniongyrchol (er enghraifft, cymryd darlleniadau pellach o bwysedd gwaed) neu gymryd rhagor o samplau o feinweoedd ar ôl colli gallu. Rhaid cydymffurfio ag adrannau 30 i 33 o'r Ddeddf wrth ymgymryd ag ymchwil o'r fath.

11.43 Lle mae'r rheoliadau'n gymwys, ni fydd ymchwil ond yn cael mynd ymlaen os yw'r prosiect eisoes wedi pennu gweithdrefnau i ddelio â phobl sy'n colli gallu yn ystod y prosiect. Rhaid i'r gweithdrefnau fod wedi'u cymeradwyo gan gorff priodol. Rhaid i'r ymchwilydd ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u cymeradwyo.

11.44 Yn ogystal â hynny, rhaid i'r ymchwilydd:

- geisio cael barn gan rywun sy'n ymwneud â gofal y person neu'n ymddiddori yn ei les ac os na ellir dod o hyd i ofalwr rhaid iddo enwebu ymgynghorai (gweler paragraffau 11.22–11.28)
- parchu penderfyniadau ymlaen llaw a mynegiadau o'r hyn sydd orau gan y person, a dymuniadau neu wrthwynebiadau y mae'r person wedi'u mynegi yn y gorffennol, a
- trin buddiannau'r person fel rhai sy'n bwysicach na buddiannau gwyddoniaeth a chymdeithas.

⁵³ www.hta.gov.uk

Pennod 11

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys rhywun sydd heb allu?

Rhaid i'r corff priodol fod wedi'i fodloni bod y prosiect ymchwil wedi gwneud trefniadau rhesymol i fodloni'r gofynion hyn.

- 11.45 Os bydd yr ymchwilydd yn credu ar unrhyw adeg nad yw gweithdrefnau ar waith bellach neu os nad yw'r corff priodol bellach yn cymeradwyo'r ymchwil, rhaid iddo atal yr ymchwil sy'n gysylltiedig â'r person ar unwaith.
- 11.46 Os yw rheoliadau'n gymwys, nid oes raid i'r ymchwil:
- fod yn gysylltiedig â chyflwr niweidiol sydd gan y person
 - cynnig y posibilrwydd o ddod â budd i'r person, neu
 - fod â'r amcan o ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i eraill sydd â'r un cyflwr neu un tebyg.

Beth fydd yn digwydd i'r prosiectau presennol na fu person erioed yn meddu ar allu i gytuno i gymryd rhan ynddynt?

11.47 Nid oes unrhyw reoliadau ar gyfer prosiectau:

- a ddechreuodd cyn y daw'r Ddeddf i rym
- na fu person erioed yn meddu ar allu i gytuno i gymryd rhan ynddynt.

Bydd prosiectau a gafodd gymeradwyaeth foesegol eisoes yn gorfod cael cymeradwyaeth gan gorff priodol dan adrannau 30 a 31 o Ddeddf Gallu Meddyliol a chydymffurfio â gofynion adrannau 32 a 33 o'r Ddeddf honno erbyn 1 Hydref 2008. Os na chafwyd cymeradwyaeth foesegol i ymchwil, rhaid cael cymeradwyaeth gan gorff priodol erbyn 1 Hydref 2007 er mwyn iddi gael mynd ymlaen yn gyfreithlon. Dyma'r trefniadau yn Lloegr a disgwylir y bydd rhai tebyg yn gymwys i Gymru.

12

Sut mae'r Ddeddf i'w chymhwyso i blant a phobl ifanc?

Mae'r bennod hon yn ystyried yr ychydig rannau o'r Ddeddf a allai effeithio ar blant dan 16 mlwydd oed. Mae hefyd yn egluro sefyllfa pobl ifanc 16 a 17 flwydd oed a'r deddfau sy'n gorgyffwrdd o ran eu heffaith arnynt.

Nid yw'r bennod hon yn ymdrin ag ymchwil. Rhoddir canllawiau pellach am y modd i gymhwyso'r Ddeddf i ymchwil sy'n cynnwys rhai dan 18 oed.

Yn y Cod Ymarfer hwn, mae 'plant' yn cyfeirio at bobl dan 16 oed. Mae 'pobl ifanc' yn cyfeirio at bobl 16–17 oed. Mae hyn yn wahanol i Ddeddf Plant 1989 ac i'r gyfraith yn fwy cyffredinol, lle y defnyddir y term 'plentyn' i gyfeirio at bobl dan 18 oed.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Plant dan 16

- Nid yw'r Ddeddf yn gymwys yn gyffredinol i bobl dan 16 oed.
- Mae dau eithriad:
 - Gall y Llys Gwarchod wneud penderfyniadau am eiddo neu faterion ariannol plentyn (neu benodi dirprwy i wneud y penderfyniadau hynny) os nad yw'r plentyn yn meddu ar allu i wneud penderfyniadau o'r fath yn unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf ac os yw'n debygol o ddal i fod heb allu i wneud penderfyniadau ariannol pan fydd yn cyrraedd 18 oed (adran 18(3)).
 - Mae troseddau cam-drin neu esgeuluso bwriadol mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu yn unol ag adran 2(1) yn gallu bod yn gymwys hefyd i ddiodefwr dan 16 oed (adran 44).

Pobl ifanc 16–17 flwydd oed

- Mae'r rhan fwyaf o'r Ddeddf yn gymwys i bobl ifanc 16–17 flwydd oed, a allai fod heb allu yn unol ag adran 2(1) i wneud penderfyniadau penodol.
- Mae tri eithriad:
 - Dim ond pobl 18 oed a throsodd a gaiff wneud Atwrneiaeth Arhosol.
 - Dim ond pobl 18 oed a throsodd a gaiff wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol.

- Ni fydd y Llys Gwarchod ond yn cael gwneud ewyllys statudol ar gyfer rhywun 18 oed a throsodd.

Gofal neu driniaeth ar gyfer pobl ifanc 16–17 oed

- Fel arfer bydd pobl sy'n cyflawni gweithredoedd mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth ar gyfer person ifanc 16–17 oed sydd heb allu i gydsynio yn unol ag adran 2(1) yn cael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd (adran 5), ar yr amod bod y person sy'n cyflawni'r weithred:
 - wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau bod y person ifanc heb allu
 - yn credu'n rhesymol bod y person ifanc heb allu a bod y weithred er y budd gorau i'r person ifanc, ac
 - yn dilyn egwyddorion y Ddeddf.
- Wrth asesu beth sydd er y budd gorau i'r person ifanc (gweler pennod 5), mae'n ofynnol i'r person sy'n darparu gofal neu driniaeth ymgynghori â'r rhai sy'n ymwneud â gofal y person ifanc ac unrhyw un sy'n ymddiddori yn ei les – os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol. Gallai hynny gynnwys rhieni'r person ifanc. Dylid cymryd gofal i beidio â thorri'n anghyfreithlon ar hawl y person ifanc i gyfrinachedd (gweler pennod 16).
- Nid oes dim yn adran 5 sy'n eithrio atebolrwydd sifil rhywun am golled neu ddifrod, na'i atebolrwydd troseddol, os yw'n ganlyniad i'w esgeulustod wrth gyflawni gweithred.

Achosion cyfreithiol sy'n cynnwys pobl ifanc 16-17 oed

- Weithiau ceir anghytundebau ynghylch gofal, triniaeth neu les rhywun ifanc 16 neu 17 oed sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol. Yn ôl yr amgylchiadau, gellir gwrando'r achos yn y llysoedd teulu neu yn y Llys Gwarchod.
- Caiff y Llys Gwarchod drosglwyddo achos i'r llysoedd teulu, ac fel arall.

A yw'r Ddeddf yn gymwys i blant?

- 12.1** Mae adran 2(5) o'r Ddeddf yn datgan na cheir arfer unrhyw bwerau dan y Ddeddf, ac eithrio adran 2(6), fel yr eglurir isod, mewn cysylltiad â phlentyn dan 16 oed.
- 12.2** Mae gofal a thriniaeth plant dan 16 oed yn cael eu llywodraethu'n gyffredinol gan egwyddorion cyfraith gwlad. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.dh.gov.uk/consent.

Pennod 12

Sut mae'r Ddeddf i'w chymhwyso i blant a phobl ifanc?

A all y Ddeddf helpu gyda phenderfyniadau am eiddo neu faterion ariannol y plentyn?

12.3 Mae adran 2(6) yn gwneud eithriad ar gyfer rhai penderfyniadau am eiddo a materion ariannol plentyn. Gall y Llys Gwarchod wneud penderfyniadau am eiddo a materion ariannol rhai sydd dan 16 oed mewn achosion lle mae'r person yn debygol o ddal i fod heb allu i wneud penderfyniadau ariannol ar ôl cyrraedd 18 oed. Bydd dyfarniad y llys yn dal i fod yn gymwys pan fydd y person yn cyrraedd 18 oed, felly ni fydd angen achos llys pellach wedi i'r person gyrraedd 18 oed.

12.4 Gall y Llys Gwarchod:

- wneud gorchymyn (er enghraifft, ynghylch buddsoddi digollediad a ddyfarnwyd i'r plentyn), a/neu
- benodi dirprwy i reoli eiddo a materion personol y plentyn a gwneud penderfyniadau ariannol olynol ar ran y plentyn.

Wrth wneud penderfyniad, rhaid i'r llys ddilyn egwyddorion y Ddeddf a phenderfynu er y budd gorau i'r plentyn fel y nodir ym mhennod 5 o'r Cod.

Senario: Cymhwyso'r Ddeddf i blant

Roedd Tom yn naw oed pan drawyd ef oddi ar ei feic gan yrrwr meddw. Cafodd anafiadau difrifol i'w ben a niwed parhaol i'w ymennydd. Cafodd swm mawr o arian i'w ddigolledu. Mae'n annhebygol y bydd yn gwella digon i allu gwneud penderfyniadau ariannol pan fydd yn 18 oed. Felly mae'r Llys Gwarchod yn penodi tad Tom yn ddirprwy i reoli ei faterion ariannol er mwyn talu am y gofal y bydd ar Tom ei angen yn y dyfodol.

Beth fydd yn digwydd os yw rhywun yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn sydd heb allu?

12.5 Mae adran 44 yn cwmpasu troseddau cam-drin neu esgeuluso'n fwriadol mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol (gweler pennod 14). Mae'r adran hon yn gymwys hefyd i blant dan 16 oed a phobl ifanc 16 neu 17 oed. Ond ni fydd ond yn gymwys os yw diffyg gallu'r plentyn i wneud penderfyniad drosto'i hun wedi'i achosi gan nam neu anhwylder sy'n effeithio ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd (gweler pennod 4). Os yw'r diffyg gallu yn ganlyniad i ieuencid neu anaeddfedrwydd y plentyn yn unig, yna byddid yn delio â'r gamdriniaeth neu'r esgeulustod bwriadol ar wahân dan droseddau creulondeb wrth blant neu esgeuluso plentyn yn fwriadol.

Pennod 12

Sut mae'r Ddeddf i'w chymhwyso i blant a phobl ifanc?

A yw'r Ddeddf yn gymwys i bobl ifanc 16–17 oed?

- 12.6 Mae'r rhan fwyaf o'r Ddeddf yn gymwys i bobl 16 flwydd oed a throsodd. Ceir gorgyffwrdd â Deddf Plant 1989. Os yw'r Ddeddf i'w chymhwyso i berson ifanc, rhaid iddo fod heb allu i wneud penderfyniad penodol (yn unol â diffiniad y Ddeddf o ddiffyg gallu sydd wedi'i ddisgrifio ym mhennod 4). Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gallai un ai'r Ddeddf hon neu Ddeddf Plant 1989 fod yn gymwys, yn ôl yr amgylchiadau neilltuol.

Er hynny, gellir cael sefyllfaoedd hefyd lle na fydd y naill na'r llall o'r Deddfau hyn yn cynnig ateb priodol. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd angen ystyried defnyddio'r pwerau sydd ar gael dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu bwerau cynhenid yr Uchel Lys i ddelio ag achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

- 12.7 Nid oes unrhyw reolau penodol ar hyn o bryd ar gyfer penderfynu pa bryd i ddefnyddio un ai Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 neu ba bryd i wneud cais i'r Uchel Lys. Ond mae'r enghreifftiau isod yn dangos amgylchiadau lle y gall fod yn fwyaf priodol defnyddio'r Ddeddf hon (gweler hefyd baragraffau 12.21–12.23 isod).

- Mewn amgylchiadau anarferol, gallai fod er y budd gorau i'r person ifanc i'r Llys Gwarchod wneud gorchymyn a/neu benodi dirprwy ar gyfer eiddo a materion personol. Gallai hynny ddigwydd, er enghraifft, pan fydd rhywun ifanc yn cael ei ddigolledu'n ariannol a'r llys yn penodi rhiant neu dwrnai yn ddirprwy ar gyfer eiddo a materion personol.
- Gallai fod yn briodol i'r Llys Gwarchod wneud penderfyniad ar les mewn cysylltiad â pherson ifanc sydd heb allu i benderfynu drosto'i hun (er enghraifft, ynghylch lle y dylai'r person ifanc fyw) os bydd y llys yn penderfynu nad yw'r rhieni'n gweithredu er y budd gorau i'r person ifanc.
- Gallai fod yn briodol cyfeirio achos i'r Llys Gwarchod os oes anghytundeb rhwng rhywun sy'n ymddiddori yng ngofal a lles y person ifanc a thîm meddygol y person ifanc ynghylch gallu'r person ifanc neu'r hyn sydd er y budd gorau iddo.

A oes unrhyw rannau o'r Ddeddf nad ydynt yn gymwys i bobl ifanc 16 neu 17 oed?

Atwrneiaethau Arhosol

- 12.8 Dim ond pobl 18 oed a throsodd a all wneud Atwrneiaeth Arhosol (adran 9(2)(c)).

Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth

12.9 Bydd gwybodaeth ar gael am benderfyniadau i wrthod triniaeth a wneir ymlaen llaw gan bobl ifanc dan 18 oed yn www.dh.gov.uk/consent.

Gwneud ewyllys

12.10 Yn gyffredinol, nid yw'r gyfraith yn caniatáu i unrhyw un wneud ewyllys os yw dan 18 oed. Felly mae adran 18(2) yn cadarnhau nad yw'r Llys Gwarchod ond yn gallu gwneud ewyllys statudol ar ran rhai 18 oed a throsodd.

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am ofal neu driniaeth pobl ifanc 16 neu 17 oed?

Gwybodaeth gefndir am bobl ifanc gymwys

12.11 Mae Deddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969 yn rhagdybio bod pobl ifanc yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol i gytuno i dderbyn triniaeth lawfeddygol, meddygol neu ddeintyddol.⁵⁴ Mae hyn yn gymwys hefyd i unrhyw weithdrefnau cysylltiedig (er enghraifft, archwiliadau, anesthesia neu ofal nyrsio).

12.12 Nid yw'n gymwys i rai gweithdrefnau llai cyffredin (er enghraifft, rhoi organau neu weithdrefnau eraill nad ydynt yn therapiwtig i'r person ifanc) neu ymchwil. Yn achos y rhain, rhagdybir bod unrhyw un dan 18 oed yn un sydd heb gymhwyster cyfreithiol, yn amodol ar brawf 'cymhwyster Gillick' (prawf i ganfod a yw'n ddigon aeddfed a deallus i ddeall y driniaeth neu'r weithdrefn sydd wedi'i hargymell).⁵⁵

12.13 Hyd yn oed os rhagdybir bod person ifanc yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol i gydsynio i dderbyn triniaeth, ni fydd o reidrwydd yn gallu gwneud y penderfyniad perthnasol. Yn yr un modd ag oedolion, dylai gwneuthurwyr penderfyniad asesu gallu'r person ifanc i gydsynio i dderbyn y gofal neu'r driniaeth sydd wedi'i argymell (gweler pennod 4). Os yw person ifanc heb allu i gydsynio'n unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf oherwydd nam ar y meddwl neu'r ymennydd, neu anhwylder sy'n effeithio ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd, bydd Deddf Gallu Meddyliol yn gymwys yn yr un modd ag y mae i'r rhai sy'n 18 oed a throsodd. Fodd bynnag, os nad yw'n gallu gwneud y penderfyniad am ryw reswm arall (er enghraifft, am fod goblygiadau'r penderfyniad yn ei lethu), ni fydd y Ddeddf yn gymwys iddo a dylid asesu unrhyw driniaeth o ran ei chyfreithlondeb ar sail egwyddorion cyfraith gwlad.

⁵⁴ Deddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969, adran 8(1)

⁵⁵ Yn achos *Gillick v West Norfolk and Wisbech Area Health Authority* [1986] 1 AC 112 cafodd y llys y bydd plentyn dan 16 mlwydd oed yn gymwys i gydsynio i dderbyn triniaeth feddygol os yw'n meddu ar ddeallusrwydd a dealltwriaeth ddigonol i ddeall beth sydd wedi'i argymell. Mae'r prawf hwn yn gymwys i bawb dan 18 oed lle nad oes rhagdybiaeth o gymhwyster mewn cysylltiad â'r weithdrefn – er enghraifft, os nad yw'r weithdrefn yn un y cyfeirir ati yn adran 8 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969, e.e. rhoddi organau.

Pennod 12

Sut mae'r Ddeddf i'w chymhwyso i blant a phobl ifanc?

- 12.14** Os yw person ifanc yn meddu ar allu i gytuno i dderbyn triniaeth, rhaid parchu ei benderfyniad i gydsynio. Gall materion anodd godi os yw person ifanc yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol a gallu meddyliol a'i fod yn gwrthod cydsynio – yn enwedig os yw rhywun sydd â chyfrifoldeb rhieni yn dymuno rhoi cydsyniad ar ran y person ifanc. Gall Adran Deulu'r Uchel Lys wrando achosion lle mae anghytundeb. Nid oes gan y Llys Gwarchod unrhyw bŵer i ddatrys anghydfod ynghylch person ifanc y dywedir ei fod yn meddu ar allu meddyliol i wneud y penderfyniad penodol.
- 12.15** Efallai na fydd yn glir a yw rhywun ifanc yn un sydd heb allu dan adran 2(1) o'r Ddeddf. Dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n beth doeth i'r un sy'n darparu gofal neu driniaeth i'r person ifanc geisio datganiad gan y llys.

Os nad yw'r person ifanc yn meddu ar allu i wneud penderfyniadau ynghylch gofal neu driniaeth

- 12.16** Dan gyfraith gwlad, mae rhywun sydd â chyfrifoldeb rhieni dros berson ifanc yn gallu cydsynio fel arfer i'r person ifanc gael gofal neu driniaeth os yw heb allu dan adran 2(1) o'r Ddeddf. Dylai weithredu er y budd gorau i'r person ifanc.
- 12.17** Fodd bynnag, os yw rhywun ifanc heb allu meddyliol i wneud penderfyniad penodol ynghylch gofal neu driniaeth yn unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf, bydd staff gofal iechyd sy'n darparu triniaeth, neu rywun sy'n darparu gofal i'r person ifanc, yn gallu rhoi triniaeth neu ofal a chael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd (adran 5) pa un a yw rhywun sydd â chyfrifoldeb rhieni'n cydsynio ai peidio.⁵⁶ Rhaid iddynt ddilyn egwyddorion y Ddeddf a sicrhau bod y gweithredoedd y maent yn eu cyflawni'n rhai sydd er y budd gorau i'r person ifanc. Rhaid iddynt wneud pob ymdrech i ganfod beth yw dymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd y person ifanc – yn y gorffennol a'r presennol – ac ystyried y rhain ynghyd â'r holl ffactorau eraill sydd ar restr wirio'r budd gorau (gweler pennod 5).
- 12.18** Wrth asesu i ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun ifanc, rhaid i staff gofal iechyd ystyried barn unrhyw un sy'n ymwneud â gofal y person ifanc ac unrhyw un sy'n ymddiddori yn ei les, os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol. Gallai hynny gynnwys rhieni'r person ifanc ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhieni dros y person ifanc. Dylid cymryd gofal i beidio â thorri'n anghyfreithlon ar hawl y person ifanc i gyfrinachedd (gweler pennod 16).

⁵⁶ Nid oes dim yn adran 5 sy'n eithrio atebolrwydd sifil rhywun am golled neu ddifrod, neu ei atebolrwydd troseddol, sy'n ganlyniad i'w esgeulustod wrth gyflawni'r weithred.

- 12.19** Os yw rhywun ifanc wedi dweud nad yw'n dymuno i'w rieni gael eu cynnwys wrth ymgynghori, efallai na fydd yn briodol eu cynnwys (er enghraifft, os bu honiadau o gamdriniaeth).
- 12.20** Os oes anghytuno ynghylch a yw'r gofal neu driniaeth sydd wedi'i argymhell er y budd gorau i berson ifanc, neu os oes anghytuno ynghylch a yw'r person ifanc heb allu ac nad oes modd arall i ddatrys y mater, byddai'n ddoeth i'r rhai sy'n anghytuno geisio datganiad neu orchymyn arall gan y llys priodol (gweler paragraffau 12.23–12.25 isod).

Senario: Canfod beth sydd er y budd gorau i berson ifanc

Mae Mary yn 16 oed ac mae syndrom Down arni. Mae ei mam yn dymuno i Mary gael triniaeth ddeintyddol a fydd yn gwella ei golwg ond nad yw'n angenrheidiol fel arall.

Er mwyn cael ei amddiffyn dan adran 5 o'r Ddeddf, rhaid i'r deintydd ystyried a yw Mary yn meddu ar allu i gytuno i dderbyn y driniaeth hon a beth fyddai er y budd gorau iddi. Mae'n penderfynu nad yw'n gallu deall beth sydd dan sylw na chanlyniadau posibl y driniaeth sydd wedi'i hargymhell a'i bod felly heb allu i wneud y penderfyniad.

Ond mae'n ymddangos bod Mary yn dymuno cael y driniaeth, felly mae'n ystyried ei barn wrth benderfynu a yw'r driniaeth er y budd gorau iddi. Mae'n ymgynghori hefyd â'i dau riant a chyda'i hathro a'i meddyg teulu i weld a oes ffactorau perthnasol eraill i'w hystyried.

Mae'n penderfynu bod y driniaeth yn debygol o roi mwy o hyder a hunan-barch i Mary a'i bod er y budd gorau iddi.

- 12.21** Mae'n bosibl y bydd anawsterau neilltuol yn codi os bydd ar bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl angen triniaeth seiciatryddol fel cleifion mewnlol, a hwythau'n cael eu trin yn anffurfiol yn hytrach na'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Deddf Gallu Meddyliol a'i hegwyddorion yn gymwys i benderfyniadau sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth pobl ifanc sydd heb allu meddyliol i gydsynio, gan gynnwys triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol. Yn yr un modd â phob math arall o driniaeth, dylid ymgynghori ag unrhyw un sy'n ymwneud â gofal y person ifanc neu unrhyw un sy'n ymddiddori yn ei les, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol ac yn briodol, wrth geisio canfod beth sydd er y budd gorau i'r person ifanc. Gallai hynny gynnwys rhieni'r person ifanc neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto.

Pennod 12

Sut mae'r
Ddeddf i'w
chymhwyso i
blant a phobl
ifanc?

Ond nid yw'r Ddeddf yn caniatáu unrhyw weithredoedd sy'n arwain at amddifadu rhywun ifanc o'i ryddid (gweler pennod 6). Dan amgylchiadau o'r fath, efallai y byddai'n briodol ei gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a'r mesurau diogelu sydd wedi'u darparu dan y Ddeddf honno (gweler hefyd bennod 13).

- 12.22** Efallai y bydd pobl yn anghytuno ynghylch a yw person ifanc yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad penodol neu am yr hyn sydd er y budd gorau iddo, neu efallai na fydd yn amlwg a yw heb allu dan adran 2(1) neu am ryw reswm arall. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n bosibl y bydd angen cychwyn achos cyfreithiol os nad oes modd arall i ddatrys yr anghytundeb (gweler penodau 8 a 15). Os nad yw'r rhai sy'n ymwneud â gofal y person ifanc neu'r rhai sy'n ymddiddori yn ei les yn cytuno ar y driniaeth sydd wedi'i hargymell, efallai y bydd angen i un o'r partïon cysylltiedig wneud cais i'r llys priodol.

Pa bwerau sydd gan y llysoedd mewn achosion sy'n cynnwys pobl ifanc?

- 12.23** Gellid gwrandio achos sy'n ymwneud â pherson ifanc sydd heb allu meddyliol i wneud penderfyniad penodol yn y llysoedd teulu (yn Adran Deulu'r Uchel Lys yn ôl pob tebyg) neu yn y Llys Gwarchod.
- 12.24** Os yw'n bosibl y bydd achos yn galw am wneud gorchymyn parhaus (am fod y person ifanc yn debygol o ddal i fod heb allu pan fydd yn 18 oed), gallai fod yn fwy priodol i'r Llys Gwarchod wrando'r achos. Mae'n bosibl y byddai'n fwy priodol i'r Adran Deulu wrando achosion a fydd yn digwydd unwaith yn unig nad ydynt yn ymwneud ag eiddo neu faterion ariannol.
- 12.25** Er mwyn sicrhau mai'r llys priodol fydd yn gwrandio'r achos, gall y Llys Gwarchod drosglwyddo achosion i'r llysoedd teulu, ac fel arall (adran 21).

Senario: Gwrandu achosion yn y llys priodol

Mae Shola yn 17 oed. Mae ganddi anableddau dysgu difrifol ac nid yw'n meddu ar allu i benderfynu ym mhle y dylai fyw. Mae ei rhieni'n cael ysgariad sy'n creu teimladau chwerw rhyngddynt. Ni allant gytuno ar sawl mater sy'n ymwneud â gofal Shola – gan gynnwys ym mhle y dylai fyw. Mae ei mam am barhau i ofalu am Shola gartref. Ond mae ei thad yn dymuno i Shola symud i gartref gofal.

Dan yr amgylchiadau hyn, gallai fod yn fwy priodol i'r Llys Gwarchod ddelio â'r achos. Y rheswm am hynny yw y byddai gorchymyn gan y Llys Gwarchod yn gallu parhau wedi i Shola ddod yn oedolyn. Fodd bynnag, byddai gorchymyn a wnaed gan y llys teulu dan Ddeddf Plant 1989 yn dod i ben ar ben-blwydd Shola yn 18.

13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

Mae'r bennod hon yn egluro'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol 2005 (DGM) a Deddf Iechyd Meddwl 1983 (DIM). Mae'n:

- nodi pryd y gallai fod yn briodol cadw rhywun dan DIM yn hytrach na dibynnu ar DGM
- disgrifio sut mae DGM yn effeithio ar bobl sydd heb allu sydd hefyd yn ddarostyngedig i DIM
- yn egluro pa bryd na chaiff meddygon roi rhai triniaethau ar gyfer anhwylder meddyliol (yn benodol, seicolawdriniaeth) i rywun sydd heb allu i gydsynio i'w derbyn, a
- nodi'r newidiadau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu gwneud i'r ddwy Ddeddf.

Nid yw'n rhoi disgrifiad llawn o DIM. Mae i DIM ei Memorandwm ei hun i egluro'r Ddeddf a'i Chod Ymarfer ei hun i roi arweiniad i bobl ynghylch ei defnyddio.⁵⁷

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

- Efallai y bydd angen i weithwyr proffesiynol ystyried defnyddio DIM i gadw a thrin rhywun sydd heb allu i gydsynio i dderbyn triniaeth (yn hytrach na defnyddio DGM):
 - os nad oes modd rhoi i rywun y gofal a'r driniaeth y mae arno eu hangen heb wneud rhywbeth a allai ei amddifadu o'i ryddid
 - os oes ar y person angen triniaeth na ellir ei rhoi dan DGM (er enghraifft, am fod y person wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwysadwy i wrthod rhan hanfodol o driniaeth)
 - os yw'n bosibl y bydd angen atal rhywun mewn modd sydd heb ei ganiatáu dan DGM

⁵⁷ Yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gymreig, *Mental Health Act 1983 Code of Practice* (Y Llyfrfa, 1999), www.dh.gov.uk/assetRoot/04/07/49/61/04074961.pdf

- os nad oes modd asesu neu drin y person yn ddiogel neu'n effeithiol heb i'r driniaeth fod yn orfodol (efallai am fod disgwyl y bydd y person yn adennill gallu i gydsynio, ond y gallai wedyn wrthod cydsynio)
- os nad yw'r person yn meddu ar allu i benderfynu ar rai elfennau o'r driniaeth ond ei fod yn meddu ar allu i wrthod rhan hollbwysig ohoni – a'i fod wedi gwneud hynny, neu
- os gallai'r person beidio â chael triniaeth am reswm arall, ac y gallai ef neu rywun arall gael niwed o ganlyniad.
- Cyn gwneud cais dan DIM, dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried a allent gyrraedd eu nod yn ddiogel ac yn effeithiol drwy ddefnyddio DGM yn lle hynny.
- Ni cheir rhoi triniaeth orfodol dan DIM:
 - os nad yw anhwylder meddyliol y claf yn cyfiawnhau ei gadw mewn ysbyty, neu
 - os oes ar y claf angen triniaeth ar gyfer salwch neu anabledd corfforol yn unig.
- Mae DGM yn gymwys i bobl sy'n ddarostyngedig i DIM yn yr un modd ag y mae'n gymwys i bawb arall, gyda phedwar eithriad:
 - os yw rhywun wedi'i gadw dan DIM, ni fydd gwneuthurwyr penderfyniad yn gallu dibynnu fel arfer ar DGM i roi triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol neu wneud penderfyniadau am driniaeth ar ran y person hwnnw
 - os gellir trin rhywun ar gyfer ei anhwylder heb gael ei ganiatâd am ei fod wedi'i gadw dan DIM, gall staff gofal iechyd ei drin hyd yn oed os yw hynny'n mynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod y driniaeth honno
 - os yw rhywun yn ddarostyngedig i warcheidiaeth, gan y gwarcheidwad y mae'r unig hawl i wneud rhai penderfyniadau, yn cynnwys ym mhle y bydd y person yn byw, ac
 - nid oes raid cynnwys Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol mewn penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol neu lety, os gwneir y penderfyniadau hynny dan DIM.
- Ni all staff gofal iechyd roi seicolawdriniaeth (h.y. niwrolawdriniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol) i rywun sydd heb allu i gytuno i'w derbyn. Mae hyn yn gymwys pa un a yw'r person yn ddarostyngedig fel arall i DIM neu beidio.

I bwy y mae DIM yn gymwys?

- 13.1 Mae DIM yn cynnig dulliau o asesu, trin a gofalu am rywun sydd ag anhwylder meddyliol sylweddol sy'n ei roi ef neu bobl eraill mewn perygl. Mae'n nodi pa bryd:

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

- y gellir cadw pobl sydd ag anhwylderau meddyliol yn yr ysbyty i'w hasesu neu eu trin
- y gellir rhoi triniaeth i bobl sydd wedi'u cadw ar gyfer eu hanhwylder meddyliol heb eu caniatâd (mae hefyd yn nodi'r mesurau diogelu y mae'n rhaid i bobl eu cael mewn sefyllfa o'r fath), ac
- y gellir rhoi pobl sydd ag anhwylderau meddyliol dan warcheidiaeth neu ôl-ofal dan oruchwyliaeth i'w hamddiffyn hwy neu bobl eraill.

13.2 Yn y rhan fwyaf o DIM, ni wahaniaethir rhwng pobl sy'n meddu ar allu i wneud penderfyniadau a rhai sydd heb allu. Mae llawer o bobl sy'n dod dan DIM yn meddu ar allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun. Ni fydd DIM byth yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r bobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau ynghylch eu triniaeth, hyd yn oed os oes arnynt angen triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol.

13.3 Ond ceir achosion lle bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad benderfynu a ddylid defnyddio DIM neu DGM, neu'r ddwy, i fodloni anghenion pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl sydd heb allu i wneud penderfyniadau am eu triniaeth eu hun.

Pa gyfyngiadau sydd ar DGM?

13.4 Mae adran 5 o DGM yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i bobl sy'n trin neu'n gofalu am rywun sydd heb allu (gweler pennod 6). Ond rhaid iddynt ddilyn egwyddorion y Ddeddf ac ni fyddant ond yn cael cymryd camau sydd er y budd gorau i rywun (gweler pennod 5). Mae hyn yn gymwys i ofal neu driniaeth ar gyfer cyflyrau corfforol a meddyliol. Felly gall fod yn gymwys i driniaeth i bobl sydd ag anhwylderau meddyliol, pa mor ddifrifol bynnag fo'r anhwylderau hynny.

13.5 Ond mae cyfyngiadau ar adran 5. Er enghraifft, ni fydd rhywun sy'n defnyddio ataliad ond yn cael ei amddiffyn os yw'r ataliad:

- yn angenrheidiol i warchod y person sydd heb allu rhag cael niwed, ac
- yn gymesur â thebygolrwydd a difrifoldeb y niwed hwnnw.

13.6 Nid oes unrhyw amddiffyniad dan adran 5 ar gyfer gweithredoedd sy'n amddifadu rhywun o'i ryddid (gweler y canllawiau ym mhennod 6). Yn yr un modd, nid yw DGM yn caniatáu rhoi triniaeth sy'n mynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwysadwy i wrthod triniaeth (gweler pennod 9).

13.7 Nid yw'r un o'r cyfyngiadau hyn yn gymwys i driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol a roddir dan DIM – ond mae cyfyngiadau eraill sy'n gymwys.

Pryd y gellir cadw rhywun dan DIM?

13.8 Ceir mynd â rhywun i ysbyty a'i gadw i'w asesu dan adran 2 o DIM am gyfnod o hyd at 28 o ddiwrnodau:

- os oes ganddo anhwylder meddyliol sy'n ddigon difrifol i gyfiawnhau ei gadw mewn ysbyty i'w asesu (neu i'w asesu cyn rhoi triniaeth) am gyfnod cyfyngedig o leiaf, ac
- os oes angen ei gadw i ddiogelu ei iechyd neu sicrhau ei ddiogelwch, neu i ddiogelu eraill.

13.9 Ceir derbyn claf i ysbyty a'i gadw i'w drin dan adran 3 o DIM:

- os oes ganddo salwch meddwl, nam meddyliol difrifol, anhwylder seicopathig neu nam meddyliol (mae DIM yn nodi diffiniadau o'r tri term olaf)
- os yw ei anhwylder meddyliol mor ddifrifol fel bod arno angen triniaeth mewn ysbyty
- os oes angen triniaeth er mwyn iechyd neu ddiogelwch y person, neu i ddiogelu pobl eraill – ac na ellir ei rhoi heb ei gadw dan yr adran hon, ac
- (os oes nam meddyliol neu anhwylder seicopathig ar y person) os yw triniaeth yn debygol o wella ei gyflwr neu ei atal rhag gwaethygu.

13.10 Dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried defnyddio DIM os nad ydynt yn sicr, ar sail eu barn broffesiynol, a fydd yn bosibl, neu'n ddigonol, dibynnu ar DGM. Nid oes raid iddynt ofyn i'r Llys Gwarchod ddyfarnu nad yw DGM yn gymwys cyn defnyddio DIM.

13.11 Os yw clinigydd yn credu y gall asesu neu drin rhywun yn ddiogel dan DGM, nid oes raid iddo ystyried defnyddio DIM. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai'n anodd bodloni gofynion DIM beth bynnag.

13.12 Efallai y bydd angen ystyried defnyddio DIM yn hytrach na DGM:

- os nad yw'n bosibl rhoi i'r person y gofal a'r driniaeth y mae arno eu hangen heb gyflawni gweithred a allai ei amddifadu o'i ryddid
- os oes ar y person angen triniaeth na ellir ei rhoi dan DGM (er enghraifft, am fod y person wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwysadwy i wrthod y cwbl neu ran o'r driniaeth honno)
- os yw'n bosibl y bydd angen atal y person mewn modd nad yw DGM yn ei ganiatáu

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

- os nad yw'n bosibl asesu neu drin y person yn ddiogel neu'n effeithiol heb i'r driniaeth fod yn orfodol (efallai am fod disgwyl y bydd y person yn adennill gallu i gydsynio, ond y gallai wedyn wrthod cydsynio)
- os nad yw'r person yn meddu ar allu i benderfynu ar rai elfennau o'r driniaeth ond ei fod yn meddu ar allu i wrthod rhan hanfodol ohoni – a'i fod wedi gwneud hynny, neu
- os yw'n bosibl na fyddai'r person yn cael y driniaeth y mae arno ei hangen am ryw reswm arall, ac y gallai ef neu rywun arall gael niwed o ganlyniad.

13.13 Ond mae'n bwysig cofio na ellir trin rhywun dan DIM oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer ei gadw. Oni bai ei fod wedi'i anfon i ysbyty dan Ran 3 o DIM mewn cysylltiad â throstedd, ni ellir cadw rhywun oni bai:

- fod yr amodau sydd wedi'u crynhoi ym mharagraff 13.8 neu 13.9 wedi'u bodloni
- bod y bobl berthnasol yn cytuno bod cais yn angenrheidiol (dau feddyg a gweithiwr cymdeithasol cymeradwyedig fel arfer), ac
- (yn achos adran 3) nad yw perthynas agosaf y claf wedi gwrthwynebu'r cais.

'Ceir diffiniad o berthynas agosaf ('*nearest relative*') yn adran 26 o DIM. Fel arfer, ond nid bob amser, bydd yn aelod o'r teulu.

Senario: Defnyddio DIM

Mae anabledd dysgu gan Mr Oliver. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae wedi profi iselder o bryd i'w gilydd, a chafodd driniaeth ddwy waith ar ei gyfer mewn ysbyty seiciatryddol. Mae ganddo iselder difrifol bellach ac mae ei weithwyr gofal yn poeni yn ei gylch.

Mae meddyg ymgynghorol Mr Oliver wedi rhoi meddyginiaeth iddo ac mae'n ystyried defnyddio therapi electrogynhyfol. Mae'r meddyg ymgynghorol o'r farn na fydd y cynllun gofal hwn ond yn llwyddo oni bai fod Mr Oliver yn cael ei gadw mewn ysbyty. Drwy hynny gellir cadw golwg manwl ar Mr Oliver a chaiff ei rwystro os bydd yn ceisio ymadael. Mae'r meddyg ymgynghorol yn credu y dylid gwneud cais dan adran 3 o DIM.

Mae'r meddyg ymgynghorol yn siarad hefyd â pherthynas agosaf Mr Oliver, sef ei fam. Mae hi'n gofyn pam y mae angen cadw Mr Oliver gan na fu angen gwneud hynny yn y gorffennol. Ond wedi iddi glywed rhesymau'r meddyg ymgynghorol, nid yw'n gwrthwynebu'r cais. Mae gweithiwr cymdeithasol cymeradwyedig yn gwneud y cais ac yn cael ail argymhelliad meddygol. Mae Mr Oliver yn cael ei gadw wedyn ac eir ag ef i'r ysbyty fel y gellir dechrau rhoi triniaeth iddo ar gyfer iselder.

13.14 Ni cheir rhoi triniaeth orfodol dan DIM:

- os nad yw anhwylder meddyliol y claf yn cyfiawnhau ei gadw mewn ysbyty, neu
- os oes ar y claf angen triniaeth ar gyfer salwch neu anabledd corfforol yn unig.

13.15 Ceir rhai achosion lle na ellir trin rhywun sydd heb allu dan DIM na DGM – hyd yn oed os yw'r driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol.

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

Senario: Penderfynu a ddylid defnyddio DIM neu DGM

Mae Mrs Carter yn ei 80au ac mae demensia arni. Mae rhywun yn dod o hyd iddi'n crwydro yn y stryd, yn ddig ac yn ddryslud iawn. Mae cymydog yn mynd â hi adref ac yn galw ei meddyg. Yn ei chartref, mae'n ymddangos ei bod wedi malu pethau'n fwriadol. Mae toriadau ar ei dwylo a'i breichiau, ond ni wnaiff adael i'r meddyg eu cyffwrdd, ac ni fu'n cymryd ei meddyginiaeth.

Mae ei meddyg yn dymuno ei derbyn i ysbyty i'w hasesu. Mae Mrs Carter yn mynd yn ddig ac yn dweud na wnânt byth ei chadw mewn ysbyty. Felly mae'r meddyg yn credu y gallai fod yn angenrheidiol defnyddio DIM. Mae'n trefnu i weithiwr cymdeithasol cymeradwyedig ddod i'w gweld. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn darganfod bod Mrs Carter yn disgwyl i'w mab ddod i'w gweld y bore hwnnw, ond ei fod heb gyrraedd. Maent yn cael gwybod ei fod wedi cael ei ddal yn ôl, ond na allai alw am fod plwg ffôn Mrs Carter wedi dod allan.

Pan ddywedir wrthi fod ei mab ar ei ffordd, mae Mrs Carter yn codi ei chalon. Mae'n gadael i'r meddyg drin ei thoriadau – ac mae'r meddyg yn credu ei bod er y budd gorau iddi iddo wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Pan ddaw mab Mrs Carter, mae'r gweithiwr cymdeithasol yn egluro bod y meddyg yn poeni'n fawr, yn enwedig am nad yw Mrs Carter yn cymryd ei meddyginiaeth. Mae'r mab yn egluro y bydd yn helpu ei fam i'w chymryd yn y dyfodol. Cytunir y bydd DGM yn caniatáu iddo wneud hynny. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn trefnu i ddod yn ôl ymhen wythnos ac mae'n galw'r meddyg i ddweud ei bod yn credu y bydd Mrs Carter yn gallu cael y gofal y mae arni ei angen heb ei chadw dan DIM. Mae'r meddyg yn cytuno.

Sut mae DGM i'w chymhwyso i glaf sydd dan warcheidiaeth dan DIM?

- 13.16 Mae gwarcheidiaeth yn rhoi i rywun (adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol fel arfer) yr unig hawl i benderfynu ym mhle y dylai person fyw – ond wrth wneud hynny ni all amddifadu'r person o'i ryddid. Gall y gwarcheidwad fynnu hefyd y bydd y person yn dod i gael triniaeth, i weithio, neu i dderbyn hyfforddiant neu addysg ar adegau ac mewn lleoedd penodol, a gall fynnu y bydd meddyg, gweithiwr cymdeithasol cymeradwyedig neu berson perthnasol arall yn cael mynediad at y person ym mhle bynnag mae'n byw. Gall gwarcheidiaeth fod yn gymwys pa un a yw rhywun yn meddu ar allu i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth ai peidio. Nid yw'n rhoi hawl i unrhyw un drin y person heb gael ei ganiatâd neu dderbyn triniaeth ar ei ran.

- 13.17** Gellir gwneud cais am dderbyn person sydd ag anhwylder meddyliol i warcheidiaeth dan adran 7 o DIM:
- os yw'r sefyllfa'n bodloni'r amodau sydd wedi'u crynhoi ym mharagraff 13.18
 - os yw'r bobl berthnasol yn cytuno y dylid gwneud cais am warcheidiaeth (dau feddyg a gweithiwr cymdeithasol cymeradwyedig fel arfer), ac
 - os nad yw perthynas agosaf y person yn gwrthwynebu.
- 13.18** Gellir gwneud cais mewn cysylltiad ag unrhyw berson sy'n 16 flwydd oed neu drosodd:
- os oes ganddo salwch meddwl, nam meddyliol difrifol, anhwylder seicopathig neu nam meddyliol sydd mor ddifrifol fel y gellir cyfiawnhau gwarcheidiaeth (gweler paragraff 13.20 isod), ac
 - os oes angen gwarcheidiaeth er mwyn lles y claf neu i ddiogelu pobl eraill.
- 13.19** Bydd yn rhaid i geisyddion (gweithwyr cymdeithasol cymeradwyedig fel arfer) a meddygon sydd o blaid y cais benderfynu a allent gyrraedd eu nod heb warcheidiaeth. Yn achos cleifion sydd heb allu, y dewis amlwg arall fydd gweithredu dan DGM.
- 13.20** Ond nid y ffaith bod rhywun heb allu i wneud penderfyniad perthnasol yw'r unig ffactor y mae'n rhaid i geisyddion ei ystyried. Rhaid iddynt ystyried holl amgylchiadau'r achos. Efallai y byddant yn dod i'r casgliad mai gwarcheidiaeth yw'r dewis gorau ar gyfer rhywun sydd ag anhwylder meddyliol sydd heb allu i wneud y penderfyniadau hynny os ydynt, er enghraifft:
- o'r farn ei bod yn bwysig i un person neu awdurdod fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch lle y dylai'r person fyw (er enghraifft, os bu anghytundebau hir neu anodd ynghylch lle y dylai'r person fyw)
 - o'r farn ei bod yn debyg y bydd y person yn ymateb yn dda i awdurdod gwarcheidwad neu'r sylw a gaiff ganddo, ac felly'n fwy parod i dderbyn triniaeth ar gyfer yr anhwylder meddyliol (pa un a yw'n gallu cydsynio i'w derbyn neu a yw'n cael ei darparu iddo dan DGM), neu
 - ag angen awdurdod i fynd â'r person yn ôl i'r lle y mae i fod i fyw (cartref gofal, er enghraifft) os bydd yn mynd yn absennol.

Rhaid i wneuthurwyr penderfyniad beidio byth ag ystyried gwarcheidiaeth fel modd i osgoi cymhwysu DGM.

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

13.21 Mae gan warcheidwad yr unig hawl i benderfynu lle bydd rhywun yn byw, felly ni all unrhyw un arall ddefnyddio DGM i drefnu i'r person fyw yn rhywle arall. Os bydd rhywun yn helpu rhywun yn fwriadol i adael y lle y mae gwarcheidwad yn mynnu y bydd yn aros ynddo, mae'n bosibl y bydd yn cyflawni trosedd dan DIM. Mae gan warcheidwad yr unig hawl hefyd i fynnu y bydd y person yn ymbresenoli ar adegau penodedig ac mewn lleoedd penodedig i gael triniaeth, gwaith, addysg neu hyfforddiant. Nid yw hynny'n rhwystro pobl eraill rhag defnyddio DGM i wneud trefniadau tebyg neu i drin y person mewn modd sydd er y budd gorau iddo. Ond ni all pobl ddefnyddio DGM mewn unrhyw fodd sy'n mynd yn groes i benderfyniadau y mae gan warcheidwad hawl gyfreithiol i'w gwneud dan DIM. Gweler paragraff 13.16 uchod lle y ceir gwybodaeth gyffredinol am bwerau gwarcheidwad.

Sut mae DGM i'w chymhwyso i glaf sy'n cael ôl-ofal dan oruchwyliaeth dan DIM?

13.22 Pan gaiff rhywun ei ryddhau o'r ddalfa i gael triniaeth feddygol dan DIM, caiff ei swyddog meddygol cyfrifol benderfynu ei leoli mewn ôl-ofal dan oruchwyliaeth. Y swyddog meddygol cyfrifol fel arfer yw seiciatrydd ymgynghorol y person hwnnw. Rhaid cael cefnogaeth i'w gais gan feddyg arall a gweithiwr cymdeithasol cymwysedig.

13.23 Mae ôl-ofal dan oruchwyliaeth yn golygu:

- y gellir mynnu bod y person yn byw mewn lle sydd wedi'i ragnodi (y gellir mynd ag ef yno a'i ddychwelyd yno, os oes angen)
- y gellir mynnu bod y person yn ymbresenoli ar gyfer triniaeth, gwaith, addysg neu hyfforddiant ar adeg benodol ac mewn lle penodol (y gellir mynd ag ef yno, os oes angen), a
- bod rhaid i'w oruchwylwr, unrhyw feddyg neu weithiwr cymdeithasol cymeradwyedig gael mynediad ato ym mhle bynnag y mae'n byw.

13.24 Gall swyddogion meddygol cyfrifol wneud cais am ôl-ofal dan oruchwyliaeth dan adran 25A o DIM:

- os yw'r person yn 16 oed neu'n hŷn ac yn agored i'w gadw mewn ysbyty i gael triniaeth dan adran 3 (a rhai adrannau eraill) o DIM
- os oes ar y person salwch meddwl, nam meddyliol difrifol, anhwylder seicopathig neu nam meddyliol
- os byddai diffyg ôl-ofal dan oruchwyliaeth yn creu perygl sylweddol i iechyd neu ddiogelwch y person, yn ei roi mewn perygl o brofi camfanteisio sylweddol, neu'n creu perygl sylweddol i ddiogelwch pobl eraill, ac

- os yw ôl-ofal dan oruchwyliaeth yn debygol o helpu i sicrhau bod y person yn cael y gwasanaethau ôl-ofal y mae arno eu hangen.

'Ystyr 'bod yn agored i'w gadw' yw bod ysbyty yn cael ei gadw. Ni fydd cleifion sy'n agored i'w cadw yn aros mewn ysbyty drwy'r amser o reidrwydd, oherwydd gallent gael caniatâd i adael yr ysbyty am gyfnod.

13.25 Gellir defnyddio ôl-ofal dan oruchwyliaeth pa un a yw'r person heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol ai peidio. Ond os nad yw rhywun yn meddu ar allu, bydd yn rhaid i wneuthurwyr penderfyniad benderfynu a fyddai camau dan DGM yn fodd i gyflawni eu nodau cyn gwneud cais. Mae'r mathau o achosion lle y gellid ystyried defnyddio ôl-ofal dan oruchwyliaeth ar gyfer cleifion sydd heb allu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth eu hun yn debyg i'r rhai ar gyfer gwarcheidiaeth.

Sut mae Deddf Gallu Meddyliol yn effeithio ar bobl sydd wedi'u cwmpasu dan Ddeddf Iechyd Meddwl?

13.26 Nid oes unrhyw reswm dros gymryd bod rhywun heb allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun dim ond am ei fod yn ddarostyngedig (dan DIM):

- i'w gadw
- i warcheidiaeth, neu
- i ôl-ofal dan oruchwyliaeth.

13.27 Mae pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol yn dal i fod wedi'u hamddiffyn gan DGM hyd yn oed os ydynt yn dod dan DIM (mae hyn yn cynnwys pobl sy'n dod dan DIM o ganlyniad i achos llys). Ond mae pedwar eithriad pwysig:

- os yw rhywun yn agored i'w gadw dan DIM, ni fydd gwneuthurwyr penderfyniad yn gallu dibynnu fel arfer ar DGM i roi triniaeth iechyd meddwl neu i wneud penderfyniadau am y driniaeth honno ar ran rhywun
- os gellir rhoi triniaeth iechyd meddwl i rywun heb ei ganiatâd am ei fod yn agored i'w gadw dan DIM, gellir hefyd roi triniaeth iechyd meddwl iddo sy'n mynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth
- os yw rhywun yn ddarostyngedig i warcheidiaeth, mae gan y gwarcheidwad yr unig hawl i wneud rhai penderfyniadau, gan gynnwys ym mhle y mae'r person i fyw, ac

- nid oes raid cynnwys Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol mewn penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol neu lety, os gwneir y penderfyniadau hynny dan DIM.

Beth yw'r goblygiadau i bobl sydd ag angen triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol?

13.28 Dan rai amodau, mae Rhan 4 o DIM yn caniatáu i feddygon roi triniaeth ar gyfer anhwylderau meddyliol i gleifion sy'n agored i'w cadw heb gael caniatâd ganddynt – pa un a oes ganddynt allu i gydsynio i dderbyn y driniaeth honno ai peidio. Ceir rhestr o ychydig o eithriadau pwysig ym mharagraff 13.31 isod.

13.29 Os yw Rhan 4 o DIM yn gymwys, ni ellir defnyddio DGM i roi triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol i gleifion sydd heb allu i gydsynio. Ni fydd unrhyw un arall, fel atwrnai neu ddirprwy, yn gallu defnyddio DGM i roi caniatâd ar gyfer y driniaeth honno ychwaith. Y rheswm am hynny yw bod Rhan 4 o DIM eisoes yn caniatáu i glinigwyr roi triniaeth feddygol i gleifion ar gyfer anhwylder meddyliol, os byddant yn cydymffurfio â'r rheolau perthnasol, er nad yw'r cleifion yn meddu ar allu i gydsynio. Yn y cyd-destun hwn, mae triniaeth feddygol yn cynnwys nyrsio a gofal, sefydlu ac adsefydlu dan oruchwyliaeth feddygol.

13.30 Ond ni fydd clinigwyr sy'n trin pobl ar gyfer anhwylder meddyliol dan DIM yn cael anwybyddu gallu rhywun i gydsynio i dderbyn triniaeth. O ran ymarfer da (ac mewn rhai achosion er mwyn cydymffurfio â DIM) bydd yn rhaid iddynt bob amser asesu a chofnodi:

- a yw cleifion yn meddu ar allu i gydsynio i dderbyn triniaeth, ac
- os ydynt, a ydynt wedi cydsynio i dderbyn y driniaeth dan sylw neu wedi ei gwrthod.

I gael mwy o wybodaeth, gweler Cod Ymarfer DIM.

13.31 Nid yw Rhan 4 o DIM yn gymwys i gleifion:

- sydd wedi'u derbyn mewn argyfwng dan adran 4(4)(a) o DIM, ar ôl un argymhelliad meddygol ac wrth aros ail argymhelliad
- sydd wedi'u cadw dros dro (eu dal mewn ysbyty) dan adran 5 o DIM wrth aros cais am eu cadw dan adran 2 neu adran 3
- sydd wedi'u remandio gan lys i ysbyty i gael adroddiad ar eu cyflwr meddygol dan adran 35 o DIM

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

- sydd wedi'u cadw dan adran 37(4), 135 neu 136 o DIM mewn lle diogel, neu
- sydd wedi'u rhyddhau'n amodol gan y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (a heb eu galw'n ôl i ysbyty).

13.32 Gan nad yw DIM yn caniatáu rhoi triniaeth i'r cleifion hyn heb eu caniatâd, mae DGM i'w chymhwyso yn y modd arferol, hyd yn oed os yw'r driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol.

13.33 Hyd yn oed lle mae DIM yn caniatáu trin cleifion ar gyfer anhwylderau meddyliol, mae DGM i'w chymhwyso yn y modd arferol i driniaeth ar gyfer anhwylderau corfforol. Ond weithiau gallai staff gofal iechyd benderfynu canolbwyntio'n gyntaf ar drin anhwylder meddyliol y claf sydd wedi'i gadw gan obeithio y bydd yn adennill y gallu i wneud penderfyniad am driniaeth ar gyfer yr anhwylder corfforol.

13.34 Lle mae pobl yn ddarostyngedig i warcheidiaeth neu ôl-ofal dan oruchwyliaeth dan DIM, mae DGM i'w chymhwyso i'r holl driniaeth yn y modd arferol. Nid yw gwarcheidiaeth ac ôl-ofal dan oruchwyliaeth yn rhoi hawl i bobl drin cleifion heb eu caniatâd.

Senario: Defnyddio DGM i drin claf sydd wedi'i gadw dan DIM

Mae Mr Peters wedi'i gadw mewn ysbyty dan adran 3 o DIM ac mae'n cael triniaeth dan Ran 4 o DIM. Mae Mr Peters yn profi sgitsoffrenia paranöig, yn gweld lledrithiau, yn cael rhithweledigaethau ac mae ganddo anhwylder meddwl. Mae'n gwrthod pob triniaeth feddygol. Yn ddiweddar cafodd Mr Peters waed yn ei wrin ac mae staff wedi'i berswadio i gael sgan uwchsain. Mae'r sgan wedi dangos yr hyn yr amheuir ei fod yn garsinoma arenol.

Mae ei feddyg ymgynghorol yn credu bod angen sgan CT arno a thriniaeth ar gyfer y carsinoma. Ond mae Mr Peters yn gwrthod cael anesthetig cyffredinol a derbyn gweithdrefnau meddygol eraill. Mae'r meddyg ymgynghorol yn asesu Mr Peters ac yn canfod ei fod heb allu i gydsynio i dderbyn triniaeth yn ôl prawf gallu DGM. Nid yw DIM yn berthnasol i hyn, gan nad yw'r sgan CT yn rhan o'r driniaeth a roddir i Mr Peters ar gyfer anhwylder meddyliol.

Dan adran 5 o DGM, gall meddygon roi triniaeth heb gael caniatâd. Ond rhaid iddynt ddilyn egwyddorion y Ddeddf a chredu bod y driniaeth er y budd gorau i Mr Peters.

Sut mae Deddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 13.35** Nid yw DIM yn effeithio ar benderfyniad ymlaen llaw a wnaeth rhywun i wrthod triniaeth, oni bai fod Rhan 4 o DIM yn cynnig modd i drin rhywun ar gyfer anhwylder meddyliol heb gael ei ganiatâd. Mewn sefyllfa o'r fath, gall staff gofal iechyd drin cleifion ar gyfer anhwylder meddyliol, hyd yn oed os ydynt wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth o'r fath.
- 13.36** Ond hyd yn oed wedyn, rhaid i staff gofal iechyd drafod penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwysadwy fel y byddent yn trafod penderfyniad a wnaed gan rywun a oedd yn meddu ar allu ar yr adeg y gofynnir iddo gydsynio i dderbyn triniaeth. Er enghraifft, dylent ystyried a allent ddefnyddio math gwahanol o driniaeth nad yw'r claf wedi'i gwrthod ymlaen llaw. Os na fydd staff gofal iechyd yn dilyn penderfyniad ymlaen llaw, dylent gofnodi yn nodiadau'r claf y rheswm dros ddewis peidio â'i ddilyn.
- 13.37** Hyd yn oed os yw claf yn cael ei drin heb ei ganiatâd dan Ran 4 o DIM, mae penderfyniad ymlaen llaw i wrthod mathau eraill o driniaeth yn dal i fod yn ddilys. Nid yw'r ffaith bod rhywun yn ddarostyngedig i warcheidiaeth neu ôl-ofal dan oruchwyliaeth yn effeithio ar benderfyniad ymlaen llaw mewn unrhyw fodd. Gweler pennod 9 lle y ceir canllawiau pellach ar benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth.

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

Senario: Penderfynu a ddylid dilyn penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth

Mae Miss Khan yn profi iselder o bryd i'w gilydd ac mae ganddi hen anafiadau corfforol sy'n achosi poen iddi. Nid yw'n hoffi'r sgîl-ffeithiau o feddyginiaeth, ac mae'n rheoli ei hiechyd drwy ei deiet ac ymarfer. Mae'n gwybod y gallai staff gofal iechyd amau ei gallu i wneud penderfyniadau pan fydd yn profi iselder. Felly mae'n gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod pob math o feddyginiaeth ar gyfer ei phoen corfforol a'i hiselder.

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'n profi iselder dwys ac yn cael ei chadw dan DIM. Mae ei meddyg teulu yn sôn wrth ei swyddog meddygol cyfrifol yn yr ysbyty am ei phenderfyniad ymlaen llaw. Ond mae cyflwr Miss Khan yn gwaethygu i'r fath raddau fel na wnaiff drafod triniaeth. Felly mae'r swyddog meddygol cyfrifol yn penderfynu rhagnodi meddyginiaeth ar gyfer iselder, er ei bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw. Mae'n bosibl gwneud hyn am fod Miss Khan wedi'i chadw dan DIM.

Mae'r swyddog meddygol cyfrifol hefyd yn credu nad yw Miss Khan bellach yn meddu ar allu i gydsynio i dderbyn meddyginiaeth ar gyfer ei phoen corfforol. Mae'n asesu dilysrwydd y penderfyniad ymlaen llaw i wrthod meddyginiaeth ar gyfer y poen corfforol. Mae ei meddyg teulu'n dweud bod Miss Khan yn ymddangos yn berffaith iach pan wnaeth y penderfyniad a'i bod yn ymddangos ei bod yn deall ei ystyr. Ym marn y meddyg teulu, roedd Miss Khan yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw. Mae'r swyddog meddygol cyfrifol yn penderfynu bod y penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys ac yn gymwysadwy, ac nid yw'n rhagnodi meddyginiaeth ar gyfer y poen y mae Miss Khan yn ei brofi – er ei fod yn credu y buasai hynny er y budd gorau iddi. Pan fydd cyflwr Miss Khan yn gwella, bydd y meddyg ymgynghorol yn gallu trafod â hi i ganfod a yw'n dymuno newid ei meddwl am driniaeth ar gyfer poen corfforol.

A yw DIM yn effeithio ar ddyletswyddau atwrneiod a dirprwyon?

13.38 Yn gyffredinol, nid yw DIM yn effeithio ar bwerau atwrneiod a dirprwyon. Ond mae dau eithriad:

- ni fyddant yn gallu rhoi caniatâd ar ran claf i dderbyn triniaeth dan Ran 4 o DIM, os yw'r claf yn agored i'w gadw dan DIM (gweler 13.28–13.34 uchod), ac

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

- ni fyddant yn gallu gwneud penderfyniadau:
 - ynghylch lle mae rhywun sy'n ddarostyngedig i warcheidiaeth i fyw, neu
 - rai sy'n mynd yn groes i benderfyniadau y mae gan warcheidwad hawl gyfreithiol i'w gwneud.

13.39 Nid yw'r ffaith bod cleifion yn ddarostyngedig i DIM yn eu hatal rhag gwneud Atwrneiaeth Arhosol newydd (os ydynt yn meddu ar allu i wneud hynny). Nid yw ychwaith yn atal y Llys Gwarchod rhag penodi dirprwy ar eu cyfer.

13.40 Mewn rhai achosion, gallai fod yn ofynnol i bobl sy'n ddarostyngedig i DIM fodloni amodau penodol mewn cysylltiad â:

- caniatâd i fod yn absennol o ysbyty
- ôl-ofal dan oruchwyliaeth, neu
- ryddhau amodol.

Bydd yr amodau'n amrywio rhwng y naill achos a'r llall, ond gallent gynnwys gofyniad i:

- fyw mewn lle penodol
- cadw mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd, neu
- osgoi ardal benodol.

13.41 Os bydd atwrnai neu ddirprwy yn gwneud penderfyniad sy'n mynd yn groes i un o'r amodau hynny, cymerir bod y claf wedi mynd yn groes i'r amod. Mae DIM yn nodi'r camau y gellid eu cymryd dan amgylchiadau o'r fath. Yn achos caniatâd i fod yn absennol neu ryddhau amodol, gallai hynny olygu galw'r claf yn ôl i'r ysbyty.

13.42 Mae atwrneiod a dirprwyon yn gallu arfer hawliau cleifion dan DIM ar eu rhan, os ydynt wedi cael yr awdurdod perthnasol. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd rhai atwrneiod a dirprwyon lles personol yn gallu gwneud cais i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl am ryddhau claf sy'n cael ei gadw, neu ei ryddhau o warcheidiaeth neu ôl-ofal dan oruchwyliaeth.

13.43 Mae DIM yn rhoi amryw o hawliau hefyd i berthynas agosaf y claf. Ymhlith y rhain mae'r hawl i:

- fynnu bod adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn cyfarwyddo gweithiwr cymdeithasol cymeradwyedig i ystyried a ddylid peri i'r claf fod yn ddarostyngedig i DIM
- gwneud cais am i'r claf gael ei dderbyn i ysbyty neu i warcheidiaeth
- gwrthwynebu cais am dderbyn y claf i roi triniaeth
- rhoi gorchymyn i ryddhau'r claf o'r ysbyty (dan rai amodau) a

- rhoi gorchymyn i ryddhau'r claf o warcheidiaeth.

13.44 Ni chaiff atwrneiod a dirprwyon arfer yr hawliau hyn, oni bai mai hwy eu hun yw'r perthynas agosaf. Os ceir anghytuno rhwng y perthynas agosaf ac atwrnai neu ddirprwy, gallai fod yn fuddiol iddynt drafod y mater, gyda chymorth clinigwyr y claf neu ei weithiwr cymdeithasol efallai. Ond, yn y pen draw, mae ganddynt rolau gwahanol a rhaid i'r ddau weithredu fel y maent yn gweld orau. Rhaid i atwrnai neu ddirprwy weithredu er y budd gorau i'r claf.

13.45 Mae'n arfer da i glinigwyr ac eraill sy'n ymwneud ag asesu neu drin cleifion dan DIM geisio darganfod a oes atwrnai neu ddirprwy ar gyfer y person dan sylw. Ond ni fydd hynny'n bosibl bob amser. Felly dylai atwrneiod a dirprwyon gysylltu ag un ai:

- y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am driniaeth y claf (sy'n cael ei alw fel arfer yn swyddog meddygol cyfrifol y claf)
- rheolwyr yr ysbyty lle mae'r claf yn cael ei gadw
- gwarcheidwad y person (adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fel arfer), neu
- oruchwyliwr y person (os yw'r claf yn ddarostyngedig i ôl-ofal dan oruchwyliaeth).

Fel arfer, ceir swyddfa Gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl mewn ysbytai sy'n trin cleifion sydd wedi'u cadw, ac efallai y bydd yn fuddiol cysylltu â'r swyddfa honno yn y lle cyntaf.

A yw DIM yn cael effaith o ran y gofyniad i gyfarwyddo Eiriolwyr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol?

13.46 Fel yr eglurwyd ym mhennod 10, nid oes unrhyw ddyletswydd i gyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGM) ar gyfer penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol sydd i'w rhoi dan Ran 4 o DIM. Nid oes dyletswydd i wneud hynny ychwaith mewn cysylltiad â symud i lety, neu newid llety, os yw i fod yn ofynnol i'r person dan sylw fyw yno oherwydd rhwymedigaeth dan DIM. Gallai'r rhwymedigaeth honno fod yn amod ar ganiatâd i fod yn absennol neu ryddhad amodol o ysbyty neu'n ofyniad a osodwyd gan warcheidwad neu oruchwyliwr.

13.47 Fodd bynnag, mae'r rheolau ar gyfer cyfarwyddo EAGM ar gyfer cleifion sy'n ddarostyngedig i DIM a allai gael triniaeth feddygol sylweddol nad yw'n gysylltiedig â'u hanhwylder meddyliol yr un fath ag ar gyfer pob claf arall.

Pennod 13

Beth yw'r berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

13.48 Byddai'r ddyletswydd i gyfarwyddo EAGM yn gymwys hefyd yn y modd arferol os bwriedir trefnu llety fel rhan o'r ôl-ofal dan adran 117 o DIM wedi i rywun gael ei ryddhau o'r lle mae'n cael ei gadw (ac os nad yw i fod yn ofynnol i'r person fyw yno fel amod ar ôl-ofal dan oruchwyliaeth). Y rheswm am hynny yw nad oes raid i'r person dderbyn y llety hwnnw.

Beth yw effaith adran 57 o Ddeddf Iechyd Meddwl ar DGM?

13.49 Mae adran 57 o DIM yn datgan bod rhaid wrth y canlynol ar gyfer seicolawdriniaeth (niwrolawdriniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol):

- caniatâd y claf, a
- chymeradwyaeth gan feddyg annibynnol a dau berson arall sydd wedi'u penodi gan Gomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Seicolawdriniaeth yw unrhyw lawdriniaeth sy'n dinistrio meinweoedd yr ymennydd neu weithrediadau meinweoedd yr ymennydd.

13.50 Mae'r un rheolau'n gymwys i unrhyw driniaethau eraill sydd wedi'u rhagnodi dan adran 57. Ar hyn o bryd, yr unig driniaeth sydd wedi'i chynnwys mewn rheoliadau yw llawdriniaeth i fewnblannu hormonau i leihau egni rhywiol dynion.

13.51 Cydeffaith adran 57 o DIM ac adran 28 o DGM, i bob pwrpas, yw na cheir byth roi un o'r triniaethau hyn ar gyfer anhwylder meddyliol i rywun sydd heb allu i gydsynio i'w derbyn. Ni all staff gofal iechyd ddefnyddio DGM fel modd arall i roi triniaethau o'r math hwn. Nid yw atwrnai neu ddirprwy yn gallu rhoi caniatâd ar ran rhywun i'w derbyn ychwaith.

Pa newidiadau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu gwneud i DIM a DGM?

13.52 Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Mesur Iechyd Meddwl i'r Senedd er mwyn moderneiddio DIM. Ymhlith y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud y mae:

- rhai newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cadw cleifion, yn cynnwys gofyniad newydd i driniaeth feddygol briodol fod ar gael i gleifion cyn y gellir eu cadw ar gyfer triniaeth
- cyflwyno triniaeth dan oruchwyliaeth yn y gymuned ar gyfer cleifion addas ar ôl eu cadw mewn ysbyty am gyfnod i roi triniaeth. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael y driniaeth y mae arnynt ei hangen a hefyd i'w hatal rhag mynd yn wael eto a dychwelyd i'r ysbyty

- rhoi'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwyedig yn lle'r gweithiwr cymdeithasol cymeradwyedig. Bydd hyn yn creu'r posibilrwydd o ddenu gweithwyr gofal iechyd meddwl proffesiynol cymeradwyedig o ddisgyblaethau eraill yn ogystal â gwaith cymdeithasol. Bydd newidiadau eraill yn creu'r posibilrwydd o gymeradwyo clinigwyr nad ydynt yn feddygon i ymgymryd â rôl y swyddogol meddygol cyfrifol. Yr enw newydd ar y rôl hon fydd y clinigydd cyfrifol.
- darpariaethau i'w gwneud yn bosibl i gleifion wneud cais i'r llys sirol am benodi rhywun yn lle perthynas agosaf sy'n anaddas, a
- diddymu ôl-ofal dan oruchwyliaeth.

13.53 Bydd y Mesur hefyd yn diwygio DGM er mwyn cyflwyno gweithdrefnau a darpariaethau newydd i wneud penderfyniadau perthnasol am y rhai y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid, er y budd gorau iddynt, heblaw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ('darpariaethau Bournemouth' fel y'u gelwir).⁵⁸

13.54 Bydd y bennod hon, ynghyd â phennod 6, yn cael ei hadolygu'n llawn gyda hyn er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hynny. Mae gwybodaeth ar gael am gynigion presennol y Llywodraeth ynghylch mesurau diogelu Bournemouth ar wefan yr Adran Iechyd. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys canllawiau enghreifftiol drafft ar ffurf Cod Ymarfer ar y mesurau diogelu sydd wedi'u hargymell.⁵⁹

13.55 Yn y cyfamser, wrth wneud penderfyniadau dan DGM a dan DIM, rhaid eu seilio ar y Deddfau fel y maent yn awr.

⁵⁸ Mae hyn yn cyfeirio at ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop (5 Hydref 2004) yn achos *HL v The United Kingdom* (Rhif cais, 45508/99).

⁵⁹ Gweler www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPolicyAndGuidanceArticle/fs/en?CONTENT_ID=4141656&chk=jlw07L

14

Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r gwahanol asiantaethau sy'n bodoli er mwyn helpu i sicrhau bod oedolion sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun yn cael eu hamddiffyn rhag eu cam-drin. Mae hefyd yn egluro'r gwasanaethau y mae'r asiantaethau hynny'n eu darparu a sut maent yn arolygu pobl sy'n darparu gofal ar gyfer pobl sydd heb allu neu'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Yn olaf, mae'n egluro beth y dylai rhywun ei wneud os yw'n amau bod rhywun yn cam-drin oedolion sy'n agored i niwed sydd heb allu.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

- Dylid bob amser roi gwybod i'r asiantaeth berthnasol am amheuan bod rhywun heb allu'n cael ei gam-drin.

Pryderon ynghylch swyddog penodedig

- Os yw rhywun yn pryderu ynghylch y modd y mae swyddog penodedig yn casglu neu'n defnyddio budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar ran rhywun sydd heb allu, dylai gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith leol. Os yw'r swyddog penodedig yn gweithredu ar ran rhywun dros 60 oed, dylid cysylltu â'r Gwasanaeth Pensiynau.

Pryderon ynghylch atwrnai neu ddirprwy

- Os yw rhywun yn pryderu ynghylch gweithredoedd atwrnai neu ddirprwy, dylai gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Pryderon ynghylch y posibilrwydd bod trosedd wedi'i gyflawni

- Os oes rheswm da dros amau bod rhywun wedi cyflawni trosedd yn erbyn rhywun sy'n agored i niwed, fel dwyn neu ymosod corfforol neu rywiol, dylid cysylltu â'r heddlu.
- Yn ogystal â hynny, dylid cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, fel y gallant gefnogi'r person sy'n agored i niwed yn ystod yr ymchwiliad.

Pryderon ynghylch y posibilrwydd o gamdriniaeth neu esgeuluso bwriadol

- Mae'r Ddeddf yn cyflwyno troseddau newydd, sef cam-drin neu esgeuluso'n fwriadol mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol (adran 44).
- Os nad yw rhywun yn cael gofal priodol, cysylltwch â'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Os yw'r achos yn un difrifol, cysylltwch â'r heddlu.

Pryderon ynghylch safonau gofal

- Os oes pryderon ynghylch safon y gofal mewn cartref gofal neu mewn cynllun lleoliadau oedolion, neu am y gofal a ddarperir gan weithiwr gofal cartref, cysylltwch â'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Gallai hefyd fod yn briodol cysylltu â'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol (yn Lloegr) neu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Pryderon ynghylch gofal iechyd neu driniaeth

- Os yw rhywun yn pryderu ynghylch y gofal neu'r driniaeth a roddir i'r person mewn unrhyw leoliad GiG (fel ysbyty neu glinig GiG), dylai gysylltu â rheolwyr y gwasanaeth.
- Efallai y bydd hefyd yn briodol gwneud cŵyn ffurfiol drwy weithdrefn gwyno'r GiG (gweler pennod 15).

Beth yw camdriniaeth?

14.1 Mae'r gair 'camdriniaeth' yn cwmpasu ystod eang o weithredoedd. Mewn rhai achosion, mae'n amlwg bod camdriniaeth yn fwriadol ac yn angharedig o bwrpas. Ond weithiau bydd camdriniaeth yn digwydd am nad yw rhywun yn gwybod sut i weithredu'n gywir – neu am nad yw cymorth a chefnogaeth briodol ar gael iddo. Mae'n bwysig atal camdriniaeth, lle bynnag y bo modd. Os yw rhywun yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig ymchwilio i'r gamdriniaeth a chymryd camau i'w rhwystro.

14.2 Mae camdriniaeth yn unrhyw beth sy'n mynd yn groes i hawliau dynol a sifil rhywun. Mae hyn yn cynnwys camdriniaeth rywiol, corfforol, geiriol, ariannol ac emosiynol. Gall camdriniaeth fod yn:

- un weithred
- cyfres o weithredoedd wedi'u hailadrodd
- methiant i ddarparu gofal angenrheidiol, neu
- esgeulustod.

Gall camdriniaeth ddigwydd mewn unrhyw le (er enghraifft, yng nghartref y person, mewn cartref gofal neu mewn ysbyty).

14.3 Y prif fathau o gamdriniaeth yw:

Math o gamdriniaeth	Enghreifftiau
Ariannol	<ul style="list-style-type: none"> • dwyn • twyll • pwysau gormodol • camddefnyddio eiddo neu fudd-daliadau • cael eiddo neu fudd-daliadau'n anonest.
Corfforol	<ul style="list-style-type: none"> • slapio, gwthio, cicio neu fathau eraill o drais • camddefnyddio meddyginiaeth (er enghraifft, rhoi dos mwy i beri i rywun fod yn gysglyd) • cosbau amhriodol (er enghraifft, peidio â rhoi pryd o fwyd i rywun am iddo fod yn 'ddrwg')
Rhywiol	<ul style="list-style-type: none"> • treisio • ymosod rhywiol • gweithredoedd rhywiol heb ganiatâd (mae hyn yn cynnwys achosion lle nad yw rhywun yn gallu rhoi caniatâd neu lle'r oedd yr un sy'n cam-drin wedi ei roi dan bwysau).
Seicolegol	<ul style="list-style-type: none"> • cam-drin emosiynol • bygythion i niweidio rhywun, rhoi ataliad arno neu ei adael • gwrthod gadael i rywun gael cysylltiad â phobl eraill • bygylu • bygythion i gyfyngu ar ryddid rhywun.
Esgeulustod ac anwaith	<ul style="list-style-type: none"> • anwybyddu anghenion y person o ran gofal meddygol neu gorfforol • methu â sicrhau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol • gwrthod meddyginiaeth, bwyd neu wresogi.

Pennod 14

Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?

14.4 Mae'r Adran Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi llunio canllawiau ar wahân ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed rhag eu cam-drin. Mae *No secrets*⁶⁰ (*Lloegr*) ac *Mewn dwylo diogel*⁶¹ (Cymru) ill dau'n diffinio oedolion sy'n agored i niwed fel pobl 18 oed a throsodd sydd:

- ag angen gwasanaethau gofal yn y gymuned oherwydd anabledd meddyliol, anabledd arall, henaint neu salwch, ac
- a allai fod yn analluog i ofalu amdanynt eu hun neu eu hamddiffyn eu hun rhag cael niwed sylweddol neu rhag camfanteisio.

Mae'r disgrifiad hwn yn gymwys i lawer o bobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun.

14.5 Os yw unrhyw un yn credu ei bod yn bosibl bod rhywun yn cam-drin oedolyn sy'n agored i niwed sydd heb allu, dylai:

- gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol lleol (gweler paragraffau 14.27–14.28 isod)
- cysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (gweler paragraff 14.8 isod), neu
- geisio cyngor drwy ffonio llinell gymorth berthnasol⁶² neu drwy'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.⁶³

Ceir y manylion cysylltu llawn yn Atodiad A.

14.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gweithdrefnau amddiffyn oedolion lleol yn dweud pwy a ddylai weithredu (gweler paragraffau 14.28–14.29 isod). Ond bydd rhai mathau o gamdriniaeth yn drosedd, fel ymosod corfforol, ymosod rhywiol neu dreisio, dwyn, twyll a rhai mathau eraill o gamfanteisio ariannol. Mewn achosion o'r fath, os yw rhywun yn amau bod camdriniaeth yn digwydd, dylai gysylltu â'r heddlu ar frys. Gallai'r ymchwiliad troseddol gael blaenoriaeth ar bob math arall o ymchwiliad, felly bydd yn rhaid i'r holl asiantaethau gydweithio i gynllunio'r dull gorau o ymchwilio i'r gamdriniaeth bosibl.

⁶⁰ Yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref, *No secrets: Guidance on developing and implementing multi-agency policies and procedures to protect vulnerable adults from abuse*, (2000) www.dh.gov.uk/assetRoot/04/07/45/40/04074540.pdf

⁶¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Mewn dwylo diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru* (2000), http://new.wales.gov.uk/about/departments/dhss/publications/social_services_publications/reports/insafehands?lang=en

⁶² Er enghraifft, Action on Elder Abuse (0808 808 8141), Age Concern (0800 009966) neu CarersLine (0808 808 7777)

⁶³ Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol www.clsdirect.org.uk

Pennod 14

Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?

14.7 Mae Deddf Twyll 2006 (sydd i ddod i rym yn 2007) yn creu trosedd newydd, sef twyll drwy gamddefnyddio swydd ('*fraud by abuse of position*'). Gallai'r trosedd newydd hwn fod yn gymwys i amryw o bobl, gan gynnwys:

- atwrneiod dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus, neu
- ddirprwyon sydd wedi'u penodi gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ariannol ar ran rhywun sydd heb allu.

Gallai atwrneiod a dirprwyon fod yn euog o dwyll os byddant yn camddefnyddio eu swydd yn anonest, yn bwriadu dod ag elw iddynt hwy eu hun neu eraill, ac yn achosi colled neu'n peri bod rhywun yn agored i'r perygl o golled. Os yw rhywun yn amau bod twyll yn digwydd, dylai roi gwybod am yr achos i'r heddlu.

Sut mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl rhag eu cam-drin?

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

14.8 Mae adran 57 o'r Ddeddf yn creu Gwarcheidwad Cyhoeddus newydd, a gefnogir gan staff Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn helpu i amddiffyn pobl sydd heb allu drwy:

- sefydlu a rheoli cofrestr o Atwrneiaethau Arhosol
- sefydlu a rheoli cofrestr o Atwrneiaethau Parhaus
- sefydlu a rheoli cofrestr o orchmynion llys sy'n penodi dirprwyon
- arolygu dirprwyon, gweithio gyda chyrff perthnasol eraill (er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol, os yw'r person sydd heb allu'n cael gofal cymdeithasol)
- anfon Ymwelwyr y Llys Gwarchod i ymweld â phobl a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau penodol a'r rhai sydd â phwerau ffurfiol i weithredu ar eu rhan (gweler paragraffau 14.10–14.11 isod)
- cael adroddiadau gan atwrneiod sy'n gweithredu dan Atwrneiaethau Arhosol a gan ddirprwyon
- darparu adroddiadau i'r Llys Gwarchod, yn ôl y gofyn, a
- delio â sylwadau (gan gynnwys cwynion) am y modd y mae atwrneiod neu ddirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau.

14.9 Mae adran 59 o'r Ddeddf yn creu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus i arolygu ac adolygu'r modd y mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Ymwelwyr y Llys Gwarchod

14.10 Rôl Ymwelydd y Llys Gwarchod yw darparu cyngor annibynnol i'r llys ac i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'n rhoi gwybod am y modd y mae rhywun a gafodd bŵer dan y Ddeddf yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau, a sut y dylai wneud hynny. Mae dau fath o ymwelydd: Ymwelwyr Cyffredinol ac Ymwelwyr Arbennig. Mae ymwelwyr arbennig yn ymarferwyr meddygol cofrestredig sydd ag arbenigedd perthnasol. Gall y llys neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus anfon pa bynnag fath o ymwelydd y mae'n fwyaf priodol iddo ymweld â rhywun a allai fod heb allu a'i gyfweld. Gall ymwelydd hefyd gyfweld atwrneiod neu ddirprwyon ac archwilio unrhyw gofnodion gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n berthnasol. Rhaid i atwrneiod a dirprwyon gydweithredu â'r ymwelwyr a darparu'r holl wybodaeth berthnasol iddynt. Os na fydd atwrneiod neu ddirprwyon yn cydweithredu, gall y llys ddileu eu penodiad, os yw'n credu nad ydynt wedi gweithredu er y budd gorau i'r person.

Senario: Defnyddio Ymwelydd Cyffredinol

Gwnaeth Mrs Quinn Atwrneiaeth Arhosol gan benodi ei nai, Ian, yn atwrnai ariannol iddi. Yn ddiweddar, mae wedi colli'r gallu i wneud penderfyniadau ariannol drosti ei hun, ac mae Ian wedi cofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol. Mae wedi cymryd rheolaeth ar faterion ariannol Mrs Quinn.

Ond mae nith Mrs Quinn yn amau bod Ian yn defnyddio arian Mrs Quinn i glirio ei ddyledion ei hun. Mae'n cysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac mae honno'n anfon Ymwelydd Cyffredinol i ymweld â Mrs Quinn ac Ian. Bydd yr ymwelydd yn asesu'r ffeithiau yn ei adroddiad. Gallai awgrymu y dylai'r achos fynd gerbron llys er mwyn ystyried a yw Ian wedi ymddwyn mewn modd:

- sy'n mynd yn groes i'w awdurdod dan yr Atwrneiaeth Arhosol, neu
- nad yw er y budd gorau i Mrs Quinn.

Bydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn penderfynu a ddylai'r llys fod yn gysylltiedig â'r mater. Bydd y llys yn penderfynu wedyn a oes arno angen mwy o dystiolaeth. Os yw'n credu bod Ian yn camddefnyddio ei swydd, caiff y llys ddileu'r Atwrneiaeth Arhosol.

14.11 Mae Ymwelwyr y Llys Gwarchod yn chwarae rhan bwysig wrth ymchwilio i gamdriniaeth bosibl. Ond mae eu rôl yn cynnwys llawer mwy na hynny. Gallant hefyd holi ynghylch lles cyffredinol y person sydd heb allu, a gallant roi cefnogaeth i atwrneiod a dirprwyon sydd ag angen cymorth i gyflawni eu dyletswyddau.

Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?

Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn goruchwyllo Atwrneiaethau Arhosol?

- 14.12 Mae Atwrneiaeth Arhosol yn drefniant preifat rhwng y rhoddwr a'r atwrnai (gweler pennod 7). Dim ond rhai y gallant ymddiried ynddynt y dylai rhoddwyr eu dewis i fod yn atwrneiod. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn darparu gwybodaeth i helpu darpar roddwyr i ddeall:
- effaith gwneud Atwrneiaeth Arhosol
 - beth y gallant awdurdodi atwrnai i'w wneud
 - beth i'w ystyried wrth ddewis atwrnai.
- 14.13 Rhaid i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus sicrhau bod yr Atwrneiaeth Arhosol yn bodloni gofynion y Ddeddf. Cyn cofrestru Atwrneiaeth Arhosol, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gwirio'r ddogfennaeth. Yn achos Atwrneiaethau Arhosol ar gyfer eiddo a materion personol, bydd yn gwirio a yw atwrnai sydd wedi'i benodi dan yr Atwrneiaeth Arhosol yn fethdalwr gan y byddai hynny'n diddymu'r awdurdod.
- 14.14 Ni fydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn dod yn gysylltiedig fel arfer wedi i rywun gofrestru Atwrneiaeth Arhosol – oni bai fod rhywun yn poeni am y modd y mae atwrnai'n cyflawni ei ddyletswyddau. Os mynegir pryderon ynghylch atwrnai, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cydweithio'n agos â chyrff fel awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaethau GIG i ymgymryd ag ymchwiliadau.

Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn arolygu dirprwyon?

- 14.15 Nid yw unigolion yn dewis pwy a fydd yn gweithredu fel dirprwy drostynt. Y llys fydd yn gwneud y penderfyniad. Ceir mesurau i sicrhau bod y llys yn penodi dirprwy priodol. Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn arolygu dirprwyon wedyn ac yn rhoi cymorth wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau, gan sicrhau hefyd na fyddant yn camddefnyddio eu swydd.
- 14.16 Pan ddaw achos gerbron y Llys Gwarchod, mae'r Ddeddf yn datgan y dylai'r llys wneud penderfyniad i setlo'r mater yn hytrach na phenodi dirprwy, os oes modd. Bydd yr angen am ddirprwy'n codi'n fwyaf aml yn achos materion ariannol lle bydd ar rywun angen awdurdod parhaus i wneud penderfyniadau am arian y person neu asedau eraill. Bydd yn haws i'r llysoedd wneud penderfyniadau mewn achosion lle mae angen un penderfyniad yn unig ynghylch lles rhywun, felly mae'n debygol na fydd cynifer o ddirprwyon ar gyfer lles personol. Ond ceir achlysuron pan fydd angen penderfyniadau olynol ynghylch lles y person, a bydd y llys yn penodi dirprwy lles personol mewn achos o'r fath (gweler pennod 8).

Senario: Penodi dirprwyon

Bu Peter mewn damwain beic modur sydd wedi achosi niwed sylweddol a pharhaol i'w ymennydd. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd ganddo o'r byd o'i gwmpas ac mae asesiad wedi dangos nad yw'n meddu ar allu i wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau drosto'i hun.

Mae angen i rywun wneud nifer o benderfyniadau am y math o driniaeth y mae ar Peter ei hangen ac ym mhle y dylid ei drin. Mae ei rieni'n teimlo nad yw staff gofal iechyd bob amser yn ystyried eu barn hwy wrth wneud penderfyniadau am y math o driniaeth sydd er y budd gorau i Peter. Felly maent yn gwneud cais i'r llys am eu penodi'n gyd-ddirprwyon lles personol.

Bydd angen gwneud llawer o benderfyniadau am ofal neu driniaeth ar ran Peter yn y dyfodol. Mae'r llys yn penderfynu na fyddai'n ymarferol gwneud penderfyniad ar wahân ar gyfer pob un ohonynt. Mae hefyd yn credu bod angen rhywfaint o ddilyniant o ran gwneud penderfyniadau ar gyfer Peter. Felly mae'n penodi rhieni Peter yn gyd-ddirprwyon lles personol.

- 14.17 Gallai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wneud gwiriadau ynghylch dirprwyon posibl os bydd y llys yn gofyn iddi wneud hynny. Bydd yn gwneud asesiad risg i bennu pa fath o arolygiaeth y bydd ei hangen ar ddirprwy ar ôl ei benodi.
- 14.18 Mae dirprwyon yn atebol i'r llys. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn arolygu gweithredoedd y dirprwy ar ran y llys, a gallai'r llys ddymuno i'r dirprwy ddarparu cyfrifon ariannol neu adroddiadau eraill i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn delio â chwynion am y modd y mae dirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'n gweithio gydag asiantaethau perthnasol i ymchwilio iddynt. Ceir gwybodaeth fanwl ym mhennod 8 am gyfrifoldebau dirprwyon.

Beth fydd yn digwydd os dywed rhywun ei fod yn poeni am atwrnai neu ddirprwy?

- 14.19 Mae llawer o bobl sydd heb allu yn debygol o gael gofal neu gefnogaeth gan amryw o asiantaethau. Hyd yn oed os yw atwrnai neu ddirprwy'n gweithredu ar ran rhywun sydd heb allu, mae'r gofaluwr eraill yn dal i fod â chyfrifoldeb i ddarparu gofal i'r person hwnnw a gweithredu er y budd gorau iddo. Os oes unrhyw un sy'n gofalu am rywun sydd heb allu, boed hynny mewn rôl gyflogedig neu fel arall, sy'n poeni am y modd y mae atwrneiod neu ddirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau, dylai gysylltu â'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Pennod 14

Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?

14.20 Nid Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fydd y corff mwyaf priodol bob amser i ymchwilio i bob cŵyn. Caiff ymchwilio i achosion ar y cyd â:

- gweithwyr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol
- gwasanaethau cymdeithasol
- cyrff GIG
- Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol yn Lloegr neu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)⁶⁴
- y Comisiwn Gofal Iechyd yn Lloegr neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac
- mewn rhai achosion, yr heddlu.

14.21 Fel arfer bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyfeirio pryderon ynghylch Atwrneiaethau Arhosol lles personol neu ddirprwyon lles personol i sylw'r asiantaeth berthnasol. Mewn rhai amgylchiadau bydd yn rhybuddio'r heddlu am achos. Pan fydd yn atgyfeirio achos, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn sicrhau bod yr asiantaeth berthnasol yn rhoi gwybod iddi am y camau y mae'n eu cymryd. Bydd hefyd yn sicrhau bod y llys yn cael yr holl wybodaeth y bydd arno ei hangen os bydd yn cymryd camau yn erbyn yr atwrnai neu'r dirprwy.

14.22 Rhai o'r sefyllfaoedd lle y gallai fod angen atgyfeirio yw:

- lle mae rhywun wedi cwyno bod atwrnai lles yn cam-drin rhoddwr yn gorfforol – byddai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyfeirio'r achos hwn i'w drafod drwy weithdrefnau amddiffyn oedolion yr awdurdod lleol perthnasol ac o bosibl i sylw'r heddlu
- lle mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cael bod twrnai a benodwyd yn ddirprwy materion ariannol dros fenyw oedrannus wedi twyllo ei hystâd – byddai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyfeirio achos o'r fath i sylw'r heddlu a Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Cymdeithas y Gyfraith.

Sut mae'r Ddeddf yn delio â chamdriniaeth ac esgeuluso bwriadol?

14.23 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dau drosedd newydd: cam-drin ac esgeuluso bwriadol mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol (adran 44). Ceir cymhwysu'r troseddau hyn i:

⁶⁴ Yn Ebrill 2007, daeth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) at ei gilydd i ffurfio Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

- unrhyw un sy'n gofalu am berson sydd heb allu – mae hyn yn cynnwys gofalwyr teuluol, staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol mewn ysbytai neu gartrefi gofal a'r rhai sy'n darparu gofal yng nghartref rhywun
- atwrnai a benodwyd dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus, neu
- ddirprwy a benodwyd ar gyfer y person gan y llys.

14.24 Gallai'r bobl hyn fod yn euog o drosedd os ydynt yn cam-drin neu'n esgeuluso'n fwriadol y person y maent yn gofalu amdano neu'n ei gynrychioli. Bydd y cosbau'n amrywio o ddirwy i ddedfryd o garchar am gyfnod o hyd at bum mlynedd – neu'r ddau.

14.25 Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn droseddau ar wahân.⁶⁵ Os yw rhywun i'w gael yn euog o gam-drin, rhaid iddo fod un ai:

- wedi cam-drin y person yn fwriadol, neu
- fod yn fyrbwyll o ran y modd yr oedd yn cam-drin y person neu beidio.

Nid yw'n bwysig a oedd yr ymddygiad yn debygol o achosi, neu a oedd wedi achosi, drwg neu niwed i iechyd y dioddefwr.

14.26 Mae ystyr 'esgeuluso bwriadol' yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau. Fel arfer mae'n golygu bod rhywun o fwriad wedi methu â chyflawni gweithred y gwyddai ei fod dan ddyletswydd i'w chyflawni.

Senario: Rhoi gwybod am gamdriniaeth

Mae Norma yn 95 oed ac mae clefyd Alzheimer arni. Ei mab, Brendan, yw ei hatwrnai lles personol dan Atwrneiaeth Arhosol. Mae nyrs ardal wedi sylwi bod Norma wedi cael cleisiau ac anafiadau eraill. Mae hi'n amau y gallai Brendan fod yn ymosod ar ei fam pan yw'n feddw. Mae'n rhybuddio'r heddlu a'r Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Lleol.

Ar ôl ymchwiliad troseddol, caiff Brendan ei gyhuddo o gam-drin ei fam. Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gwneud cais i'r llys am ddileu'r Atwrneiaeth Arhosol. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn dechrau gwneud trefniadau eraill i ofalu am Norma.

⁶⁵ *R v Newington (1990) 91 Cr App R 247, CA*

Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?

Pa fesurau eraill sy'n amddiffyn pobl rhag eu-camdrin?

14.27 Mae gan asiantaethau lleol weithdrefnau sy'n caniatáu iddynt gydweithio (a elwir yn weithio amlasiantaethol) i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed – mewn lleoliadau gofal ac mewn mannau eraill. Ceir Pwyllgorau Amddiffyn Oedolion yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae'r pwyllgorau hyn:

- yn creu polisi (gan gynnwys gweithdrefnau adrodd)
- yn goruchwyllo ymchwiliadau a gweithgareddau eraill rhwng asiantaethau
- yn cynnal hyfforddiant ar y cyd, ac
- yn monitro ac yn adolygu cynnydd.

Mae awdurdodau lleol eraill wedi datblygu Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion amlasiantaethol, sy'n cael eu rheoli gan Gydlynnydd Amddiffyn Oedolion ar wahân.

14.28 Mae Pwyllgorau a Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion yn cynnwys cynrychiolwyr y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, tai, yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill. Yn Lloegr, maent yn bwyntiau cyswllt hanfodol i unrhyw un sy'n amau bod oedolyn sy'n agored i niwed yn cael cam neu'n cael ei gam-drin. Gallant roi cyngor hefyd i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os yw'n ansicr a oes angen ymyrryd mewn achos lle mae amheuaeth o gam-drin. Yng Nghymru, nid yw Pwyllgorau a Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion yn bwyntiau cyswllt ym mhob achos, ond maent yn cyhoeddi manylion am bwyntiau cyswllt.

Pwy a ddylai wirio bod staff yn ddiogel i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed?

14.29 Dan Ddeddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006, mae gwiriadau cofnodion troseddol yn orfodol bellach ar gyfer staff sydd:

- yn cael cysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau mewn cartrefi gofal cofrestredig
- yn darparu gwasanaethau gofal personol yng nghartref rhywun, ac
- yn ymwneud â darparu cynlluniau lleoli oedolion.

14.30 Rhaid i ddarpar gyflogwyr gwblhau gwiriad cofnodion troseddol cyn cyflogi gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer pob aelod staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol newydd posibl. Mae hyn yn cynnwys staff asiantaethau nyrsio a staff asiantaethau gofal cartref.

Gweler Atodiad A lle y nodir ffynonellau gwybodaeth fwy manwl.

14.31 Mae'r rhestr Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed yn cynnwys enwau rhai sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed (yng Nghymru a Lloegr). Rhaid i gyflogwyr sy'n darparu gofal mewn lleoliad preswyl neu yng nghartref y person wirio a yw darpar weithwyr ar y rhestr.⁶⁶ Os ydynt ar y rhestr, rhaid iddynt:

- wrthod eu cyflogi, neu
- eu cyflogi mewn swydd nad yw'n eu rhoi mewn cysylltiad rheolaidd ag oedolion sy'n agored i niwed.

Mae'n drosedd i unrhyw un sydd ar y rhestr ymgeisio am swydd gofalu. Mewn achosion o'r fath, dylai'r cyflogwr roi gwybod am y person sy'n gwneud y cais.

Pwy sy'n gyfrifol am fonitro safon darparwyr gofal?

14.32 Os yw darparwr gofal yn dod dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, rhaid iddo gofrestru gyda'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol yn Lloegr neu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).⁶⁷ Mae'r asiantaethau hyn yn sicrhau bod darparwyr gofal yn cyrraedd safonau penodol. Maent yn mynnu bod darparwyr gofal yn meddu ar weithdrefnau i amddiffyn pobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Gall yr asiantaethau hyn gymryd camau os ydynt yn darganfod arferion peryglus neu anniogel a allai roi pobl mewn perygl.

14.33 Rhaid i ddarparwyr gofal feddu hefyd ar weithdrefnau cwyno effeithiol. Os na all darparwyr ddatrys cwynion, gall y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol neu AGGCC ymchwilio iddynt.

14.34 Mae'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol neu AGGCC yn asesu gweithdrefnau amddiffyn oedolion lleol o ran eu heffeithioldeb. Byddant hefyd yn monitro'r trefniadau y mae cynghorau lleol yn eu gwneud mewn ymateb i Ddeddf Safonau Gofal.

Beth yw swyddogion penodedig, a phwy sy'n eu monitro?

14.35 Gall yr Adran Gwaith a Phensiynau benodi rhywun (swyddog penodedig) i hawlio a gwario budd-daliadau ar ran rhywun⁶⁸ os yw'r person hwnnw:

⁶⁶ www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPolicyAndGuidanceArticle/fs/en?CONTENT_ID=4085855&chk=p0kQeS

⁶⁷ Gweler nodyn 64 uchod ynghylch cyfuno Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

⁶⁸ www.dwp.gov.uk/publications/dwp/2005/gl21_apr.pdf

Pennod 14

Pa ddulliau sydd ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun?

- yn cael budd-daliadau nawdd cymdeithasol neu bensiynau
- heb allu i weithredu drosto'i hun
- heb wneud Atwrneiaeth Arhosol eiddo a materion personol neu Atwrneiaeth Barhaus, ac
- os nad yw'r llys wedi penodi dirprwy ar gyfer eiddo a materion personol.

14.36 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwirio swyddogion penodedig i sicrhau y gellir ymddiried ynddynt. Bydd hefyd yn ymchwilio i unrhyw honiadau nad yw swyddog penodedig yn gweithredu'n briodol neu er y budd gorau i rywun. Gall ddiswyddo swyddog penodedig sy'n camddefnyddio ei swydd. Dylid codi unrhyw bryderon ynghylch swyddogion penodedig gyda'r asiantaeth berthnasol i'r Adran Gwaith a Phensiynau (y Ganolfan Byd Gwaith leol neu, os yw'r person yn 60 oed neu drosodd, y Gwasanaeth Pensiynau).

A oes unrhyw ddulliau amddiffyn eraill y dylai pobl fod yn ymwybodol ohonynt?

14.37 Mae nifer o ddulliau ychwanegol ar gael i amddiffyn pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun. Dylai staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol, atwrneiod a dirprwyon fod yn ymwybodol o:

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol (er enghraifft, ar gyfer gofal iechyd, cartrefi gofal, ac asiantaethau gofal cartref) sy'n gymwys i Gymru ac i Loegr (gweler paragraff 14.38)
- Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, sy'n nodi safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal penodol i grwpiau penodol (er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl⁶⁹ neu wasanaethau i bobl hŷn⁷⁰)
- gweithdrefnau cwyno ar gyfer yr holl gyrrff GIG a chynghorau lleol (gweler pennod 15)

⁶⁹ www.dh.gov.uk/assetRoot/04/07/72/09/04077209.pdf and www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=438&pid=11071

⁷⁰ www.dh.gov.uk/assetRoot/04/07/12/83/04071283.pdf and www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=439&redirect=yes&CFID=298511&CFTOKEN=6985382

- Gorchmynion Gorfodi sy'n caniatáu i gyrff diogelu defnyddwyr wneud cais am orchmynion llys i atal arferion masnachu gwael (er enghraifft, gwerthu annheg ar garreg y drws neu fasnachwyr diegwyddor).⁷¹
- Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n cymhell pobl i roi gwybod am gamarfer yn y gweithle ac yn amddiffyn pobl sy'n rhoi gwybod am gamarfer rhag eu diswyddo neu eu herlid.

14.38 Mae gwybodaeth ar gael am yr holl safonau gofynnol cenedlaethol ar wefannau'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol⁷² a'r Comisiwn Gofal Iechyd⁷³ a gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae pennod 15 yn cynnig canllawiau ar weithdrefnau cwyno. Bydd gan y gwahanol awdurdodau lleol eu systemau cwynion eu hun.

⁷¹ www.oft.gov.uk/Business/Legal/Stop+Now+Regulations.htm

⁷² www.csci.org.uk/information_for_service_providers/national_minimum_standards/default.htm

⁷³ www.healthcarecommission.org.uk/_db/_documents/The_annual_health_check_in_2006_2007_assessing_and_rating_the_NHS_200609225143.pdf

15

Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

Weithiau bydd pobl yn anghytuno ynghylch:

- gallu rhywun i wneud penderfyniad
- yr hyn sydd er y budd gorau iddo
- penderfyniad y mae rhywun yn ei wneud ar ei ran, neu
- weithred y mae rhywun yn ei chyflawni ar ei ran.

Bydd pawb ar ei ennill drwy ddatrys anghytundebau ac anghydfodau'n gyflym ac yn effeithiol, gyda'r lleiaf o straen a chost. Mae'r bennod hon yn nodi'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael i ddatrys anghytundebau. Mae hefyd yn awgrymu ffyrdd i osgoi gadael i anghytundeb droi'n anghydfod difrifol. Yn olaf, mae'n nodi pryd y gallai fod yn angenrheidiol gwneud cais i'r Llys Gwarchod a pha bryd y gall rhywun gael cyllid cyfreithiol.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

- Pan geir anghytundeb ynghylch materion sydd wedi'u cwmpasu gan y Ddeddf, y peth gorau fel arfer yw ceisio ei ddatrys cyn iddo droi'n anghydfod difrifol.
- Gall eiriolwyr roi cymorth i rywun sy'n ei chael yn anodd cyfleu ei safbwynt. (Gall fod yn rhywun y cafwyd drwy asesu ei fod heb allu.)
- Gellir datrys rhai anghytundebau'n effeithiol drwy gyfryngu.
- Os oes pryder ynghylch gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu i rywun sydd heb allu, mae dulliau ffurfiol ac anffurfiol o gwyno am y gofal neu'r driniaeth.
- Gellir gofyn i Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd neu Ombwdsmon Llywodraeth Leol (yn Lloegr) neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (yng Nghymru) ymchwilio i rai problemau sydd heb gael eu datrys drwy weithdrefnau cwyno ffurfiol.
- Fel arfer, dylid cyfeirio anghydfodau ynghylch materion ariannol rhywun sydd heb allu i sylw Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

- Os nad yw dulliau eraill o ddatrys anghytundebau'n briodol, gellir cyfeirio'r mater i sylw'r Llys Gwarchod.
- Mae rhai penderfyniadau sydd mor bwysig fel mai'r Llys Gwarchod a ddylai eu gwneud ym mhob achos.

Pa ddewisiadau sydd ar gael i ddatrys anghytundebau?

15.1 Gellir cael anghytundebau ynghylch gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau eraill sy'n ymwneud â lles rhwng:

- pobl sydd wedi asesu person a chael ei fod heb allu i wneud penderfyniad a'r person y maent wedi'i asesu (gweler pennod 4 i gael gwybod sut i herio asesiad o ddiffyg gallu)
- aelodau o'r teulu neu bobl eraill sy'n ymwneud â gofal a lles rhywun sydd heb allu
- aelodau o'r teulu a staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n ymwneud â darparu gofal neu driniaeth
- staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol sydd â barn wahanol am yr hyn sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu.

15.2 Yn gyffredinol, gellir datrys anghytundebau drwy weithdrefn ffurfiol neu un anffurfiol, ac mae mwy o wybodaeth am y ddwy yn y bennod hon. Fodd bynnag, mae rhai anghytundebau a rhai materion sydd mor bwysig fel mai dim ond y Llys Gwarchod a all eu datrys.

15.3 Y peth gorau fel arfer yw ceisio datrys anghytundebau cyn iddynt droi'n anghydfodau difrifol. Bydd llawer o bobl yn eu datrys drwy gyfathrebu'n effeithiol a chymryd amser i wrando a delio â phryderon. Yn achos anghytundebau rhwng aelodau o'r teulu, y peth gorau'n aml yw eu datrys yn anffurfiol, neu weithiau drwy gyfryngu. Os oes anghytundeb rhwng gweithwyr proffesiynol a theulu'r person dan sylw, mae'n syniad da dechrau drwy:

- nodi'r gwahanol ddewisiadau mewn modd hawdd ei ddeall
- gwahodd cydweithiwr i siarad â'r teulu a chynnig ail farn
- cynnig ceisio cyngor arbenigol annibynnol
- defnyddio eiriolwr i gefnogi a chynrychioli'r person sydd heb allu
- trefnu cynhadledd achos neu gyfarfod i drafod materion yn fanwl
- gwrando ar bryderon, eu cydnabod a rhoi sylw iddynt, ac
- os nad yw'r sefyllfa'n un frys, gadael i'r teulu gael amser i ystyried.

Pennod 15

Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

Ceir mwy o ganllawiau ar y modd i ddelio â phroblemau heb fynd i'r llys yn nhaflen wybodaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol 'Alternatives to Court'.⁷⁴

Pryd y bydd eiriolwr yn ddefnyddiol?

15.4 Mae eiriolwr yn helpu i gyfleu teimladau a barn rhywun sy'n ei chael yn anodd cyfathrebu. Dyma'r diffiniad o eiriolaeth sydd wedi'i nodi yn y Siarter Eiriolaeth sydd wedi'i mabwysiadu gan y rhan fwyaf o'r cynlluniau eirioli: Eiriolaeth yw cymryd camau i helpu pobl i ddweud beth maent am ei ddweud, sicrhau eu hawliau, sefyll dros eu buddiannau a chael gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Mae eiriolwyr a chynlluniau eirioli yn gweithio mewn partneriaeth â'r bobl y maent yn eu cefnogi ac yn sefyll o'u plaid. Mae eiriolaeth yn hybu cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol (*'Advocacy is taking action to help people say what they want, secure their rights, represent their interests and obtain services they need. Advocates and advocacy schemes work in partnership with the people they support and take their side. Advocacy promotes social inclusion, equality and social justice.'*)⁷⁵

Mae'n bosibl y bydd eiriolwr yn gallu helpu i ddatrys anghytundeb dim ond drwy gyfleu teimladau rhywun i'w deulu, i ofalwyr neu i weithwyr proffesiynol. Darperir y rhan fwyaf o wasanaethau eirioli gan y sector gwirfoddol ac fe'u trefnir ar lefel leol. Nid oes unrhyw gysylltiad rhyngddynt ac unrhyw asiantaeth sy'n ymwneud â'r person.

15.5 Drwy ddefnyddio eiriolwyr, gellir helpu pobl sy'n ei chael yn anodd cyfathrebu (gan gynnwys y rhai y cafwyd drwy asesu eu bod heb allu) i:

- ddweud beth maent am ei ddweud
- mynnu eu hawliau
- cael rhywun i sefyll dros eu buddiannau
- cael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

15.6 Gall eiriolwr fod â rhan mewn cefnogi'r person yn ystod cyfnod o gyfryngu (gweler paragraffau 15.7–15.13 isod) neu helpu gyda gweithdrefnau cwyno. Weithiau bydd hawl gyfreithiol gan rai sydd heb allu neu rai y cafwyd drwy asesu eu bod heb allu i gael eiriolwr, er enghraifft:

⁷⁴ CLS (Community Legal Services) Direct Information Leaflet Number 23, www.clsdirect.org.uk/legalhelp/leaflet23.jsp?lang=en

⁷⁵ Advocacy across London, *Advocacy Charter* (2002)

- wrth wneud cŵyn ffurfiol yn erbyn y GIG (gweler paragraff 15.18), a
- lle mae'r Ddeddf yn mynnu bod Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGM) yn cymryd rhan (gweler pennod 10).

Pryd y bydd cyfryngu'n ddefnyddiol?

- 15.7** Mae cyfryngwr yn helpu pobl i ddod i gytundeb sy'n dderbyniol gan bob parti. Gall cyfryngu fod o gymorth i ddatrys problem yn gynnar. Mae'n cynnig mwy o ddewis o atebion nag y gall llys ei roi – a gall beri llai o straen i'r holl bartïon, a bod yn fwy cost-effeithiol ac yn gyflymach. Mae pobl sy'n dod i gytundeb drwy gyfryngu'n fwy tebygol o gadw ato, am eu bod wedi cymryd rhan mewn penderfyniad.
- 15.8** Mae cyfryngwyr yn annibynnol. Ni chânt unrhyw fudd personol o ganlyniad yr achos. Nid ydynt yn gwneud penderfyniadau nac yn gorfodi atebion. Bydd y cyfryngwr yn penderfynu a yw'r achos yn addas ar gyfer cyfryngu. Bydd yn ystyried pa mor debygol yw hi y ceir llwyddiant a'r angen i ddiogelu buddiannau'r person sydd heb allu.
- 15.9** Mae unrhyw achos y gellir ei setlo drwy negodi'n debygol o elwa o gyfryngu. Mae'n fwyaf addas pan nad yw pobl yn cyfathrebu'n dda neu pan nad ydynt yn deall safbwynt ei gilydd. Gall wella perthnasoedd ac atal anghydfodau yn y dyfodol, felly mae'n ddewis da os yw er y budd gorau i rywun bod cysylltiadau da rhwng pobl yn y dyfodol.

Senario: Defnyddio cyfryngu

Mae demensia ar Mrs Roberts ac nid yw'n meddu ar allu i benderfynu ym mhle y dylai fyw. Mae'n byw gyda'i mab ar hyn o bryd. Ond mae ei merch wedi dod o hyd i gartref gofal lle mae'n credu y bydd ei mam yn cael gwell gofal. Mae ei brawd yn anghytuno.

Mae'r anghydfod teuluol hwn yn peri gofid i Mrs Roberts, felly mae ei mab a'i merch yn penderfynu rhoi cynnig ar gyfryngu. Mae'r cyfryngwr yn credu bod Mrs Roberts yn medru cyfleu ei theimladau ac mae'n cytuno i ymgymryd â'r achos. Yn ystod y sesiynau, mae'r cyfryngwr yn eu helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd er y budd gorau i'w mam yn hytrach na gwthio eu barn eu hun. Yn y diwedd, mae pawb yn cytuno y dylai Mrs Roberts barhau i fyw gyda'i mab. Ond maent yn cytuno i adolygu'r sefyllfa eto ymhen chwe mis i weld a allai'r cartref gofal fod yn fwy llesol iddi.

Pennod 15

Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

- 15.10** Yn y broses cyfryngu, rhaid i bawb gymryd rhan i'r un graddau hyd y bo modd, fel bod y cyfryngwr yn gallu helpu pawb sy'n gysylltiedig i ganolbwyntio ar yr hyn sydd er y budd gorau i'r person dan sylw. Gallai fod yn briodol cynnwys eiriolwr yn y broses hefyd i helpu i roi gwybod am dduniadau'r person sydd heb allu.
- 15.11** Mae Llinell Gymorth Genedlaethol Cyfryngu⁷⁶ yn helpu galwyr i ganfod dull effeithiol o ddatrys y broblem sydd ganddynt heb fynd i'r llys. Bydd yn trefnu apwyntiad gyda chyfryngwr sydd wedi'i hyfforddi a'i achredu. Mae'r Llinell Gymorth Cyfryngu Teuluol⁷⁷ yn gallu darparu gwybodaeth am gyfryngu teuluol ac atgyfeiriadau i wasanaethau cyfryngu teuluol lleol. Mae cyfryngwyr teuluol wedi'u hyfforddi i ddelio ag anghenion emosiynol, ymarferol ac ariannol y rhai sy'n profi chwalfa mewn perthynas.
- 15.12** Caiff staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gymryd rhan mewn prosesau cyfryngu hefyd. Ond gallai fod yn fwy priodol dilyn y gweithdrefnau cwyno perthnasol ar gyfer gofal iechyd neu ofal cymdeithasol (gweler paragraffau 15.14–15.32).
- 15.13** Mewn rhai sefyllfaoedd (mewn cyfryngu teuluol yn bennaf), mae'n bosibl y bydd cymorth cyfreithiol ar gael i dalu am wasanaeth cyfryngu i bobl sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cymhwyso (gweler paragraffau 15.38–15.44).

Sut y gall rhywun gwyno am ofal iechyd?

- 15.14** Mae dulliau ffurfiol ac anffurfiol o gwyno am ofal iechyd neu driniaeth cleifion. Rhaid i staff gofal iechyd ac eraill wybod pa ddulliau sy'n addas i sefyllfaoedd penodol.
- 15.15** Yn Lloegr, mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion yn cynnig dull anffurfiol o ddelio â phroblemau cyn iddynt gyrraedd man lle mae angen cyflwyno cŵyn. Mae'r gwasanaeth hwn ar waith ym mhob Ymddiriedolaeth GIG ac Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol yn Lloegr. Mae'n darparu cyngor a gwybodaeth i gleifion (neu eu perthnasau neu ofalwyr) i geisio datrys problemau'n gyflym. Gall gyfeirio pobl at wasanaethau cefnogaeth arbenigol (er enghraifft, eiriolwyr, timau cefnogi iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau cyfieithu). Nid yw'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion yn ymchwilio i gwynion. Ei rôl yw egluro gweithdrefnau cwyno a chyfeirio pobl i broses gwyno ffurfiol y GIG, os oes angen. Mae gweithdrefnau cwyno'r GIG yn delio â chwynion am rywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol sy'n galw am ymddiheuriad neu esboniad. Ni all llys helpu

⁷⁶ Llinell Gymorth Genedlaethol Cyfryngu, ffôn: 0845 60 30 809, www.nationalmediationhelpline.com

⁷⁷ Llinell Gymorth Cyfryngu Teuluol, ffôn: 0845 60 26 627, www.familymediationhelpline.co.uk

mewn sefyllfa o'r fath, ond efallai y bydd angen cynnal achos llys mewn rhai achosion o esgeulustod clinigol (gweler paragraff 15.22).

- 15.16 Yng Nghymru, mae eiriolwyr cwynion sy'n gweithio mewn Cyngorau Iechyd Cymuned yn darparu cyngor a chefnogaeth i unrhyw un sydd â phryderon ynghylch triniaeth a gafodd.

Anghytundebau ynghylch triniaethau sydd wedi'u hargymell

- 15.17 Os nad yw'r achos yn un brys, mae'n bosibl y bydd awyrgylch cefnogol y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion o gymorth i'w setlo. Yng Nghymru, mae'n bosibl y bydd y Cyngor Iechyd Cymuned lleol yn gallu helpu. Ond os yw'r achos yn un brys sy'n ymwneud â thriniaeth sylweddol sydd wedi'i hargymell, efallai y bydd angen mynd ag ef i'r Llys Gwarchod (gweler paragraffau 15.35–15.36).

Senario: Anghytuno ynghylch triniaeth neu asesiad

Mae clefyd Alzheimer ar Mrs Thompson ac nid yw am gael pigiad rhag y ffliw. Mae ei merch yn credu y dylai gael y pigiad. Nid yw'r meddyg yn dymuno mynd yn groes i ddymuniadau ei glaf, am ei fod yn credu ei bod yn meddu ar allu i wrthod triniaeth.

Mae merch Mrs Thompson yn mynd at y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion. Mae aelod staff yn rhoi cyngor a gwybodaeth iddi am yr hyn a olygir wrth allu i gydsynio i dderbyn triniaeth neu ei gwrthod, ac mae'n dweud wrthi sut i gael gwybodaeth am y pigiad ffliw. Mae staff y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion yn siarad â'r meddyg, ac wedyn maent yn egluro ei asesiad clinigol i ferch Mrs Thompson.

Mae'r ferch yn dal i fod yn anfodlon. Mae staff y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion yn ei hysbysu y gall y Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol ei helpu os yw'n dymuno gwneud cŵyn.

Gweithdrefn gwyno ffurfiol y GIG

- 15.18 Mae gweithdrefn gwyno ffurfiol y GIG yn delio â chwynion am wasanaethau'r GIG sydd wedi'u darparu gan gyrrff GIG neu ymarferwyr gofal sylfaenol. Fel cam cyntaf, dylai pobl geisio setlo anghytundeb drwy drafodaeth anffurfiol rhwng:

- y staff gofal iechyd sy'n gysylltiedig
- y person a allai fod heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw (gyda rhywun i'w gefnogi, os oes angen)
- ei ofalwyr, ac
- unrhyw berthnasau priodol.

Pennod 15

Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

Os nad yw'r person sy'n cwyno'n fodlon, gallai'r Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol roi cymorth. Yng Nghymru, bydd yr eiriolwyr cwynion sy'n gweithio mewn Cyngorau Iechyd Cymuned yn rhoi cyngor a chefnogaeth i unrhyw un sydd am wneud cŵyn.

15.19 Yn Lloegr, os yw'r person yn dal i fod yn anfodlon ar ôl ymchwiliad lleol, gall ofyn am adolygiad annibynnol gan y Comisiwn Gofal Iechyd. Os yw neu os oedd y claf sy'n gysylltiedig â'r gŵyn wedi'i gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gellir gofyn i Gomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl ymchwilio i'r gŵyn. Os yw rhywun yn dal i fod yn anfodlon ar ôl hynny, gall fynd at Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd. Mae mwy o wybodaeth ar gael am y modd i wneud cŵyn yn Lloegr gan yr Adran Iechyd.

15.20 Yng Nghymru, os yw cleifion yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cael ymchwiliad lleol, gallant ofyn am adolygiad annibynnol o'u cŵyn gan adolygwyr lleyg annibynnol. Wedi hynny, gallant fynd â'u hachos at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gall pobl fynd â'u cŵyn at yr Ombwdsmon yn uniongyrchol:

- os yw'r gŵyn yn ymwneud â gofal neu driniaeth a ddigwyddodd ar ôl 1 Ebrill 2006, ac
- os ydynt wedi ceisio datrys y broblem yn lleol yn gyntaf.

Caiff Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd ymchwilio i gwynion am ofal neu driniaeth cleifion sydd wedi'u cadw yng Nghymru, os cafwyd ymdrechion i gael ateb i'r gŵyn yn lleol heb lwyddiant.

15.21 Nid yw rheoliadau ynghylch ceisio cael ateb i gwynion yn lleol yn gyntaf yn gymwys i Ymddiriedolaethau Sefydledig y GIG. Ond mae'r Ymddiriedolaethau hyn wedi'u cynnwys yng ngham yr adolygiad annibynnol yn y broses sy'n cael ei gweithredu gan y Comisiwn Gofal Iechyd a gan Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd. Os oes gan rywun gŵyn am un o Ymddiriedolaethau Sefydledig y GIG, dylai gysylltu â'r Ymddiriedolaeth i gael cyngor am y modd i wneud cŵyn.

Achosion am esgeulustod clinigol

15.22 Mae Awdurdod Ymglyfreitha'r GIG yn goruchwyllo'r holl achosion am esgeulustod clinigol sy'n cael eu dwyn yn erbyn y GIG yn Lloegr. Mae'n cymhell pobl i roi cynnig ar ddulliau eraill o setlo cwynion cyn mynd i'r llys. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn annog pobl i roi cynnig ar ddulliau eraill o setlo cwynion cyn mynd i'r llys.

Sut y gall rhywun gwyno am ofal cymdeithasol?

- 15.23** Mae gweithdrefn gwyno gwasanaethau cymdeithasol wedi'i diwygio. Daeth y weithdrefn ddiwygiedig i rym ar 1 Medi 2006 yn Lloegr ac ar 1 Ebrill 2006 yng Nghymru.
- 15.24** Dylai gweithdrefn gwyno'r darparwr gwasanaethau ddelio â chwynion am:
- y dull o ddarparu gwasanaethau gofal
 - y math o wasanaethau a ddarperir, neu
 - fethiant i ddarparu gwasanaethau.
- 15.25** Mae asiantaethau gofal sydd wedi'u contractio gan awdurdodau lleol neu eu cofrestru gyda'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol yn Lloegr ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru dan orfodaeth gyfreithiol i feddu ar eu gweithdrefnau eu hun ar gyfer cwynion ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys cartrefi preswyl, asiantaethau sy'n darparu gofal yng nghartrefi pobl, asiantaethau nyrso a chynlluniau lleoliadau oedolion. Dylai'r gweithdrefnau nodi sut i wneud cŵyn a beth i'w wneud â chŵyn na ellir ei setlo'n lleol.

Gweithdrefnau cwyno awdurdodau lleol

- 15.26** Yn achos gwasanaethau sydd wedi'u contractio gan awdurdod lleol, gallai fod yn fwy priodol defnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol. Enghraifft syml o hynny yw sefyllfa lle mae awdurdod lleol yn lleoli rhywun mewn cartref gofal a lle nad yw teulu'r person hwnnw'n fodlon ar y lleoliad. Os nad yw eu cŵyn yn ymwneud â'r gwasanaethau y mae'r cartref yn eu darparu (er enghraifft, gallai ymwneud ag asesiad yr awdurdod lleol o anghenion y person), gallai fod yn fwy priodol defnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol.
- 15.27** Fel cam cyntaf, dylai pobl geisio datrys anghytundeb drwy drafodaeth anffurfiol, gan gynnwys:
- y gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig
 - y person a allai fod heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw (gyda rhywun i'w gefnogi, os oes angen)
 - ei ofalwyr, ac
 - unrhyw berthnasau priodol.

Pennod 15

Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

15.28 Os nad yw'r person sy'n gwneud y gŵyn wedi'i fodloni, bydd yr awdurdod lleol yn cynnal ymchwiliad ffurfiol gan ddefnyddio ei weithdrefn gwyno. Yn Lloegr, ar ôl y cam hwn, gall Panel Adolygu Cwynion gwasanaethau cymdeithasol wrando'r achos. Yng Nghymru gellir cyfeirio cwynion i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gael gwrandawriad gan banel annibynnol.

Cwynion eraill am ofal cymdeithasol

15.29 Gall pobl fynd â'u cŵyn at y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol yn Lloegr neu at Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

- os yw'r gŵyn yn ymwneud â pheidio ag ufuddhau i reoliadau neu gyflawni safonau gofynnol cenedlaethol, ac
- os nad yw'r rhai a wnaeth y gŵyn yn fodlon ar weithdrefn gwyno'r darparwr neu'r ymateb i'w cŵyn.

15.30 Os yw'r gŵyn yn ymwneud â gweinyddu gan awdurdod lleol, ceir ei chyfeirio i sylw'r Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yn Lloegr (Ombwdsmon Llywodraeth Leol) neu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Beth fydd yn digwydd os yw'r gŵyn yn cwmpasu gofal iechyd a gofal cymdeithasol?

15.31 Gall y broses o fynd â chŵyn drwy weithdrefnau cwyno'r GIG neu'r awdurdod lleol fod yn un gymhleth – yn enwedig os yw'r gŵyn yn ymwneud â nifer o ddarparwyr gwasanaethau neu ofal iechyd yn ogystal â gofal cymdeithasol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, rhaid i awdurdodau lleol a'r GIG gydweithio a chytuno ar ba gorff a fydd yn arwain wrth drafod y gŵyn. Os na fydd rhywun yn fodlon ar y canlyniad, gall fynd â'i achos at Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd neu at Ombwdsmon Llywodraeth Leol (yn Lloegr). Ceir canllawiau sy'n nodi sut y dylai cyrff gydweithio i drafod cwynion sy'n ymwneud â gofal iechyd a gofal cymdeithasol (*Learning from Complaints yn Lloegr a Gwrando a dysgu yng Nghymru*). Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn trafod cwynion sy'n cwmpasu gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Pwy all drafod cwynion ynghylch materion eraill sy'n ymwneud â lles?

15.32 Mae'r Ombwdsmon Tai Annibynnol yn delio â chwynion am landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn Lloegr. Mae hyn yn gymwys i gymdeithasau tai gan mwyaf. Ond mae hefyd yn gymwys i lawer o landlordiaid sy'n rheoli cartrefi a oedd cynt yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol a rhai landlordiaid preifat. Yng Nghymru, mae

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn delio â chwynion am landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ceir cyfeirio cwynion am awdurdodau lleol i sylw Ombwdsmon Llywodraeth Leol yn Lloegr neu i sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Maent yn ystyried cwynion am benderfyniadau ynghylch tai cyngor, gwasanaethau cymdeithasol, Budd-dal Tai a cheisiadau cynllunio. Mae mwy o wybodaeth ar gael am gyflwyno cwynion i Ombwdsmon ar y gwefannau perthnasol (gweler Atodiad A).

Beth yw'r dull gorau o drafod anghytundeb ynghylch materion ariannol rhywun?

15.33 Rhai enghreifftiau o anghytundebau ynghylch materion ariannol rhywun yw:

- anghydfodau ynghylch y swm o arian y dylai rhywun sydd heb allu ei dalu i'w ofalwr
- anghydfodau ynghylch a ddylai rhywun sydd heb allu werthu ei dŷ
- rhywun yn amau gweithredoedd gofalwr, a allai fod yn defnyddio arian rhywun sydd heb allu mewn modd amhriodol neu heb awdurdod priodol
- rhywun yn amau gweithredoedd atwrnai sydd wedi'i benodi dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus neu ddirprwy a benodwyd gan y llys.

15.34 Ym mhob un o'r amgylchiadau uchod, y modd mwyaf priodol i weithredu fel arfer fyddai cysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gael cyngor a chyfarwyddyd. Gweler pennod 14 lle y mae mwy o fanylion am rôl Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Sut y gall y Llys Gwarchod helpu?

15.35 Mae'r Llys Gwarchod yn delio â phob maes penderfynu ar gyfer oedolion sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hun (gweler pennod 8 i gael mwy o wybodaeth am ei rolau a'i gyfrifoldebau). Ond nid y llys yw'r lle priodol bob amser i ddatrys problemau sy'n ymwneud â phobl sydd heb allu. Gallai dulliau eraill o ddatrys anghytundebau fod yn fwy priodol a pheri llai o ofid.

15.36 Mae rhai penderfyniadau sydd mor bwysig fel mai'r llys a ddylai eu gwneud bob amser. Mae mathau eraill o achosion hefyd y dylai'r llys ddelio â hwy gan na fyddai dull arall yn addas fel arfer. Gweler pennod 8 i gael mwy o wybodaeth am y ddau fath o achos.

Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

Hawl i Apelio

15.37 Mae adran 53 o'r Ddeddf yn disgrifio'r hawliau i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaeth y Llys Gwarchod. Mae mwy o fanylion yn Rheolau'r Llys Gwarchod. Gallai fod yn beth doeth gofyn am gyngor cyfreithiol os yw rhywun yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y llys.

A fydd cyllid cyfreithiol cyhoeddus ar gael?

15.38 Yn ôl eu sefyllfa ariannol, wedi i'r Ddeddf ddod i rym gallai pobl fod â'r hawl i gael:

- cyngor cyfreithiol wedi'i ariannu'n gyhoeddus gan dwrneiod sydd wedi'u hachredu neu asiantaethau cynghori
- cynrychiolaeth gyfreithiol gerbron y Llys Gwarchod newydd (yn yr achosion mwyaf difrifol).

Mae gwybodaeth ar gael am dwrneiod a chyrrff sy'n rhoi cyngor ar wahanol feysydd cyfreithiol gan Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS Direct).⁷⁸ Gellir cael mwy o wybodaeth am gymorth cyfreithiol a chyllid cyhoeddus gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.⁷⁹ Mae'r manylion cysylltu llawn yn Atodiad A.

15.39 Bydd angen cyfaill cyfreitha ar bobl sydd heb allu i gyfarwyddo twrnai neu gynnal eu hachos eu hun. Gallai'r person hwn fod yn berthynas, yn ffrind, yn atwrnai neu'r Twrnai Swyddogol (os nad yw unrhyw un arall ar gael). Mae'r cyfaill cyfreitha yn gallu cyfarwyddo'r twrnai a chynnal yr achos ar ran rhywun sydd heb allu i roi cyfarwyddiadau. Os yw'r person yn gymwys i gael cyllid cyfreithiol cyhoeddus, gall y cyfaill cyfreitha hawlio cyllid ar ei ran.

⁷⁸ Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, ffôn: 0845 345 4 345, www.clsdirect.org.uk

⁷⁹ www.legalservices.gov.uk

Pryd y gall rhywun gael help cyfreithiol?

15.40 Mae help cyfreithiol yn fath o gymorth cyfreithiol (cyllid cyhoeddus) sy'n talu am gyngor a chymorth mewn cysylltiad â materion cyfreithiol, gan gynnwys rhai sy'n effeithio ar rywun sydd heb allu. Ond nid yw'n darparu cynrychiolaeth ar gyfer gwrandawriad llys llawn, er bod math o gyllid sy'n gysylltiedig o'r enw 'cymorth yn y llys' y gellir ei ddefnyddio i dalu am gynrychiolydd cyfreithiol sy'n gallu siarad mewn llys yn anffurfiol ar ran y cleient. I fod yn gymwys i gael help cyfreithiol, rhaid i geisyddion ddangos:

- eu bod yn cael budd-daliadau nawdd cymdeithasol penodol, neu eu bod yn ennill llai na swm penodol ac nad oes ganddynt gynilion neu asedau ariannol eraill sy'n fwy na swm penodol
- y byddent yn cael digon o fudd o gyngor cyfreithiol i gyfiawnhau ei gost, ac
- na allant gael math arall o gyllid.

15.41 Gall help cyfreithiol gynnwys:

- cymorth gan dwrnai neu gynrychiolydd arall o ran ysgrifennu llythyrau
- mewn amgylchiadau eithriadol, cael barn bargyfreithiwr, a
- chymorth i baratoi ar gyfer gwrandawriadau'r Llys Gwarchod.

15.42 Ni ellir cael help cyfreithiol i wneud Atwrneiaeth Arhosol neu benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Ond gellir cael cymorth a gwybodaeth gyffredinol gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Ni all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus roi cyngor cyfreithiol neu arbenigol Er enghraifft, ni fydd yn gallu cynghori rhywun ynghylch y pwerau y dylai eu dirprwyo i'w atwrnai dan Atwrneiaeth Arhosol.

Pryd y gall rhywun gael cynrychiolaeth gyfreithiol?

15.43 Bydd cyllid cyhoeddus ar gael ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn y Llys Gwarchod gan dwrneiod sydd â chontract perthnasol – ond dim ond ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol. Fel arfer bydd ceisyddion yn wynebu'r un prawf ag ar gyfer help cyfreithiol er mwyn dangos eu bod yn gymwys i gael cymorth ariannol (paragraff 15.40). Yn gyffredinol, byddant yn gorfod bodloni meini prawf mwy manwl na'r rhai ar gyfer rhai sy'n ceisio help cyfreithiol, a'r rheini'n ymwneud, er enghraifft, â'u rhagolygon am lwyddiant, a yw cynrychiolaeth gyfreithiol yn angenrheidiol a'r gost a'r budd o gael eu cynrychioli. Byddant hefyd yn gorfod dangos na ellid bod wedi dwyn neu ariannu'r achos mewn modd arall ac nad oes dewisiadau yn lle achos llys y dylid ymchwilio iddynt yn gyntaf.

- 15.44 Bydd cyllid cyhoeddus ar gael o hyd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn achosion lles personol difrifol a oedd cynt yn cael eu gwrandio yn yr Uchel Lys pan gaiff y rhain eu trosglwyddo i'r Llys Gwarchod. Bydd yr achosion hynny'n ymwneud fel arfer â rhyddid personol, penderfyniadau pwysig ynghylch lles neu driniaeth feddygol i rywun sydd heb allu. Ond gallai cynrychiolaeth gyfreithiol fod ar gael mewn mathau eraill o achosion hefyd, yn ôl yr amgylchiadau neilltuol.

Pennod 15

Beth yw'r dulliau gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynghylch materion y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu?

16

Pa reolau sy'n llywodraethu'r hawl i weld gwybodaeth am rywun sydd heb allu?

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ynghylch:

- pa wybodaeth bersonol am rywun sydd heb allu y mae gan bobl sy'n ymwneud â'u gofal yr hawl i'w gweld, a
- sut y gallant gael yr wybodaeth honno.

Arweiniad cyffredinol yn unig a geir yn y bennod hon. Nid yw'n rhoi gwybodaeth fanwl am y gyfraith. Nid yw ychwaith yn cymryd lle canllawiau proffesiynol neu ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Ddeddf Diogelu Data 1998 (mae'r canllawiau hyn ar gael ar ei gwefan, gweler Atodiad A). Os oes angen, dylai pobl gymryd cyngor cyfreithiol.

Mae'r bennod hon wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer rhai fel gofalwyr teuluol a gofalwyr eraill, dirprwyon ac atwrneiod, sy'n cynrychioli neu'n gofalu am rywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol ac, yn neilltuol, rhai sydd heb y gallu i ganiatáu datgelu gwybodaeth amdanynt. Mae gan weithwyr proffesiynol eu codau ymarfer eu hun, ac mae'n bosibl y bydd cefnogaeth ar gael iddynt gan arbenigwyr yn y cyrff y maent yn aelodau ohonynt.

Yn y bennod hon, ac yn y Cod drwyddo draw, mae gallu (neu ddiffyg gallu) rhywun yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei gwneud.

Crynodeb

Cwestiynau i'w gofyn wrth geisio gwybodaeth bersonol am rywun a allai fod heb allu

- A wyf yn gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol neu fel dirprwy sydd ag awdurdod penodol?
- A yw'r person yn meddu ar allu i gydsynio i'r wybodaeth honno gael ei datgelu? A yw wedi cydsynio i'r wybodaeth gael ei datgelu o'r blaen?
- Pa wybodaeth y mae arnaf ei hangen?

Pennod 16

Pa reolau sy'n llywodraethu'r hawl i weld gwybodaeth am rywun sydd heb allu?

- Pam y mae arnaf ei hangen?
- Gan bwy y mae'r wybodaeth?
- A wyf yn gallu dangos:
 - bod arnaf angen yr wybodaeth i wneud penderfyniad sydd er y budd gorau i'r person yr wyf yn gweithredu ar ei ran, ac
 - nad yw'r person yn meddu ar allu i weithredu drosto'i hun?
- A oes angen imi rannu'r wybodaeth ag unrhyw un arall i wneud penderfyniad sydd er y budd gorau i'r person sydd heb allu?
- A ddylwn gadw cofnod o'm penderfyniad neu fy ngweithred?
- Am ba hyd y dylwn gadw'r wybodaeth?
- A oes gennyf hawl i geisio'r wybodaeth dan adran 7 o Ddeddf Diogelu Data 1998?

Cwestiynau i'w gofyn wrth ystyried a ddylid datgelu gwybodaeth

- A yw'r cais yn dod dan adran 7 o Ddeddf Diogelu Data 1998? A yw'r cais yn un gan gynrychiolydd sydd wedi'i awdurdodi'n ffurfiol?

Os nad yw:

- A yw'n gyfreithlon datgelu'r wybodaeth?
- A oes cyfiawnhad dros ddatgelu'r wybodaeth, ar ôl cydbwysu'r hyn sydd er y budd gorau i'r person a'r budd cyhoeddus yn erbyn hawl y person i breifatrwydd?

Cwestiynau i'w gofyn er mwyn penderfynu a oes cyfiawnhad dros ddatgelu'r wybodaeth ac a yw'n gyfreithlon

- A yw'r wybodaeth gennyf fi (neu'r corff yr wyf yn perthyn iddo)?
- A wyf wedi fy modloni bod y person dan sylw heb allu i gydsynio i ddatgelu'r wybodaeth?
- A oes gan y person sy'n ceisio'r wybodaeth unrhyw awdurdod ffurfiol i weithredu ar ran y person sydd heb allu?
- A wyf wedi fy modloni bod y person sy'n gwneud y cais:
 - yn gweithredu er y budd gorau i'r person dan sylw?
 - yn un y mae arno angen yr wybodaeth er mwyn gweithredu'n briodol?
 - yn un a fydd yn parchu cyfrinachedd?
 - yn un na fydd yn cadw'r wybodaeth yn hwy nag y mae angen?
- A ddylwn gael cadarnhad ysgrifenedig o'r pethau hyn?

Pa ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio ar yr hawl i weld gwybodaeth?

- 16.1 Gallai rhai sy'n gofalu am rywun sydd heb allu, neu'n rheoli ei faterion ariannol, fod ag angen gwybodaeth er mwyn:
- asesu gallu'r person i wneud penderfyniad penodol
 - penderfynu beth sydd er y budd gorau i'r person, a
 - gwneud penderfyniadau priodol ar ran y person.
- 16.2 Bydd yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau. Er enghraifft:
- bydd merch sy'n gofalu'n llawn amser am riant oedrannus yn gwneud penderfyniadau ar sail ei phrofiad a'i gwybodaeth ei hun am ei riant
 - efallai y bydd angen i ddirprwy gael gwybodaeth gan bobl eraill. Er enghraifft, os oedd yn penderfynu a oedd angen i'r person symud i gartref gofal neu a ddylai werthu cartref y person hwnnw, efallai y byddai angen iddo gael gwybodaeth gan aelodau'r teulu, meddyg y teulu, banc y person a'i dwrnai er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y penderfyniad er y budd gorau i'r person.
- 16.3 Mae llawer o'r wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniadau dan y Ddeddf yn sensitif neu'n gyfrinachol. Mae'n cael ei rheoleiddio gan:
- Ddeddf Diogelu Data 1998
 - dyletswydd cyfrinachedd dan gyfraith gwlad
 - codau ymddygiad proffesiynol ar gyfrinachedd, a
 - Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), sy'n golygu nad yw ond yn gyfreithlon datgelu gwybodaeth bersonol am rywun:
 - os oes bwriad dilys wrth wneud hynny
 - os byddai cymdeithas ddemocrataidd yn credu bod hynny'n angenrheidiol, ac
 - os yw'r math o wybodaeth a'i maint yn berthnasol i'r angen.

Pa wybodaeth y mae gan bobl hawl i'w gweld fel arfer?

- 16.4** Mae adran 7 o Ddeddf Diogelu Data 1998 yn rhoi i bawb yr hawl i weld gwybodaeth bersonol amdanynt sydd wedi'i dal gan gorff. Maent hefyd yn cael awdurdodi rhywun arall i weld eu gwybodaeth ar eu rhan. Mae'r person sy'n dal yr wybodaeth dan ddyletswydd gyfreithiol i'w rhyddhau. Felly, os yw'n bosibl, mae'n bwysig ceisio cael cydsyniad y person cyn gwneud cais am weld gwybodaeth amdano.
- 16.5** Efallai y bydd y person yn meddu ar allu i gydsynio i rywun gael gweld ei wybodaeth bersonol, hyd yn oed os nad yw'n meddu ar allu i wneud penderfyniadau eraill. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosibl y bydd rhywun wedi rhoi caniatâd o'r blaen (pan oedd yn dal i fod â gallu) i rywun gael gweld ei wybodaeth bersonol yn y dyfodol.
- 16.6** Ni all meddygon a chyfreithwyr rannu gwybodaeth am eu cleientiaid, neu wybodaeth y mae cleientiaid wedi'i rhoi iddynt, heb gael caniatâd gan y cleient. Weithiau mae'n deg cymryd bod meddyg neu gyfreithiwr eisoes wedi cael caniatâd gan rywun (er enghraifft, nid yw cleifion fel arfer yn disgwyl i staff gofal iechyd neu gyfreithwyr proffesiynol ofyn eu caniatâd bob tro y byddant yn rhannu gwybodaeth ag un o'u cydweithwyr – ond efallai y bydd staff yn dewis cael caniatâd ysgrifenedig gan y cleient pan fyddant yn dechrau trin y person hwnnw neu weithredu ar ei ran). Ond mewn amgylchiadau eraill, rhaid i feddygon a chyfreithwyr gael caniatâd penodol i 'ddatgelu' gwybodaeth (ei rhannu â rhywun arall).
- 16.7** Os yw gallu rhywun yn newid o bryd i'w gilydd, efallai y bydd yr un sydd ag angen yr wybodaeth yn dymuno aros hyd nes bydd y person hwnnw'n gallu rhoi ei ganiatâd. Neu efallai y bydd yn penderfynu nad oes angen gweld gwybodaeth o gwbl, os bydd y person yn gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun yn y dyfodol.
- 16.8** Os nad yw rhywun yn meddu ar allu i roi caniatâd, mae'n bosibl, er hynny, y bydd rhywun arall yn cael gweld ei wybodaeth bersonol. Bydd hyn y dibynnu ar y canlynol:
- a yw'r person sy'n ceisio'r wybodaeth yn gweithredu fel asiant (cynrychiolydd sydd wedi'i gydnabod gan y gyfraith, fel dirprwy neu atwrnai) dros y person sydd heb allu
 - a yw'r datgelu er y budd gorau i'r person sydd heb allu, a
 - pha fath o wybodaeth a geisiwyd.

Pennod 16

Pa reolau sy'n llywodraethu'r hawl i weld gwybodaeth am rywun sydd heb allu?

Pryd y gall atwrneiod a dirprwyon ofyn am gael gweld gwybodaeth bersonol?

- 16.9** Mae dirprwy sy'n gweithredu dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus ddilys (a dirprwy weithiau) yn gallu gofyn am gael gweld gwybodaeth am y person y mae'n ei gynrychioli, ar yr amod bod yr wybodaeth yn gymwys i benderfyniadau y mae gan yr atwrnai hawl gyfreithiol i'w gwneud.
- 16.10** Yn ymarferol, mae'n bosibl mai dim ond ychydig o wybodaeth y bydd ar atwrnai neu ddirprwy ei angen ac na fydd angen iddo wneud cais ffurfiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall gysylltu'n anffurfiol â'r sawl sy'n dal yr wybodaeth. Ar ôl cael ei fodloni bod y cais yn un gan atwrnai neu ddirprwy (wedi iddo weld awdurdod priodol), dylai'r person sy'n dal gwybodaeth fod mewn lle i allu ei rhyddhau. Bydd yr atwrnai neu ddirprwy'n dal i allu gwneud cais ffurfiol am wybodaeth yn y dyfodol.
- 16.11** Rhaid i'r atwrnai neu ddirprwy drin yr wybodaeth yn gyfrinachol. Dylai fod yn ofalus dros ben i'w diogelu. Os bydd yn methu â gwneud hynny, gall y llys ddileu'r Atwrneiaeth Arhosol neu'r ddirprwyaeth.
- 16.12** Cyn i'r Ddeddf ddod i rym, dim ond ychydig o dderbynwyr a oedd wedi'u penodi gyda'r awdurdod cyffredinol i reoli eiddo rhywun a'i faterion personol. Felly roedd angen iddynt gael awdurdod penodol gan y Llys Gwarchod i ofyn am gael gweld gwybodaeth bersonol y person. Yn yr un modd, ni fydd dirprwy sydd ag awdurdod i weithredu mewn meysydd penodol yn unig ond yn meddu ar hawl i ofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau yn y meysydd penodol hynny. Os yw am gael gwybodaeth sy'n ymwneud â meysydd eraill, bydd yn rhaid i'r dirprwy wneud cais i'r Llys Gwarchod.
- 16.13** Rhaid cyflwyno ceisiadau am wybodaeth bersonol yn ysgrifenedig, a gellir codi ffi amdanynt. Dylai deiliaid gwybodaeth ryddhau'r wybodaeth yn brydlon (cyn pen 40 o ddiwrnodau calendr ym mhob achos). Gallai'r ffioedd am gael copïau o gofnodion gofal iechyd fod yn arbennig o uchel – yn enwedig os gallai'r wybodaeth fod mewn fformatiau anarferol (er enghraifft, lluniau pelydr x). Y ffi fwyaf ar hyn o bryd yw £50. Dylid cyfeirio cwynion am fethiant i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler Atodiad A lle y ceir manylion cysylltu).

Pa gyfyngiadau a geir?

- 16.14** Ni ddylai atwrneiod a dirprwyon ond gofyn am wybodaeth a fydd o gymorth iddynt wneud penderfyniad y mae angen iddynt ei wneud

Pennod 16

Pa reolau sy'n llywodraethu'r hawl i weld gwybodaeth am rywun sydd heb allu?

ar ran y person sydd heb allu. Er enghraifft, os oes angen i'r atwrnai wybod pa bryd y dylai'r person gymryd meddyginiaeth, ni ddylai ofyn am gael gweld y cofnod gofal iechyd cyfan. Rhaid i'r un sy'n rhyddhau'r wybodaeth sicrhau bod awdurdod swyddogol gan yr atwrnai neu'r dirprwy (caiff ofyn am brawf adnabod a phrawf ei fod wedi'i benodi). Wrth ofyn am gael gweld gwybodaeth bersonol, dylai atwrneiod a dirprwyon gofio bod rhaid i'w penderfyniad fod er y budd gorau i'r person sydd heb allu i wneud y penderfyniad hwnnw bob amser.

- 16.15** Efallai na fydd yr atwrnai neu'r dirprwy'n gwybod pa fath o wybodaeth y mae rhywun yn ei dal am y person y mae'n ei gynrychioli. Felly gallai fod yn anodd iddo wneud cais penodol mewn rhai achosion. Efallai y bydd angen iddo weld y cwbl o'r wybodaeth, hyd yn oed, er mwyn gwneud penderfyniad. Ond unwaith eto, mae egwyddor 'y budd gorau' yn gymwys.

Senario: Gadael i atwrneiod weld gwybodaeth bersonol

Mae clefyd Alzheimer ar Mr Yapp ac mae wedi datblygu'n bell. Mae ei fab yn gyfrifol am les personol Mr Yapp dan Atwrneiaeth Arhosol. Bu Mr Yapp mewn gofal preswyl ers nifer o flynyddoedd. Ond mae ei fab o'r farn nad yw'r cartref yn gallu diwallu anghenion presennol ei dad gan fod ei gyflwr wedi dirywio'n ddiweddar.

Mae'r mab yn gofyn am gael gweld cofnodion ei dad. Mae'n dymuno cael gwybodaeth benodol am ofal ei dad, fel y gall wneud penderfyniad ynghylch yr hyn sydd er y budd gorau i'w dad. Ond mae rheolwr y cartref gofal yn gwrthod, gan ddweud bod Deddf Diogelu Data yn ei rwystro rhag rhyddhau gwybodaeth bersonol.

Mae mab Mr Yapp yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn cael gweld cofnodion ei dad, am mai ef yw ei atwrnai lles personol a bod arno angen yr wybodaeth i wneud penderfyniad. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn mynnu bod rheolwr y cartref gofal yn ei adael i weld data personol am Mr Yapp sy'n cael eu dal ganddo.

- 16.16** Efallai y bydd y dirprwy neu'r atwrnai'n cael bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i ddal yn ôl (er enghraifft, os yw'n cynnwys cyfeiriadau at bobl heblaw'r person sydd heb allu). Mae'n bosibl mai'r amcan yw diogelu preifatrwydd person arall, os oes sôn am y person hwnnw yn y cofnodion. Mae'n annhebygol y byddai gwybodaeth sy'n ymwneud â rhywun arall o gymorth i atwrnai wrth iddo wneud penderfyniad ar ran y person sydd heb allu. Gallai deiliad yr wybodaeth fod dan rwymedigaeth hefyd i gadw gwybodaeth am y person arall yn

gyfrinachol. Efallai y bydd rheswm arall dros ddymuniad y person am beidio â rhyddhau gwybodaeth amdano. Dan amgylchiadau o'r fath, nid oes hawl gan yr atwrnai i weld yr wybodaeth honno.

16.17 Ni ddylai deiliad gwybodaeth ryddhau gwybodaeth os byddai hynny'n achosi niwed corfforol neu feddyliol sylweddol i rywun – gan gynnwys y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef. Mae hyn yn gymwys i wybodaeth mewn cofnodion iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

16.18 Gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth roi mwy o fanylion am:

- sut i wneud cais am wybodaeth bersonol
- cyfyngiadau ar yr hawl i weld gwybodaeth, a
- sut i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhyddhau gwybodaeth.

Pryd y gall rywun weld gwybodaeth am ofal iechyd neu ofal cymdeithasol?

16.19 Nid yw staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ond yn cael datgelu gwybodaeth am rywun sydd heb allu os yw hynny er y budd gorau i'r person dan sylw, neu os oes rheswm cyfreithlon arall dros wneud hynny.

16.20 Bydd gofyniad y Ddeddf i ymgynghori â phobl berthnasol wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun sydd heb allu yn fodd i gymell pobl i rannu'r wybodaeth sy'n peri i'r ymgynghori fod yn ystyrlon. Ond dylai'r rhai sy'n rhyddhau gwybodaeth sicrhau eu bod yn gweithredu'n gyfreithlon ac y gallant gyfiawnhau rhyddhau'r wybodaeth. Rhaid iddynt gydbwyso hawl y person i breifatrwydd yn erbyn yr hyn sydd er y budd gorau iddo ef neu er budd y cyhoedd yn gyffredinol (gweler paragraffau 16.24–16.25 isod).

16.21 Weithiau bydd yn eithaf amlwg y dylai staff ddatgelu gwybodaeth. Er enghraifft, byddai angen i feddyg ddweud wrth weithiwr gofal newydd am y cyffuriau y mae ar rywun eu hangen neu'r alergeddau sydd gan y person hwnnw. Mae'n amlwg bod hynny er y budd gorau i'r person dan sylw.

16.22 Efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth arall fel rhan o'r broses o ganfod yr hyn sydd er y budd gorau i rywun. Gallai gweithiwr cymdeithasol benderfynu datgelu gwybodaeth am orffennol rhywun wrth drafod yr hyn sydd er y budd gorau iddo gydag aelod o'r teulu agos. Ond dylai staff gofio bob amser fod y Ddeddf yn mynnu eu bod yn ystyried dymuniadau a theimladau'r person sydd heb allu.

16.23 Yn y ddau achos hyn, ni ddylai staff ond datgelu hynny o wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd i'w wneud.

Pennod 16

Pa reolau sy'n llywodraethu'r hawl i weld gwybodaeth am rywun sydd heb allu?

Senario: Rhannu gwybodaeth briodol

Mae Mr Jeremy yn un sydd ag anableddau dysgu. Mae'r cartref gofal lle mae'n byw ar fin cau. Mae ei dîm gofal yn gwneud asesiad manwl o'i anghenion. Maent yn ei gynnwys yn y broses i'r graddau mwyaf posibl, ac yn cael cymorth gan Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol. Ar ôl yr asesiad, caiff ei leoli gyda gofawyr dan gynllun lleoliadau oedolion.

Mae'r gofawyr yn gofyn am gael gweld ffeil achos Mr Jeremy, fel y gallant ddarparu gofal priodol a fydd er y budd gorau iddo. Mae'r rheolwr gofal yn ceisio caniatâd gan Mr Jeremy i'w nodiadau gael eu datgelu, ond mae o'r farn nad yw Mr Jeremy yn meddu ar allu i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae'n gweld ei bod yn briodol rhoi digon o wybodaeth i'r gofawyr i'w galluogi i weithredu er y budd gorau i Mr Jeremy. Ond nid yw'n briodol iddynt weld yr holl wybodaeth ar y ffeil achos. Mae llawer ohoni nad yw'n berthnasol i'w anghenion gofal presennol. Felly nid yw'r rheolwr gofal ond yn trosglwyddo gwybodaeth berthnasol o'r ffeil.

- 16.24** Weithiau bydd hawl rhywun i gyfrinachedd yn mynd yn groes i ystyriaethau cyhoeddus mwy cyffredinol. Gellir rhyddhau gwybodaeth os yw hynny er budd i'r cyhoedd, hyd yn oed os nad yw er y budd gorau i'r person sydd heb allu. Gall fod yn anodd penderfynu mewn achosion o'r fath, a dylai deiliaid gwybodaeth ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau. Mae Cod y GIG ar Gyfrinachedd yn cynnig enghreifftiau o amgylchiadau lle mae datgelu er budd i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle byddai datgelu gwybodaeth yn gallu rhwystro troseddau difrifol, neu hyrwyddo'r ymchwiliadau iddynt, neu atal niwed sylweddol, fel lledaeniad clefyd heintus. Rhaid penderfynu wedyn a fyddai'r lles cyhoeddus a geid drwy ddatgelu'r wybodaeth yn fwy na'r rhwymedigaeth cyfrinachedd tuag at yr unigolyn dan sylw yn ogystal â'r budd cyhoeddus mwy cyffredinol wrth ddarparu gwasanaeth cyfrinachol.
- 16.25** Os yw'r datgelu i fod er budd i'r cyhoedd, rhaid iddo fod yn gymesur ac yn gyfyngedig i'r manylion perthnasol. Os yw staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn wynebu penderfyniad o'r fath, dylent geisio cyngor gan eu cynghorwyr cyfreithiol. Nid pethau sydd 'er lles y cyhoedd' yw'r unig bethau sydd er budd i'r cyhoedd – mae datgelu er budd y person sydd heb allu'n gallu bod er budd y cyhoedd hefyd (er enghraifft, i atal niwed corfforol neu feddyliol i rywun sydd heb allu).

Pa wybodaeth ariannol y gall gofalwyr ofyn am ei gweld?

16.26 Yn aml mae'n fwy anodd cael gwybodaeth ariannol na gwybodaeth am les rhywun. Mae rheolwr banc, er enghraifft, yn llai tebygol o:

- adnabod yr unigolyn dan sylw
- gallu gwneud asesiad o allu'r person i roi caniatâd i ddatgelu gwybodaeth, a
- bod yn ymwybodol o'r berthynas rhwng y gofalwr a'r person.

Felly, o'i gymharu â meddyg neu weithiwr cymdeithasol, mae'n llai tebygol o allu barnu beth sydd er y budd gorau i rywun ac mae wedi'i rwymo gan ddyletswyddau i gadw materion cleientiaid yn gyfrinachol. Os oes ar rywun angen gwybodaeth ariannol, mae'n debygol y bydd yn rhaid iddo wneud cais i'r Llys Gwarchod am gael gweld yr wybodaeth honno. Mae'n amlwg nad yw hynny'n gymwys i atwrnai neu ddirprwy sydd wedi'i benodi i reoli eiddo a materion personol rhywun, gan y bydd awdurdod ganddo fel arfer (am ei fod wedi'i benodi) i gael yr holl wybodaeth berthnasol am eiddo a materion personol yr unigolyn.

A yw gwybodaeth yn dal i fod yn gyfrinachol wedi i rywun ei rhannu?

16.27 Pryd bynnag y bydd gofalwr yn cael gwybodaeth, dylai drin yr wybodaeth yn gyfrinachol, ac ni ddylai ei rhannu ag unrhyw un arall (oni bai fod rheswm cyfreithlon dros wneud hynny). Dan rai amgylchiadau, gallai'r deiliad gwybodaeth ofyn i'r gofalwr roi cadarnhad ffurfiol y gwnaiff gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

16.28 Os yw'r wybodaeth ar ffurf ysgrifenedig, dylai gofalwyr ei storio'n ofalus a pheidio â'i chadw am fwy nag sydd raid. Mewn llawer achos, bydd yr angen i gadw'r wybodaeth yn un dros dro. Felly dylai fod modd i'r gofalwr roi sicrwydd i'r deiliaid gwybodaeth na wnaiff gadw cofnod parhaol o'r wybodaeth.

Beth yw'r modd gorau i ddatrys anghytundeb ynghylch gwybodaeth bersonol?

16.29 Dylai'r gofalwr ddechrau bob tro drwy geisio cael caniatâd gan y person y mae'n ceisio cael gweld ei wybodaeth. Os nad yw'r person yn meddu ar allu i gydsynio, dylai'r gofalwr ofyn i ddeiliad yr wybodaeth am yr wybodaeth berthnasol ac egluro pam y mae arno ei hangen. Efallai y bydd angen iddo atgoffa deiliad yr wybodaeth bod rhaid iddo wneud penderfyniad sydd er y budd gorau i'r person ac na all wneud hynny heb gael yr wybodaeth berthnasol.

- 16.30** Gall hyn fod yn faes sensitif ac mae anghydfodau'n sicr o godi. Mae'r penderfyniad i staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn un anodd. Gallent deimlo'n gryf nad rhywbeth a fyddai er y budd gorau i'r person sydd heb allu fyddai datgelu'r wybodaeth ac y byddai hynny'n gyfystyr â thresmasu ar ei breifatrwydd. Gallai hyn beri gofid i'r gofalwr a fydd â chymhellion da, yn ôl pob tebyg, dros ddymuno cael yr wybodaeth. Ym mhob achos, dylid asesu buddiannau ac anghenion y person sydd heb allu er mwyn penderfynu a ddylai staff ddatgelu gwybodaeth.
- 16.31** Os methir â setlo'r mater drwy drafodaeth, ac os yw'r gofalwr yn dal i fod yn anfodlon, mae dulliau eraill o ddatrys yr anghytundeb (gweler pennod 15). Efallai y bydd angen i'r gofalwr ddefnyddio'r weithdrefn gwyno briodol. Gan y bydd y gŵyn yn ymwneud ag agweddau ar ddiogelu data a chyfrinachedd, yn ogystal ag ystyriaeth i'r budd gorau, dylai arbenigwyr perthnasol roi cymorth i ddelio â'r gŵyn.
- 16.32** Mewn achosion lle nad yw gofalwyr a staff yn gallu datrys eu hanghytundeb, gall y gofalwr wneud cais i'r Llys Gwarchod am yr hawl i weld yr wybodaeth benodol. Byddai angen i'r llys benderfynu wedyn a oedd hynny er y budd gorau i'r person sydd heb allu i roi caniatâd. Mewn achosion brys, mae'n bosibl y byddai angen i'r gofalwr wneud cais uniongyrchol i'r llys heb fynd drwy'r camau cynharach.

Pennod 16

Pa reolau sy'n llywodraethu'r hawl i weld gwybodaeth am rywun sydd heb allu?

Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod

Nid mynegai llawn na rhestr termau yw'r tabl isod. Yn hytrach, mae'n rhestr o'r termau allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod neu'r Ddeddf, a'r prif gyfeiriadau atynt. Mae'r cyfeiriadau mewn teip du yn nodi cynnwys sy'n arbennig o fuddiol ar gyfer y term hwnnw.

Gweithredoedd mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth	Tasgau a gyflawnir gan ofalwyr, staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â gofal personol, gofal iechyd neu driniaeth feddygol rhai sydd heb allu i gydsynio i'w derbyn – fe'u gelwir yn y Ddeddf yn weithredoedd adran 5 ('section 5 acts').	Pennod 6 2.13–2.14, 4.39 Y budd gorau a _ 5.10, 5.39 Amddifadu rhywun o'i ryddid a _ 6.39. 6.49–6.52
Penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth	Penderfyniad i wrthod triniaeth sydd wedi'i rhagnodi a wneir ymlaen llaw gan rywun sydd â gallu i wneud hynny. Bydd y penderfyniad hwn yn gymwys wedyn ar adeg yn y dyfodol pan fydd y person hwnnw heb allu i gydsynio i dderbyn, neu i wrthod, y driniaeth sydd wedi'i rhagnodi. Nodir hyn yn Adran 24(1) o'r Ddeddf. Mae rheolau penodol yn gymwys i benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd.	Pennod 9 (ar ei hyd) Y budd gorau a _ 5.5, 5.35, 5.45 Amddiffyniad rhag atebolrwydd a _ 6.37–6.38 Atwrneiaethau Arhosol a _ 7.55 Dirprwyon a _ 8.28 Ymchwil a _ 11.30 Pobl ifanc a _ 12.9 Deddf Iechyd Meddwl 13.35–13.37
Gweithdrefnau amddiffyn oedolion	Gweithdrefnau sydd wedi'u dyfeisio gan awdurdodau lleol, ar y cyd ag asiantaethau perthnasol eraill, i ymchwilio i honiadau o gam-drin oedolion sy'n agored i niwed, a delio â hwy, ac i roi mesurau diogelu ar waith i roi amddiffyniad rhag camdriniaeth.	Pennod 14 14.6, 14.22, 14.27–28, 14.34 EAGMau a _ 10.66–10.67
Ôl-ofal dan oruchwyliaeth	Trefniadau ar gyfer goruchwyllo yn y gymuned ar ôl rhyddhau rhywun o'r ysbyty mewn cysylltiad â chleifion penodol a oedd wedi'u cadw cyn hynny dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.	Pennod 13 13.22–13.25 , 13.34, 13.37, 13.40, 13.42, 13.45, 13.48, 13.52
Asiant	Rhywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran rhywun arall dan gyfraith asiantaeth. Mae atwrneiod sydd wedi'u penodi dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus yn asiantau ac ystyrir bod dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y llys yn asiantau a rhaid iddynt ymgymryd â dyletswyddau penodol fel asiantau.	Atwrneiaethau Arhosol a _ 7.58–7.68 Dirprwyon a _ 8.55–8.68

Swyddog penodedig	Rhywun sydd wedi'i benodi dan Reoliadau Nawdd Cymdeithasol i hawlio a chasglu budd-daliadau nawdd cymdeithasol neu bensynau ar ran rhywun sydd heb allu i reoli ei fudd-daliadau ei hun. Caniateir i swyddog penodedig ddefnyddio'r arian a hawliwyd i fodloni anghenion y person.	Rôl _ 6:65–6.66 Dirprwyon a _ 8.56 Pryderon ynghylch _ 14:35–14.36
Corff priodol	Pwyllgor a sefydlir i roi cyngor ar foeseg ymchwil ymyrrol, neu ar faterion sy'n cynnwys hynny, mewn cysylltiad â phobl sydd heb allu i gydsynio i gymryd rhan ynddi, ac a gydnabyddir i'r dibenion hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn Lloegr) neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yng Nghymru).	Pennod 11 11.8–11.11, 11.20, 11.33–11.34, 11.43–11.47.
Gweithiwr Cymdeithasol Cymeradwyedig	Gweithiwr cymdeithasol sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig sydd â chyfrifoldeb dros asesu anghenion rhywun am ofal a thriniaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn benodol, bydd Gweithiwr Cymdeithasol Cymeradwyedig yn asesu'r person i benderfynu a ddylid ei dderbyn i ysbyty i gael asesiad a/neu driniaeth.	Pennod 13 13.16, 13.22–13.23, 13.43, 13.52
Maethu a Hydradu Artiffisial	Mae maethu a hydradu artiffisial wedi'i gydnabod yn fath o driniaeth feddygol. Mae'n golygu defnyddio tiwbiau i ddarparu maeth a hylifau i rywun nad yw'n gallu eu cymryd drwy'r geg. Mae'n osgoi'r mecanweithiau naturiol sy'n rheoli syched ac eisiau bwyd ac mae'n galw am fonitro clinigol.	9.26 5.34 6.18 8.18
Atwrnai	Rhywun sydd wedi'i benodi un ai dan Atwrneiaeth Arhosol neu dan Atwrneiaeth Barhaus, sydd â'r hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau o fewn cwrpas ei awdurdod ar ran y person (y rhoddwr) a wnaeth yr Atwrneiaeth.	Pennod 7 Egwyddor y budd gorau ac _ 5.2, 5.13, 5.49, 5.55 Amddiffyniad rhag atebolrwydd fel _ 6.54–6.55 Y Llys Gwarchod ac _ 8.30 Penderfyniadau ymlaen llaw ac _ 9.33 Deddf Iechyd Meddwl ac _ 13.38–13.45 Y Gwarcheidwad Cyhoeddus ac _ 14.7–14.14 Help cyfreithiol ac _ 15.39–15.42 Gweld gwybodaeth personol fel _ 16.9–16.16

Geiriau Allweddol

Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod

Budd gorau	Pan wneir unrhyw benderfyniad a phan wneir unrhyw beth ar ran rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol, rhaid ei wneud er y budd gorau i'r person hwnnw. Mae camau gofynnol safonol i'w dilyn wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun. Nodir y rhain yn adran 4 o'r Ddeddf, ac yn y rhestr wirio anghyflawn yn 5.13.	Pennod 2 (Egwyddor 4) Pennod 5 Amddiffyniad rhag atebolrwydd a'r _ 6.4–6.18 Cred resymol a'r _ 6.32–6.36 Amddifadu rhywun o'i ryddid a'r _ 6.51–6.53 Gweithredu fel atwrnai a'r _ 7.19–7.20, 7.29, 7.53 Y Llys Gwarchod a'r _ 8.14–8.26 Gweithredu fel dirprwy a'r _ 8.50–8.52 Penderfyniadau ymlaen llaw a'r _ 9.4–9.5
Darpariaethau Bournewood	Enw a roddir ar weithdrefnau a mesurau diogelu sydd wedi'u hargymell ar gyfer pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol ond y mae'n rhaid eu hamddifadu o'u rhyddid, er y budd gorau iddynt, heblaw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r enw yn cyfeirio at achos a benderfynwyd yn y pen draw gan Lys Hawliau Dynol Ewrop.	6.53–6.54 13.53–13.54
Gallu	Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Mae'r diffiniad cyfreithiol o rywun sydd heb allu wedi'i nodi yn adran 2 o'r Ddeddf.	Pennod 4
Gofalwr	Rhywun sy'n darparu gofal heb gael tâl drwy edrych ar ôl ffrind neu gymydog sydd ag angen cefnogaeth oherwydd salwch, henaint neu anabledd. Yn y ddogfen hon, mae rôl y gofalwr yn wahanol i rôl y gweithiwr gofal proffesiynol.	Gweithredu fel gwneuthurwr penderfyniad 5.8–5.10 Amddiffyniad rhag atebolrwydd 6.20–6.24 Asesu gallu fel _ 4.44–4.45 Gweithredu gyda chred resymol 6.29–6.34 Talu am nwyddau a gwasanaethau 6.56–6.66 Gweld gwybodaeth 16.26–16.32

Gweithiwr gofal	Rhywun sydd wedi'i gyflogi i ddarparu gofal personol ar gyfer pobl sydd ag angen cymorth oherwydd salwch, henaint neu anabledd. Gallai fod wedi'i gyflogi gan y person ei hun, gan rywun sy'n gweithredu ar ran y person neu gan asiantaeth gofal.	Aseu gallu fel _4.38, 4.44–4.45 Amddiffyniad rhag atebolrwydd 6.20 Talu am nwyddau a gwasanaethau 6.56–6.66 Gweithredu fel atwrnai 7.10 Gweithredu fel dirprwy 8.41
Deddf Plant 1989	Deddf sy'n ymwneud â phlant a rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni dros blant.	Pennod 12
Panel Adolygu Cwynion	Panel o bobl a sefydlir i adolygu ac ailystyried cwynion am wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol sydd heb eu datrys drwy gam cyntaf y weithdrefn gwyno berthnasol.	15.28
Ymgynghorai	Rhywun yr ymgynghorir ag ef, er enghraifft ynghylch cynnwys rhywun mewn prosiect ymchwil os yw hwnnw heb allu i gydsynio i gymryd rhan yn yr ymchwil.	11.23, 11.28–29, 11.44
Y Llys Gwarchod	Y Llys arbenigol ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â phobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol. Mae'r Llys Gwarchod wedi'i sefydlu dan adran 45 o'r Ddeddf.	Pennod 8 _ a fydd bob amser yn gwneud penderfyniadau am y materion hyn 6.18 Penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd 5.33–5.36 Atwrneiaethau Arhosol a _ 7.45–7.49 Penderfyniadau ymlaen llaw a _ 9.35, 9.54, 9.67–9.69 Penderfyniadau ynghylch plant a phobl ifanc 12.3–12.4, 12.7, 12.10, 12.23–12.25 Yr hawl i gael help cyfreithiol 15.40–15.44
Ymwelydd y Llys Gwarchod	Rhywun sydd wedi'i benodi i adrodd i'r Llys Gwarchod am y modd y mae atwrneiod neu ddirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae Ymwelwyr y Llys Gwarchod wedi'u sefydlu dan adran 61 o'r Ddeddf. Gallant gael eu cyfarwyddo hefyd gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymweld â rhoddwyr, atwrneiod a dirprwyon dan adran 58 (1) (d).	14.10–14.11 Atwrneiod ac _ 7.71 Dirprwyon ac _ 8.71

Geiriau Allweddol

Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod

Swyddfa Cofnodion Troseddol	Un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref sy'n darparu mynediad at wybodaeth am gofnodion troseddol. Gall cyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ofyn am i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wirio ymgeiswyr am swyddi i weld a oes unrhyw gofnodion troseddol amdanynt a fyddai'n peri eu bod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig hynny sy'n ymwneud â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Yn achos rhai swyddi, mae gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn orfodol .	Gwirio staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol 14.29–14.30 Gwirio EAGMau 10.18
Deddf Diogelu Data 1998	Deddf sy'n rheoli'r dull o drafod a chael mynediad at wybodaeth bersonol, fel cofnodion meddygol, ffeiliau sydd wedi'u dal gan gyrff cyhoeddus a gwybodaeth ariannol sy'n cael ei dal gan asiantaethau cyfeirio credyd.	Pennod 16
Gwneuthurwr penderfyniad	Dan y Ddeddf, gallai fod yn ofynnol i lawer o wahanol fathau o bobl wneud penderfyniadau neu weithredu ar ran rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun. Yr enw a roddir ar y person sy'n gwneud y penderfyniadau yn y Cod drwyddo draw yw'r 'gwneuthurwr penderfyniad', a chyfrifoldeb y gwneuthurwr penderfyniad yw ceisio canfod beth fyddai er y budd gorau i'r person sydd heb allu.	Pennod 5 Gweithio gydag EAGMau 10.4, 10.21–10.29 Cymhwyso DIM 13.3, 13.10, 13.27
Datganiad	Math o orchymyn a wneir gan y Llys Gwarchod. Er enghraifft, gallai datganiad nodi a yw rhywun yn meddu ar allu neu beidio i wneud penderfyniad penodol, neu ddatgan a fyddai gweithred benodol yn gyfreithlon ai peidio. Mae pŵer y Llys i wneud datganiadau wedi'i nodi yn adran 15 o'r Ddeddf.	8.13–8.19 Penderfyniadau ymlaen llaw a _ 9.35
Amddifadu o ryddid	Mae amddifadu o ryddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol am amgylchiadau lle mae rhyddid rhywun yn cael ei ddwyn. Mae ei ystyr ymarferol yn cael ei ddiffinio drwy gyfraith achosion.	6.49–6.54 Amddiffyniad rhag atebolrwydd 6.13–6.14 Atwrneiod ac _ 7.44 Deddf Iechyd Meddwl ac _ 13.12, 13.16

Dirprwy	Rhywun sydd wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod sydd ag awdurdod cyfreithiol parhaus fel y mae wedi'i ragnodi gan y Llys i wneud penderfyniadau ar ran person sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol fel y maent wedi'u nodi yn Adran 16(2) o'r Ddeddf.	Pennod 8 Egwyddor y budd gorau a _ 5.2, 5.13, 5.49, 5.55 Amddiffyniad rhag atebolrwydd fel _ 6.54–6.55 Atwrneiod yn dod yn _ 7.56 Penderfyniadau ymlaen llaw a _ 9.33 EAGMau a _ 10.70–72 Gweithredu ar ran plant a phobl ifanc 12.4, 12.7 Y Gwarcheidwad Cyhoeddus a _ 14.15–14.18 Cwynion am 14.19–14.25 Gweld gwybodaeth bersonol fel _ 16.9–16.16
Rhoddwyr	Rhywun sy'n gwneud Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus.	Pennod 7
Atwrneiaeth Barhaus	Atwrneiaeth sydd wedi'i chreu dan Ddeddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 yn penodi atwrnai i ddelio ag eiddo a materion ariannol y rhoddwyr. Bydd Atwrneiaethau Parhaus sy'n bod eisoes yn dal i weithredu dan Atodlen 4 i'r Ddeddf, sy'n cymryd lle Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985.	Pennod 7 Gweler hefyd Atwrneiaeth Arhosol
Gofalwr teuluol	Aelod o'r teulu sy'n edrych ar ôl perthynas sydd ag angen cefnogaeth oherwydd salwch, henaint neu anabledd. Nid yw'n golygu gweithiwr gofal proffesiynol sydd wedi'i gyflogi gan rywun anabl neu gynorthwy-ydd gofal mewn cartref nyrsio.	Gweler gofalwr
Adran Deulu'r Uchel Lys	Adran o'r Uchel Lys sydd ag awdurdodaeth i ddelio â'r holl faterion sy'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil, anghydfodau teuluol, materion sy'n ymwneud â phlant a rhai anghydfodau ynghylch triniaeth feddygol.	12.14, 12.23
Dyletswydd ymddiriedol	Bydd y ddyletswydd hon ar unrhyw un sy'n gweithredu dan gyfraith asiantaeth. Yn y bôn, mae'n golygu nad yw unrhyw benderfyniad a wneir neu weithred a gyflawnir ganddo fel asiant (er enghraifft, atwrnai neu ddirprwy) i ddod â budd iddo ef, ond bod rhaid iddo ddod â budd i'r person y mae'n gweithredu ar ei ran.	_ ar atwrneiod 7.58 _ ar ddirprwyon 8.58

Geiriau Allweddol

Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod

Gwarcheidiaeth	Trefniadau a wnaed dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer penodi gwarcheidwad i rywun sydd ag anhwylder meddyliol i helpu i sicrhau y bydd y person yn cael y gofal y mae arno ei angen yn y gymuned.	13.16–13.21 13.1, 13.25–13.27, 13.54
Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd	Person annibynnol y mae ei gorff yn ymchwilio i gwynion am ofal neu driniaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Lloegr sydd heb eu datrys drwy weithdrefn gwyno'r GIG.	15.19, 15.21, 15.31
Deddf Hawliau Dynol 1998	Deddf sy'n ymgorffori i raddau helaeth yng nghyfraith y DU yr hawliau parhaol sydd wedi'u nodi yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.	6.49 16.3
Deddf Meinweoedd Dynol 2004	Deddf i reoleiddio materion sy'n ymwneud â rhoddi'r corff cyfan a chymryd, storio a defnyddio organau a meinweoedd dynol.	11.7 11.38–11.39
Camdriniaeth	Mae Adran 44 o'r Ddeddf yn cyflwyno trosedd newydd, sef cam-drin person sydd heb allu gan rywun sy'n gofalu amdano, neu'n gweithredu fel dirprwy neu atwrnai drosto. Gellir cael y person hwnnw'n euog o gam-drin os yw wedi cam-drin rhywun sydd heb allu o fwriad, neu os yw wedi bod yn fyrbwyll o ran a oedd yn cam-drin y person ai peidio. Nid yw'n bwysig a oedd yr ymddygiad yn debygol o achosi, neu wedi achosi, drwg neu niwed i iechyd y dioddefwr.	14.23–14.26
Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol (ICAS)	Yn Lloegr, gwasanaeth i gefnogi cleifion a'u gofalywyr sydd am ddilyn cŵyn ynghylch eu gofal neu driniaeth gan y GIG.	15.18
Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGM)	Rhywun sy'n darparu cefnogaeth a chynrychiolaeth ar gyfer rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes gan y person unrhyw un arall i'w gefnogi. Mae'r gwasanaeth EAGMau wedi'i sefydlu dan adran 35 o'r Ddeddf ac mae swyddogaethau EAGMau wedi'u nodi yn adran 36. Nid yw yr un fath â gwasanaeth eiriolaeth cyffredin.	Pennod 10 Ymgynghori er mwyn canfod beth sydd er y budd gorau 5.51 Ymwneud â newid preswylfan 6.9 Ymwneud â phenderfyniadau meddygol pwysig 6.16 DIM a _ 13.46–13.48
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Awdurdod annibynnol sydd wedi'i sefydlu i hyrwyddo mynediad at wybodaeth swyddogol a diogelu gwybodaeth bersonol. Mae ganddi bwerau i sicrhau cydymffurfio â deddfau sy'n ymwneud â gwybodaeth, fel Deddf Diogelu Data 1998.	16.13 16.18

Atwrneiaeth Arhosol	Atwrneiaeth sydd wedi'i chreu dan y Ddeddf (gweler Adran 9(1)) yn penodi atwrnai (neu atwrneiod) i wneud penderfyniadau am les personol y rhoddwr (gan gynnwys gofal iechyd) a/neu i ddelio ag eiddo a materion personol y rhoddwr.	Pennod 7 Egwyddor y budd gorau ac _ 5.2, 5.13, 5.49, 5.55 Amddiffyniad rhag atebolrwydd fel _ 6.54–6.55 Y Llys Gwarchod ac _ 8.30 Penderfyniadau ymlaen llaw ac _ 9.33 Deddf Iechyd Meddwl ac _ 13.38–13.45 Y Gwarcheidwad Cyhoeddus ac _ 14.7–14.14 Help cyfreithiol ac _ 15.39–15.42 Gweld gwybodaeth personol fel _ 16.9–16.16
Triniaeth cynnal bywyd	Triniaeth sy'n angenrheidiol, ym marn y person sy'n darparu gofal iechyd, i gadw rhywun yn fyw. Gweler Adran 4(10) o'r Ddeddf.	Darparu neu atal _ er y budd gorau i rywun 5.29–5.36 Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod _ 9.10–9.11, 9.19–9.20, 9.24–9.28 Amddiffyniad rhag atebolrwydd wrth _ 9.10–9.11, 9.19–9.20, 9.24–9.28 ddarparu _ 6.16, 6.55 Atwrneiod a _ 7.22, 7.27, 7.29–7.30 Dirprwyon a _ 8.17, 8.46 Gwrthwynebiad cydwybodol i atal _ 9.61–9.63 EAGMau a_ 10.44
Cyfaill cyfreitha	Person sydd wedi'i benodi gan y llys i gynnal achos cyfreithiol ar ran ac yn enw rhywun sydd heb allu i gyfreitha neu gyfarwyddo cyfreithiwr ei hun.	4.54 10.38 15.39
Ombwdsmon Llywodraeth Leol	Yn Lloegr, corff annibynnol sy'n ymchwilio i gwynion am gynghorau ac awdurdodau lleol ynghylch y rhan fwyaf o'r materion sy'n ymwneud â chynghorau gan gynnwys tai, cynllunio, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.	15.30–15.32
Makaton	Rhaglen iaith sy'n defnyddio arwyddion a symbolau, ar gyfer dysgu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd i bobl sy'n profi anawsterau o ran dysgu a chyfathrebu.	3.11

Geiriau Allweddol

Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod

Cyfryngu	Proses ar gyfer datrys anghytundebau lle bydd trydydd parti (y cyfryngwr) yn helpu pobl sydd mewn anghydfod i ddod o hyd i ateb sy'n dderbyniol gan y naill a'r llall.	15.7–15.13
Gallu meddyliol	Gweler gallu	
Deddf Iechyd Meddwl 1983	Deddf sy'n ymwneud yn bennaf â gofal a thriniaeth orfodol ar gyfer cleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Yn benodol, mae'n ymdrin â chadw rhai yn yr ysbyty i dderbyn triniaeth iechyd meddwl.	Pennod 13 Amddifadu rhywun o'i ryddid heblaw pan fo hynny'n unol â _ 6.50–6.53, 7.44 Atwrneiod a _ 7.27 Penderfyniadau ymlaen llaw a _ 9.37 EAGMau a 10.44, 10.51, 10.56–10.58 Plant a phobl ifanc a _ 12.6, 12.21 Cwynion ynghylch _ 15.19
Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl	Corff barnwrol annibynnol sydd â phwerau i gyfarwyddo bod cleifion sydd wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i'w rhyddhau.	13.31 13.42
Awdurdod Ymglyfreitha'r GIG	Awdurdod Iechyd Arbennig (rhan o'r GIG) sy'n gyfrifol am drafod hawliadau am esgeulustod a wneir yn erbyn cyrff y GIG yn Lloegr.	15.22
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus	Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn swyddog sydd wedi'i sefydlu dan Adran 57 o'r Ddeddf. Bydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael ei gefnogi gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a fydd yn arolygu dirprwyon, yn cadw cofrestr o ddirprwyon, Atwrneiaethau Arhosol ac Atwrneiaethau Parhaus, yn gwirio'r camau a gymerir gan atwrneiod, ac yn ymchwilio i unrhyw gwynion am atwrneiod neu ddirprwyon. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cymryd lle'r Swyddfa Gwarcheidiaeth Gyhoeddus a fu mewn bodolaeth am flynyddoedd lawer.	14.8–14.22 Cofrestru Atwrneiaethau Arhosol gyda _ 7.14–7.17 Arolygu atwrneiod gan _ 7.69–7.74 Cofrestru Atwrneiaethau Parhaus gyda _ 7.78 Canllawiau ar gyfer Atwrneiaethau Parhaus _ 7.79 Canllawiau ar gyfer derbynwyr _ 8.5 Panel dirprwyon _ 8.35 Arolygu dirprwyon gan _ 8.69–8.77
Y Twrnai Swyddogol	Mae'n darparu gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, neu er mwyn sicrhau cyfiawnder. Mae'r Twrnai Swyddogol yn cynrychioli oedolion sydd heb allu i gyfreitha yn achosion y llysoedd sirol neu'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, ac yn y Llys Gwarchod.	Helpu gydag asesiad gallu ffurfiol 4.54 Gweithredu o ran ceisiadau i'r Llys Gwarchod 8.10 Gweithredu fel cyfaill cyfreitha 10.38, 15.39

Y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion (PALS)	Yn Lloegr, gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i helpu cleifion y GIG, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae PALS yn gweithredu ar ran defnyddwyr gwasanaethau wrth drafod pryderon cleifion a theuluoedd a gall gydgysylltu â staff, rheolwyr ac, os yw'n briodol, cyrff perthnasol eraill i ddod o hyd i atebion.	15.15–15.17
Cyflwr disymud parhaol	Cyflwr sydd wedi'i achosi gan niwed catastroffig i'r ymennydd fel bod cleifion sydd â chyflwr disymud parhaol yn profi diffyg ymwybyddiaeth parhaol a diwrthdro o'u hamgylchoedd ac anallu i ryngweithio ar unrhyw lefel â'r rhai o'u cwmpas.	6.18 8.18
Lles personol	Penderfyniadau am les personol yw unrhyw benderfyniadau am ofal iechyd y person, lle mae'n byw, pa ddillad y mae'n eu gwisgo, beth fydd yn ei fwyta ac unrhyw beth y mae ei angen at ei ofal a'i les cyffredinol. Gellir penodi atwrneiod a dirprwyon i wneud penderfyniadau am les personol ar ran rhywun sydd heb allu. Mae llawer o weithredoedd gofal yn ymwneud â lles personol.	_ Atwrneiaethau Arhosol 7.21–7.31 _ Dirprwyon 8.38–8.39 Penderfyniadau ymlaen llaw am _ 9.4, 9.35 Rôl yr Uchel Lys mewn penderfyniadau am _ 15.44
Eiddo a materion personol	Unrhyw eiddo y mae'r person yn berchen arno (fel tŷ neu fflat, gemwaith neu bethau eraill), yr arian sydd ganddo ar ffurf incwm, cynilion neu fuddsoddiadau ac unrhyw wariant. Gellir penodi atwrneiod a dirprwyon i wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol ar ran rhywun sydd heb allu.	_ Atwrneiaethau Arhosol 7.32–7.42 _ Dirprwyon 8.34–8.37 Cyfyngiadau ar Atwrneiaethau Arhosol 7.56 Dyletswyddau atwrnai _ 7.58, 7.67–7.68 _ Atwrneiaethau Parhaus 7.76–7.77 Panel dirprwyon Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus 8.35 Dyletswyddau dirprwy _ 8.56, 8.67–8.68 _ plant a phobl ifanc 12.3–12.4, 12.7
Amddiffyniad rhag atebolrwydd	Amddiffyniad cyfreithiol a roddir i unrhyw un sydd wedi gweithredu neu wneud penderfyniadau'n unol ag egwyddorion y Ddeddf.	Pennod 6
Rhestr Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed	Cofrestr o unigolion sydd wedi cam-drin, esgeuluso neu wneud niwed fel arall i oedolion sy'n agored i niwed dan eu gofal neu sydd wedi rhoi oedolion sy'n agored i niwed mewn perygl o gael niwed. Nid yw darparwyr gofal i gynnig cyflogaeth i unigolion o'r fath mewn swyddi gofal.	14.31

Geiriau Allweddol

Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Corff annibynnol sy'n ymchwilio i gwynion am lywodraeth leol a chyrrff y GIG yng Nghymru, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn cysylltiad â materion fel tai, cynllunio, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.	15.20 15.30–15.32
Derbynnydd	Rhywun sydd wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod blaenorol i reoli eiddo a materion personol rhywun sydd heb allu i reoli ei faterion ei hun. Bydd y derbynwyr presennol yn parhau fel dirprwyon sydd ag awdurdod cyfreithiol i ddelio ag eiddo a materion personol y person.	8.5 8.35
Ataliad	Gweler Adran 6(4) o'r Ddeddf. Y defnydd neu'r bygythiad i ddefnyddio grym i helpu i gyflawni gweithred y mae'r person yn ei wrthsefyll, neu i gyfyngu ar ryddid y person i symud, pa un a yw'n gwrthsefyll ai peidio. Ni cheir defnyddio ataliad oni bai ei fod yn angenrheidiol i ddiogelu'r person rhag cael niwed a'i fod yn gymesur â'r perygl o gael niwed.	6.39–6.44, 6.47–53 Defnyddio _ wrth symud rhwng y naill lety a'r llall 6.11 Defnyddio _ mewn penderfyniadau am ofal iechyd a thriniaeth 6.15 Atwrneiod ac _ 7.43-7.44 Dirprwyon ac _ 8.46 Deddf Iechyd Meddwl 13.2
Egwyddorion statudol	Mae'r pum egwyddor allweddol wedi'u nodi yn Adran 1 o'r Ddeddf. Eu pwrpas yw tynnu sylw at gysyniadau sylfaenol a gwerthoedd craidd y Ddeddf a chynnig meincnod i arwain gwneuthurwyr penderfyniad, gweithwyr proffesiynol a gofalwyr sy'n gweithredu dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae'r egwyddorion i'w cymhwyso'n gyffredinol i'r holl weithredoedd a gyflawnir a'r holl benderfyniadau a wneir dan ddarpariaethau'r Ddeddf.	Pennod 2
Prawf gallu dau gam	Defnyddio adrannau 2 a 3 o'r Ddeddf i asesu a yw'r person yn meddu ar allu i wneud penderfyniad drosto'i hun ar yr adeg honno.	4.10–4.13 Amddiffyniad rhag atebolrwydd 6.27 Cymhwyso'r _ i benderfyniadau ymlaen llaw 9.39
Esgeuluso bwriadol	Anwaith neu fethiant pwrpasol neu fwriadol i gyflawni gweithred gofal gan rywun sydd â gofal am berson sydd heb allu (neu un y mae'r person yn credu'n rhesymol ei fod heb allu) i ofalu amdano'i hun. Mae Adran 44 yn cyflwyno trosedd newydd, sef esgeuluso bwriadol mewn cysylltiad â rhywun sydd heb allu.	14.23–14.26

<p>Datganiadau ysgrifenedig o ddymuniadau a theimladau</p>	<p>Datganiadau ysgrifenedig y gallai'r person fod wedi'u gwneud cyn colli gallu am ei ddymuniadau a'i deimladau ynghylch materion fel y math o driniaeth feddygol y byddai am ei chael os byddai'n sâl yn y dyfodol, ym mhle y byddai'n well ganddo fyw, neu'r math o ofal y mae'n dymuno ei gael. Dylid eu defnyddio wrth geisio cael gwybod beth fyddai dymuniadau a theimladau'r person, fel rhan o'r broses o ganfod yr hyn sydd er y budd gorau iddo. Nid ydynt yr un fath â phenderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth ac nid ydynt yn rhwymol.</p>	<p>5.34 5.37 5.42–5.44</p>
---	---	------------------------------------

Geiriau Allweddol

Geiriau ac ymadroddion allweddol sydd wedi'u defnyddio yn y Cod

Mae'r rhestr isod yn rhoi manylion cysylltu ar gyfer rhai cyrff sy'n darparu gwybodaeth, canllawiau neu ddeunyddiau sy'n ymwneud â'r Cod Ymarfer a Deddf Gallu Meddyliol. Nid yw'r rhestr yn un gyflawn: mae'n bosibl y bydd llawer o gyrff eraill yn cynhyrchu deunyddiau perthnasol.

Cymdeithas Bancio Prydain

Mae wedi darparu canllawiau i staff bancio o'r enw '*Banking for mentally incapacitated and learning disabled customers*'.

Mae ar gael yn www.bba.org.uk/bba/jsp/polopoly.jsp?d=146&a=5757, pris £10 (i aelodau) /£12 (i rai heblaw aelodau). Heb gynnwys TAW.

y we: www.bba.org.uk
ffôn: 020 7216 8800

Cymdeithas Feddygol Prydain

Cydwaduron (gyda Chymdeithas y Gyfraith) *Assessment of Mental Capacity: Guidance for Doctors and Lawyers* (Ail argraffiad) (London: BMJ Books, 2004). www.bma.org.uk/ap.nsf/Content/Assessmentmental?OpenDocument&Highlight=2,mental,capacity

Ar gael gan BMJ Books (www.bmjbookshop.com), pris £20.99

y we: www.bma.org.uk
ffôn: 020 7387 4499

Cymdeithas Seicolegol Prydain

Mae wedi cyhoeddi *Guidelines on assessing capacity* – canllawiau proffesiynol sydd ar gael ar lein i aelodau.

y we: www.bps.org.uk
ffôn: (0)116 254 9568

Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol

Mae'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol yn cofrestru, yn arolygu ac yn gwneud adroddiadau am wasanaethau gofal cymdeithasol yn Lloegr.

y we: www.csci.org.uk
ffôn: 0845 015 0120 / 0191 233 3323
ffôn testun: 0845 015 2255 / 0191 233 3588

Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Mae'n darparu gwybodaeth gyfreithiol am ddim i bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr i'w helpu i ddelio â phroblemau cyfreithiol.

y we: www.clsdirect.org.uk
ffôn (llinell gymorth): 0845 345 4 345

Swyddfa Cofnodion Troseddol

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn gwirio cofnodion troseddol ar gyfer rhai sy'n ymgeisio am swyddi lle byddant yn gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

y we: www.crb.org.uk
ffôn:: 0870 90 90 811

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Adran y llywodraeth sydd â chyfrifoldeb dros Ddeddf Gallu Meddyliol a'r Cod Ymarfer. Mae hefyd yn cyhoeddi canllawiau i gynulleidfaoedd penodol www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/guidance.htm

Adran Iechyd

Mae'n cyhoeddi canllawiau ar gyfer staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Rhai o'r cyhoeddiadau allweddol y cyfeirir atynt yn y Cod yw:

- ar ddefnyddio ataliad gyda phobl sydd ag anableddau dysgu ac anhwylder yn y sbectrwm awtistig, gweler *Guidance for restrictive physical interventions* www.dh.gov.uk/assetRoot/04/06/84/61/04068461.pdf
- ar weithdrefnau amddiffyn oedolion gweler *No secrets: Guidance on developing and implementing multi-agency policies and procedures to protect vulnerable adults from abuse* www.dh.gov.uk/assetRoot/04/07/45/44/04074544.pdf
- ar gydsynio i dderbyn archwiliadau a thriniaeth, gan gynnwys penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth www.dh.gov.uk/consent
- ar y mesurau diogelu Bournemouth sydd wedi'u hargymell, Cod Ymarfer enghreifftiol drafft www.dh.gov.uk/assetRoot/04/14/17/64/04141764.pdf
- ar EAGMau a chynlluniau peilot EAGMau www.dh.gov.uk/imca

Mae'r Adran Iechyd yn gyfrifol hefyd am *Mental Health Act 1983 Code of Practice (Y Llyfrfa 1999)* www.dh.gov.uk/assetRoot/04/07/49/61/04074961.pdf

Llinell Gymorth Cyfryngu Teuluol

Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol am gyfryngu teuluol a manylion cysylltu gwasanaethau cyfryngu lleol.

y we: www.familymediationhelpline.co.uk
ffôn: 0845 60 26 627

Comisiwn Gofal Iechyd

Corff gwarchod iechyd yn Lloegr sy'n ymgymryd ag adolygiadau ac ymchwiliadau ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd gan y GIG a chyrrff preifat.

y we: www.healthcarecommission.org.uk
llinell cymorth dros y ffôn: 0845 601 3012
switsfwrdd: 020 7448 9200

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae'n ymgymryd ag adolygiadau ac ymchwiliadau ynghylch gofal sydd wedi'i ariannu gan y GIG a ddarperir un ai gan neu ar ran cyrrff GIG Cymru.

y we: www.hiw.org.uk
ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
ffôn: 029 2092 8850

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Tai

Mae Gwasanaeth yr Ombwdsmon Tai yn ystyried cwynion yn erbyn cyrrff sy'n aelodau, ac yn delio ag anghydfodau eraill ynghylch tai.

y we: www.ihos.org.uk
ebost: info@housing-ombudsman.org.uk
ffôn: 020 7421 3800

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw awdurdod annibynnol y DU a sefydlwyd i hyrwyddo mynediad at wybodaeth swyddogol a diogelu gwybodaeth bersonol.

y we: www.ico.gov.uk
llinell cymorth dros y ffôn: 08456 30 60 60

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'n gofalu am gymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, ac yn darparu gwybodaeth, cynngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.

y we: www.legalservices.gov.uk
Gweler hefyd Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Ombwdsmon Llywodraeth Leol

Mae Ombwdsmon Llywodraeth Leol yn ymchwilio i gwynion am gynghorau a rhai cyrff eraill.

y we: www.lgo.org.uk

ffôn: 0845 602 1983

Llinell Gymorth Genedlaethol Cyfryngu

Mae'n cynnig mynediad at ddull syml a rhad o ddatrys llawer o fathau o anghydfodau.

Mae Llinell Gymorth Genedlaethol Cyfryngu yn cael ei rhedeg ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar y cyd â'r Cyngor Cyfryngu Sifil.

y we: www.nationalmediationhelpline.com

ffôn: 0845 60 30 809

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus newydd wedi'i sefydlu dan y Ddeddf ac fe'i cefnogir gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a fydd yn cymryd lle'r Swyddfa Gwarcheidiaeth Gyhoeddus bresennol. Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Ymysg ei rolau eraill, mae'n darparu ffurflenni ar gyfer Atwrneiaethau Arhosol ac Atwrneiaethau Parhaus.

y we: O Hydref 2007, bydd gwefan newydd yn cael ei chreu yn www.publicguardian.gov.uk

Twrnai Swyddogol

Mae'n darparu gwasanaethau cyfreithiol i bobl sy'n agored i niwed ac mae'n gallu cynrychioli pobl sydd heb allu a gweithredu fel cyfaill cyfreitha.

y we: www.officialsolicitor.gov.uk

ffôn: 020 7911 7127

Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion (PALS)

Mae'n darparu gwybodaeth am y GIG a chymorth i ddatrys pryderon neu broblemau mewn cysylltiad â'r GIG, gan gynnwys cefnogaeth wrth wneud cwynion.

y we: www.pals.nhs.uk

Mae'r wefan yn cynnwys manylion cysylltu ar gyfer swyddfeydd lleol y gwasanaeth.

Grwp Cynghori ar Wybodaeth Cleifion

Mae'n ystyried ceisiadau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu rhoi dyletswydd cyfraith gwlad cyfrinachedd o'r neilltu.

y we: www.advisorybodies.doh.gov.uk/PIAG

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae'n ymchwilio i gwynion am awdurdodau lleol a chyrrff GIG yng Nghymru, ac am Lywodraeth Cynulliad Cymru.

y we: www.ombudsman-wales.org.uk

ffôn: 01656 641 150

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'n cynhyrchu canllawiau allweddol ar gyfer staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- *Mewn dwylo diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru* (Gorffennaf 2000) http://new.wales.gov.uk/about/departments/dhss/publications/social_services_publications/reports/insafehands?lang=en
- *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol* (ar gael yn www.childrenfirst.wales.gov.uk/content/framework/phys-int-e.pdf)

Gellir lawrlwytho copïau o'r cyhoeddiad hwn oddi ar
www.publicguardian.gov.uk

Mae copïau caled o'r cyhoeddiad hwn ar gael gan

Y Llyfrfa I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Gallu Meddyliol,
cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, rhwng
9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ffôn: 0845 330 2900 (graddfa galwad leol)

neu +44 207 664 7000 (galwadau o'r tu allan i'r DU)

Ffôn Testun: 020 7664 7755

Ffacs: 020 7664 7705 (galwadau o'r DU)

Ebost: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk

Gwefan: www.publicguardian.gov.uk

Post: Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
(Office of the Public Guardian)
PO Box 15118
Birmingham
B16 8GX